# CBAC Lefel 3

# Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori

## Cymeradwywyd gan Cymwysterau Cymru

Mae'r cymhwyster hwn yn rhan o'r gyfres newydd o gymwysterau Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant yng Nghymru a ddarperir gan City&Guilds/CBAC.

Nid yw'r cymhwyster hwn a reoleiddir gan Cymwysterau Cymru ar gael i ganolfannau Lloegr.

# Manyleb

Fersiwn 3 - Dyfarniad Cyntaf 2026



# Cipolwg ar y cymhwyster

| | |
|---|---|
| **Maes pwnc** | Iechyd a gofal plant |
| **Rhif CC** | C00/4824/4 |
| **Grŵp oedran cymeradwy** | 16+ |
| **Gofynion cofrestru** | Dim |
| **Asesiad** | Unedau ymarfer - asesiad mewnol drwy dasgau strwythuredig a phortffolio<br>Uned 330 – 1 x arholiad allanol<br>Uned 331 – 1 x ymchwiliad estynedig allanol<br>Uned 332 – portffolio o dystiolaeth sydd ar wahân i'r portffolio o dystiolaeth a gynhyrchir ar gyfer yr unedau ymarfer |
| **Graddio** | A*-E |
| **Cymeradwyaethau** | Mae angen cymeradwyo'r ganolfan a'r cymhwyster |
| **Deunyddiau cefnogi** | Manyleb<br>Pecyn asesu mewnol<br>Deunyddiau asesu enghreifftiol allanol<br>Canllaw ar gyflwyno'r cymhwyster<br>Llawlyfr Gweinyddu |

© WJEC CBAC Ltd.

## Hanes Fersiynau

| Fersiwn | Disgrifiad | Rhif y dudalen/tudalennau |
|---|---|---|
| 1 | Cyhoeddiad cyntaf | - |
| 2 | Diweddaru Taflen Ddilysu'r Ymgeisydd | 284 |
| 3 | Ychwanegu unedau newydd **(dyfarniad cyntaf o 2026):** | |
| | 333 Sgiliau Astudio | 199 |
| | 334 Hybu dealltwriaeth plant o gynaliadwyedd yn y blynyddoedd cynnar | 201 |
| | 336 Hybu defnyddio technoleg ddigidol gyda phlant yn y blynyddoedd cynnar | 204 |
| | 337 Ymarfer sy'n ystyriol o drawma gyda phlant | 208 |
| | 338 Hybu defnyddio amgylcheddau awyr agored ar gyfer twf, dysgu a datblygu yn y blynyddoedd cynnar | 213 |
| | 339 Hybu cefnogaeth i blant ddatblygu ymddygiadau sy'n gwerthfawrogi eu hunain ac eraill | 216 |
| | Ychwanegu canllawiau cyflwyno ychwanegol at | |
| | 300 Hybu ymarfer craidd yn y maes gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant | 41 |
| | 306 Hybu gweithio gyda phlant 3-7 oed | 84 |
| | 309 Hybu a chefnogi lleferydd, iaith a sgiliau cyfathrebu | 105 |
| | 311 Cefnogi plant ag anghenion ychwanegol | 118 |
| | Mân newidiadau i gynnwys a diwygio er mwyn eglurder | |
| | 309 Hybu a chefnogi lleferydd, iaith a sgiliau cyfathrebu | 105 |
| | 311 Cefnogi plant ag anghenion ychwanegol | 118 |
| | 326 Cyflwyniad i ofal plant yn y cartref | 181 |
| | 327 Paratoi ar gyfer ymarfer ym maes gwarchod plant | 187 |

© WJEC CBAC Ltd.

# Cynnwys

**Cynnwys** **4**

**1 Rhagarweiniad** **11**

Nodau ac amcanion y pwnc 12
Strwythur 14
Oriau Dysgu dan Arweiniad (ODA), Oriau mewn Lleoliad Gwaith, Cyfanswm Amser Cymhwyso a Chredydau 19

**2 Gofynion canolfannau** **21**

Cymeradwyo'r Cymhwyster 21
Staff canolfannau 21
Staff cyflwyno 21
Gofynion aseswyr 22
Swyddogion Sicrhau Ansawdd Mewnol (SSAM) 22
Swyddogion Sicrhau Ansawdd Allanol 23
Y cyd-destun Cymreig 23
Datblygiad Proffesiynol Parhaus 23

**3 Cyflwyno'r cymhwyster** **24**

Gofynion cofrestru dysgwyr 24
Cyfyngiadau oedran 24
Asesu cychwynnol a sefydlu 24
Lleoliad gwaith 24
Deunyddiau cefnogi 25
Cyfyngiadau amser 26
Cydnabod dysgu blaenorol (CDB) 26

**4 Asesu a Sicrhau Ansawdd** **27**

Crynodeb o ddulliau asesu 27
Asesiad Mewnol 27
Defnydd o efelychu yn yr unedau ymarfer 27
Asesu Uned 332 27
Sicrhau ansawdd mewnol 28
Apêl fewnol 28
Ffactorau sy'n effeithio ar ddysgwyr unigol 28
Camymddwyn 28
Sicrhau ansawdd trefniadau asesu mewnol yn allanol 29
Asesiad Allanol (Unedau 330 a 331) 30
Arholiad allanol (Uned 330) 30
Ymchwiliad Estynedig (Uned 331) 31
Gosod yr ymchwiliad 31
Cwblhau'r Ymchwiliad 31
Amser 32
Adnoddau 32
Goruchwyliaeth 32
Dilysu 33

© WJEC CBAC Ltd.

| | | |
|---|---|---|
| | Cydweithio | 33 |
| | Marcio'r Ymchwiliad | 33 |
| | Trefniadau Mynediad Ac Ystyriaeth Arbennig | 33 |
| | Ystyriaeth Arbennig | 34 |
| **5.** | **Graddio a Dyfarnu'r Cymhwyster** | **35** |
| | Deilliannau'r Unedau | 35 |
| | Ailsefyll | 35 |
| | Graddio'r cymhwyster | 35 |
| 6 | UNEDAU | **37** |
| | Canllawiau ar gyflwyno cynnwys yr unedau | 39 |
| **Uned 300** | **Hybu ymarfer craidd yn y maes gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant** | **41** |
| | Canllawiau cyflwyno | 48 |
| | Dull asesu | 48 |
| | Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig | 56 |
| **Uned 301** | **Hybu chwarae, dysgu, twf a datblygiad** | **57** |
| | Gofynion tystiolaeth | 60 |
| | Canllawiau cyflwyno | 60 |
| | Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS) cysylltiedig | 60 |
| | Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig | 61 |
| **Uned 302** | **Hybu maeth a hydradu yn y blynyddoedd cynnar** | **63** |
| | Gofynion tystiolaeth | 65 |
| | Canllawiau cyflwyno | 65 |
| | Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS) cysylltiedig | 65 |
| | Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig | 65 |
| **Uned 303** | **Ymateb i afiechyd, pla/haint, clefyd ac imiwneiddio mewn plentyndod** | **67** |
| | Gofynion tystiolaeth | 68 |
| | Canllawiau cyflwyno | 68 |
| | Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS) cysylltiedig | 69 |
| | Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig | 70 |
| **Uned 304** | **Hybu gofal plant 0-2 oed** | **71** |
| | Gofynion tystiolaeth | 73 |
| | Canllawiau cyflwyno | 73 |
| | Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS) cysylltiedig | 75 |
| | Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig | 76 |
| **Uned 305** | **Hybu gofal plant 2-3 oed** | **78** |
| | Gofynion tystiolaeth | 80 |
| | Canllawiau cyflwyno | 80 |
| | Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS) cysylltiedig | 82 |
| | Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig | 82 |
| **Uned 306** | **Hybu gweithio gyda phlant 3-7 oed** | **84** |
| | Gofynion tystiolaeth | 87 |
| | Canllawiau cyflwyno | 87 |
| | Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS) cysylltiedig | 91 |
| | Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig | 92 |
| **Uned 307** | **Hybu'r broses o gaffael iaith newydd drwy drochi** | **94** |


© WJEC CBAC Ltd.

| | | |
|---|---|---|
| | Gofynion tystiolaeth | 96 |
| | Canllawiau cyflwyno | 96 |
| | Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS) cysylltiedig | 96 |
| | Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig | 96 |
| **Uned 308** | **Cefnogi teuluoedd i feithrin sgiliau rhianta** | **98** |
| | Gwybodaeth ategol | 102 |
| | Gofynion tystiolaeth | 102 |
| | Canllawiau cyflwyno | 102 |
| | Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS) cysylltiedig | 103 |
| | Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig | 104 |
| **Uned 309** | **Hybu a chefnogi lleferydd, iaith a sgiliau cyfathrebu** | **105** |
| | Gofynion tystiolaeth | 108 |
| | Canllawiau cyflwyno | 108 |
| | Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS) cysylltiedig | 110 |
| | Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig | 111 |
| **Uned 310** | **Dulliau cadarnhaol o gefnogi ymddygiad yn y blynyddoedd cynnar** | **113** |
| | Gofynion tystiolaeth | 115 |
| | Canllawiau cyflwyno | 115 |
| | Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS) cysylltiedig | 117 |
| | Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig | 117 |
| **Uned 311** | **Cefnogi plant ag anghenion ychwanegol** | **118** |
| | Gofynion tystiolaeth | 122 |
| | Canllawiau cyflwyno | 122 |
| | Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS) cysylltiedig | 123 |
| | Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig | 123 |
| **Uned 312** | **Cefnogi plant sy'n byw gydag epilepsi** | **125** |
| | Gofynion tystiolaeth | 127 |
| | Canllawiau cyflwyno | 127 |
| | Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS) cysylltiedig | 127 |
| | Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig | 127 |
| **Uned 313** | **Cefnogi hybu iechyd plant** | **128** |
| | Gofynion tystiolaeth | 130 |
| | Canllawiau cyflwyno | 130 |
| | Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS) cysylltiedig | 131 |
| | Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig | 131 |
| **Uned 314** | **Monitro glwcos yng ngwaed y capilarïau** | **133** |
| | Gofynion tystiolaeth | 135 |
| | Canllawiau cyflwyno | 135 |
| | Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS) cysylltiedig | 135 |
| | Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig | 135 |
| **Uned 315** | **Cefnogi plant i fonitro glwcos** | **137** |
| | Gofynion tystiolaeth | 139 |
| | Canllawiau cyflwyno | 139 |
| | Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS) cysylltiedig | 139 |
| | Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig | 139 |
| **Uned 316** | **Cymryd samplau gwaed gwythiennol gan blant** | **141** |
| | Gofynion tystiolaeth | 143 |


© WJEC CBAC Ltd.

| | | |
|---|---|---|
| | Canllawiau cyflwyno | 143 |
| | Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS) cysylltiedig | 144 |
| | Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig | 144 |
| **Uned 317** | **Rhoi gofal i blant sy'n byw gyda chanser** | **145** |
| | Gofynion tystiolaeth | 147 |
| | Canllawiau cyflwyno | 147 |
| | Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS) cysylltiedig | 148 |
| | Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig | 148 |
| **Uned 318** | **Gofal lliniarol a gofal diwedd oes i blant a phobl ifanc** | **149** |
| | Gofynion tystiolaeth | 152 |
| | Canllawiau cyflwyno | 152 |
| | Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS) cysylltiedig | 153 |
| | Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig | 153 |
| **Uned 319** | **Rhoi brechiadau trwynol rhag y ffliw** | **154** |
| | Gofynion tystiolaeth | 156 |
| | Canllawiau cyflwyno | 156 |
| | Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig | 156 |
| **Uned 320** | **Rhoi gofal stoma** | **157** |
| | Gofynion tystiolaeth | 160 |
| | Canllawiau cyflwyno | 160 |
| | Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS) cysylltiedig | 160 |
| | Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig | 160 |
| **Uned 321** | **Gofalu am glwyfau nad ydynt yn rhai cymhleth** | **161** |
| | Gofynion tystiolaeth | 163 |
| | Canllawiau cyflwyno | 163 |
| | Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS) cysylltiedig | 163 |
| | Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig | 164 |
| **Uned 322** | **Cynnal profion sgrinio golwg** | **165** |
| | Gofynion tystiolaeth | 167 |
| | Canllawiau cyflwyno | 167 |
| | Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS) cysylltiedig | 167 |
| | Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig | 167 |
| **Uned 323** | **Cynnal profion sgrinio clyw ar gyfer plant oed ysgol** | **169** |
| | Gofynion tystiolaeth | 171 |
| | Canllawiau cyflwyno | 171 |
| | Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig | 171 |
| **Uned 324** | **Awtochwistrellu adrenalin** | **172** |
| | Gofynion tystiolaeth | 173 |
| | Canllawiau cyflwyno | 173 |
| | Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS) cysylltiedig | 173 |
| | Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig | 174 |
| **Uned 325** | **Cefnogi rhieni newydd a rhieni beichiog** | **175** |
| | Gofynion tystiolaeth | 178 |
| | Canllawiau cyflwyno | 178 |
| | Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS) cysylltiedig | 179 |
| | Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig | 179 |


© WJEC CBAC Ltd.

| | | |
|---|---|---|
| **Uned 326** | **Cyflwyniad i ofal plant yn y cartref** | **181** |
| | Gofynion tystiolaeth | 184 |
| | Canllawiau cyflwyno | 184 |
| | Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS) cysylltiedig | 185 |
| | Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig | 185 |
| **Uned 327** | **Paratoi ar gyfer ymarfer ym maes gwarchod plant** | **187** |
| | Gofynion tystiolaeth | 189 |
| | Canllawiau cyflwyno | 189 |
| | Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS) cysylltiedig | 189 |
| | Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig | 190 |
| **Uned 328** | **Hwyluso dysgu mewn grŵp** | **191** |
| | Gofynion tystiolaeth | 193 |
| | Canllawiau cyflwyno | 193 |
| | Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS) cysylltiedig | 193 |
| | Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig | 194 |
| **Uned 329** | **Cefnogi unigolion drwy fwydo gyda thiwb** | **195** |
| | Gofynion tystiolaeth | 197 |
| | Canllawiau cyflwyno | 197 |
| | Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS) cysylltiedig | 197 |
| | Deddfwriaeth gysylltiedig | 197 |
| **Uned 333** | **Sgiliau astudio** | **199** |
| | Gofynion tystiolaeth | 200 |
| | Canllawiau cyflwyno | 200 |
| | Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig | 200 |
| **Uned 334** | **Hybu dealltwriaeth plant o gynaliadwyedd yn y blynyddoedd cynnar** | **201** |
| | Gofynion tystiolaeth | 203 |
| | Canllawiau cyflwyno | 203 |
| | Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig | 203 |
| **Uned 336** | **Hybu defnyddio technoleg ddigidol gyda phlant yn y blynyddoedd cynnar** | **204** |
| | Gofynion tystiolaeth | 206 |
| | Canllawiau cyflwyno | 206 |
| **Uned 337** | **Ymarfer sy'n ystyriol o drawma gyda phlant** | **208** |
| | Gofynion tystiolaeth | 211 |
| | Canllawiau cyflwyno | 211 |
| | Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig | 212 |
| **Uned 338** | **Hybu defnyddio amgylcheddau awyr agored ar gyfer twf, dysgu a datblygu yn y blynyddoedd cynnar** | **213** |
| | Gofynion tystiolaeth | 215 |
| | Canllawiau cyflwyno | 215 |
| | Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig | 215 |
| **Uned 339** | **Hybu cefnogaeth i blant ddatblygu ymddygiadau sy'n gwerthfawrogi eu hunain ac eraill** | **216** |
| | Gofynion tystiolaeth | 218 |
| | Canllawiau cyflwyno | 218 |
| | Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig | 220 |
| **Uned 208** | **Cefnogi plant sy'n byw gyda diabetes mellitus** | **221** |


© WJEC CBAC Ltd.

| | | |
|---|---|---|
| | Gofynion tystiolaeth | 224 |
| | Canllawiau cyflwyno | 224 |
| | Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS) cysylltiedig | 224 |
| | Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig | 225 |
| **Uned 209** | **Ymateb i adweithiau anaffylactig** | **226** |
| | Gofynion tystiolaeth | 227 |
| | Canllawiau cyflwyno | 227 |
| | Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS) cysylltiedig | 227 |
| | Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig | 228 |
| **Uned 210** | **Cyflwyniad i ddiffyg anadl ac asthma mewn plant** | **229** |
| | Gofynion tystiolaeth | 231 |
| | Canllawiau cyflwyno | 231 |
| | Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS) cysylltiedig | 231 |
| | Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig | 232 |
| **Uned 211** | **Cefnogi gofal ymataliaeth mewn plant** | **233** |
| | Gofynion tystiolaeth | 235 |
| | Canllawiau cyflwyno | 235 |
| | Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS) cysylltiedig | 236 |
| | Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig | 236 |
| **Uned 212** | **Cefnogi unigolion o ran symud a lleoli** | **237** |
| | Gofynion tystiolaeth | 239 |
| | Canllawiau cyflwyno | 239 |
| | Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS) cysylltiedig | 239 |
| | Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig | 240 |
| **Uned 213** | **Cyflwyniad i fesuriadau ffisiolegol mewn plant** | **241** |
| | Gofynion tystiolaeth | 243 |
| | Canllawiau cyflwyno | 243 |
| | Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS) cysylltiedig | 243 |
| | Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig | 244 |
| **Uned 214** | **Cynnal profion pwynt gofal** | **245** |
| | Gofynion tystiolaeth | 247 |
| | Canllawiau cyflwyno | 247 |
| | Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS) cysylltiedig | 247 |
| | Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig | 248 |
| **Uned 215** | **Casglu sbesimenau** | **249** |
| | Gofynion tystiolaeth | 251 |
| | Canllawiau cyflwyno | 251 |
| | Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS) cysylltiedig | 251 |
| | Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig | 251 |
| **Uned 330** | **Egwyddorion a damcaniaethau sy'n dylanwadu ar ofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant yn yr 21ain ganrif yng Nghymru** | **252** |
| **Uned 331:** | **Ymchwilio i faterion cyfredol ym maes gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant yng Nghymru** | **268** |
| | Ymchwiliad Estynedig | 271 |
| | Tasgau | 271 |


© WJEC CBAC Ltd.

**Uned 332 Sgiliau Ymarferol ar gyfer Lleoliad Gwaith yn y Blynyddoedd Cynnar (0-7 oed) 273**

**Atodiad 1 Arweiniad o ran yr Unedau a Argymhellir 279**

**Atodiad 2 Geiriau Gorchymyn 282**

**Atodiad 3 Cysylltiadau â chymwysterau eraill 283**

**TAFLEN DDILYSU YMGEISYDD 284**

© WJEC CBAC Ltd.

# 1 Rhagarweiniad

Mae'r ddogfen hon yn dweud wrthych beth mae angen i chi ei wneud er mwyn cyflwyno'r cymwysterau:

| Maes | Disgrifiad |
|---|---|
| Ar gyfer pwy mae'r cymhwyster? | Mae'r cymhwyster hwn yn bennaf ar gyfer pobl sy'n gweithio, neu sydd am weithio, mewn lleoliadau gofal plant wedi'u rheoleiddio gyda theuluoedd/gofalwyr a phlant o dan 8 oed a gwasanaethau plant y GIG ar gyfer y rhai sy'n gweithio gyda theuluoedd/gofalwyr a phlant 0-19 oed.<br>Mae'r cymhwyster hwn wedi'i anelu'n bennaf at ddysgwyr sy'n astudio mewn lleoliad addysg bellach ond gall amrywiol ddarparwyr dysg ddarparu'r cymhwyster hwn.<br>Mae angen i ddysgwyr ennill y cymhwyster hwn er mwyn gweithio fel ymarferydd gofal plant cymwysedig mewn rhinwedd a oruchwylir fel y nodir yn *Fframwaith Cymwysterau* Gofal Cymdeithasol Cymru ar gyfer *Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant yng Nghymru*. |
| Beth mae'r cymhwyster yn ei gynnwys? | Bydd y cymhwyster hwn yn galluogi dysgwyr i feithrin y wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i gael gwaith a/neu i symud ymlaen mewn gyrfa mewn lleoliadau gofal plant neu iechyd.<br><br>Mae'n cyfuno'r ddwy uned ymarfer sy'n cael eu hasesu yn y gweithle â chyfleoedd i datblygu'r sgiliau sylfaenol y mae eu hangen i weithio â phlant yn ogystal â gwybodaeth ddamcaniaethol ychwanegol. Mae'r cynnwys sy'n ymwneud ag ymarfer y cymhwyster hwn yn cyfateb i'r hyn a geir yn y cymhwyster Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer.<br><br>Mae'r agwedd ddamcaniaethol yn canolbwyntio ar egwyddorion a damcaniaethau sy'n dylanwadu ar iechyd, llesiant a datblygiad plant a sut gallai'r sector gofal plant a iechyd plant ymateb i holl anghenion plant 0-19 mlwydd oed.<br><br>Mae'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau y mae angen i ddysgwr eu meithrin yn y cymhwyster hwn yn adeiladu ar gynnwys y cymhwyster Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Theori ac Ymarfer a'r cymhwyster Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Craidd. Argymhellir yn gryf y dylai dysgwr sy'n dilyn y cymhwyster hwn fod wedi cwblhau, neu'n cwblhau ar hyn o bryd, y cymhwyster Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Craidd.<br><br>Mae'r uned Sgiliau Ymarferol ar gyfer Lleoliad Gwaith yn y Blynyddoedd Cynnar (0-7 oed) yn rhoi'r sgiliau a'r wybodaeth i ddysgwyr i gefnogi eu lleoliad gwaith. |

© WJEC CBAC Ltd.

| | |
|---|---|
| | Mae'n cefnogi dysgwyr i ddatblygu sgiliau ymarferol hanfodol ar gyfer gweithio gyda phlant rhwng 0 a 7 oed, gan ddod i ddeall disgwyliadau lleoliad gwaith, a datblygu sgiliau ymarferol craidd sy'n angenrheidiol ar gyfer y gweithle. |
| Pa gyfleoedd sydd i ddatblygu? | Mae'r fanyleb hon yn yn cynnig sylfaen addas ar gyfer astudio iechyd a gofal cymdeithasol drwy amrywiaeth o gyrsiau addysg uwch neu brentisiaethau. Yn ogystal, mae'r fanyleb yn darparu cwrs astudio sy'n gydlynol, yn foddhaol ac yn werth chweil i'r dysgwyr hynny nad ydynt yn symud ymlaen i astudio ymhellach yn y pwnc hwn.<br>Bydd y cymhwyster hwn hefyd yn galluogi dysgwyr i symud ymlaen i gyflogaeth mewn rôl Lefel 3 neu symud ymlaen at ddysgu pellach drwy'r cymwysterau canlynol gan y Consortiwm:<br>• TAG Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant<br>• Lefel 4 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant gydag arbenigedd<br>• Lefel 4 Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Egwyddorion, Damcaniaethau a Chyd-destunau. |
| Gyda phwy y gwnaethom ddatblygu'r cymhwyster? | Gofal Cymdeithasol Cymru ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru a ddatblygodd gynnwys yr unedau ymarfer y cymhwyster hwn ac sy'n berchen arno.<br>Datblygwyd y cynnwys ar y cyd â'r Consortiwm, yn ogystal â rhanddeiliaid, tiwtoriaid, athrawon ac aseswyr yn y gweithle o bob rhan o'r sector iechyd a gofal plant. |

## Nodau ac amcanion y pwnc

Mae'r cymhwyster Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori yn galluogi Dysgwyr i ddatblygu a dangos eu gwybodaeth, dealltwriaeth, ymddygiad, sgiliau ac ymarfer mewn lleoliad gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant. Yn arbennig, bydd dysgwyr yn gallu dangos eu bod yn:

- deall ac yn gallu defnyddio'n ymarferol, yr egwyddorion a'r gwerthoedd sy'n ategu gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant
- deall, ac yn gallu defnyddio wrth ymarfer, dulliau plant-ganolog i ofal, chwarae a dysgu
- hybu a chefnogi datblygiad plant drwy eu hymarfer eu hunain
- gwerthuso ymchwil a damcaniaethau i gefnogi ymarfer
- ymwybodol o bolisïau allweddol yn y sector a sut mae'r rhain yn effeithio ar ddatblygu a darparu gwasanaethau
- gweithio mewn partneriaeth â phlant, eu teuluoedd, gofalwyr ac amrywiaeth o weithwyr proffesiynol
- gallu adfyfyrio ar ymarfer i barhau i wella
- defnyddio amrywiaeth o dechnegau datrys problemau
- defnyddio sgiliau llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol fel sy'n briodol yn eu swydd.

Mae'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau mae angen i ddysgwr eu meithrin yn y cymhwyster hwn yn adeiladu ar gynnwys gwybodaeth y cymhwyster Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Craidd.

© WJEC CBAC Ltd.

Sylwer: un o'r gofynion a nodir yn *Fframwaith Cymwysterau* Gofal Cymdeithasol Cymru *ar gyfer Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant* yw y bydd angen y ddau gymhwyster canlynol ar unigolyn sy'n gweithio yn y sector gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant:

- y cymhwyster Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Craidd

  a naill ai'r

- Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer

  neu'r

- cymhwyster Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori

  i weithio mewn rolau swyddi penodol.

I gael rhagor o wybodaeth am y gofynion ar gyfer gweithio yn y sector gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant, gan gynnwys rolau swyddi penodol, gweler y '*Fframwaith cymwysterau ar gyfer gofal cymdeithasol a gofal plant rheoledig yng Nghymru*' sydd ar gael ar wefan Gofal Cymdeithasol Cymru. https://gofalcymdeithasol.cymru/cymwysterau-ac-ariannu/fframwaith-cymwysterau.

Hefyd, bydd angen i'r rheini sy'n gweithio mewn lleoliadau gofal plant wedi'u rheoleiddio gyda phlant 8-12 oed ennill cymhwyster gwaith chwarae ychwanegol a enwir gan Skills Active **www.skillsactive.com**.

© WJEC CBAC Ltd.

## Strwythur

I gyflawni'r **cymhwyster Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Theori** rhaid i ddysgwyr gyflawni o leiaf 70 o gredydau o'r unedau Ymarfer:

- rhaid ennill 44 credyd o Grŵp Gorfodol 1
- Rhaid ennill o leiaf 8 credyd o Grŵp Dewisol A
- Gellir ennill y 18 credyd sy'n weddill o **unedau** Grwpiau Dewisol A, B neu C
  a
- chofrestru am Uned 330 ac Uned 331 (Grŵp Gorfodol 2). Rhaid ennill y marc GMU lleiaf ar gyfer gradd y cymhwyster. Bydd marciau unffurf a enillwyd am unedau 330 a 331 yn cael eu hadio at ei gilydd a bydd gradd y cymhwyster yn seiliedig ar y cyfanswm GMU hwn
- ennill uned 332 (Grŵp Gorfodol 3)

**Lleiafswm** yr oriau dysgu dan arweiniad ar gyfer y cymhwyster hwn yw 1080.

| Rhif yr Uned | Teitl yr uned | ORIAU DYSGU DAN ARWEINIAD (ODA) | Credyd |
|---|---|---|---|
| Grŵp Gorfodol 1 | | 380 | 44 |
| 300 | Hybu ymarfer craidd yn y maes gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant | 190 | 20 |
| 301 | Hybu chwarae, dysgu, twf a datblygiad | 70 | 10 |
| 302 | Hybu maeth a hydradu yn y blynyddoedd cynnar | 60 | 7 |
| 303 | Ymateb i afiechyd, pla/haint, clefyd ac imiwneiddio mewn plentyndod | 60 | 7 |
| Grŵp dewisol A | | | |
| 304 | Hybu gofal plant 0-2 oed | 80 | 8 |
| 305 | Hybu gofal plant 2-3 oed | 80 | 10 |
| 306 | Hybu gweithio gyda phlant 3-7 oed | 80 | 10 |

© WJEC CBAC Ltd.

| Rhif yr Uned | Teitl yr uned | ORIAU DYSGU DAN ARWEINIAD (ODA) | Credyd |
|---|---|---|---|
| Grŵp dewisol B | | | |
| 307 | Hybu'r broses o gaffael iaith newydd drwy drochi | 20 | 4 |
| 308 | Cefnogi teuluoedd i feithrin sgiliau rhianta | 50 | 13 |
| 309 | Hybu a chefnogi lleferydd, iaith a sgiliau cyfathrebu | 25 | 4 |
| 310 | Dulliau cadarnhaol o gefnogi ymddygiad yn y blynyddoedd cynnar | 40 | 6 |
| 311 | Cefnogi plant ag anghenion ychwanegol | 100 | 12 |
| 334 | Hybu dealltwriaeth plant o gynaliadwyedd yn y blynyddoedd cynnar | 5 | 2 |
| 336 | Hybu defnyddio technoleg ddigidol gyda phlant yn y blynyddoedd cynnar | 30 | 5 |
| 337 | Ymarfer sy'n ystyriol o drawma gyda phlant | 5 | 3 |
| 338 | Hybu defnyddio amgylcheddau awyr agored ar gyfer twf, dysgu a datblygu yn y blynyddoedd cynnar | 7 | 3 |
| Grŵp dewisol C | | | |
| 312 | Cefnogi plant sy'n byw gydag epilepsi | 20 | 3 |
| 313 | Cefnogi hybu iechyd plant | 15 | 3 |
| 314 | Monitro glwcos yng ngwaed y capilarïau | 15 | 3 |
| 315 | Cefnogi plant i fonitro glwcos | 15 | 3 |
| 316 | Cymryd samplau gwaed gwythiennol gan blant | 20 | 3 |
| 317 | Rhoi gofal i blant sy'n byw gyda chanser | 35 | 8 |
| 318 | Gofal lliniarol a gofal diwedd oes i blant a phobl ifanc | 35 | 9 |
| 319 | Rhoi brechiadau trwynol rhag y ffliw | 15 | 3 |

© WJEC CBAC Ltd.

| Rhif yr Uned | Teitl yr uned | ORIAU DYSGU DAN ARWEINIAD (ODA) | Credyd |
|---|---|---|---|
| 320 | Rhoi gofal stoma | 20 | 3 |
| 321 | Gofalu am glwyfau nad ydynt yn rhai cymhleth | 20 | 4 |
| 322 | Cynnal profion sgrinio golwg | 20 | 4 |
| 323 | Cynnal profion sgrinio clyw ar gyfer plant oed ysgol | 15 | 3 |
| 324 | Awtochwistrellu adrenalin | 15 | 3 |
| 325 | Cefnogi rhieni newydd a darpar rieni | 20 | 4 |
| 326 | Cyflwyniad i ofal plant yn y cartref | 40 | 6 |
| 327 | Paratoi ar gyfer ymarfer ym maes gwarchod plant | 25 | 4 |
| 328 | Hwyluso dysgu mewn grŵp | 20 | 4 |
| 329 | Cefnogi unigolion drwy fwydo gyda thiwb | 15 | 3 |
| 333 | Sgiliau Astudio | 10 | 2 |
| 208 | Cefnogi plant sy'n byw gyda diabetes mellitus | 20 | 5 |
| 209 | Ymateb i adweithiau anaffylactig | 10 | 2 |
| 210 | Cyflwyniad i ddiffyg anadl ac asthma mewn plant | 10 | 2 |
| 211 | Cefnogi gofal ymataliaeth mewn plant | 20 | 4 |
| 212 | Cefnogi unigolion o ran symud a lleoli | 20 | 3 |
| 213 | Cyflwyniad i fesuriadau ffisiolegol mewn plant | 15 | 3 |
| 214 | Profi pwynt gofal | 15 | 3 |
| 215 | Casglu sbesimenau | 10 | 3 |
| Grŵp Gorfodol 2 | | 330 | 40 |
| 330 | Egwyddorion a'r damcaniaethau sy'n dylanwadu ar ofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant yn yr 21ain ganrif yng Nghymru. | 280 | 34 |

© WJEC CBAC Ltd.

| Rhif yr Uned | Teitl yr uned | ORIAU DYSGU DAN ARWEINIAD (ODA) | Credyd |
|---|---|---|---|
| 331 | Ymchwilio i faterion cyfredol ym maes gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant yng Nghymru. | 50 | 6 |
| Grŵp Gorfodol 3 | | 150 | 16 |
| 332 | Sgiliau ymarferol blynyddoedd cynnar ar gyfer lleoliad gwaith (0-7 oed) | 150 | 16 |

Sylwer: mae gwahaniaeth rhwng grwpiau Dewisol B ac C i gefnogi'r fethodoleg asesu ar gyfer y cymhwyster hwn. Gellir dewis unedau o'r naill grŵp neu'r llall yn dibynnu ar y credydau sydd ar gael. Mae rhagor o fanylion am y fethodoleg asesu i'w gweld yn y pecyn asesu.

Mae'r rheolau ychwanegol canlynol yn bodoli ar gyfer unedau penodol o fewn y cymhwyster hwn:

- Rhaid i ddysgwyr sy'n gwneud Uned 324 Rhoi adrenalin hefyd gwblhau Uned 209 Ymateb i adweithiau anaffylactig. Gall Uned 209 gael ei gwneud naill ai cyn neu ar y cyd ag Uned 324.
- Rhaid i unrhyw ddysgwyr sy'n gwneud Uned 327 Paratoi ar gyfer ymarfer ym maes gwarchod plant fod wedi cwblhau ac ennill Uned 326 Cyflwyniad i ofal plant yn y cartref cyn dechrau'r uned hon.

© WJEC CBAC Ltd.

## Grŵp Gorfodol 2: Uned 330 ac Uned 331

Mae Grŵp Gorfodol 2 yn ategu'r unedau yng Ngrwpiau Gorfodol 1 a 3 y cymhwyster hwn ac yn y cymhwyster Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Craidd, a hefyd yn rhoi cyfle i ddysgwyr ennill gwybodaeth ychwanegol mewn perthynas â meysydd nad ydynt ar gael o fewn yr unedau gorfodol a dewisol eraill yn y cymhwyster hwn.

Uned 330: Egwyddorion a damcaniaethau sy'n dylanwadu ar ofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant yn yr 21ain Ganrif yng Nghymru yn cynnwys pum prif faes testun:
- cefnogi datblygiad cyfannol 0-19 oed
- dulliau'n ymwneud ag ymddygiad cadarnhaol i gefnogi datblygiad cyfannol
- darpariaeth gofal iechyd ar gael yng Nghymru o adeg cenhedlu hyd at 19 oed a sut mae'n cefnogi iechyd a llesiant
- yr egwyddorion i sicrhau dysgu cynhwysol i bob plentyn 0-19 oed
- effaith meddwl traddodiadol a chyfoes ar ddatblygiad cyfannol plant.

Mae cynnwys yr uned yn estyn y wybodaeth a'r ddealltwriaeth y bydd dysgwyr yn eu meithrin drwy gwblhau'r unedau ymarfer o'u dewis ac yn cyflwyno testunau ychwanegol er mwyn adlewyrchu anghenion ehangach y sector gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant.

Bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o ofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant gan gwmpasu'r ystod oedran gyfan sef 0-19 oed. Bydd hyn yn datblygu ac yn atgyfnerthu'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth a enillwyd yn ystod eu lleoliadau gwaith sy'n canolbwyntio ar blant 0-8 oed (neu isadran o fewn yr ystod oedran hon).

Daw dysgwyr i wybod a deall sut mae lleoliadau iechyd, blynyddoedd cynnar ac addysg gwahanol yn gallu hybu a chefnogi iechyd, llesiant a datblygiad, 0-19 oed. Bydd hyn yn rhoi'r cyfle i ddysgwyr ehangu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth oherwydd gall eu cyfleoedd lleoliad gwaith fod yn gyfyngedig i un neu ddau leoliad.

Hefyd, gan fod yr uned yn canolbwyntio ar agweddau iechyd gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant, bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth am rôl a gwerth yr amrywiol feysydd gwahanol yn y sector gofal iechyd. Bydd hyn yn ymestyn gwybodaeth a dealltwriaeth am wasanaethau gofal iechyd, gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio o fewn y gwasanaethau ac yn rhoi cipolwg i ddysgwyr ar gyfleoedd gwaith yn ogystal â chymwysterau pellach o fewn y sector gofal iechyd y gallan nhw fod am eu dilyn wrth gwblhau'r cymhwyster hwn.

Uned 331: Mae ymchwilio i faterion cyfredol yn y maes gofal, chwarae a datblygiad plant yng Nghymru yn ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr ymchwilio i fater cyfoes i'r sector. Nid yw'r uned hon yn cynnwys unrhyw gynnwys ychwanegol. I gwblhau'r asesiad, bydd y dysgwyr yn defnyddio gwybodaeth a dealltwriaeth a gafwyd trwy gwblhau Uned 330 a'u hunedau ymarfer dewisol.

Bydd cynnwys ac asesiad Unedau 330 a 331 o Grŵp Gorfodol 2 yn sicrhau bod dysgwyr yn gallu:

- dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o amrywiaeth o gysyniadau, gwerthoedd a materion allweddol sy'n berthnasol i leoliadau a chyd-destunau gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant
- cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth er mwyn dadansoddi ymarfer seiliedig ar dystiolaeth (eu hymarfer eu hunain ac ymarfer pobl eraill) o fewn gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant
- ymchwilio i ddamcaniaethau ac ymarfer sy'n ymwneud â gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant ac adfyfyrio ar y ffordd y gallan nhw ddylanwadu ar ymarfer.

© WJEC CBAC Ltd.

## Grŵp Gorfodol 3: Uned 332

Mae Uned 332: (Sgiliau ymarferol ar gyfer lleoliad gwaith yn y blynyddoedd cynnar (0-7 oed) yn cefnogi dysgwyr i ddysgu am y lleoliad lle byddan nhw'n cwblhau eu lleoliad gwaith gorfodol, ac i gaffael sgiliau sylfaenol i weithio gyda phlant 0-7 oed 11 mis. Ehangir ar y sgiliau hyn dros gyfnod y lleoliad gwaith wrth iddynt weithio tuag at eu hunedau ymarfer.

Mae'r uned hon wedi'i bwriadu i'w chyflwyno yn yr ystafell ddosbarth a byddai dysgwyr yn elwa fwyaf o'i chwblhau tua dechrau eu cwrs, cyn cychwyn ar eu lleoliad gwaith fodd bynnag, mae'n bosibl ei chyflwyno dros y ddwy flwyddyn academaidd  Mae'r uned hon yn caniatáu i ddysgwyr feithrin y sgiliau ymarferol sylfaenol sydd eu hangen ar gyfer gweithio gyda phlant. Datblygir y sgiliau hyn ymhellach drwy leoliad gwaith yn barod at yr asesiad crynodol sy'n rhan o'r tasgau strwythuredig.

Anogir tiwtoriaid i ddarparu profiadau deniadol a rhyngweithiol i ddysgwyr ar draws pob deilliant dysgu fel y gallant feithrin ac ehangu ar y set o sgiliau sydd ganddynt yn barod at y lleoliad gwaith.

### Oriau Dysgu dan Arweiniad (ODA), Oriau mewn Lleoliad Gwaith, Cyfanswm Amser Cymhwyso a Chredydau

Mae Oriau Dysgu Dan Arweiniad (ODA) yn rhoi syniad i ganolfannau o faint o amser dysgu ac asesu *dan oruchwyliaeth* sydd ei angen i gyflwyno uned a gellir eu defnyddio at bwrpasau cynllunio.

Y Cyfanswm Amser Cymhwyso (CAC) yw cyfanswm yr amser, mewn oriau, y disgwylir i ddysgwr ei dreulio er mwyn ennill cymhwyster. Mae'n cynnwys oriau dysgu dan arweiniad ac oriau ar gyfer paratoi, astudio a chyflawni rhai gweithgareddau asesu ffurfiannol, y gall rhai ohonyn nhw fod yn y gweithle/lleoliad.

Mae fformiwla sy'n cyfateb i werth y CAC wedi'i rannu â 10 yn cael ei defnyddio i gyfrifo'r credyd.

Er mwyn cyflawni'r cymhwyster hwn, mae gofyn bod dysgwyr yn cwblhau o leiaf 700 awr mewn lleoliad gwaith. Ceir rhagor o fanylion am hyn ar dudalen 19. Mae'r gofyniad hwn wedi cael ei bennu gan y sector a chytunwyd arno gyda Cymwysterau Cymru fel y nifer lleiaf o oriau y byddai'n rhaid i ddysgwyr ei gwblhau er mwyn dangos eu bod yn bodloni gofynion yr unedau ymarfer o fewn y cymhwyster hwn (Grŵp Gorfodol 1 a Grwpiau Dewisol A-C)

*Lleiafswm* yr oriau dysgu dan arweiniad sy'n ofynnol ar gyfer y cymhwyster hwn yw 1080, wedi'u rhannu fel a ganlyn:

- 600 o oriau dysgu dan arweiniad ar gyfer yr unedau ymarfer
- 330 o oriau dysgu dan arweiniad ar gyfer Unedau 330 a 331
- 150 o oriau dysgu dan arweiniad ar gyfer Uned 332

© WJEC CBAC Ltd.

Cyfrifwyd mai cyfanswm amser cymhwyso lleiaf y cymhwyster hwn yw 1,260 awr. Mae hyn yn cynnwys:

- 100 awr o amser ar leoliad gwaith yn ogystal â'r 600 o oriau dysgu dan arweiniad a neilltuwyd ar gyfer yr unedau ymarfer.
- 80 awr o waith astudio hunangyfeiriedig a all gynnwys:
    - cwblhau gwaith wedi'i osod gan diwtoriaid a'i gwblhau y tu allan i oriau dan oruchwyliaeth (h.y. 'gwaith cartref')
    - defnyddio adnoddau dysgu ar-lein
    - cwblhau asesiadau / papurau arholiad enghreifftiol yn annibynnol
    - cwblhau gwaith ymchwil annibynnol gan gynnwys darllen cyhoeddiadau ac adroddiadau sy'n ymwneud â'r sector
    - adfyfyrio.

Nodir yr ODA, y CAC a'r gwerth credyd ar gyfer y cymhwyster hwn isod.

| | ORIAU DYSGU DAN ARWEINIAD (ODA) | CAC | Credyd |
|---|---|---|---|
| Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori | 1080 | 1260 | 126 |

© WJEC CBAC Ltd.

# 2 Gofynion canolfannau

## Cymeradwyo'r Cymhwyster

Bydd angen cymeradwyo canolfannau a chymhwyster ar gyfer y cymhwyster hwn. Bydd hyn yn cynnwys asesiad desg.

Er mwyn cymeradwyo canolfan, rhaid i sefydliad allu bodloni'r meini prawf cymeradwyo canolfannau. Mae'r dogfennau canlynol yn rhoi manylion sut i gael cymeradwyaeth am y cymhwyster hwn:

- Canllaw Gweinyddu
- Rheoliadau Cyffredinol y CGC ar gyfer Canolfannau Cymeradwy.

Cynghorir darpar ganolfannau i geisio cymeradwyaeth canolfan a chymhwyster, fel sy'n briodol, cyn dechrau cyflwyno'r cymhwyster.

Mae'r Consortiwm yn anelu at gyhoeddi'r penderfyniad ynghylch cymeradwyo'r ganolfan a'r cymhwyster o fewn 30 diwrnod gwaith i'r cais gael ei gyflwyno, gan arwain at bedwar canlyniad posibl:

- cymeradwyo'r ganolfan a'r cymhwyster
- cymeradwyo'r ganolfan a'r cymhwyster yn amodol ar gynllun gweithredu
- ymatal rhag cymeradwyo'r ganolfan a'r cymhwyster yn amodol ar gynllun gweithredu
- gwrthod cymeradwyo'r ganolfan a'r cymhwyster.

Tybir bod y ganolfan a'r cymhwyster wedi cael eu cymeradwyo pan fydd CBAC yn anfon cadarnhad ysgrifenedig o'r statws i'r ganolfan, ac nid cyn hynny.

Bydd yn ofynnol i ganolfannau wneud cais am gymeradwyaeth ar gyfer y cymhwyster hwn a bodloni'r gofynion penodol i ganolfannau a amlinellir yn y ddogfen hon mewn perthynas â staff cyflwyno a chymhwysedd aseswyr. Bydd y gofynion hyn yn cael eu harchwilio a'u monitro fel rhan o'r broses cymeradwyo cymwysterau a'r broses o fonitro'r cymwysterau hyn yn barhaus.

## Staff canolfannau

## Staff cyflwyno

Rhaid i staff sy'n cyflwyno'r cymhwyster hwn allu dangos eu bod yn bodloni'r gofynion canlynol o ran arbenigedd galwedigaethol. Rhaid iddyn nhw:

- fod yn gymwys yn alwedigaethol neu'n wybodus yn dechnegol yn y maes maen nhw'n darparu hyfforddiant ar ei gyfer. Dylai'r wybodaeth hon gyfateb o leiaf i'r un lefel â'r hyfforddiant sy'n cael ei ddarparu
- meddu ar brofiad perthnasol diweddar yn y maes penodol y byddant yn ei asesu
- meddu ar brofiad credadwy o ddarparu hyfforddiant.

Gall staff y ganolfan gyflawni mwy nag un rôl, er enghraifft gallan nhw fod yn diwtor ac yn aseswr y pwnc neu'n swyddog gwirio ansawdd mewnol, ond ni allan nhw wirio ansawdd eu hasesiadau eu hunain yn fewnol.

© WJEC CBAC Ltd.

Bydd y Consortiwm yn cynnal sesiynau hyfforddi a DPP i'r staff cyflwyno, gwirwyr mewnol a rheolwyr canolfannau i sicrhau bod yr hyfforddiant a'r canllawiau a ddarperir yn safonol ar draws y sector. Cyfrifoldeb y ganolfan yw sicrhau bod yr holl staff cyflwyno'n mynychu'r digwyddiadau hyn, fel y bo'n briodol.

## Gofynion aseswyr

Rhaid i aseswyr deilliannau dysgu seiliedig ar gymhwysedd:

- fod yn alwedigaethol gymwys; mae hyn yn golygu bod yn rhaid i bob aseswr allu bodloni gofynion llawn y maes mae'n ei asesu i'r un lefel o leiaf. Ystyr cymhwysedd galwedigaethol yw eu bod hefyd yn alwedigaethol wybodus
- cynnal eu cymhwysedd galwedigaethol drwy ddysgu a datblygu proffesiynol parhaus perthnasol y gellir eu dangos yn glir
- meddu ar y cymwysterau cyfredol ar gyfer Aseswyr, neu fod yn gweithio tuag at eu cyflawni, Er enghraifft:
    - Dyfarniad Lefel 3 mewn Asesu Cymhwysedd yn yr Amgylchedd Gwaith

  **neu'r**
    - feddu ar Ddyfarniad Aseswyr A1 neu unedau D32/33.

Lle y bo gan aseswyr hen gymwysterau aseswr, rhaid iddyn nhw ddangos eu bod yn asesu'n unol â safonau asesu cyfredol neu gymhwyster cyfatebol/amgen addas arall ar gyfer asesu perfformiad yn y gwaith. Rhaid cytuno ar hyn ymlaen llaw gyda Swyddog Sicrhau Ansawdd Allanol y ganolfan.

Mae'r Consortiwm hefyd yn derbyn cymwysterau aseswr eraill a achredir yn genedlaethol. Mae rhestr gynhwysfawr o'r rhain i'w gweld ar dudalen we'r cymhwyster.

Lle y bo aseswr yn gweithio tuag at ennill cymwysterau aseswr, rhaid bod trefniant cydlofnodi ar waith gan aseswr cymwysedig o'r un maes galwedigaethol neu faes galwedigaethol cysylltiedig.

Lle y nodir mewn gofynion tystiolaeth ei bod yn briodol eu defnyddio, dylai tystion arbenigol fod:

- yn meddu ar wybodaeth ddigonol am yr unedau y byddan nhw'n rhoi tystiolaeth ar eu cyfer
- yn alwedigaethol gymwys yn eu maes arbenigedd i'r un lefel o leiaf â'r uned y byddan nhw'n rhoi tystiolaeth ar ei chyfer
- yn meddu ar unrhyw gymhwyster asesu perfformiad yn y gweithle neu fod wedi gweithio mewn swydd broffesiynol a oedd yn cynnwys gwerthuso ymarfer bob dydd staff.

## Swyddogion Sicrhau Ansawdd Mewnol (SSAM)

Rhaid i'r rheini sy'n cyflawni rôl sicrhau ansawdd mewnol fod yn alwedigaethol wybodus a meddu ar y sgiliau sydd eu hangen i wneud penderfyniadau sicrhau ansawdd.

Mae'r gofynion cymhwyso ar gyfer Swyddog Sicrhau Ansawdd Mewnol ar gyfer cymwysterau seiliedig ar gymhwysedd fel a ganlyn. Dylai'r Swyddog Sicrhau Ansawdd Mewnol fod:

- yn meddu ar y cymwysterau Sicrhau Ansawdd cyfredol, neu fod yn gweithio tuag at eu hennill, er enghraifft:
    - Lefel 4 Dyfarniad mewn Sicrhau Ansawdd Mewnol Prosesau ac Arferion Asesu neu
    - Lefel 4 Tystysgrif mewn Arwain Gwaith Sicrhau Ansawdd Mewnol mewn Prosesau Asesu ac Ymarfer neu
    - yn meddu ar uned D34 neu Ddyfarniad Gwirwyr V1.

© WJEC CBAC Ltd.

Lle bo swyddog sicrhau ansawdd mewnol yn gweithio tuag at ennill cymhwyster swyddog sicrhau ansawdd mewnol, rhaid bod trefniant cydlofnodi ar waith gan swyddog sicrhau ansawdd mewnol cymwysedig o'r un maes galwedigaethol neu faes galwedigaethol cysylltiedig.

## Swyddogion Sicrhau Ansawdd Allanol

Rhaid i'r rhai sy'n cyflawni rôl sicrhau ansawdd allanol fod yn alwedigaethol wybodus a meddu ar y sgiliau sydd eu hangen i wneud penderfyniadau sicrhau ansawdd. Mae hyn yn golygu bod Swyddogion Cyswllt/penodedigion yn ymwybodol o'r lleoliadau, trefniadau rheoleiddio, deddfwriaeth a chod ymarfer ar gyfer y gwasanaeth dan sylw, yn ogystal â gofynion safonau cenedlaethol Cymru ar adeg cyflawni'r asesiad.

Mae'r Consortiwm yn ei gwneud yn ofynnol i swyddogion cyswllt/penodedigion feddu ar gymhwyster sicrhau ansawdd allanol, sef naill ai:
D35 – Gwirio'r Broses Asesu'n Allanol (D35) neu V2 – Tystysgrif Lefel 4 mewn Sicrhau Ansawdd y Broses Asesu yn Allanol (V2)
neu
Lefel 4 Sicrhau Ansawdd Prosesau ac Ymarfer Asesu yn Allanol.

Bydd swyddogion cyswllt/penodedigion yn gweithio tuag at ennill y cymhwyster sicrhau ansawdd allanol cyfredol (TAQA) neu byddan nhw eisoes wedi'i ennill, neu byddan nhw'n meddu ar hen gymhwyster fel V2/D35.

Lle y bo swyddog sicrhau ansawdd allanol yn gweithio tuag at fodloni'r gofynion ar gyfer swyddogion sicrhau ansawdd allanol, rhaid bod trefniant cydlofnodi ar waith gan swyddog sicrhau ansawdd allanol arall o'r un maes galwedigaethol neu faes galwedigaethol cysylltiedig.

## Y cyd-destun Cymreig

Awgrymir y byddai'n fuddiol i unigolion, nad ydyn nhw wedi cynnal gweithgareddau asesu yng Nghymru o'r blaen, fod yn ymwybodol o'r iaith Gymraeg a diwylliant, polisïau a chyd-destun Cymru i'w cefnogi yn eu swyddi.

## Datblygiad Proffesiynol Parhaus

Disgwylir i ganolfannau gynorthwyo eu staff i sicrhau bod eu gwybodaeth a'u cymhwysedd yn y maes galwedigaethol ac o ran ymarfer gorau wrth gyflwyno, mentora, hyfforddi, asesu a sicrhau ansawdd yn gyfredol a'u bod yn ystyried unrhyw ddatblygiadau cenedlaethol neu ddeddfwriaethol.

© WJEC CBAC Ltd.

# 3 Cyflwyno'r cymhwyster

## Gofynion cofrestru dysgwyr

Er nad yw'r Consortiwm yn gosod gofynion cofrestru ar gyfer y cymhwyster hwn, rhaid i ganolfannau sicrhau bod gan ddysgwyr y potensial a'r cyfle i ennill y cymhwyster yn llwyddiannus.

Argymhellir yn gryf y dylai dysgwr sy'n dilyn y cymhwyster hwn fod wedi cwblhau, neu'n cwblhau ar hyn o bryd, y cymhwyster Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Craidd.

## Cyfyngiadau oedran

Mae'r cymhwyster hwn wedi'i gymeradwyo i ddysgwyr 16 oed a throsodd. Ni all y Consortiwm dderbyn unrhyw gofrestriad i ddysgwyr o dan 16 oed.

## Cofrestru Dysgwyr

Bydd canolfannau'n defnyddio prosesau cofrestru safonol CBAC i gofrestru dysgwyr am y cymhwyster hwn. Mae rhifyn cyfredol dogfen Dulliau Cofrestru a Gwybodaeth am y Codau CBAC yn rhoi'r dulliau cofrestru diweddaraf.

## Asesu cychwynnol a sefydlu

Dylid cynnal asesiad cychwynnol o bob dysgwr cyn dechrau'r rhaglen er mwyn nodi'r canlynol:

- p'un a oes ganddo unrhyw anghenion penodol o ran hyfforddiant
- unrhyw gefnogaeth ac arweiniad y gallai fod ei angen ar y dysgwr wrth weithio tuag at ennill y cymhwyster
- unrhyw unedau mae'r dysgwr eisoes wedi'u cwblhau, neu gredyd y mae wedi'i gronni sy'n berthnasol i'r cymhwyster
- y math a'r lefel briodol o gymhwyster.

Argymhellir bod canolfannau'n cynnig rhaglen sefydlu fel bod y dysgwr yn deall gofynion y cymhwyster, ei gyfrifoldebau fel dysgwr, a chyfrifoldebau'r ganolfan yn llawn. Gall y wybodaeth hon gael ei chofnodi ar gontract dysgu.

## Lleoliad gwaith

Yn y cymhwyster hwn (yn ôl amodau Meini Prawf Cymeradwyo Cymwysterau Cymru) mae gofyn i **bob ymgeisydd** gyflawni lleoliad gwaith mewn lleoliad gofal plant/iechyd plant priodol. Drwy gymryd rhan mewn lleoliad gwaith bydd digon o gyfleoedd dysgu i ddangos eu bod yn gymwys ac i allu datblygu'n bersonol ac yn broffesiynol.

Felly, yn ogystal â bodloni'r holl ddeilliannau dysgwyr sy'n rhan o gynnwys y cymhwyster, bydd angen i ddysgwyr gyflawni'r gofyniad gorfodol yn gweithio mewn lleoliad gwaith am gyfnod lleiaf o 100 diwrnod (700 awr) gyda phlant (0-7 oed 11 mis) i gyflawni'r cymhwyster hwn.

© WJEC CBAC Ltd.

Mae'n bosibl cyflawni'r gofyniad hwn fel a ganlyn:

- gall ymgeiswyr mewn cyflogaeth gysylltiedig fodloni'r gofyniad hwn yn eu gweithle cyn belled â bod eu rôl yn caniatáu iddyn nhw fodloni'r holl feini prawf asesu angenrheidiol ar gyfer yr unedau maen nhw'n gweithio tuag atyn nhw.
- gall ymgeiswyr nad ydyn nhw wedi'u cyflogi yn y sector gofal plant fodloni'r gofyniad hwn drwy leoliad(au) gwaith di-dâl fel rhan hanfodol o'r cwrs
- gellir ymgymryd â lleoliad gwaith mewn unrhyw leoliadau gofal plant neu iechyd plant wedi'u rheoleiddio lle gall dysgwyr weithio gyda phlant 0-7 oed 11 mis
- gellir ymgymryd â lleoliad gwaith mewn mwy nag un lleoliad gofal plant neu iechyd plant wedi'i reoleiddio os yw'n briodol gwneud hynny er mwyn sicrhau bod modd i ddysgwyr fodloni'r holl feini prawf asesu gofynnol i'r unedau maen nhw'n gweithio tuag atyn nhw
- dylid ond defnyddio lleoliadau mewn ysgolion os yw'r lleoliad hwnnw'n caniatáu i ddysgwyr ennill profiad gyda phlant 0-7 oed 11 mis.  Rhaid i'r lleoliad ganiatáu cyfle i'r dysgwyr fodloni holl feini prawf/gofynion asesu'r unedau Grŵp Gorfodol 1, o leiaf **un** o unedau dewisol Grŵp A sef unedau 304, 305 neu 306, ynghyd â'r holl feini prawf/gofynion asesu ar gyfer yr unedau o'u dewis o Grwpiau A, B a C. Bydd angen i'r athro/tiwtor yn y ganolfan neu'r aseswr yn y gweithle gynnig cefnogaeth briodol i unrhyw ddysgwyr y mae angen trefniadau mynediad arnyn nhw fel y gallan nhw gymryd rhan mewn lleoliad gwaith ystyrlon*. Bydd angen sicrhau bod unrhyw leoliad yn cael gwybod am unrhyw drefniant mynediad sydd ei angen ar gyfer unrhyw un fydd yn dod yno ar leoliad gwaith a'u bod yn cytuno i gynnig cefnogaeth fel y gallen nhw.

**I fod yn ystyrlon, dylai'r plant y mae angen cefnogaeth arnyn nhw, a'u gofalwyr a chynrychiolwyr, fod yn rhan o'r profiad gwaith o'r cychwyn. O wneud hynny, mae'n bosibl cael y safbwyntiau pwysig hyn yn gynnar yn y broses ddysgu ac yn ffordd o gefnogi dealltwriaeth o werthoedd a chyd-destun Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant.*

**Nid** yw'n bosibl bodloni'r gofyniad 100 diwrnod (700 awr) drwy dreulio amser gyda phlant yn nheulu/teulu estynedig y dysgwr neu drwy warchod plant cymdogion, ffrindiau neu ar sail trefniadau anffurfiol eraill.

Mae'r canllaw lleoliad gwaith a gyhoeddir ar y cyd gan Gofal Cymdeithasol Cymru ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru yn rhoi gwybodaeth bellach ar gyfer cyflogwyr:
Canllaw lleoliad gwaith i gyflogwyr, darparwyr dysgu… | Gofal Cymdeithasol Cymru.

## Deunyddiau cefnogi

Mae'r adnoddau canlynol ar gael ar gyfer y cymhwyster hwn:

| Disgrifiad | Sut i gael mynediad |
|---|---|
| Pecyn asesu | Gwefan y Consortiwm |
| Canllaw i'r Tiwtor/Aseswr (Ymarfer) | Gwefan y Consortiwm |
| Canllawiau Addysgu  (Grŵp Gorfodol 2) | Gwefan y Consortiwm |
| Canllaw i Fyfyrwyr | Gwefan y Consortiwm |
| Deunyddiau Asesu Enghreifftiol | Gwefan y Consortiwm |

© WJEC CBAC Ltd.

## Cyfyngiadau amser

Rhaid rhoi'r cyfyngiadau canlynol ar waith wrth asesu'r cymhwyster hwn:

- rhaid cyflawni pob uned a chwblhau ac asesu gofynion cysylltiedig o fewn cyfnod ymrestru'r dysgwr.

## Cydnabod dysgu blaenorol (CDB)

Ystyr cydnabod dysgu blaenorol yw defnyddio profiad blaenorol neu gymwysterau y mae'r unigolyn eisoes wedi'u hennill i gyfrannu tuag at gymhwyster newydd. Caniateir cydnabod dysgu blaenorol ar gyfer y cymhwyster hwn.

I gael gwybod mwy am gydnabod dysgu blaenorol a pholisi cydnabod dysgu blaenorol y consortiwm, gweler y Llawlyfr Gweinyddu sydd ar gael ar wefan y consortiwm yn www.dysguiechydagofal.cymru

© WJEC CBAC Ltd.

# 4 Asesu a Sicrhau Ansawdd

## Crynodeb o ddulliau asesu

Mae'r cymhwyster Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori yn cael ei asesu drwy asesiad mewnol (70%) ac asesiad allanol (30%). Rhaid i ymgeiswyr gwblhau'r canlynol yn llwyddiannus:

- cyfres o dasgau strwythuredig ar gyfer unedau ymarfer, wedi'u gosod yn allanol a'u marcio'n fewnol
- portffolio o dystiolaeth ar gyfer unedau ymarfer
- trafodaeth broffesiynol ar gyfer unedau ymarfer
- portffolio o dystiolaeth ar gyfer uned 332

Rhaid cofrestru ymgeiswyr ar gyfer:

- yr arholiad allanol
- yr ymchwiliad estynedig wedi'i osod a'i farcio'n allanol

a chyflawni'r lleiafswm marciau GMU sy'n ofynnol ar gyfer gradd y cymhwyster.

## Asesiad Mewnol

Gellir lawrlwytho pecyn asesu sy'n nodi gofynion yr asesiad mewnol o wefan y Consortiwm.

## Defnydd o efelychu yn yr unedau ymarfer

Creu sefyllfa artiffisial at bwrpasau asesu yw efelychu. Dylai unrhyw efelychu gael ei gyfyngu i gael tystiolaeth lle nad yw'n bosibl ei gynhyrchu'n naturiol drwy weithgareddau gwaith arferol (e.e. oherwydd pryderon yn ymwneud ag iechyd a diogelwch).

Yn y cymhwyster hwn, **ni** chaniateir efelychu ar gyfer y tasgau strwythuredig.

Caniateir efelychu er mwyn cynhyrchu tystiolaeth o unedau unigol ar gyfer y portffolio, **dim ond** lle nodir hyn yn benodol yng ngofynion tystiolaeth unedau unigol. Os bydd defnydd o efelychu, rhaid i hynny ddigwydd mewn amgylchedd gwaith realistig.

Yn y cyd-destun hwn, diffinnir amgylchedd gwaith realistig fel un sy'n dynwared amodau a rheolaethau amgylchedd gwaith go iawn. Er enghraifft, pe byddai ymgeisydd am efelychu gwneud mesuriadau clinigol, yna dylid gwneud hynny mewn amgylchedd clinigol realistig, yn hytrach nag mewn amgylchedd heb gysylltiad o gwbl e.e. ystafell ddosbarth, ystafell staff ac ati.

## Asesu Uned 332

Mae gofyn i ymgeiswyr gynhyrchu portffolio i ddangos eu bod wedi bodloni'r meini prawf asesu yn uned 332. **Rhaid** coladu ac asesu'r portffolio o dystiolaeth hwn yn annibynnol ar y portffolio o dystiolaeth a gynhyrchwyd ar gyfer yr unedau ymarfer. Gall ymgeiswyr gynnwys amrywiaeth o ddulliau asesu yn eu portffolio uned 332 i ddangos tystiolaeth o'u sgiliau er enghraifft projectau, cyfrifon adfyfyriol, arsylwadau, a thystiolaeth tystion. Caniateir efelychu fel yr amlinellir yng nghanllawiau cyflwyno'r uned. Bydd canolfannau'n asesu ac yn sicrhau ansawdd y portffolio hwn yn fewnol, gyda Swyddogion Sicrhau Ansawdd Allanol CBAC yn asesu ei ansawdd yn allanol.

© WJEC CBAC Ltd.

Ni ellir defnyddio'r dystiolaeth a gynhyrchwyd ar gyfer uned 332 tuag at tasgau strwythuredig yr unedau ymarfer na'r porffolio tystiolaeth ar gyfer yr unedau ymarfer.

Mae Uned 332 yn caniatáu efelychu fel yr amlinellir yng nghanllawiau cyflwyno'r uned.

## Sicrhau ansawdd mewnol

Rhaid i bob canolfan gael strategaeth Sicrhau Ansawdd Mewnol ysgrifenedig.
Bydd strategaeth o'r fath yn sicrhau bod gweithdrefnau sicrhau ansawdd mewnol yn:

- sicrhau cywirdeb a chysondeb rhwng Aseswyr o ran defnyddio a dehongli'r canllawiau yn nogfennaeth y cymhwyster a/neu'r asesiad
- effeithlon ac yn gost effeithiol.

Rhaid i unrhyw ofynion sicrhau ansawdd mewnol fodloni'r polisïau a'r arweiniad a amlinellir yng nghanllawiau'r Consortiwm i ganolfannau. Mae manylion y dogfennau canllawiau hyn i'w cael yn y Llawlyfr Gweinyddu sydd i'w weld ar wefan y Consortiwm yn www.dysguiechydagofal.cymru.

## Apêl fewnol

Dylai canolfannau fod wedi rhoi proses fewnol ar waith er mwyn i ddysgwyr apelio yn erbyn y ffordd mae asesiadau'n cael eu marcio'n fewnol. Rhaid i'r broses fewnol gynnwys rhoi gwybod i ddysgwyr am y canlyniadau mae'r ganolfan wedi'u rhoi ar gyfer elfennau a asesir yn fewnol, gan y bydd angen y rhain arnyn nhw i benderfynu a ydyn nhw am apelio ai peidio.

## Ffactorau sy'n effeithio ar ddysgwyr unigol

Os bydd gwaith yn cael ei golli, dylid rhoi gwybod i CBAC yn syth am ddyddiad colli'r gwaith, sut digwyddodd hyn, a phwy oedd yn gyfrifol am ei golli. Dylai canolfannau ddefnyddio ffurflen y CGC, JCQ/LCW, i roi gwybod i CBAC am yr amgylchiadau.

Mae'n bosibl y bydd angen sylw unigol ar ddysgwyr sy'n symud o un ganolfan i ganolfan arall yn ystod y cwrs. Mae'r camau gweithredu posibl yn dibynnu ar yr adeg pan mae'r dysgwr yn symud. Dylai canolfannau gysylltu â CBAC cyn gynted â phosibl i ofyn am gyngor ar drefniadau priodol mewn achosion unigol.

## Camymddwyn

Dylid cyfeirio at ddogfen CBAC *Camymddwyn – Canllaw i ganolfannau* a dogfen y CGC *Amau Camymddwyn mewn Arholiadau ac Asesiadau: Polisïau a Gweithdrefnau.* Mae'r dogfennau hyn yn nodi'r gweithdrefnau i'w dilyn er mwyn adnabod achosion o gamymddwyn gan ddysgwyr a/neu staff canolfan a rhoi gwybod amdanyn nhw, a'r camau y gall CBAC eu cymryd ar ôl hynny. Mae'r dogfennau yn cynnwys enghreifftiau o gamymddwyn gan ddysgwyr a chanolfannau ac yn esbonio cyfrifoldebau staff canolfannau i roi gwybod am gamymddwyn gwirioneddol neu gamymddwyn a amheuir. Gall canolfannau weld y ddogfen hon ar y gwefannau: www.cbac.co.uk a www.jcq.org.uk.

Nodir enghreifftiau o gamymddwyn gan ddysgwyr isod (sylwer nad yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr):

- ffugio tystiolaeth asesu neu ddogfennau canlyniadau
- llên-ladrad o unrhyw fath
- cydgynllwynio ag eraill

© WJEC CBAC Ltd.

- copïo gwaith dysgwr arall (gan gynnwys defnyddio TGCh er mwyn helpu i wneud hynny), neu ganiatáu i waith gael ei gopïo
- dinistrio gwaith rhywun arall yn fwriadol
- datganiadau dilysrwydd anwir mewn perthynas ag asesiadau
- personadu.

Mae gweithredu fel hyn yn gyfystyr â chamymddwyn, a bydd cosb (e.e. diarddel o'r asesiad) am wneud hyn.

I roi gwybod am unrhyw gamymddwyn dylid defnyddio'r ffurflenni yn nogfen y CGC: *amau camymddwyn mewn arholiadau ac asesiadau – polisïau a gweithdrefnau.*
www.cbac.co.uk **a** www.jcq.org.uk

## Sicrhau ansawdd trefniadau asesu mewnol yn allanol

Mae prosesau sicrhau ansawdd allanol ar waith i gadarnhau dilysrwydd a dibynadwyedd penderfyniadau asesu sy'n cael eu gwneud gan staff canolfannau, fel sy'n briodol i'r cymhwyster hwn.

Bydd yr asesiad yn cael ei asesu'n fewnol ac yn destun gwaith monitro a samplu seiliedig ar risg gan swyddogion sicrhau ansawdd allanol er mwyn sicrhau bod penderfyniadau asesu canolfannau yn gyson ac yn ddilys. Cyflawnir gweithgareddau sicrhau ansawdd gan swyddogion cyswllt asesu cymwys a hyfforddedig sy'n meddu ar y cymwysterau priodol. Ym mhob achos o samplu'r asesiad mewnol at bwrpasau sicrhau ansawdd, rhoddir adborth ysgrifenedig ffurfiol gan CBAC.

Bydd y consortiwm yn ymchwilio i unrhyw achos sylweddol o ddiffyg cydymffurfio neu unrhyw feysydd sy'n peri pryder a nodir wrth fonitro'n allanol. O ganlyniad i'r gweithgarwch hwn, gellir gweithredu a/neu osod sancsiynau priodol. Mewn rhai achosion gall ymchwiliadau arwain at ddadgofrestru'r ganolfan/canolfannau dan sylw.

I gael rhagor o wybodaeth am y broses monitro allanol, gweler y Llawlyfr Gweinyddu sydd ar gael ar wefan y Consortiwm yn **www.dysguiechydagofal.cymru.**

© WJEC CBAC Ltd.

## Asesiad Allanol (Unedau 330 a 331)

Asesir Unedau 330 a 331 drwy ddau asesiad allanol.

Yn yr asesiad o'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth sy'n ofynnol yn Unedau 330 a 331, targedir yr amcanion asesu canlynol i gyfateb i'r pwysoli a nodir:

| Asesiad Amcanion | Gofynion | Pwysoli | Uned 330 (Arholiad Ysgrifenedig) | Uned 331 Ymchwiliad estynedig |
|---|---|---|---|---|
| **AA1** | Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o amrywiaeth o gysyniadau, gwerthoedd a materion allweddol sy'n berthnasol i leoliadau a chyd-destunau gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant. | Lleiafswm 20% | 31-36% | 9% |
| **AA2** | I ddadansoddi ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth (eu rhai eu hunain a rhai eraill) o fewn gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant. | Lleiafswm 25% | 31-36% | 42% |
| **AA3** | Mae'n ofynnol i ymgeiswyr ymchwilio a gwerthuso damcaniaethau ac ymarfer sy'n ymwneud â gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant ac adfyfyrio ar sut gallant ddylanwadu ar ymarfer. | Lleiafswm 35% | 33-38% | 49% |

## Arholiad allanol (Uned 330)

Bydd yr arholiad allanol yn cynnwys un papur 120 munud o hyd (i'w sefyll ar bapur neu ar sgrin) a fydd:

- wedi'i osod a'i farcio gan CBAC
- yn asesu cynnwys o destunau 1-5
- yn cynnwys uchafswm o 100 marc
- cynnwys nifer cytbwys o gwestiynau atebion byr ac estynedig, seiliedig ar ddeunydd ysgogi a chyd-destunau cymhwysol
- yn asesu'r tri Amcan Asesu ym mhob cyfres
- yn asesu pob maes testun (1-5) ym mhob cyfres
- yn asesu pob rhan o bob maes testun allweddol dros rychwant oes y fanyleb
- yn cyfateb i'r ystodau marciau canrannol a gytunwyd ar gyfer pob amcan asesu ym mhob fersiwn o'r arholiad
- dim ond yn defnyddio'r berfau gorchymyn sydd ar y rhestr yn Atodiad 2
- yn cael ei raddio ar sail llwyddiant/teilyngdod a rhagoriaeth
- ar gael ym mis Ionawr a Mai/Mehefin o 2022 ymlaen.

© WJEC CBAC Ltd.

Bydd y dyraniad marciau fesul Amcan Asesu ar gyfer pob papur arholiad byw fel a ganlyn:

| | **AA1** | **AA2** | **AA3** |
|---|---|---|---|
| % | 31-36% | 31-36% | 33-38% |
| Marc | 31-36 | 31-36 | 33-38 |

Bydd CBAC yn llunio cynllun marcio a ddefnyddir fel sail ar gyfer marcio'r papurau arholiad ac yn hyfforddi'r arholwyr gan ddefnyddio sgriptiau go iawn wedi'u cwblhau cyn i'r arholiad gael ei farcio. Bydd hyn yn sicrhau manwl gywirdeb; bod pob ateb cywir posibl yn ennill marciau a chysondeb ar draws y tîm arholi.

## Ymchwiliad Estynedig (Uned 331)

Mae gofyn i ymgeiswyr gyflawni ymchwiliad estynedig yn seiliedig ar destun penodol. Pwrpas yr ymchwiliad hwn yw galluogi dysgwyr i gynnal a dadansoddi tystiolaeth a gasglwyd yn ystod yr ymchwiliad a fydd yn cefnogi'r dysgu o uned 330, yn cysylltu theori ac ymarfer ac yn helpu i baratoi ar gyfer addysg bellach ac addysg uwch (os yw'n gymwys).

Math o asesiad di-arholiad yw'r Ymchwiliad Estynedig a rhaid i ganolfannau ddilyn y cyfarwyddiadau a nodir yn nogfen y CGC 'Cyfarwyddiadau ar gynnal asesiadau di-arholiad' y gellir cael copi ohoni ar wefan y Cyd-gyngor (**www.jcq.org.uk**).

I gydymffurfio â'r cyfarwyddiadau hyn, dylai canolfannau fod â pholisi asesiad dan reolaeth ar waith, a fydd yn cael ei wirio fel rhan o'r polisi cymeradwyo canolfannau a chymwysterau.

Mae tri cham o'r broses asesu di-arholiad sy'n cael eu rheoli:
- gosod yr ymchwiliad
- Cwblhau'r Ymchwiliad
- marcio'r ymchwiliad.

### Gosod yr **ymchwiliad**

Gosodir dau destun gan CBAC bob blwyddyn a ryddheir i ganolfannau drwy wefan ddiogel CBAC ar:
- y dydd Llun cyntaf ym mis Hydref ar gyfer cyfres y Gaeaf
- y dydd Llun cyntaf ym mis Mawrth ar gyfer cyfres yr Haf.

Bydd dysgwyr yn gallu dewis pa un o'r testunau hyn i ymchwilio iddo. Cyfrifoldeb y ganolfan yw sicrhau eu bod wedi cyhoeddi'r testunau cywir ar gyfer y flwyddyn academaidd y cofrestrir dysgwyr ynddi.

### Cwblhau'r Ymchwiliad

Bydd canolfannau yn cael peth hyblygrwydd o ran pryd i drefnu'r asesiad di-arholiad. Bydd angen i ganolfannau sicrhau eu bod wedi cyflwyno Uned 330 cyn rhoi cynnig ar yr Ymchwiliad Estynedig. Gan y bydd yr ymchwiliad yn defnyddio profiad yr ymgeisydd mewn lleoliad gwaith, argymhellir na ddylid rhoi cynnig ar yr Ymchwiliad Estynedig tan y bydd yr ymgeisydd wedi cwblhau'r 700 awr orfodol yn y lleoliad, neu tuag at ddiwedd y cyfnod hwn. Bydd hyn yn sicrhau bod yr ymgeiswyr yn gallu ennill y marciau sydd ar gael a ddyrennir i bob agwedd ar yr ymchwiliad.

Bydd gofyn i ymgeiswyr ddewis pa un o'r ddau destun maen nhw'n bwriadu eu hymchwilio. Yna, bydd angen iddyn nhw gynllunio ac ymgymryd ag ymchwil annibynnol.

© WJEC CBAC Ltd.

Bydd yn ofynnol i ganolfannau reoli a chynnal asesiadau mewnol yn unol â'r egwyddorion a amlinellir yn nogfen y CGC: *Cyfarwyddiadau ar gynnal asesiadau di-arholiad*. Mae pum agwedd ar yr ymchwiliad sy'n cael eu rheoli: amser, adnoddau, goruchwyliaeth, cydweithio a threfniadau ailsefyll.

## Amser

Dylai ymgeiswyr dreulio 15 awr ar yr Ymchwiliad Estynedig.

Mae'r amseroedd hyn yn cyfeirio at waith wedi'i gwblhau dan oruchwyliaeth uniongyrchol yn yr ystafell ddosbarth. Mae hefyd yn ofynnol i ymgeiswyr gynnal ymchwil annibynnol nad oes angen iddo gael ei oruchwylio.

## Adnoddau

Caniateir i ymgeiswyr ddefnyddio unrhyw adnoddau sy'n briodol yn eu barn nhw, gan gynnwys y rhyngrwyd, wrth gyflawni eu hymchwil annibynnol.

Wrth gwblhau'r dasg dan reolaeth dan amodau dan oruchwyliaeth, dim ond yr ymchwil a gyflawnwyd ganddyn nhw fydd ar gael i'r ymgeiswyr. Y tiwtor/aseswr sy’n gyfrifol am sicrhau nad yw ymgeiswyr yn mynd ag ymchwil ychwanegol i mewn i’r amgylchedd dan oruchwyliaeth ar ôl dechrau’r dasg.

Cyfrifoldeb y ganolfan yw sicrhau nad yw ymgeiswyr yn cael mwy na'r 15 awr a roddir. Bydd angen llofnodi ffurflen datganiad fel tystiolaeth y cadwyd at yr amod hwn.

Rhaid i'r holl ymchwil a ddefnyddir gan yr ymgeisydd gael ei gadw gan y ganolfan tan ddiwedd y cyfnod asesu a gall CBAC ofyn amdano yn ystod y cyfnod hwn.

Dylai canolfannau gyfeirio at ganllawiau CBAC *Camymddwyn – canllaw i ganolfannau* a chanllawiau'r CGC *Amau Camymddwyn mewn arholiadau ac asesiadau – polisïau a gweithdrefnau* os nad ydynt yn siŵr ynghylch y camau nesaf y dylent eu cymryd.

## Goruchwyliaeth

Rhaid i waith ymgeiswyr aros yn y ganolfan bob amser, a chael ei storio'n ddiogel rhwng sesiynau ar yr amserlen.

Gall athrawon gynnig arweiniad a chefnogaeth i ymgeiswyr er mwyn sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth glir o ofynion ymchwiliad yr asesiad di-arholiad a'r meini prawf marcio cysylltiedig.

Ar ôl cychwyn ar y gwaith, rhaid cyfyngu unrhyw adborth i gynnig cyngor cyffredinol am yr hyn i'w wella. Ni ddylai athrawon roi arweiniad penodol ar sut i wneud y gwelliannau hyn.

Ar ôl cwblhau'r dasg a'i hasesu'n derfynol, ni ellir gwneud unrhyw newidiadau pellach i'r gwaith. Dylai'r athro gofnodi'r amser a dreuliwyd yn gweithio ar ymchwiliad yr asesiad di-arholiad fel log. Mae'n bosibl y bydd CBAC yn gofyn am hwn yn ogystal â'r gwaith a gyflwynwyd. Dylai'r cofnod gael ei fonitro gan y ganolfan er mwyn sicrhau bod ymgeiswyr yn treulio dim mwy na 15 awr yn cwblhau'r dasg.

© WJEC CBAC Ltd.

## Dilysu

Yr athro sy'n gyfrifol am roi gwybod i ymgeiswyr am reoliadau CBAC ynglŷn â chamymddwyn. Rhaid i ymgeiswyr beidio ag ymddwyn yn annheg mewn unrhyw ffordd wrth baratoi gwaith ar gyfer y cymwysterau hyn.

Rhaid i'r ymgeiswyr ddeall y bydd copïo unrhyw ddeunydd yn uniongyrchol o lyfrau neu ffynonellau eraill a'i gyflwyno heb gydnabyddiaeth yn cael ei ystyried yn dwyll bwriadol. Rhaid i ganolfannau roi gwybod i CBAC am unrhyw amheuon o gamymddwyn os yw'r ymgeisydd wedi llofnodi'r datganiad dilysu.

Mae'n bwysig bod gwaith asesu di-arholiad yn cael ei fonitro'n drwyadl gan ganolfannau er mwyn sicrhau mai gwaith yr ymgeiswyr eu hunain ydyw. Dylai canolfannau fonitro gwaith ymgeiswyr drwy wneud y canlynol:

- gadw cofnod gofalus o gynnydd yn ystod y sesiynau a amserlennwyd
- ystyried yn ofalus a yw'r dystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd yn nodweddiadol o allu/cyrhaeddiad yr ymgeiswyr
- cadw gwaith yn ddiogel yn y ganolfan ar ôl i'r dystiolaeth (h.y. yr adroddiad a'r dystiolaeth ategol) gael ei chyflwyno
- sicrhau nad yw gwaith yn cael ei ddychwelyd i'r ymgeisydd i wneud newidiadau.

Mae'n ofynnol i bob ymgeisydd lofnodi mai ei waith ei hun a gyflwynwyd ganddo ac mae'n ofynnol i athrawon gadarnhau mai gwaith yr ymgeisydd dan sylw yn unig yw'r gwaith a aseswyd a'i fod wedi'i gyflawni dan yr amodau gofynnol.

## Cydweithio

Ni ddylai ymgeiswyr gydweithio ar unrhyw aseiniad asesu di-arholiad.

## Marcio'r Ymchwiliad

Bydd yr ymchwiliad estynedig yn cael ei farcio gan CBAC. Rhaid i ganolfannau sicrhau bod gwaith dysgwyr yn cael ei gyflwyno i'w farcio'n allanol erbyn y terfynau amser a nodir yn y ddogfen *Amserlenni Arholiadau a Therfynau Amser Asesu Di-arholiad* a gyhoeddir yn flynyddol gan CBAC.

Am ragor o fanylion, gweler y wybodaeth yn Uned 331 ar dudalen 237.

## Trefniadau Mynediad Ac Ystyriaeth Arbennig

Ystyr trefniadau mynediad yw rhoi addasiadau i ddysgwyr ag anableddau, anghenion addysgol arbennig ac anafiadau dros dro sy'n eu galluogi i sefyll yr asesiad a dangos eu sgiliau a'u gwybodaeth heb newid gofynion yr asesiad. Rhaid i'r trefniadau hyn gael eu gwneud cyn i asesiad gael ei gynnal.

Cyfrifoldeb y ganolfan yw sicrhau ar ddechrau rhaglen ddysgu y bydd y dysgwyr yn cael cyfle i fodloni gofynion y cymhwyster.

Gweler *Trefniadau Mynediad, Addasiadau Rhesymol ac Ystyriaeth Arbennig* y CGC a *Trefniadau Mynediad - pa bryd a sut mae angen cyflwyno ceisiadau i CBAC* am ragor o wybodaeth. Mae'r rhain ar gael ar wefan CBAC: **https://www.cbac.co.uk/**.

© WJEC CBAC Ltd.

## Ystyriaeth Arbennig

Gallwn roi ystyriaeth arbennig i ddysgwyr sydd wedi cael afiechyd, anaf neu anhwylder dros dro ar adeg yr asesiad. Lle y byddwn yn gwneud hyn, bydd yn digwydd ar ôl yr asesiad.

Dylai'r Swyddog Arholiadau yn y ganolfan gyflwyno ceisiadau am drefniadau mynediad neu ystyriaeth arbennig i CBAC. Am ragor o wybodaeth, gweler y fersiwn cyfredol o ddogfen y CGC, *A guide to the special consideration process (Canllaw i'r broses ystyriaeth arbennig* – yn Gymraeg ar wefan CBAC. Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan y CGC: **www.jcq.org.uk**.

© WJEC CBAC Ltd.

# 5. Graddio a Dyfarnu'r Cymhwyster

## Deilliannau'r Unedau

Mae graddau Llwyddo, Teilyngdod a Rhagoriaeth ar gael am gyflawni unedau.
Mae'r unedau ymarfer ac uned 332 yn cael eu graddio ar sail llwyddiant/methiant.

Caiff y marc ffin gradd ar gyfer pob gradd a ddyfernir ar gyfer unedau 330 a 331 eu pennu fel rhan o'r broses ddyfarnu ar ôl i ymgeiswyr sefyll pob asesiad byw.

## Ailsefyll

Gall ymgeiswyr ailsefyll yr arholiad allanol (uned 330) ddwywaith a'r ymchwiliad estynedig (uned 331) unwaith a bydd y sgôr marc unffurf gorau cyn cyfrannu at ddyfarnu'r cymhwyster. Fodd bynnag, os rhoddwyd tri chynnig ar yr arholiad allanol ac ymgeisydd am gofrestru am yr uned am y pedwerydd tro, neu os rhoddwyd dau gynnig ar yr ymchwiliad estynedig a'r ymgeisydd am gofrestru am yr uned am y trydydd tro, yna bydd yn rhaid i'r ymgeisydd ailgofrestru am y ddwy uned allanol a'r cyfnewid priodol. Cyfeirir at hyn fel 'dechrau o'r newydd'. Pan fydd ymgeisydd yn ailsefyll cymhwyster (dechrau o'r newydd), gall roi hyd at ddau gynnig arall ar bob uned. Fodd bynnag, ni ellir defnyddio canlyniadau o unedau a safwyd cyn dechrau o'r newydd wrth agregu'r radd (graddau) newydd.

Gellir trosglwyddo marciau'r uned a asesir yn fewnol dros gyfnod oes y fanyleb. Fodd bynnag, lle cyflawnodd ymgeisydd yr unedau ymarfer fwy na thair blynedd cyn ardystio'r cymhwyster, yna rydym yn cadw'r hawl i gynnal proses sicrhau ansawdd allanol i gadarnhau bod y cyflawniad hwn yn dal i fod yn ddilys.

## Graddio'r cymhwyster

Dyfernir cymhwyster CBAC Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori ar raddfa o chwe phwynt: A*-E. Bydd dysgwyr na fyddan nhw'n cyrraedd y safon ofynnol ar gyfer gradd E yn cael gradd U (annosbarthedig) ac ni fyddant yn cael tystysgrif cymhwyster.

Defnyddir y Raddfa Marciau Unffurf (GMU) mewn manylebau unedol fel ffordd o adrodd, cofnodi a chyfansymio canlyniadau asesiadau uned ymgeiswyr. Mae'r GMU yn cael ei defnyddio fel y bydd ymgeiswyr sy'n cyrraedd yr un safon yn cael yr un marc unffurf, pryd bynnag y cymerwyd yr uned.

Mae marciau unffurf yn cyfateb i raddau uned fel a ganlyn:

| Pwysoli'r unedau | Uchafswm marciau unffurf uned | Ffiniau graddau GMU | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Rh (D) | T (M) | Ll (P) |
| **Uned 330** | 100 | 80 | 60 | 40 |
| **Uned 331** | 100 | 80 | 60 | 40 |

© WJEC CBAC Ltd.

Bydd gradd y cymhwyster yn seiliedig ar farc GMU cyffredinol y dysgwyr. Er mwyn cyflawni gradd A*, mae'n rhaid i'r dysgwyr gyflawni:

(i) gradd Llwyddiant yn yr unedau ymarfer ac yn uned 332, a
(ii) ennill y marc GMU lleiaf ar gyfer gradd y cymhwyster. Bydd marciau unffurf a enillwyd am unedau 330 a 331 yn cael eu hadio at ei gilydd a bydd gradd y cymhwyster yn seiliedig ar y cyfanswm GMU hwn.

Dim ond ar lefel cymhwyster mae gradd A* ar gael. Nid oes A* ar lefel uned.

| | Gradd y cymhwyster | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Uchaf. GMU | A* | A | B | C | D | E |
| 200 | 180 | 160 | 140 | 120 | 100 | 80 |

© WJEC CBAC Ltd.

# 6 UNEDAU

## Mae'r holl unedau wedi'u cynnwys yn y llawlyfr cymhwyster hwn.

| Rhif yr Uned | Teitl yr uned |
|---|---|
| 300 | Hybu ymarfer craidd yn y maes gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant |
| 301 | Hybu chwarae, dysgu, twf a datblygiad |
| 302 | Hybu maeth a hydradu yn y blynyddoedd cynnar |
| 303 | Ymateb i afiechyd, pla/haint, clefyd ac imiwneiddio mewn plentyndod |
| 304 | Hybu gofal plant 0-2 oed |
| 305 | Hybu gofal plant 2-3 oed |
| 306 | Hybu gweithio gyda phlant 3-7 oed |
| 307 | Hybu'r broses o gaffael iaith newydd drwy drochi |
| 308 | Cefnogi teuluoedd i feithrin sgiliau rhianta |
| 309 | Hybu a chefnogi lleferydd, iaith a sgiliau cyfathrebu |
| 310 | Dulliau cadarnhaol o gefnogi ymddygiad yn y blynyddoedd cynnar |
| 311 | Cefnogi plant ag anghenion ychwanegol |
| 312 | Cefnogi plant sy'n byw gydag epilepsi |
| 313 | Cefnogi hybu iechyd plant |
| 314 | Monitro glwcos yng ngwaed y capilarïau |
| 315 | Cefnogi plant i fonitro glwcos |
| 316 | Cymryd samplau gwaed gwythiennol gan blant |
| 317 | Rhoi gofal i blant sy'n byw gyda chanser |
| 318 | Gofal lliniarol a gofal diwedd oes i blant a phobl ifanc |
| 319 | Rhoi brechiadau trwynol rhag y ffliw |
| 320 | Rhoi gofal stoma |
| 321 | Gofalu am glwyfau nad ydynt yn rhai cymhleth |
| 322 | Cynnal profion sgrinio golwg |
| 323 | Cynnal profion sgrinio clyw ar gyfer plant oed ysgol |
| 324 | Awtochwistrellu adrenalin |
| 325 | Cefnogi rhieni newydd a darpar rieni |
| 326 | Cyflwyniad i ofal plant yn y cartref |
| 327 | Paratoi ar gyfer ymarfer ym maes gwarchod plant |
| 328 | Hwyluso dysgu mewn grŵp |
| 329 | Cefnogi unigolion drwy fwydo gyda thiwb |
| 334 | Hybu dealltwriaeth plant o gynaliadwyedd yn y blynyddoedd cynnar |
| 336 | Hybu defnyddio technoleg ddigidol gyda phlant yn y blynyddoedd cynnar |

© WJEC CBAC Ltd.

| Rhif yr Uned | Teitl yr uned |
|---|---|
| 337 | Ymarfer sy'n ystyriol o drawma gyda phlant |
| 338 | Hybu defnyddio amgylcheddau awyr agored ar gyfer twf, dysgu a datblygu yn y blynyddoedd cynnar |
| 333 | Sgiliau Astudio |
| 330 | Egwyddorion a damcaniaethau sy'n dylanwadu ar ofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant yn yr 21ain ganrif yng Nghymru. |
| 331 | Ymchwilio i faterion cyfredol ym maes gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant yng Nghymru |
| 332 | Sgiliau Ymarferol Blynyddoedd Cynnar ar gyfer Lleoliad Gwaith (0-7 oed) |
| 208 | Cefnogi plant sy'n byw gyda diabetes mellitus |
| 209 | Ymateb i adweithiau anaffylactig |
| 210 | Cyflwyniad i ddiffyg anadl ac asthma mewn plant |
| 211 | Cefnogi gofal ymataliaeth mewn plant |
| 212 | Cefnogi unigolion o ran symud a lleoli |
| 213 | Cyflwyniad i fesuriadau ffisiolegol mewn plant |
| 214 | Profi pwynt gofal |
| 215 | Casglu sbesimenau |

Gofal Cymdeithasol Cymru ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru a ddatblygodd gynnwys yr unedau ymarfer ac sy'n berchen arno.

Datblygwyd y cynnwys ar y cyd â'r Consortiwm, yn ogystal â rhanddeiliaid, tiwtoriaid, athrawon ac aseswyr yn y gweithle o bob rhan o'r sector iechyd a gofal plant.

© WJEC CBAC Ltd.

## Canllawiau ar gyflwyno cynnwys yr unedau

Mae'r crynodeb canlynol yn rhoi canllawiau ar y gwahanol elfennau sydd i'w cael yn yr unedau a gwybodaeth am gyflwyno'r unedau.

**Cymhwyso uned 300**

Cynnwys yr uned hon yw cymhwyso ymarfer sy'n adlewyrchu'r wybodaeth sylfaenol y bydd y dysgwyr wedi'i meithrin drwy'r cymhwyster Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Craidd.

Bydd angen defnyddio cynnwys uned 300 mewn unedau ar draws y cymhwyster – dylid ystyried hyn yn rhan o'r gwaith paratoi ar gyfer cyflwyno unedau eraill y cymhwyster.

**Crynodeb o'r Uned**

Yn y rhan hon mae crynodeb byr, lefel uchel o gynnwys yr uned gan gynnwys pa wybodaeth ac ymarfer sydd dan sylw. Hefyd, gall y crynodeb o'r uned roi gwybodaeth am fathau o leoliadau y mae'r uned yn berthnasol iddyn nhw neu wedi'i hatal rhag cael ei chyflwyno ynddyn nhw.

**Deilliannau dysgu**

Mae deilliannau dysgu yn grwpio sgiliau ymarferol a/neu wybodaeth gysylltiedig ynghyd ac yn cael eu cyflwyno fel canlyniad y broses ddysgu, h.y. yr hyn mae'n rhaid i ddysgwyr ei ddeall neu allu ei wneud ar ôl yr addysgu a'r dysgu. Mae nifer o feini prawf asesu yn ategu pob deilliant dysgu.

**Meini prawf asesu**

Mae meini prawf asesu'n rhannu'r deilliant dysgu yn feysydd llai i'w cyflawni. Gall meini prawf asesu gael eu hategu gan amrediad, a nodir gan eiriau neu ymadroddion mewn testun **trwm**.

**Amrediad**

Bydd rhai geiriau neu ymadroddion yn y meini prawf asesu mewn testun **trwm**. Mae hyn yn golygu bod amrediad wedi cael ei chyflwyno a fydd i'w gweld ar waelod y deilliant dysgu. Mae'r wybodaeth yn yr amrediad yn trafod pa mor fanwl mae angen bod a faint o fanylion i'w cynnwys ar gyfer meini prawf asesu penodol. Nid yw'r amrediad yn rhestr gynhwysfawr, gallai enghreifftiau eraill fod yn addas i'r maes testun hwn. Y gosodiadau sydd wedi'u cynnwys yn yr amrediad yw'r rheini sy'n allweddol ar gyfer cyflwyno cynnwys yr uned – **rhaid ymdrin â holl elfennau'r rhestr yn yr amrediad fel rhan o gyflwyno'r uned.**

Mae'n ofynnol cyflwyno'r holl elfennau sy'n rhan o'r amrediad, ond nid oes disgwyl arsylwi holl elfennau'r amrediad yn benodol yn rhan o'r broses asesu; mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith mai dyfarniad cyfannol yw'r dyfarniad asesu, a'i fod yn seiliedig ar lefel y deilliant dysgu.

**Gofynion tystiolaeth**

Mae gofynion tystiolaeth yn rhoi manylion am sawl gwaith y mae'n rhaid i ddysgwyr gwblhau gweithgareddau ymarferol cyn yr ystyrir eu bod yn gymwys **os** nad yw'r uned yn cael ei hasesu fel rhan o'r dull asesu cyfannol. Dim ond ar gyfer unedau o fewn Grŵp Dewisol C mae gofynion tystiolaeth wedi cael eu hysgrifennu. Mae manylion llawn y dull asesu ar gyfer y cymhwyster i'w gweld yn adran asesu'r llawlyfr hwn ac yn y pecyn asesu cysylltiedig.

© WJEC CBAC Ltd.

**Canllawiau cyflwyno**

Mae'r canllawiau hyn wedi'u hanelu at diwtoriaid, hyfforddwyr neu hwyluswyr wrth addysgu'r uned ac maen nhw'n cynnwys ystyriaethau penodol ar gyfer cyflwyno cynnwys yr uned lle bo hynny'n berthnasol. Er enghraifft, cysylltiadau y gellir eu gwneud rhwng unedau o fewn y cymhwyster neu enghreifftiau o'r ffordd y gellir cyflwyno'r cynnwys i ddysgwyr.

Mae'r canllawiau cyflwyno yn cynnwys diffiniadau o derminoleg allweddol y cyfeirir ati yn yr uned.

D.S. – Ar gyfer uned 300 mae'r diffiniadau o'r termau sy'n cael eu dangos mewn **print bras** wedi'u cynnwys yn y canllawiau cyflwyno.

**Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS) cysylltiedig**

Cyflwynir y rhain fel canllaw i diwtoriaid, hyfforddwyr neu hwyluswyr sy'n cyflwyno'r cynnwys ac maen nhw'n dangos lle y gall cynnwys yr unedau fod yn berthnasol i Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol cysylltiedig. Dim ond canllaw yw'r rhestr hon ac nid yw'n gynhwysfawr. Nid yw'n ofynnol i Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol gael eu cyflwyno fel rhan o unedau. D.S. – er y gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y rhai a restrir yn gyfredol, mae'n bosibl y bydd fersiynau newydd neu ddiwygiedig o Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol yn disodli'r rhai a restrir.

**Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig**

Cyflwynir y rhain er hwylustod cyfeirio ac er mwyn rhoi cyd-destun i'r uned, a gellir eu defnyddio er mwyn helpu i gyflwyno'r cynnwys a rhoi cyd-destun ehangach. Dim ond canllaw yw'r rhestr hon ac nid yw'n gynhwysfawr. Dylid sicrhau bod yr holl ddeddfwriaeth, canllawiau, gwefannau a dogfennau ac ati a restrir yn gyfredol ac yn berthnasol cyn cyflwyno cynnwys yr uned.

**Arweiniad o ran yr Unedau a Argymhellir**

Argymhellir y dylai dysgwyr sy'n dilyn y cymhwyster hwn gyda'r bwriad o symud ymlaen i rôl benodol yn y sector iechyd a gofal plant gael arweiniad o ran yr unedau a fydd fwyaf buddiol iddyn nhw yn y rolau hyn.

Darperir tabl (Atodiad 1) er mwyn helpu i nodi'r unedau sy'n fwyaf addas ar gyfer rolau penodol.

Gellir cael rhagor o arweiniad ar ofynion rolau penodol yn y sector ar wefan Gofal Cymdeithasol Cymru.
Fframwaith cymwysterau ar gyfer gofal… | Gofal Cymdeithasol Cymru

**Gwerth oriau dysgu dan arweiniad (ODA)**

Mae'r gwerth hwn yn nodi faint o Oriau Dysgu dan Arweiniad y bydd eu hangen ar gyfer cyflwyno uned i ddysgwr, ar gyfartaledd. Mae hyn yn cynnwys cyswllt â thiwtoriaid, hyfforddwyr neu hwyluswyr fel rhan o'r broses ddysgu, a dysgu ffurfiol gan gynnwys dosbarthiadau, sesiynau hyfforddi, seminarau a thiwtorialau. Mae oriau dysgu dan arweiniad yn cael eu talgrynnu i'r pum awr agosaf.

**Gwerth credyd**

Mae'r gwerth hwn yn seiliedig ar yr oriau dysgu dan arweiniad **yn ogystal ag** unrhyw amser dysgu ychwanegol neu weithgareddau ychwanegol y bydd eu hangen ar y dysgwr i gwblhau'r uned. Er enghraifft, gall hyn gynnwys amser ar gyfer dysgu anffurfiol, astudio preifat, ymarfer, adfyfyrio ac ati. Mae cyfanswm yr oriau yn cael ei rannu â 10 i roi'r gwerth credyd. Mae gwerthoedd credyd yn cael eu talgrynnu i'r rhif cyfan agosaf.

© WJEC CBAC Ltd.

# Uned 300 Hybu ymarfer craidd yn y maes gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant

| | |
|---|---|
| **Lefel:** | 3 |
| **ODA:** | 190 |
| **Credyd:** | 20 |
| **Crynodeb o'r Uned:** | Mae cynnwys yr uned hon yn adlewyrchu'r egwyddorion, yr ymddygiadau a'r gwerthoedd sylfaenol y dylid eu harsylwi a'u hadlewyrchu mewn ymarfer ym mhob gweithgaredd iechyd a gofal mae dysgwyr yn ymgymryd â nhw.<br>Mae'r cynnwys hwn yn adeiladu ar y wybodaeth sylfaenol a ddatblygwyd yn y Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Craidd. |

## Deilliant 1: Egwyddorion a gwerthoedd

### 1.1 Deddfwriaeth, polisïau cenedlaethol, canllawiau a fframweithiau

Rydych chi'n gallu gweithio a chefnogi eraill i weithio mewn ffyrdd sy'n:
- Cynnal yr holl Godau Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol yn eich gwaith
- Mewnblannu'r egwyddorion sy'n ategu gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant mewn ymarfer.

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:
- Bod yn fodel rôl ymarfer sy'n mewnblannu egwyddorion sy'n ategu gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant.

### 1.2 Dulliau seiliedig ar hawliau

Rydych chi'n gallu gweithio a chefnogi eraill i weithio mewn ffyrdd sy'n:
- Mewnblannu dull gweithredu seiliedig ar hawliau yn eich ymarfer
- Parchu ac yn hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth tuag at blant, eu teuluoedd/gofalwyr ac eraill.

### 1.3 Dulliau plentyn-ganolog

Rydych chi'n gallu gweithio a chefnogi eraill i weithio mewn ffyrdd sy'n:
- Mewnblannu dulliau gweithredu plentyn-ganolog yn eich ymarfer
- Sicrhau mai buddiannau'r plentyn sy'n cael y lle blaenaf
- Cefnogi plant i gymryd rhan weithredol mewn gweithgareddau a phrofiadau sy'n adlewyrchu eu hoff ddewisiadau.

Rydych chi'n gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:
- Cefnogi dull cydweithredol wrth weithio gyda phlant, eu teuluoedd/gofalwyr
- Cynllunio a darparu gweithgareddau a phrofiadau ac adlewyrchu eu hoff ddewisiadau sy'n ystyrlon ac yn rhoi mwynhad.

### 1.4 Gadael i blant gymryd risgiau

Rydych chi'n gallu gweithio a chefnogi eraill i weithio mewn ffyrdd sy'n:
- Cydbwyso angen y plentyn i arbrofi a chymryd rhai risgiau â'ch dyletswydd chi i'w cadw nhw'n ddiogel

© WJEC CBAC Ltd.

- Goruchwylio plant yn ddiogel tra byddwch yn eu hannog i archwilio ac i gymryd risgiau derbyniol.

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:
- Gwneud asesiadau risg a defnyddio prosesau asesu risg y cytunwyd arnyn nhw sy'n cydbwyso rhagofalon rhesymol â chynnig cyfleoedd ar gyfer datblygiad yn unol â'ch rôl a'ch cyfrifoldebau
- Monitro, gwerthuso ac adolygu asesiadau risg i blant yn unol â'ch rolau a'ch cyfrifoldebau
- Cynnwys teuluoedd/gofalwyr a phlant yn ôl eu hoedran a'u cyfnod datblygiad wrth asesu risgiau.

**1.5 Llesiant**

Rydych chi'n gallu gweithio a chefnogi eraill i weithio mewn ffyrdd sy'n:
- Cefnogi llesiant plant
- Hybu pwysigrwydd teulu/gofalwyr y plentyn a gweithio mewn ffordd sy'n cefnogi ac yn datblygu'r perthnasoedd hyn er lles y plentyn.

**1.6 Perthnasoedd cadarnhaol a ffiniau proffesiynol**

Rydych chi'n gallu gweithio a chefnogi eraill i weithio mewn ffyrdd sy'n:
- Datblygu perthnasoedd cadarnhaol gyda phlant, eu teuluoedd/gofalwyr a gweithwyr proffesiynol ac yn cynnal ffiniau proffesiynol clir ar yr un pryd

**1.7 Cyfathrebu**

Rydych chi'n gallu gweithio a chefnogi eraill i weithio mewn ffyrdd sy'n:
- Adnabod ac yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau cyfathrebu sy'n briodol i anghenion, hoff ddewisiadau, oedrannau, galluoedd a lefelau datblygiad plant
- Dilyn polisïau, gweithdrefnau a phrosesau sefydliad/lleoliad i ymateb i unrhyw newidiadau allweddol neu i adroddiadau am newidiadau i gyfathrebu plentyn
- Mynd ati i hybu amgylchedd tawel a magwrus sy'n galluogi plant i gyfathrebu ac i fynegi eu teimladau
- Mynd ati i gefnogi plant a'u teuluoedd/gofalwyr i gael y ddarpariaeth o'u dewis yn eu dewis iaith.

**Y Gymraeg a diwylliant Cymru**

Rydych chi'n gallu gweithio a chefnogi eraill i weithio mewn ffyrdd sy'n:
- Cadw at ddeddfwriaeth a pholisïau, gweithdrefnau a phrosesau sefydliad/lleoliad ar gyfer y Gymraeg
- Cefnogi plant i ymgymryd â gweithgareddau sy'n meithrin eu sgiliau yn yr iaith Gymraeg a'u dealltwriaeth o ddiwylliant Cymru.
- Mewnblannu dull partneriaeth â theuluoedd/gofalwyr ar gyfer defnyddio a datblygu'r Gymraeg.

**1.9 Dulliau gweithredu cadarnhaol i gefnogi ymddygiad cadarnhaol**

Rydych yn gallu gweithio a chefnogi pobl eraill i weithio mewn ffyrdd sy'n:
- Mewnblannu'r defnydd o ddulliau gweithredu cadarnhaol i gefnogi ymddygiad mewn ymarfer
- Cefnogi datblygiad ymddygiad cadarnhaol
- Defnyddio dulliau cadarnhaol i reoli ymddygiad er mwyn cefnogi datblygiad annibyniaeth, hunan-barch a sgiliau cymdeithasol
- Dilyn polisïau, gweithdrefnau a phrosesau'r sefydliad/lleoliad sydd yn eu lle ar gyfer dulliau cadarnhaol i gefnogi ymddygiad.

© WJEC CBAC Ltd.

### 1.10 Adfyfyrio

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

- Adfyfyrio ar effaith eich agwedd a'ch ymddygiad ar ddysgu, datblygiad ac ymddygiad y plant dan eich gofal.

## Deilliant 2: Iechyd, llesiant, dysgu a datblygiad yn y maes gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant

### 2.1 Ffactorau sy'n effeithio ar iechyd, llesiant, dysgu a datblygiad plant

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

- Ymgymryd ag asesiad o ddatblygiad plant
- Arwain, cynllunio a pharatoi at weithgareddau a phrofiadau sy'n cefnogi cynnydd datblygiadol plant, ar lefel briodol i'w hoedran, eu hanghenion a'u galluoedd yn unol â'ch rôl a'ch cyfrifoldebau
- Datblygu hunan-barch, ymdeimlad o ddiogelwch a pherthyn plant
- Cefnogi plant i adnabod ac i ddathlu eu galluoedd, eu doniau a'u cyflawniadau
- Cefnogi plant i ymgymryd ag amrywiaeth o gyfleoedd chwarae, rhai wedi'u dewis yn rhydd a thrwy weithgareddau o dan arweiniad oedolion
- Ymgysylltu â phlant mewn gweithgareddau a phrofiadau sy'n cefnogi eu dysgu a'u datblygiad
- Cynnig cyfleoedd i blant ddatblygu a gwella eu sgiliau cyfeillgarwch eu hunain
- Monitro, adolygu a gwerthuso'r gweithgareddau a'r profiadau a ddefnyddir i gefnogi datblygiad plant yn unol â'ch rôl a'ch cyfrifoldebau
- Defnyddio polisïau, gweithdrefnau a phrosesau eich sefydliad/lleoliad i gofnodi cynnydd datblygiad plant ac i adrodd amdano.

### 2.2 Amgylcheddau cadarnhaol ar gyfer iechyd, llesiant, datblygiad dysgu a chwarae plant

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

- Cynllunio, paratoi, gweithredu, monitro, adolygu a gwerthuso amgylcheddau diogel ac ysgogol sy'n ateb anghenion iechyd, llesiant, datblygiad ac unigol plant
- Sicrhau bod amgylchedd diogel, gofalgar, meithringar ac ymatebol yn cael ei ddarparu sy'n gwerthfawrogi plant a'u teuluoedd/gofalwyr.

### 2.3 Lleferydd, iaith a chyfathrebu

Rydych chi'n gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

- Cefnogi dull partneriaeth ag eraill i weithredu, monitro ac adolygu cynlluniau i ddatblygu lleferydd, iaith a chyfathrebu plant.

### 2.4 Anghenion cefnogi ychwanegol

Rydych yn gallu gweithio a chefnogi pobl eraill i weithio mewn ffyrdd sy'n:

- Addasu'r cyfathrebu, yr amgylchedd a'r gweithgareddau i gefnogi cynhwysiant a chyfranogiad plant ag anghenion cefnogi ychwanegol gan gynnwys plant mwy abl a thalentog
- Sicrhau bod plant ag anghenion cefnogi ychwanegol yn cael cyfleoedd i gymryd rhan mewn amrywiaeth lawn o weithgareddau a phrofiadau
- Addasu gweithgareddau i gefnogi ac i estyn plant mwy abl a thalentog.

Rydych chi'n gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

- Cefnogi dull partneriaeth ag eraill i weithredu, i fonitro ac i adolygu cynlluniau i gefnogi ac i ddatblygu lleferydd, iaith a chyfathrebu plant sydd ag anghenion cefnogi ychwanegol.

© WJEC CBAC Ltd.

### 2.5 Gofal corfforol plant

Rydych yn gallu gweithio a chefnogi pobl eraill i weithio mewn ffyrdd sy'n:
- Darparu arferion gofal corfforol sy'n ateb anghenion plant mewn ffordd sy'n eu trin ag urddas a pharch
- Darparu arferion gofal corfforol mewn ffordd sy'n diogelu plant ac eraill yn y sefydliad/lleoliad rhag niwed neu gyhuddiadau o niwed.

Rydych chi'n gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:
- Mewnblannu dull partneriaeth â phlant a'u teuluoedd/gofalwyr o ran sut mae ateb anghenion gofal corfforol
- Rhoi cyngor ac arweiniad i deuluoedd/gofalwyr ynghylch ateb anghenion gofal corfforol plant.

### 2.6 Maeth a hydradu

Rydych chi'n gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:
- Ystyried unrhyw ofynion maeth a hydradu penodol i'r plant rydych chi'n eu cefnogi
- Hybu deiet cytbwys a hydradu da i'r plant rydych chi'n eu cefnogi
- Cynnig cefnogaeth ar gyfer deiet cytbwys a hydradiad da.

### 2.7 Rhoi meddyginiaeth

Rydych yn gallu gweithio a chefnogi pobl eraill i weithio mewn ffyrdd sy'n:
- Dilyn polisïau, gweithdrefnau a phrosesau eich sefydliad/lleoliad i gefnogi rhoi a defnyddio meddyginiaeth.

## Deilliant 3: Ymarfer proffesiynol fel gweithiwr yn y maes gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant

### 3.1 Rolau a chyfrifoldebau gweithiwr blynyddoedd cynnar a gofal plant

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:
- Adlewyrchu eich cyfrifoldebau a'ch atebolrwydd proffesiynol i geisio cefnogaeth ychwanegol o fewn eich rôl, eich cyfrifoldebau a'ch arbenigedd eich hun
- Mewnblannu ethos eich sefydliad yn y lleoliad
- Helpu eraill i ddeall ethos a strwythur eich sefydliad
- Ystyried ethos a strwythur sefydliadau eraill rydych chi'n gweithio gyda nhw a'r cysylltiadau â'ch rôl a'ch sefydliad/lleoliad
- Cynnal a hybu ymarfer da drwy roi gwybod am faterion sy'n effeithio ar les a diogelwch plant neu eu teuluoedd/gofalwyr neu am arferion sy'n anniogel neu sy'n gwrthdaro ag ethos, polisïau a gweithdrefnau'r sefydliad/lleoliad
- Gweithredu strategaethau i ymdrin â heriau a wynebwyd yn eich ymarfer
- Dilyn a hybu polisïau, gweithdrefnau a phrosesau'r sefydliad/lleoliad.

Rydych yn gallu gweithio a chefnogi pobl eraill i weithio mewn ffyrdd sy'n:
- Cynnal cyfrinachedd yn eich gwaith o ddydd i ddydd.

### 3.2 Gweithio mewn partneriaeth

Rydych yn gallu gweithio a chefnogi pobl eraill i weithio mewn ffyrdd sy'n:
- Ystyried rolau a chyfrifoldebau eraill yn y sefydliad/lleoliad a gweithwyr proffesiynol eraill
- Cymhwyso egwyddorion gweithio mewn partneriaeth mewn ymarfer
- Cymhwyso egwyddorion cyfrinachedd wrth gyfathrebu ag eraill bob amser
- Datblygu perthnasoedd gwaith da â gweithwyr a gweithwyr proffesiynol eraill a chynnal ffiniau proffesiynol ar yr un pryd

© WJEC CBAC Ltd.

- Cytuno ar ganlyniadau wedi'u rhannu.

**3.3 Gweithio mewn tîm**

Rydych yn gallu gweithio a chefnogi pobl eraill i weithio mewn ffyrdd sy'n:
- Cyfrannu i waith y tîm
- Cyflawni rolau a chyfrifoldebau yn y tîm
- Cefnogi cyfathrebu effeithiol rhwng aelodau eraill y tîm ac â nhw
- Adfyfyrio ar berfformiad unigol a pherfformiad y tîm
- Gwella ymarfer a pherfformiad y tîm.

**3.4 Trin gwybodaeth**

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:
- Dilyn polisïau, gweithdrefnau a phrosesau'r sefydliad/lleoliad wrth ymdrin â gwybodaeth, gan gynnwys: storio, cofnodi, cyfrinachedd a rhannu
- Cofnodi gwybodaeth ysgrifenedig â chywirdeb, eglurder, perthnasedd a lefel briodol o fanylder yn amserol.

**3.5 Ymddygiad personol gweithwyr y blynyddoedd cynnar a gofal plant**

Rydych yn gallu gweithio a chefnogi pobl eraill i weithio mewn ffyrdd sy'n:
- Cynnal a hybu proffesiwn gweithwyr y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant a bod yn fodel rôl o ran arferion gorau yn eich gwaith.

**3.6 Datblygiad Proffesiynol Parhaus**

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:
- Ateb gofynion eich sefydliad/lleoliad o ran dysgu a datblygiad yn eich rôl
- Mynd ati i adnabod eich anghenion dysgu a chefnogi eich hun a datblygu a dilyn cynllun datblygu personol
- Adfyfyrio ar eich ymarfer fel ffordd o gefnogi eich datblygiad proffesiynol
- Dangos sut mae gweithgareddau dysgu wedi gwella eich ymarfer eich hun
- Dangos sut mae adborth gan eraill wedi datblygu eich ymarfer eich hun
- Mynd ati i nodi ac i weithio tuag at nodau a thargedau sy'n ateb eich rolau a'ch cyfrifoldebau
- Paratoi'n weithredol a chyfrannu at drefn oruchwylio ac arfarnu
- Datblygu'r sgiliau llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol sydd eu hangen i fodloni gofynion eich rôl
- Cefnogi eraill i adfyfyrio ar eu hanghenion dysgu ac i weithredu i'w hateb.

## Deilliant 4: Diogelu Plant

**4.1 Diogelu plant rhag niwed, cam-drin neu esgeuluso**

Rydych chi'n gallu gweithio a chefnogi eraill i weithio mewn ffyrdd sy'n:
- Gweithredu arferion sy'n hybu ac yn cefnogi diogelu plant
- Sefydlu, datblygu a chynnal perthnasoedd sy'n cefnogi ymddiriedaeth a chydberthynas â phlant, eu teuluoedd/gofalwyr
- Cefnogi plant i gadw'n ddiogel
- Diogelu yn erbyn honiadau o niwed a cham-drin.

© WJEC CBAC Ltd.

### 4.2 Adrodd a chofnodi mewn perthynas â diogelu

Rydych chi'n gallu gweithio a chefnogi eraill i weithio mewn ffyrdd sy'n:
- Gweithredu polisïau, gweithdrefnau a phrosesau'r sefydliad/lleoliad i gofnodi unrhyw bryderon neu ddigwyddiadau ac i adrodd amdanyn nhw
- Sicrhau bod unrhyw bryderon neu ddigwyddiadau'n cael eu cofnodi'n gywir, yn eglur, yn berthnasol a gyda lefel briodol o ran manylder, a hynny'n amserol
- Dangos eich bod yn gwybod ymhle a sut i gael mynediad i gefnogaeth bersonol ychwanegol os ydych yn delio â materion diogelu.

## Deilliant 5: Iechyd a Diogelwch yn y maes Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant

### 5.1 Iechyd a diogelwch yn y sefydliad/lleoliad

Rydych chi'n gallu gweithio a chefnogi eraill i weithio mewn ffyrdd sy'n:
- Cyflawni cyfrifoldebau yn unol â deddfwriaeth iechyd a diogelwch
- Cadw at bolisïau, gweithdrefnau a phrosesau'r sefydliad/lleoliad ar gyfer iechyd a diogelwch
- Gweithredu polisïau, gweithdrefnau a phrosesau'r sefydliad/lleoliad ar gyfer cofnodi ac adrodd am unrhyw bryderon neu ddigwyddiadau sy'n gysylltiedig ag iechyd a diogelwch
- Monitro ardaloedd gwaith ac arferion gweithio i sicrhau eu bod yn ddiogel a heb beryglon, a chydymffurfio â gofynion cyfreithiol a rhai'r sefydliad/lleoliad.

### 5.2 Asesiadau risg iechyd a diogelwch

Rydych chi'n gallu gweithio a chefnogi eraill i weithio mewn ffyrdd sy'n:
- Sicrhau ymarfer diogel drwy wneud asesiadau risg fel mater o drefn yn unol â'ch rolau a'ch cyfrifoldebau.

### 5.3 Diogelwch tân

Rydych chi'n gallu gweithio a chefnogi eraill i weithio mewn ffyrdd sy'n:
- Cadw at y polisïau, y gweithdrefnau a'r prosesau mae'n rhaid eu dilyn os digwydd tân.

### 5.4 Atal a rheoli heintiau

Rydych chi'n gallu gweithio a chefnogi eraill i weithio mewn ffyrdd sy'n:
- Cynnal arferion hylendid da
- Gweithredu polisïau, gweithdrefnau a phrosesau'r sefydliad/lleoliad ar gyfer atal a rheoli haint
- Dilyn technegau golchi dwylo a ddefnyddir i atal haint rhag lledaenu.

### 5.5 Diogelwch Bwyd

Rydych chi'n gallu gweithio a chefnogi eraill i weithio mewn ffyrdd sy'n:
- Gweithredu polisïau, gweithdrefnau a phrosesau'r sefydliad/lleoliad mewn perthynas â diogelwch bwyd.

### 5.6 Sylweddau Peryglus

Rydych chi'n gallu gweithio a chefnogi eraill i weithio mewn ffyrdd sy'n:
- Cynnal polisïau a gweithdrefnau'r sefydliad/lleoliad ar gyfer storio, defnyddio a gwaredu sylweddau sy'n beryglus i iechyd.

### 5.7 Diogeledd yn y sefydliad/lleoliad

Rydych chi'n gallu gweithio a chefnogi eraill i weithio mewn ffyrdd sy'n:
- Dilyn y trefniadau sydd ar waith i sicrhau eich bod chi, plant a phobl eraill yn ddiogel yn y sefydliad/lleoliad

© WJEC CBAC Ltd.

- Cadw at bolisïau, gweithdrefnau a phrosesau'r sefydliad/lleoliad ar gyfer gweithio ar eich pen eich hun, rhoi gwybod lle rydych a mynediad i'r sefydliad/lleoliad
- Cadw at bolisïau, gweithdrefnau a phrosesau ar gyfer rhyddhau plant o'r lleoliad.

**5.8 Rheoli straen**

Rydych chi'n gallu gweithio a chefnogi eraill i weithio mewn ffyrdd sy'n:

- Rheoli llesiant drwy amrywiaeth o fecanweithiau cefnogi.

© WJEC CBAC Ltd.

# Uned 300 Hybu ymarfer craidd yn y maes gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant

## Canllawiau cyflwyno

Mae uned orfodol yn sail i'r cymhwyster Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer – **Hybu ymarfer craidd mewn gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant.**

Mae'r uned hon yn cynnwys pum deilliant sy'n adlewyrchu'r elfennau cymhwyso gwybodaeth sy'n cael sylw yng nghymhwyster **Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Craidd:**
1. Egwyddorion a gwerthoedd
2. Iechyd, llesiant, dysgu a datblygiad
3. Ymarfer proffesiynol yn y blynyddoedd cynnar a gofal plant
4. Diogelu Plant
5. Iechyd a diogelwch

Mae'r pum maes hyn yn adlewyrchu'r egwyddorion craidd sy'n ategu ymarfer pob gweithiwr yn y sector iechyd a gofal plant. Datblygwyd y cynnwys i amlygu'r gwerthoedd craidd, egwyddorion ac ymddygiadau y dylai unrhyw ddysgwr sy'n gweithio mewn rôl Lefel 3 gofal plant eu dangos wrth ei waith bob amser. Fel y cyfryw, mae cynnwys yr uned wedi'i strwythuro'n wahanol i unedau ymarfer eraill. Datblygwyd yr uned hon i adlewyrchu'r dull a ddefnyddir yn yr uned gwybodaeth graidd, gyda chanolbwynt ar ffyrdd o weithio ac ymddygiadau.

## Dull asesu

Bydd y cynnwys gorfodol yn cael ei asesu'n gyfannol yn rhan o'r tasgau strwythuredig. Dylai'r gwerthoedd, egwyddorion ac ymddygiadau sydd wedi'u mewnblannu i ffurfio'r cynnwys gael eu hadlewyrchu ym mhob ymarfer y mae'r dysgwr yn ymgymryd ag ef, gyda thystiolaeth ohonyn nhw i'w gweld yng ngofynion y tasgau strwythuredig.

Mae'n bwysig bod tiwtoriaid ac aseswyr mewnol yn talu sylw os nad yw dysgwr ar unrhyw adeg yn adlewyrchu gwerthoedd, egwyddorion ac ymddygiadau yn yr uned hon wrth eu gwaith. Bydd yn ofynnol wedyn mewnblannu dysgu ymhellach, ac i ddarparu tystiolaeth ychwanegol i ddangos bod y dysgwr wedi datblygu mewn ffordd sy'n adlewyrchu'r gwerthoedd craidd.

Mae **gweithgareddau a phrofiadau** yn cyfeirio at weithgareddau chwarae, dysgu a hamdden sy'n diwallu anghenion y plentyn neu'r person ifanc yr ydych yn gweithio gydag ef ac yn bodloni ei ddewisiadau a'i alluoedd, fel chwarae yn yr awyr agored, chwarae rhydd, chwarae rôl, gwneud marciau, toes chwarae, sgipio, pêl-droed, darllen ac adrodd stori, gweithgareddau TGCh, celf a chrefft.

Dylai'r **Codau Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol** gynnwys Y Cod Ymddygiad Proffesiynol ar gyfer Gofal Cymdeithasol; Cod Ymddygiad y GIG yng Nghymru ar gyfer Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd yng Nghymru lle y bo'n berthnasol.

**Mae'r ddeddfwriaeth, polisïau, canllawiau a fframweithiau cenedlaethol yn cynnwys:**
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a'r saith nod craidd a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru
  Y Saith Nod Craidd:
  - cael dechrau teg mewn bywyd **(y blynyddoedd cynnar)**
  - cael amrywiaeth gynhwysfawr o **gyfleoedd addysg a dysgu**

© WJEC CBAC Ltd.

  - sicrhau eu bod yn mwynhau'r **iechyd gorau posibl a'u bod yn rhydd rhag eu cam-drin, eu herlid a'u camfanteisio**
  - sicrhau eu bod yn cael mynediad i **gyfleoedd chwarae, hamdden, chwaraeon a diwylliannol**
  - cael eu clywed, eu trin â pharch, a bod eu hil a'u hunaniaeth ddiwylliannol yn cael eu cydnabod **(yn gallu cymryd rhan wrth wneud penderfyniadau)**
  - bod ganddyn nhw **gartref a chymuned diogel i gynnal llesiant corfforol ac emosiynol**
  - **nad ydyn nhw o dan anfantais oherwydd tlodi**.
- Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol
- Deddf Hawliau Dynol (1998)
- Deddf Cydraddoldeb (2010)
- Cynllun Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (2013) Llywodraeth Cymru
- Cynllun datblygu 10 mlynedd ar gyfer y gweithlu blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae
- Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol (2022).

**Deddfwriaeth a pholisïau cenedlaethol ar gyfer y Gymraeg yn cynnwys:**
- Cwricwlwm i Gymru, Cwricwlwm am Oes. Llywodraeth Cymru 2015
  **Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050**
- Strategaeth Addysg cyfrwng Cymraeg
- Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg: Y Camau Nesaf
- Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 7) 2018
- Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (lleol)

**Parchu a hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth tuag at blant, eu teuluoedd/gofalwyr ac eraill:**

Mae amrywiaeth o ddeddfwriaeth a chyfarwyddyd yn nodi hawliau plant, yn eu plith:
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (1989)
- Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) (2011)
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (2014)
- Deddf Cydraddoldeb (2010)
- Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant.

Yng Nghymru, mae hawliau plant wedi'u diogelu yn y Saith Nod Craidd i Blant, sy'n gweithredu fel sylfaen ar gyfer eu llesiant a'u datblygiad. Mae'r nodau hyn yn seiliedig ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) ac maent yn rhan annatod o bolisi ac ymarfer yng Nghymru:
1. Dechrau'n Deg mewn Bywyd: Sicrhau bod pob plentyn yn cael dechrau cadarnhaol, a bod y gwasanaethau, y gefnogaeth, a'r cyfleoedd hanfodol ar gael iddynt o'u genedigaeth.
2. Cyfleoedd Addysg a Dysgu Cynhwysfawr: Darparu amrywiaeth eang o brofiadau addysgol, meithrin chwilfrydedd, a hybu dysgu gydol oes.
3. Iechyd a Llesiant Gorau Posibl: Blaenoriaethu iechyd corfforol a meddyliol, maeth, a llesiant cyffredinol i bob plentyn.
4. Chwarae, Chwaraeon, Hamdden, a Diwylliant: Cydnabod bod chwarae yn un o'r hawliau sylfaenol ac annog plant i gymryd rhan mewn chwaraeon, gweithgareddau hamdden, a phrofiadau diwylliannol
5. Amgylchedd Saff a Diogel: Creu amgylchedd amddiffynnol lle mae plant yn teimlo'n saff, yn rhydd rhag niwed, ac yn cael eu cefnogi.
6. Llesiant Economaidd: Mynd i'r afael â thlodi, sicrhau sefydlogrwydd economaidd, a hybu cynhwysiant ariannol i deuluoedd.
7. Cyfranogiad a Llais: grymuso plant i fynegi eu barn, i fod yn rhan o broses gwneud penderfyniadau, a llunio polisïau.

© WJEC CBAC Ltd.

Mae'n bwysig ystyried hawliau plant ym mhob agwedd ar ymarfer gan adfyfyrio ar sut mae'r rhain yn arwain y gwaith mewn ffyrdd sy'n parchu ac yn hybu cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

Mae 'cydraddoldeb' yn golygu bod pawb yn cael yr un cyfleoedd ac yn cael eu trin â'r un parch. Mae cydraddoldeb yn herio gwahaniaethu.

Mae 'amrywiaeth' yn ymwneud â chymysgedd o wahanol fathau o bobl. Er enghraifft, dynion a menywod, pobl ifanc a hen, pobl o hiliau gwahanol, pobl anabl a phobl nad ydynt yn anabl. Mae amrywiaeth yn dathlu gwahaniaethau ac yn adnabod ac yn gwerthfawrogi pa mor unigryw yw pobl.
Ystyr 'cynhwysiant' yw bod pawb yn cael y cyfle i gymryd rhan ac nad ydynt yn cael eu heithrio oherwydd eu bod yn wahanol.
'Gwahaniaethu' yw pan fydd pobl yn cael eu trin yn wahanol oherwydd eu gwahaniaethau.

Deddf Cydraddoldeb 2010 yw'r ddeddfwriaeth/deddf sy'n berthnasol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Mae'n amddiffyn pobl rhag gwahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth. Mae'n gwneud hyn drwy nodi nifer o 'nodweddion gwarchodedig'. Mae gwahaniaethu yn erbyn unigolyn o ganlyniad i'r canlynol yn erbyn y gyfraith:

- oedran (mae pobl ifanc dan 18 oed yn cael eu diogelu rhag gwahaniaethu ar sail oedran mewn perthynas â gwaith yn unig)
- anabledd
- ailbennu rhywedd
- priodas a phartneriaeth sifil
- beichiogrwydd a mamolaeth
- hil
- crefydd neu gred
- rhyw
- cyfeiriadedd rhywiol.

Mae dau fath o wahaniaethu; gwahaniaethu uniongyrchol a gwahaniaethu anuniongyrchol:

Gwahaniaethu uniongyrchol - trin person yn waeth na pherson arall neu bobl eraill oherwydd:

- mae ganddyn nhw nodwedd warchodedig
- mae'r rhywun yn meddwl bod ganddyn nhw nodwedd warchodedig (sy'n cael ei alw'n gwahaniaethu drwy ganfyddiad)
- maen nhw'n gysylltiedig â rhywun sydd â'r nodwedd warchodedig honno (sy'n cael ei alw'n gwahaniaethu drwy gysylltiad).

Gwahaniaethu anuniongyrchol – mae hyn yn digwydd pan fo polisi yn gymwys yn yr un ffordd i bawb ond yn anfanteisio grŵp o bobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig, a'u bod nhw'n cael eu hanfanteisio yn rhan o'r grŵp hwn. Os bydd hyn yn digwydd, rhaid i'r person neu'r sefydliad sy'n cymhwyso'r polisi ddangos bod rheswm da drosto.

- gall 'polisi' gynnwys arfer, rheol neu drefniant
- nid yw'n gwneud unrhyw wahaniaeth p'un a fwriadwyd y polisi i anfanteisio'r person ai peidio.

Gellir hybu cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant drwy ddulliau sy'n canolbwyntio ar y plentyn a byddai'r rhain yn cynnwys:

- trin plant a'u teuluoedd / gofalwyr ag urddas a pharch
- adnabod, gwerthfawrogi a dathlu amrywiaeth
- gwybod beth yw cefndiroedd diwylliannol, crefyddol ac ieithyddol plant a gweithio mewn ffyrdd sy'n ystyried y rhain
- cefnogi cynhwysiant a herio allgáu
- modelu rôl arfer gorau sy'n cefnogi cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

© WJEC CBAC Ltd.

Mae'n bwysig i weithwyr gofal plant beidio â bod yn feirniadol eu hagwedd gan werthfawrogi amrywiaeth ac ethnigrwydd a diwylliant plant a'u teuluoedd. Mae hyn yn cynnwys bod yn ymwybodol o'r iaith a'r termau maen nhw'n eu defnyddio wrth siarad â, neu am, y plant a'r teuluoedd maen nhw'n gweithio gyda nhw a sut mae hyn yn gallu effeithio ar y canfyddiad ohonyn nhw neu sut maen nhw'n teimlo eu bod yn cael eu trin. Dylid defnyddio iaith sy'n parchu pobl ac osgoi iaith sy'n gwahaniaethu er enghraifft:

Dylid osgoi termau fel: Pobl dan anfantais (handicapped) / yr anabl
Dylid defnyddio termau fel: plentyn/person anabl

**Terminoleg ac iaith yn ymwneud â hil ac ethnigrwydd**

Mae nifer sylweddol o eiriau ac ymadroddion yn ymddangos wrth sôn am hil ac ethnigrwydd ac iaith, ac mae hyn yn rhywbeth sy'n parhau i ddatblygu.
Mae'n bwysig deall beth yw ystyr y termau sy'n cael eu defnyddio wrth gyfarch pobl. Dylem fod yn ymwybodol o'r hyn sy'n gyfoes a bod yn barod i ddefnyddio'r termau sy'n briodol ac yn barchus ar y pryd.
Mae'n bwysig cofio hefyd y bydd gan bobl eu dewisiadau penodol eu hunain o ran sut y byddent yn disgrifio eu hunain, a sut y byddent am gael eu disgrifio.

**Hil yn erbyn ethnigrwydd**

Defnyddir hil ac ethnigrwydd fel termau cyffredin gan gyfnewid un am y llall yn aml. Fodd bynnag, datblygodd y ddau derm mewn ffyrdd gwahanol ac nid yw'r un ystyr yn perthyn i'r ddau.

**Hil**

Dull o gategoreiddio sy'n seiliedig yn bennaf ar briodoleddau neu nodweddion corfforol yw hil. Caiff pobl eu neilltuo i hil benodol o fod â'r un edrychiad neu liw croen (er enghraifft, du neu wyn).

Goruchafiaeth pobl wyn sy'n gyfrifol am y categoreiddio hwn a'r ymdrechion i brofi eu bod yn rhagori'n fiolegol ac yn parhau i fod â goruchafiaeth dros bobl eraill.

Derbynnir yn eang erbyn hyn bod hil yn lluniad cymdeithasol. Fodd bynnag, mae hunaniaeth hiliol yn bwysig i lawer oherwydd eu bod wedi cael ac wedi rhannu profiadau cyffredin o hiliaeth. Gall hyn fod yn sail ar gyfer trefnu a chynnig cefnogaeth ar y cyd i unigolion hil leiafrifiedig.

**Ethnigrwydd**
Mae ethnigrwydd yn ehangach na hil. Cafodd ei ddefnyddio fel arfer i gyfeirio at brofiadau diwylliannol sydd wedi'u rhannu, arferion crefyddol, traddodiadau, llinach, iaith, tafodiaith neu darddiad cenedlaethol (er enghraifft, Affricanaidd-Caribïaidd, Indiaidd, Gwyddeleg).

Gellir ystyried ethnigrwydd fel hunaniaeth sy'n fwy cadarnhaol na'r hyn a ffurfiwyd o'r profiadau negyddol o hiliaeth sydd wedi'u rhannu. Mae'n cael ei ddefnyddio'n fwy cyffredin gyda holiaduron amrywiaeth yn y DU yn holi amdano.

**Diffiniadau'r Ddeddf Cydraddoldeb**
Yn Neddf Cydraddoldeb 2010, diffinnir nodwedd warchodedig 'hil' fel un sy'n cynnwys lliw, tarddiad ethnig neu genedlaethol, neu genedligrwydd.

© WJEC CBAC Ltd.

Mae rhywfaint o orgyffwrdd â nodwedd crefydd neu gred hefyd gyda'r Iddewon a'r Sikhiaid yn cael eu hystyried yn grwpiau ethnig dan y ddeddf. Ni chaiff Mwslimiaid eu hystyried yn grŵp ethnig ond yn hytrach yn grŵp crefyddol yn unig dan ddiffiniadau'r ddeddf.

**Braint pobl wyn**

Braint pobl wyn yw'r fantais gynhenid sydd gan bobl wyn o fewn cymdeithas a hynny'n seiliedig ar eu hil yn unig. Gall hyn ymddangos mewn sawl ffordd i bobl wyn fel:

- mae cynrychioliaeth helaeth o bobl sy'n edrych yn debyg iddyn nhw yn y cyfryngau
- gallan nhw ddod o hyd i gynhyrchion sy'n cyfateb i liw eu croen a'r math o wallt sydd ganddyn nhw yn rhwydd
- mae eu hanes yn rhan o'r cwricwlwm addysg
- ar y cyfan mae ganddyn nhw berthynas gadarnhaol â'r heddlu.

Nid yw'r term yn diystyru'r heriau a wynebodd bobl wyn ond mae'n disgrifio'r realiti. Hynny yw, er y gall pobl wyn a phobl o bob hil gael profiadau negyddol ac anfanteisiol tebyg, ni fydd pobl wyn hefyd yn dioddef rhagfarnau hil.

**Gwrth-hiliaeth**

Gall hiliaeth ymwneud â chanlyniadau ein gweithredoedd a gall y canlyniadau hyn ddod o lawer o bethau bach nad yw pobl hyd yn oed yn sylwi eu bod yn eu gwneud, nid ymddygiad hiliol amlwg yn unig. Felly gall fod yn anfwriadol ond gall achosi niwed o hyd.

Mae gwrth-hiliaeth yn ymrwymiad gweithredol i weithio yn erbyn anghyfiawnder a gwahaniaethu hiliol.
Mae'n golygu gwneud penderfyniadau ymwybodol a meddylgar am eich ymddygiadau eich hun a sut maen nhw'n effeithio ac yn dylanwadu'n negyddol ar eich tueddiadau a'ch gweithredoedd eich hun.

Does dim rhaid i chi fod yn gwbl rydd o hiliaeth neu duedd i fod yn wrth-hiliol. Rhan o'r rôl fel unigolyn gwrth-hiliol yw hunanfyfyrio a hunanwella.

Mae rhywun gwrth-hiliol yn wahanol i rywun anhiliol oherwydd natur weithredol y safbwynt. Mae bod yn wrth-hiliol yn golygu eich bod chi'n rhan weithredol o'r ateb, ond mae bod yn anhiliol yn golygu nad ydych chi'n effeithio ar y broblem.
Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu cynllun gweithredu gwrth-hiliaeth, â'r nod o atal ymddygiad hiliol.

**Dulliau plentyn-ganolog** – dyma'r dulliau sy'n cydnabod unigrywiaeth y plentyn yn llawn. Hynny wedyn sy'n ategu’r dasg o gynllunio a darparu gofal a chymorth.

**RISG: Wrth drafod cymryd risgiau gallai'r mathau o risgiau i'w cefnogi gynnwys:**

- risgiau corfforol
- risgiau emosiynol
- risgiau ymddygiadol
- risgiau amgylcheddol.

Mae cymryd risg yn rhan bwysig o ddatblygiad plentyn. Mae angen i weithwyr wybod sut i gefnogi plant i gymryd risgiau diogel.

© WJEC CBAC Ltd.

**Llesiant:** gallai ffyrdd o weithio mewn ffyrdd sy'n cefnogi llesiant gynnwys:
- hybu llais a rheolaeth
- atal ac ymyrryd yn gynnar
- dulliau cydgynhyrchiol
- gweithio amlasiantaethol
- dulliau plentyn-ganolog
- dulliau gweithredu seiliedig ar hawliau
- cefnogi cymryd risg mewn ffordd gadarnhaol
- trin plant a'u teuluoedd / gofalwyr ag urddas a pharch.

**Gallai gweithgareddau sy'n datblygu sgiliau iaith Gymraeg a dealltwriaeth o ddiwylliant Cymru gynnwys:**
- gemau grŵp
- canu a chaneuon actol
- adrodd stori
- rhigymau
- arddangosfeydd rhyngweithiol
- lluniau a labelu
- chwarae llawn dychymyg a chwarae rôl
- cyfryngau a TGCh.

Gallai'r rhain ddod yn rhan naturiol o weithgareddau o ddydd i ddydd yn y Gymraeg a /neu'n rhan o amser strwythuredig sy'n cael ei gynllunio ar gyfer datblygu'r Gymraeg.

**Sut gallai profiadau bywyd a chredoau personol effeithio ar eich gwaith eich hun:** byddai'n cynnwys eu gwerthoedd eu hunain, normau diwylliannol, credoau crefyddol a barnau gan gynnwys tuedd ddiarwybod. Mae tuedd ddiarwybod yn cyfeirio at ffurfiau diarwybod o ragfarn, gwahaniaethu a stereoteipio yn seiliedig ar hil, rhywedd, hunaniaeth rywiol, ethnigrwydd, gallu, oedran ac ati.

Mae tueddiadau a rhagfarnau yn aml yn datblygu yn ystod plentyndod cynnar gan rieni, y systemau addysg, y cyfryngau a phrofiadau personol. Gall pawb feddwl mewn ffordd sy'n cynnwys tuedd ddiarwybod ar ryw adeg ond mae'n bwysig ceisio bod yn ymwybodol o hynny a pheidio â gadael iddo effeithio ar ein hymddygiad.

Mae gan bawb gredoau, gwerthoedd a phrofiadau bywyd gwahanol, gan ddeall eu meddyliau, eu teimladau, eu gwerthoedd, eu credoau a'u gwerthoedd eu hunain ac mae sicrhau nad yw'r rhain yn effeithio'n negyddol ar blant a'u teuluoedd yn hanfodol ar gyfer arfer plentyn-ganolog.

Gallai'r **ffactorau sy'n effeithio ar iechyd, llesiant, dysgu a datblygiad** gynnwys: amgylchiadau niweidiol neu drawma cyn neu yn ystod genedigaeth; ymlyniad; cyflwr sbectrwm awtistig; amgylchiadau teuluol; niwed neu gam-drin; anaf; anabledd dysgu; cyflyrau meddygol (cronig neu acíwt); iechyd meddwl; (gan gynnwys hunan-niweidio ac anorecsia); anabledd corfforol; afiechyd corfforol; amharu ar leoliad; tlodi; anghenion dwys neu gymhleth; anghenion synhwyraidd; sefydlogrwydd; amddifadedd cymdeithasol; camddefnyddio sylweddau. Bydd unrhyw rai o'r ffactorau hyn yn effeithio ar ddatblygiad plant.

**Cefnogi plant i ymgymryd ag amrywiaeth o gyfleoedd chwarae –** mae chwarae yn bwysig i ddatblygiad cyfannol plant, gall atgyfnerthu bondio a helpu i feithrin dealltwriaeth o'r byd o'u hamgylch.

© WJEC CBAC Ltd.

Mae chwarae yn helpu plant a phobl ifanc i ddatblygu ym mhob math o ffyrdd, a all gynnwys:

- sgiliau echddygol
- twf corfforol ac iechyd
- datblygu iaith a chyfathrebu
- sgiliau cymdeithasol
- sgiliau datrys problemau
- iechyd meddwl
- cydnerthedd
- hunan-barch, hunan-dyb, hunan-fri
- hunanddelwedd
- hyder.

Byddai **amrywiaeth o gyfleoedd chwarae** yn cynnwys:

- Chwarae creadigol (yn helpu i ddatblygu sgiliau datrys problemau, sgiliau meddwl, dychymyg, sgiliau cymdeithasol, dealltwriaeth o gysyniadau gwahanol ac yn cefnogi hunanfynegiant)
- Mae chwarae corfforol (yn helpu i ddatblygu sgiliau cymdeithasol, hyder, gwydnwch, sgiliau echddygol, cydsymud, datblygiad cyhyrau a chryfder esgyrn)
- Pa fath o chwarae sy'n fwyaf tebygol o helpu plant / pobl ifanc i ddeall a mynegi eu teimladau, datblygu'n emosiynol, ffurfio syniadau a datblygu sgiliau cymdeithasol)
- Chwarae amgylcheddol (mae'n defnyddio elfennau naturiol, y byd naturiol neu'n cynnwys chwarae yn yr awyr agored)
- Nid yw'n bosibl diffinio chwarae strwythuredig (neu chwarae dan arweiniad athrawon fel 'chwarae' mewn gwirionedd, ond mae oedolion yn gallu cynllunio a rhoi cyfleoedd i blant ddysgu drwy chwarae neu wneud gweithgareddau sy'n gallu gwella eu profiadau a'u datblygiad)
- Chwarae anstrwythuredig/chwarae hunangyfeiriedig (dyma ffyrdd cyffredin o ddiffinio chwarae y mae plant yn cael y rhyddid i'w dewis ac i'w cyfarwyddo)

**Amgylcheddau cadarnhaol ar gyfer iechyd, llesiant, dysgu, datblygiad a chwarae plant** – Mae'r amgylchedd yn bwysig o ran cefnogi ac ymestyn datblygiad a dysgu plant. Gellir disgrifio'r amgylchedd fel yr:

- amgylchedd emosiynol
- amgylchedd awyr agored
- amgylchedd dan do.

Mae'r amgylchedd yn fwy na gofod corfforol gan ei fod yn cynnwys emosiynau'r plant sy'n treulio amser ynddo, ynghyd ag emosiynau pobl eraill, fel y gweithwyr neu deuluoedd. Mae'r amgylchedd emosiynol yn mesur 'teimladau' mewn ffordd anweladwy.

**Amgylchedd emosiynol** – weithiau mae'n gallu cael ffactor 'teimlo'n dda' lle mae'r plant, y gweithwyr a'r teuluoedd yn teimlo'n gadarnhaol, ac ar adegau eraill, efallai nad yw'n teimlo 'mor dda' pan mae plant, gweithwyr neu deuluoedd yn anhapus. Mae'n bwysig bod pawb yn parhau i deimlo'n gadarnhaol, ac os yw plant yn teimlo'n ddiogel yn yr amgylchedd emosiynol, yna gallant fynegi eu teimladau mewn ffordd ddiogel.

**Amgylchedd awyr agored** – mae plant yn elwa o ddysgu yn yr awyr agored. Yn ddelfrydol, dylai ardal awyr agored fod ar gael iddyn nhw bob dydd. Drwy fod yn yr awyr agored gallant symud o gwmpas heb ormod o'r cyfyngiadau sy'n perthyn i fod dan do, gan anadlu awyr iach a defnyddio eu holl synhwyrau i werthfawrogi'r lliwiau, synau, ymdeimlad o ofod a graddfa. Mae bod allan yn yr awyr agored yn cefnogi eu hyder ac yn cynnig y cyfle i chwarae ar raddfa fawr, datrys problemau a chreadigrwydd yng nghwmni plant eraill. Mae gweithgarwch corfforol yn well, a hefyd y gallu i fentro'n well.

© WJEC CBAC Ltd.

**Amgylchedd dan do** – mae amgylcheddau dan do cyfoethog yn fannau cyfforddus, diddorol, deniadol a phriodol i'r plant sydd ynddyn nhw. Gallant effeithio'n syth ar ansawdd datblygiad plant. Mae angen cynllunio lle dan do yn ofalus gan fod angen iddo fod yn hyblyg o ran newidiadau yn niddordebau ac anghenion plant.

Mae amgylchedd effeithiol yn:
- croesawu a meithrin
- ysgogol a diddorol
- rhyngweithiol ac anogol
- cyfforddus
- cynnwys lleoedd gwag tawel a gweithgar
- cynhwysol a hygyrch
- cefnogol ac anfygythiol
- adlewyrchu amrywiaeth
- diogel
- gallu annog annibyniaeth
- cyson
- y tymheredd cywir ac wedi'i awyru'n dda
- yn lân a chael eu cynnal a'u cadw'n dda.

**Anghenion cefnogi ychwanegol:**
Bydd llawer o blant yn derbyn cefnogaeth ychwanegol ar ryw adeg yn eu bywydau er mwyn eu helpu i gymryd rhan mewn gweithgareddau neu addysg ac i gyflawni eu potensial. Gall hyn fod yn rhywbeth tymor hir neu'n rhywbeth tymor byr.

Gall anghenion cefnogi ychwanegol fod yn:
- gorfforol, fel parlys yr ymennydd neu golli golwg
- emosiynol, fel profi trawma
- seicolegol, fel iechyd meddwl gwael
- cymdeithasol, fel anhwylder ymlyniad
- anabledd dysgu, fel Syndrom Down
- anhawster dysgu, fel dyslecsia
- iechyd, fel diabetes.

Ystyrir bod gan blentyn anghenion cefnogi ychwanegol os oes angen rhoi mwy o gymorth i'r plentyn hwnnw na'r hyn a fyddai'n ddisgwyliedig fel arfer i'w hoedran a'u cyfnod datblygiad. Byddai hyn hefyd yn cynnwys plant sy'n fwy abl a thalentog.

**Adfyfyrio ar arfer:**
Mae adfyfyrio'n ddull o werthuso arfer a dysgu drwy brofiad. Hefyd, mae adfyfyrio'n helpu i gynyddu hunanymwybyddiaeth a datblygu dealltwriaeth well o bobl eraill.

Gall adfyfyrio gynnwys:
- Adfyfyrio ar waith – meddwl yn y fan a'r lle wrth i rywbeth ddigwydd ac ailystyried y sefyllfa.
- Adfyfyrio ar weithred – adfyfyrio ar brofiadau neu sefyllfaoedd ar ôl iddyn nhw ddigwydd er mwyn ystyried yr hyn sydd wedi digwydd; pam wnaethon ni weithredu mewn ffordd arbennig, a allen ni fod wedi gweithredu'n wahanol.

Gallwn ddysgu a datblygu arfer o adfyfyrio wrth weithredu ac adfyfyrio ar weithredu.

Cysyniad diweddaru gwybodaeth a sgiliau'n barhaus yw arfer adfyfyriol gan wneud hynny drwy broses o adfyfyrio strwythuredig ar arfer.

© WJEC CBAC Ltd.

**Cymhwysedd Digidol:** Enw arall arno yw llythrennedd digidol neu dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu.

**Polisïau, gweithdrefnau a phrosesau:** Ffyrdd o weithio cyfrwymol y cytunwyd arnyn nhw'n ffurfiol sy'n berthnasol mewn llawer o leoliadau. Os nad oes polisïau a gweithdrefnau, mae'r term yn cynnwys ffyrdd eraill o weithio a gytunwyd.

**Eraill:** Mae'n cynnwys cydweithwyr, gweithwyr neu weithwyr proffesiynol eraill a theuluoedd neu ofalwyr y gall unigolion ddod i gysylltiad â nhw wrth ofalu am blentyn a'i gefnogi.

**Mecanweithiau cefnogi**: Byddai hyn yn cynnwys y gefnogaeth gan reolwyr a chymheiriaid sydd ar gael yn y sefydliad/lleoliad, gan gynnwys goruchwyliaeth.

## Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig

- Deddf Plant 1989 a (2004)
- Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) (2002)
- Cwricwlwm i Gymru, Cwricwlwm am Oes. Llywodraeth Cymru 2015 Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050
- Deddf Diogelu Data (1998)
- Cynllun Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (2013) Llywodraeth Cymru
- Deddf Cydraddoldeb (2010)
- Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol
- Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith (1974)
- Deddf Hawliau Dynol (1998)
- Rheoliadau Gweithrediadau Codi a Chyfarpar Codi (1998)
- Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith (1999)
- Rheoliadau Gweithrediadau Codi a Chario (1992)
- Deddf Galluedd Meddyliol (2005)
- Diwygiad i Ddeddf Iechyd Meddwl (2007)
- Rheoliadau Cyfarpar Diogelu Personol yn y Gwaith (1992)
- Strategaeth Atal (2015)
- Rheoliadau Darparu a Defnyddio Cyfarpar Gwaith (1998)
- Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus (2013)
- Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf (2006)
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (2014)
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (1989)
- Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) (2015)
- Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (lleol)
- Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 6) (2017)
- Strategaeth Addysg cyfrwng Cymraeg
- Gweithio Gyda'n Gilydd dan Ddeddf Plant (2004)
- Rheoliadau Gweithle (Iechyd, Diogelwch a Lles) (1992)
- Gweithdrefnau Diogelu Cymru (2019) **http://www.myguideapps.com/projects/wales_safeguarding_procedures/default/**
- Canllawiau Diogelu Llywodraeth Cymru https://www.llyw.cymru/canllawiau-diogelu
- Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol (2022)

© WJEC CBAC Ltd.

# Uned 301 Hybu chwarae, dysgu, twf a datblygiad

| | |
|---|---|
| **Lefel:** | 3 |
| **ODA:** | 70 |
| **Credyd:** | 10 |
| **Crynodeb o'r Uned:** | Mae'r uned hon yn cefnogi'r dysgwr i feithrin y wybodaeth a'r sgiliau sy'n hanfodol wrth hybu chwarae, dysgu, twf a datblygiad plant. |

## Deilliant dysgu:

1. Fframweithiau damcaniaethol sy'n ategu chwarae, dysgu, twf a datblygiad

## Meini prawf asesu

Rydych chi'n deall:

1.1 Nodweddion allweddol **damcaniaethau** traddodiadol a chyfoes mewn perthynas â datblygiad a chwarae plant
1.2 Cyfnodau allweddol datblygiad niwrolegol a datblygiad yr ymennydd sy'n digwydd o adeg cenhedlu ymlaen
1.3 Gwahanol rannau a strwythurau'r system nerfol
1.4 Effaith dwyieithrwydd ar ddatblygiad niwrolegol a datblygiad yr ymennydd
1.5 Y term 'cyfleoedd da' a'u perthnasedd
1.6 Y termau 'disgwyl profiadau' a 'dibynnu ar brofiadau'
1.7 Y term 'cyflwyno a dychwelyd' a sut mae'n cefnogi datblygiad niwrolegol a datblygiad yr ymennydd
1.8 Y ffactorau andwyol cyn-geni ac ôl-enedigol posibl a fyddai'n gallu effeithio ar ddatblygiad niwrolegol a datblygiad yr ymennydd mewn perthynas â **thwf corfforol, emosiynol a gwybyddol**

Rydych chi'n gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

1.9 Cefnogi plant i ddatblygu sgema
1.10 Hybu a chefnogi amgylchedd dwyieithog sy'n cefnogi chwarae, dysgu, twf a datblygiad

## Amrediad

**Damcaniaethau**: gwybyddol, dyneiddiol, dysgu cymdeithasol, gwydnwch, lluniadaethol, ymddygiadol, chwarae
**Twf corfforol, emosiynol a gwybyddol:** cyfathrebu, ymlyniad, ffurfio'r cof, llwybrau synhwyraidd, sgiliau echddygol bras a manwl

## Deilliant dysgu:

2. Hybu a chefnogi dysgu, twf a datblygiad cyfannol

© WJEC CBAC Ltd.

## Meini prawf asesu

Rydych chi'n deall:

2.1 Gwahanol ddulliau o arsylwi ac asesu er mwyn monitro a nodi cyfnodau dysgu, twf a datblygiad cyfannol gan gynnwys sgema
2.2 Y broses ar gyfer cofnodi canlyniadau arsylwadau ac asesiadau yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r gweithle/lleoliad a chanllawiau cenedlaethol
2.3 Pwysigrwydd cynllunio ar gyfer cynnydd
2.4 Sut i annog meithrin **sgiliau annibyniaeth** yn unol ag oedran a cham datblygiad
2.5 Sut y gellir addasu ymarfer er mwyn gwahaniaethu a chynnig cyfleoedd estynedig
2.6 Pwysigrwydd lleferydd, iaith a chyfathrebu i ddysgu, twf a datblygiad cyfannol
2.7 Rôl y teuluoedd/gofalwyr fel addysgwyr cyntaf a phartneriaid mewn dysgu, twf a datblygiad parhaus
2.8 Sut i gefnogi teuluoedd/gofalwyr i hybu cyfleoedd chwarae a dysgu yn amgylchedd y cartref
2.9 Cysylltiadau rhwng darparu amgylchedd diogel ac ysgogol a datblygiad plant
2.10 Sut mae dysgu drwy brofiad yn cyfrannu at ddysgu, twf a datblygiad cyfannol
2.11 Sut i sicrhau bod datblygiad cyfannol plant yn cael ei gefnogi, gan sicrhau **amgylchedd** diogel ac ysgogol
2.12 Rôl atgyfnerthu cadarnhaol wrth gefnogi dysgu, twf a datblygiad cyfannol plant

Rydych chi'n gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

2.13 Defnyddio arsylwadau i nodi eu **cyfnod twf a datblygiad cyfannol** a datblygiad sgema
2.14 Sicrhau bod gweithgareddau, profiadau ac arferion bob dydd ystyrlon a phleserus yn cael eu **darparu**, yn unol â'ch rôl a'ch cyfrifoldebau, sy'n:
- ymateb i amrywiaeth o anghenion
- cydbwyso risg a her er mwyn hybu dysgu, twf a datblygiad cyfannol
- meithrin perthnasoedd cadarnhaol
- hybu sgiliau annibyniaeth

2.15 Mewnblannu'r hyn a ddysgwyd wrth **ddarparu** gweithgareddau, er mwyn:
- atgyfnerthu'r sgiliau a ddysgwyd
- cynllunio ar gyfer cynnydd
- addasu ymarfer er mwyn gwahaniaethu a chynnig cyfleoedd estynedig

2.16 Hybu dysgu, twf a datblygiad cyfannol
2.17 Defnyddio atgyfnerthiad cadarnhaol a chanmoliaeth sy'n cefnogi dysgu, twf a datblygiad cyfannol plant
2.18 Gweithredu os nad yw plentyn yn datblygu yn unol â'i oedran a'i gyfnod datblygu disgwyliedig

## Amrediad

**Sgiliau annibyniaeth:** bwyta ac yfed, ymolchi, gwisgo, gofal y geg, defnyddio'r toiled, tacluso/rhoi pethau i gadw
**Amgylchedd**: amgylchedd chwarae dwyieithog a chyfoethog o safon
**Cam twf a datblygiad cyfannol:** ymddygiadau chwarae, sgiliau echddygol bras a manwl, meysydd datblygu (corfforol, lleferydd, iaith a chyfathrebu, emosiynol-gymdeithasol)
**Darpariaeth:** Cynllunio, paratoi, gweithredu, monitro, gwerthuso ac adolygu

© WJEC CBAC Ltd.

## Deilliant dysgu:

3. Rôl gynhenid chwarae mewn perthynas â dysgu, twf a datblygiad cyfannol plant

## Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

3.1 Sut mae fframweithiau deddfwriaethol a chanllawiau statudol sy'n gysylltiedig â chwarae yn dylanwadu ar ymarfer mewn lleoliadau gofal plant

3.2 Sut i ddatblygu amgylcheddau chwarae cyfoethog o safon er mwyn **manteisio i'r eithaf ar y potensial** ar gyfer dysgu, twf a datblygiad cyfannol

Rydych chi'n gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

3.3 Cynllunio a hybu'r defnydd o wahanol fathau o chwarae i ddilyn egwyddorion amgylchedd chwarae cyfoethog o safon ar gyfer dysgu, twf a datblygiad cyfannol, yn unol â'ch rôl a'ch cyfrifoldebau

3.4 Hybu'r broses o greu man chwarae dan arweiniad y plentyn sy'n hwyluso:
- chwarae dewis rhydd
- mynegi teimladau
- arbrofi a chymryd risgiau
- creadigrwydd

## Amrediad

**Manteisio i'r eithaf ar y potensial ar gyfer**: Cymdeithasoli, datrys problemau a chreadigrwydd, dyfeisgarwch, her a dewis

© WJEC CBAC Ltd.

# Uned 301 Hybu chwarae, dysgu, twf a datblygiad
# Gwybodaeth ategol

## Gofynion tystiolaeth

Bydd y dystiolaeth ar gyfer yr uned hon yn cael ei chyflwyno drwy'r tasgau strwythuredig. Mae canllawiau ar gyfer unrhyw dystiolaeth ychwanegol y gall fod ei hangen i'w gweld yn y pecyn asesu.

## Canllawiau cyflwyno

Dylai'r uned hon gael ei chyflwyno mewn ffordd sy'n ymgorffori ac yn adeiladu ar y wybodaeth graidd a ddatblygwyd o fewn y cymhwyster Lefel 2 Craidd, a thrwy gymhwyso'r wybodaeth hon yn ymarferol, a ddangosir drwy'r uned orfodol ymarfer craidd.

Gallai **ffactorau andwyol** gynnwys y canlynol, ond nid ydynt wedi'u cyfyngu iddynt: dod i gysylltiad â chamddefnyddio sylweddau (ysmygu, gan gynnwys ysmygu goddefol, alcohol, meddyginiaeth ar bresgripsiwn, cyffuriau anghyfreithlon, camddefnyddio fitaminau), dim digon o asid ffolig deietegol, gallu'r fam/rhiant i fynd i'r afael â'i hanghenion/anghenion iechyd ei hun, deiet y fam, straen yn ystod beichiogrwydd, trawma yn ystod genedigaeth, genedigaeth gynamserol, ffactorau genynnol, heintiau a drosglwyddir yn rhywiol, maeth a hydradu gwael, amgylcheddau anymatebol sy'n llawn straen a cham-drin, cam-drin domestig, dim digon o weithgarwch corfforol, dod i gysylltiad ag afiechyd cyffredin mewn plant, llygredd, gormod o olau haul, gorsymbyliad a thansymbyliad, straen gwenwyn (gan gynnwys rôl ac effaith cortisol ac adrenalin), tai annigonol, diffyg cwsg, cwsg annigonol, tlodi, diffyg mynediad at wasanaethau, diffyg cyfleoedd i chwarae

**Hybu cyfleoedd chwarae a dysgu yn amgylchedd y cartref**: hybu darpariaeth barhaus o'r lleoliad i'r cartref, tynnu sylw teuluoedd/gofalwyr at bwysigrwydd chwarae mewn perthynas â dysgu, twf a datblygiad cyfannol.

**Amgylcheddau chwarae cyfoethog o safon:** i adlewyrchu'r canllawiau yn 'Cymru: Gwlad lle mae Cyfle i Chwarae'. Mae darpariaeth chwarae o safon yn cynnig cyfle i bob plentyn ryngweithio'n ddidrafferth â'r canlynol neu gael profiad ohonyn nhw: plant a phobl ifanc eraill; y byd naturiol; rhannau rhydd; yr elfennau naturiol; her a chymryd risgiau; chwarae â hunaniaeth; symudiad; chwarae sgarmes; y synhwyrau; teimladau. Mae'r amgylcheddau hyn hefyd yn: hyblyg, addasadwy, amrywiol a diddorol gan gynnig darpariaeth barhaus.

## Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS) cysylltiedig

- SCD CCLD 0206: Cefnogi plant i ddysgu drwy chwarae
- SCD CCLD 0306: Cynllunio a threfnu amgylcheddau i blant a theuluoedd
- SCD CCLD 0307: Hybu iechyd a datblygiad corfforol plant
- SCD CCLD 0308: Hybu llesiant a gwydnwch plant
- SCD CCLD 0312: Creu amgylcheddau cadarnhaol i fabanod a phlant
- SCD CCLD 0325: Cefnogi plant a phobl ifanc drwy gyfnodau trawsnewid mawr
- SKAPW 34: Gweithio gyda phlant a phobl ifanc i greu mannau chwarae a chefnogi chwarae hunangyfeiriedig a dewis rhydd

© WJEC CBAC Ltd.

## Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig

- Pwysigrwydd y cyfnod o 0-3 oed https://www.unicef.org/sowc01/1-2.htm
- Niwrowyddoniaeth ac ymennydd babanod http://www.nurseryworld.co.uk/digital_assets/619/All-about-brain.pdf
- Brain Hero http://developingchild.harvard.edu/resources/brain-hero/
- Healthy baby healthy brain http://www.healthybabyhealthybrain.ca/
- Map o ymennydd baban http://www.zerotothree.org/child-development/brain-development/baby-brain-map.html
- Map o'r ymennydd dynol http://www.cbc.ca/news2/interactives/brain
- O'r genynnau i wybyddiaeth http://www.g2conline.org/2022
- Hanfodion yr ymennydd http://www.brainline.org/multimedia/interactive_brain/the_human_brain.html?gclid=CIm90P-H5L4CFdLHtAodxBgAhA
- Neuroscience science of the brain an introduction for young students http://brain.mcmaster.ca/BrainBee/Neuroscience.Science.of.the.Brain.pdf
- A primer on the brain and nervous system http://www.brainfacts.org/the-brain-facts-book
- Mae addysg yn dechrau yn y cartref https://gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/parents/education-begins-at-home/?lang=cy
- Cymru: gwlad lle mae cyfle i chwarae https://gov.wales/docs/dsjlg/publications/cyp/141007-wales-a-play-friendly-country-cy.pdf
- Asesiad o ddigonolrwydd cyfleoedd chwarae – Pecyn cymorth https://gov.wales/topics/people-and-communities/people/children-and-young-people/play-and-leisure/toolkit/?lang=cy
- ‘Plant a Phobl Ifanc: Gweithredu'r Hawliau’ (2004) http://www.cynulliad.cymru/Committee%20Documents/HSS(2)-02-04%20Paper%201%20%20Children%20and%20Young%20People%20Rights%20to%20Action-04022004-14558/n0000000000000000000000000016990-Cymraeg.pdf
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) (Daeth i rym yn y DU yn 1992) http://www.unicef.org.uk/UNICEFs-Work/Our-mission/UN-Convention/
- Y Ddeddf Plant (2004) http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2004/31/contents
- Y Ddeddf Gofal Plant (2006) http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2006/21/contents
- Cynllunio ar y Cyd i Wella Canlyniadau https://gov.wales/about/open-government/publications-catalogue/circular/2007/betteroutcome/?lang=cy
- Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 http://www.legislation.gov.uk/mwa/2011/2/contents/enacted/welsh
- Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 https://www.legislation.gov.uk/mwa/2010/1/contents/enacted/welsh
- Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010 http://www.legislation.gov.uk/wsi/2010/2574/contents/made/welsh
- Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir i blant hyd at 12 oed (2018) https://careinspectorate.wales/sites/default/files/2018-01/160411regchildcarecy.pdf
- Rheoliadau Addysg (Addysg Feithrin a Chynlluniau Datblygu Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant) (Cymru) (Diwygio) 2005 http://www.legislation.gov.uk/wsi/2005/1813/contents/made/welsh
- Fframwaith y Cyfnod Sylfaen – Y cwricwlwm statudol i bob plentyn 3 i 7 oed:
    - Diwygiwyd 2015 **https://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/150803-fp-framework-cy.pdf**

© WJEC CBAC Ltd.

    - Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol **https://beta.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-02/datblygiad-personol-a-chymdeithasol-lles-ac-amrywiaeth-ddiwylliannol.pdf**
    - Datblygu'r Gymraeg **https://beta.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-04/datblygu-r-gymraeg.pdf**
    - Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd **https://beta.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-04/gwybodaeth-a-dealltwriaeth-o-r-byd.pdf**
    - Datblygiad Corfforol **https://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/130425-physical-development-cy.pdf**
    - Datblygiad Creadigol **https://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/130423-creative-development-cy.pdf**
- Design for Play: A guide to creating successful play spaces http://www.playengland.org.uk/media/70684/design-for-play.pdf
- Adnoddau ar gyfer chwarae – darparu rhannau rhydd i gefnogi chwarae plant, Pecyn cymorth https://issuu.com/playwales/docs/pecyn_cymorth_rhannau_rhydd?e=5305098/53227641
- Pecyn Cymorth, Defnyddio tiroedd ysgol ar gyfer chwarae'r tu allan i oriau addysgu https://issuu.com/playwales/docs/defnyddio_tiroedd_ysgol_tu_allan_i_?e=5305098/5151155
- Creu mannau chwarae hygyrch, Pecyn cymorth https://issuu.com/playwales/docs/creu_mannau_chwarae_hygyrch?e=5305098/55847719
- Chwarae: iechyd a lles (2012) https://www.chwaraecymru.org.uk/login/uploaded/documents/INFORMATION%20SHEETS/chwarae%20iechyd%20a%20lles.pdf
- Mannau Chwarae: cwynion cyffredin ac atebion syml (2012) https://www.chwaraecymru.org.uk/login/uploaded/documents/INFORMATION%20SHEETS/cwynion%20cyffredin%20ac%20atebion%20syml.pdf
- Mannau Chwarae: cynllun a dylunio (2012) https://www.chwaraecymru.org.uk/login/uploaded/documents/INFORMATION%20SHEETS/mannau%20chwarae%20-%20cynllunio%20a%20dylunio.pdf
- Chwarae a Risg (2013) https://www.chwaraecymru.org.uk/login/uploaded/documents/INFORMATION%20SHEETS/chwarae%20a%20risg.pdf
- Janet Moyles, Chwarae a'r blynyddoedd cynnar: genedigaeth i saith oed (2013) http://www.playwales.org.uk/login/uploaded/documents/INFORMATION%20SHEETS/chwarae%20ar%20blynyddoedd%20cynnar.pdf
- Cynyddu gwytnwch – pwysigrwydd chwarae (2015) http://www.chwaraecymru.org.uk/login/uploaded/documents/INFORMATION%20SHEETS/Cynyddu%20gwytnwch.pdf
- Hybu gweithgarwch corfforol trwy chwarae'r tu allan mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar (2016) https://www.chwaraecymru.org.uk/login/uploaded/documents/INFORMATION%20SHEETS/Hybu%20gweithgarwch%20corfforol%20blynyddoedd%20cynnar.pdf
- Defnydd ymarferol o ddyfeisiau digidol mewn lleoliadau chwarae (2018) http://www.chwaraecymru.org.uk/login/uploaded/documents/INFORMATION%20SHEETS/Defnydd%20ymarferol%20o%20ddyfeisiau%20digidol%20mewn%20lleoliadau%20chwarae.pdf

© WJEC CBAC Ltd.

# Uned 302 Hybu maeth a hydradu yn y blynyddoedd cynnar

| | |
|---|---|
| **Lefel:** | 3 |
| **ODA:** | 60 |
| **Credyd:** | 7 |
| **Crynodeb o'r Uned:** | Mae'r uned hon yn cefnogi'r dysgwr i feithrin y wybodaeth a'r sgiliau sy'n hanfodol wrth hybu maeth a hydradu plant.<br>Yng nghyd-destun yr uned hon, mae 'plant' yn cyfeirio at blant rhwng 0 ac 8 oed. |

## Deilliant dysgu:

1. Cefnogi maeth a hydradu plant

## Meini prawf asesu

Rydych chi'n deall:

1.1 Mathau gwahanol o fwydo
1.2 Canllawiau cenedlaethol cyfredol ar gyfer deiet cytbwys i blant gan gynnwys cyflwyno bwydydd solid
1.3 Bwydydd y dylid cyfyngu arnynt a'u hosgoi yn y flwyddyn gyntaf
1.4 Rôl maetholion hanfodol er mwyn cynnal deiet cytbwys a chefnogi twf, llesiant a datblygiad cyfannol
1.5 Gofynion maeth a hydradu yn ystod **cyfnodau datblygiad diffiniedig**
1.6 Ffactorau sy'n dylanwadu ar gymeriant bwyd a diod
1.7 Y rhesymau pam na ddylid defnyddio bwyd fel gwobr
1.8 **Effaith bosibl** maeth a hydradu gwael
1.9 Pwysigrwydd hydradu
1.10 Pwrpas monitro cymeriant bwyd a diod, ei gofnodi, rhoi gwybod amdano a'i gyfleu
1.11 Sut i gynllunio bwydlenni sy'n ymateb i anghenion unigolion
1.12 Yr heriau posibl i gymeriant bwyd a diod a fyddai'n gallu codi ar bob cyfnod datblygu a strategaethau ar gyfer eu rheoli

Rydych chi'n gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

1.13 Cyd-fynd â chyfarwyddiadau penodol pobl eraill ar gyfer storio a darparu bwyd a diod
1.14 Hybu manteision deiet cytbwys i bobl eraill
1.15 Hybu strategaethau sy'n annog plant i yfed digon o hylif
1.16 Sicrhau bod y ffordd mae bwyd a diod i blant yn cael eu paratoi a'u storio yn dilyn cyfarwyddiadau penodol yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r gweithle/lleoliad
1.17 Sicrhau arferion bwyta ac yfed diogel sy'n cefnogi'r plentyn i ryngweithio'n gymdeithasol a meithrin sgiliau annibyniaeth ac sy'n ystyried ffactorau sy'n dylanwadu ar gymeriant deietegol
1.18 Sicrhau bod plant yn cael eu hannog i arbrofi â bwydydd newydd
1.19 Sicrhau ymateb cadarnhaol pan fydd plentyn yn gwrthod bwyd a diod, gan wneud addasiadau fel y bo angen
1.20 Cofnodi a monitro cymeriant bwyd a diod a gweithredu pan fydd pryderon

© WJEC CBAC Ltd.

1.21 Sicrhau bod pobl eraill yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am gymeriant bwyd a diod
1.22 Annog plant i yfed digon o hylif
1.23 Monitro cymeriant bwyd a diod, ei gofnodi, rhoi gwybod amdano a'i gyfleu

## Amrediad

**Mathau gwahanol**: bwydo ar y fron, bwydo fformiwla babanod, bwydo cyflenwol, bwydydd solid cyntaf
**Cyfnodau datblygiad diffiniedig:** 0-6 mis, 6 mis – 1 oed, 1-4 oed, 5 oed a throsodd
**Effaith bosibl:** methu â ffynnu, diffyg maethiad, dadhydradiad, gordewdra, rhwymedd

© WJEC CBAC Ltd.

# Uned 302 Hybu maeth a hydradu yn y blynyddoedd cynnar

## Gwybodaeth Ategol

### Gofynion tystiolaeth

Bydd y dystiolaeth ar gyfer yr uned hon yn cael ei chyflwyno drwy'r tasgau strwythuredig. Mae canllawiau ar gyfer unrhyw dystiolaeth ychwanegol y gall fod ei hangen i'w gweld yn y pecyn asesu.

### Canllawiau cyflwyno

Dylai'r uned hon gael ei chyflwyno mewn ffordd sy'n ymgorffori ac yn adeiladu ar y wybodaeth graidd a ddatblygwyd o fewn y cymhwyster Lefel 2 Craidd, a thrwy gymhwyso'r wybodaeth hon yn ymarferol, a ddangosir drwy'r uned orfodol ymarfer craidd.

**Ffactorau sy'n dylanwadu ar gymeriant bwyd a diod**:
- Gall anghenion deietegol arbennig am resymau meddygol gynnwys, e.e.
  - Addasu'r ansawdd er mwyn gwneud bwyd yn haws ei fwyta (piwrî neu stwnsh);
  - Bwyd heb glwten i blant â chlefyd Coeliag
  - Deiet wedi'i addasu ar gyfer plant diabetig
  - Deiet wedi'i addasu ar gyfer plant ag alergeddau ac anoddefedd bwyd.
- Darparu ar gyfer anghenion diwylliannol, crefyddol neu foesegol (rhesymau llysieuol neu fegan)
- Siâp, lliw, ansawdd, arogl, dull cyflwyno a dewis bwyd
- Osgoi bwyd, cydfwyta â chyfoedion, dilyn dull gweithredu cyson a bod yn fodel rôl cadarnhaol, annog cyfleoedd i brofi bwyd newydd
- Gweithgareddau a mentrau llawn hwyl yn ymwneud â bwyd, gan gynnwys gadael i blant gymryd rhan yn y broses o baratoi a gweini bwyd, a rhoi cynnig ar fwydydd o ddiwylliannau gwahanol, tyfu a choginio bwyd.
- Incwm isel a thlodi bwyd.

**Heriau posibl i gymeriant bwyd a diod**: bwyta ffyslyd, anabledd, sgiliau annibyniaeth, dewisiadau gwael a gwybodaeth wael am faeth gan rieni, dylanwadau cyfoedion.

### Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS) cysylltiedig

- SCD CCLD 0307: Hybu iechyd a datblygiad corfforol plant
- SCD CCLD 0314: Hybu gofal babanod a phlant
- SCD CCLD 0319: Hybu bwyta'n iach i blant a theuluoedd

### Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig

- Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir i blant hyd at 12 oed (2018) https://careinspectorate.wales/sites/default/files/2018-01/160411regchildcarecy.pdf
- Canllawiau Bwyd ac Iechyd ar gyfer Lleoliadau Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (2009) https://gov.wales/docs/phhs/publications/foodandhealth/090414guidelinescy.pdf

© WJEC CBAC Ltd.

- Bwyd a Maeth mewn Lleoliadau Gofal Plant (2018) https://beta.llyw.cymru/bwyd-maeth-mewn-lleoliadau-gofal-plant?_ga=2.183827558.1974554941.1550481483-1664962502.1550234187

- Atal a Rheoli Heintiau ar gyfer Lleoliadau Gofal Plant (2014) http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/888/Cyfieithiad%20%20%2D%20All%20Wales%20Infection%20Prevention%20and%20Control%20Guidance%20for%20Educational%20Settings%20CYMRAEG%20May%202017%20FINAL.output.pdf
- Ymddiriedolaeth Caroline Walker 'Eating well for under 5's in child care: Practical and nutritional guidelines' (2006) https://www.cwt.org.uk/wp-content/uploads/2014/07/Under5s.pdf
- Canllawiau maeth ar gyfer y blynyddoedd cynnar – 'Food choices for children aged 1-5 years in early education and childcare settings' Gweithrediaeth yr Alban, Caeredin (2006) https://www2.gov.scot/resource/doc/89729/0021563.pdf
- Coleg Brenhinol y Bydwragedd 'Position statement: Infant Feeding' (2018) https://www.rcm.org.uk/sites/default/files/Infant%20Feeding.pdf
- Y GIG - Beth i'w fwydo i blant ifanc http://www.nhs.uk/Conditions/pregnancy-and-baby/Pages/understanding-food-groups.aspx
- Y GIG - Bwydo ar y fron http://www.nhs.uk/start4life/breastfeeding
- Y GIG – Bwydydd cyntaf https://www.nhs.uk/start4life/baby/first-foods
- Rhwydwaith bwydo ar y fron https://www.breastfeedingnetwork.org.uk/
- 'Weaning – learning to like new tastes and textures' http://www.infantandtoddlerforum.org/media/upload/pdf-downloads/GT_Weaning.pdf
- 'Feeding your toddler/pre-school child' https://www.nutrition.org.uk/healthyliving/lifestages/feeding-your-toddlerpre-school-child.html
- 'Perfect portions for toddlers' https://www.nutrition.org.uk/attachments/article/734/BNF%20Toddler%20Eatwell%20Leaflet_OL.pdf
- Archwiliad iechyd http://www.nurseryworld.co.uk/digital_assets/985/NW_Ofsted-framework.pdf


© WJEC CBAC Ltd.

# Uned 303 Ymateb i afiechyd, pla/haint, clefyd ac imiwneiddio mewn plentyndod

| | |
|---|---|
| **Lefel:** | 3 |
| **ODA:** | 60 |
| **Credyd:** | 7 |
| **Crynodeb o'r Uned:** | Mae'r uned hon yn cefnogi'r dysgwr i feithrin y wybodaeth a'r sgiliau sy'n hanfodol wrth adnabod afiechyd, pla/haint, clefyd hysbysadwy ac imiwneiddio posibl yn ystod plentyndod ac ymateb iddynt. |

## Deilliant dysgu:

1. Afiechyd, pla/haint ac adweithiau i imiwneiddio

## Meini prawf asesu

Rydych chi'n deall:

1.1 Arwyddion a symptomau corfforol ac ymddygiadol afiechyd, pla/haint a chlefyd hysbysadwy posibl
1.2 Cyfnodau magu a chyfnodau heintus afiechyd a chlefydau hysbysadwy
1.3 Yr imiwneiddiadau perthnasol ar gyfer afiechyd a chlefydau hysbysadwy cyffredin yn ystod plentyndod
1.4 Yr adweithiau posibl i imiwneiddio
1.5 Y rhesymau pam y bydd rhai teuluoedd/gofalwyr yn dewis peidio ag imiwneiddio o bosibl
1.6 Camau i'w cymryd pan fydd pryderon ynglŷn ag afiechyd posibl ac adweithiau i imiwneiddio
1.7 Symptomau mae angen cymryd camau brys yn eu cylch

Rydych chi'n gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

1.8 Adnabod arwyddion o afiechyd, pla/haint a chlefydau hysbysadwy
1.9 Ymateb i arwyddion o afiechyd, pla/haint a chlefydau hysbysadwy yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r gweithle
1.10 Gwneud addasiadau i arferion a rhyngweithiadau er mwyn ystyried arwyddion o afiechyd posibl
1.11 Cofnodi'r camau a gymerir, rhoi gwybod amdanynt a'u cyfleu

© WJEC CBAC Ltd.

# Uned 303 Ymateb i afiechyd, pla/haint, clefyd ac imiwneiddio mewn plentyndod

## Gwybodaeth Ategol

### Gofynion tystiolaeth

Os nad yw'r tasgau cyfannol yn eu hasesu, rhaid cwblhau portffolio o dystiolaeth ar gyfer y deilliannau gwybodaeth ac ymarfer yn yr uned hon. Dylid dilyn yr amodau a amlinellir yn y pecyn asesu o ran cadw'r dystiolaeth yn y portffolio.

Oherwydd natur ei chynnwys, efallai na fydd y dystiolaeth sydd ei hangen ar gyfer yr uned hon yn rhywbeth fydd yn cael ei harsylwi'n naturiol yn rhan o'r tasgau strwythuredig. Os nad oes digon o dystiolaeth ar gyfer yr uned hon yn cael ei chyflwyno trwy'r tasgau strwythuredig, dylai'r aseswr sicrhau bod y portffolio yn darparu tystiolaeth ar gyfer y deilliannau ymarfer ar sail y gofynion tystiolaeth canlynol:
- Adroddiad adfyfyriol gan y dysgwr wedi'i lofnodi gan dyst arbenigol, yn rhoi manylion ei ymateb i arwyddion o afiechyd, plâu/heintiau neu glefyd hysbysadwy yn eu gweithle ar un achlysur o leiaf.

Efallai y bydd angen holi'r dysgwr ymhellach o ran ei ddealltwriaeth o gynnwys yr uned hon yn rhan o'r drafodaeth.

### Canllawiau cyflwyno

Dylai'r uned hon gael ei chyflwyno mewn ffordd sy'n ymgorffori ac yn adeiladu ar y wybodaeth graidd a ddatblygwyd o fewn y cymhwyster Lefel 2 Craidd, a thrwy gymhwyso'r wybodaeth hon yn ymarferol, a ddangosir drwy'r uned orfodol ymarfer craidd.

**Plentyndod:** yng nghyd-destun yr uned hon, mae plentyndod yn cyfeirio at blant rhwng 0 a 18 oed

**Afiechyd a phlâu/heintiau**:
- Afiechyd cyffredin yn ystod plentyndod (clwy'r pennau, rwbela, polio, brech yr ieir, y frech goch, llid yr ymennydd, y pas)
- Alergeddau/cyflyrau (ecsema, asthma, clwy'r gwair neu alergeddau bwyd)
- Mân afiechyd (peswch, annwyd, pigyn clust, dolur gwddf, crŵp, twymyn a gwres, dolur rhydd a chwydu, llosg haul a thrawiad gwres)
- Plâu (tarwden, llyngyren, llau pen, herpes simplecs, impetigo, llid y gyfbilen, clefyd crafu)

© WJEC CBAC Ltd.

**Amserlen Imiwneiddio ar gyfer plant rhwng 2 fis ac 18 oed**

| Oedran | Imiwneiddio | Sylwadau |
|---|---|---|
| **2 fis** | 6-mewn-1 (DTaP/IPV/Hib/HepB) | Un pigiad sy'n cynnwys brechlynnau i ddiogelu yn erbyn chwe chlefyd ar wahân: difftheria, tetanws, y pas (pertwsis), polio, hepatitis B a ffliw Haemoffilws math b (a elwir yn Hib)-Dos cyntaf |
| | Niwmococol (PCV13) | Dos cyntaf |
| | Rotafirws | Dos cyntaf |
| | Men B | Dos cyntaf |
| **3 mis** | 6-mewn-1 (DTaP/IPV/Hib) | Ail ddos |
| | Rotafirws | Ail ddos |
| **4 mis** | 6-mewn-1 (DTaP/IPV/Hib) | Trydydd dos |
| | Niwmococol (PCV) | Ail ddos |
| | Men B | Ail ddos |
| **12-13 mis** | Hib/Men C | Mae'n cynnwys Hib (pedwerydd dos) |
| | MMR | Dos cyntaf |
| | Niwmococol (PCV) | Trydydd dos |
| | Men B | Trydydd dos |
| **2 oed** | Brechlyn ffliw plant blynyddol | O 2 oed ymlaen |
| **3-4 oed** | MMR | Ail ddos |
| | 4-mewn-1 (DTaP/IPV) | |
| **12-13 oed** | HPV | Merched yn unig |
| **13-18 oed** | 3-mewn-1 (Td/IPV) | Brechiad atgyfnerthu yn yr arddegau – Difftheria, tetanws a pholio |
| | Men ACWY | |

**Arwyddion a symptomau corfforol ac ymddygiadol o afiechyd a phlâu posibl**:
Cyfeiriadau ar gyfer Sepsis:
**https://www.nhs.uk/conditions/sepsis/**

**Symptomau mae angen cymryd camau brys yn eu cylch**: plentyn sy'n gysglyd neu'n llidiog yn gyson, sy'n mynd yn anymatebol, sy'n cael problemau anadlu, sydd ag annwyd neu ddwylo neu draed afliwiedig a chorff cynnes, sy'n cael ffit, sydd â lliw croen anarferol, sydd â thymheredd o 39°C neu fwy, plentyn nad yw'n bwydo/bwyta, unrhyw blentyn sy'n dangos arwyddion o ddadhydradiad (ceg sych, llygaid pantiog, dim dagrau, edrych yn sâl yn gyffredinol), sydd â symptomau sy'n gysylltiedig â llid yr ymennydd (cur pen difrifol anarferol, cric yn y gwar, anhoffter o oleuadau llachar, brech nad yw'n diflannu wrth roi pwysau arni).

## Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS) cysylltiedig

- SCD CCLD 0319: Hybu bwyta'n iach i blant a theuluoedd
- SCD HSC 0022: Cefnogi eich iechyd a'ch diogelwch eich hun ac iechyd a diogelwch unigolion

© WJEC CBAC Ltd.

## Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig

- Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir i blant hyd at 12 oed (2018) https://careinspectorate.wales/sites/default/files/2018-01/160411regchildcarecy.pdf
- GIG Cymru – Atal a Rheoli Heintiau http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/page/95109
- GIG Cymru – Atal a Rheoli Heintiau ar gyfer Lleoliadau Gofal Plant (2014) http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/888/Cyfieithiad%20%20%2D%20All%20Wales%20Infection%20Prevention%20and%20Control%20Guidance%20for%20Educational%20Settings%20CYMRAEG%20May%202017%20FINAL.output.pdf
- GIG Cymru – Canllawiau ar Atal a Rheoli Heintiau Cymru Gyfan ar gyfer Lleoliadau Addysg (2017) http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/888/Cyfieithiad%20%20%2D%20All%20Wales%20Infection%20Prevention%20and%20Control%20Guidance%20for%20Educational%20Settings%20CYMRAEG%20May%202017%20FINAL.output.pdf
- GIG Cymru – Llawlyfr Cenedlaethol ar gyfer Atal a Rheoli Heintiau (NIPCM): Mae polisïau model a ddatblygwyd yn flaenorol gan Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi ildio eu lle i fabwysiadu Llawlyfr Rheoli Heintiau Cenedlaethol yr Alban (NICM) http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/tudalen/95337
- GIG Cymru – Brechlynnau i Blant http://www2.nphs.wales.nhs.uk:8080/VaccinationsImmunisationProgsDocs.nsf/3dc04669c9e1eaa880257062003b246b/faca473ff00c5bba8025831a0045b9b9/$FILE/Routine%20Childhood%20Immunisation%20Schedule%20-%207%20August%202018%20Final.pdf
- GIG Cymru – Data cenedlaethol ar y nifer sy'n manteisio ar imiwneiddio http://www.wales.nhs.uk/sites3/page.cfm?orgid=457&pid=54144
- Y GIG – Brechlynnau https://www.nhs.uk/conditions/vaccinations/reasons-to-have-your-child-vaccinated/
- Y GIG – Sgil effeithiau brechlynnau https://www.nhs.uk/conditions/vaccinations/reporting-side-effects/
- Public health matters https://publichealthmatters.blog.gov.uk/2014/05/01/why-vaccinate/
- BC Centre for Disease Control – A quick guide to common childhood diseases (2009) http://www.bccdc.ca/resource-gallery/Documents/Guidelines%20and%20Forms/Guidelines%20and%20Manuals/Epid/Other/Epid_GF_childhood_quickguide_may_09.pdf
- Safonau Iechyd a Gofal, Llywodraeth Cymru Ebrill 2015 https://gov.wales/docs/dhss/publications/150402standardscy.pdf
- Cefnogi Dysgwyr ag Anghenion Gofal Iechyd – Dogfen ganllaw rhif: 215/2017. Mawrth 2017 https://learning.gov.wales/resources/browse-all/supporting-learners-with-healthcare-needs/?skip=1&lang=cy

© WJEC CBAC Ltd.

# Uned 304 Hybu gofal plant 0-2 oed

| | |
|---|---|
| **Lefel:** | 3 |
| **ODA:** | 80 |
| **Credyd:** | 8 |
| **Crynodeb o'r Uned:** | Mae'r uned hon yn cefnogi'r dysgwr i feithrin y wybodaeth a'r sgiliau sy'n hanfodol wrth hybu gofal plant 0-2 oed. Mae'n cynnwys rôl bondio ac ymlyniad a darparu arferion gofal corfforol diogel<br><br>Yng nghyd-destun yr uned hon, mae'r term 'babanod/plant bach' yn cyfeirio at blant 0-2 oed |

## Deilliant dysgu:

1. Darpariaeth gofal plant a gwasanaethau cefnogi i blant 0-2 oed

### Meini prawf asesu

Rydych chi'n deall:
1.1 Pwrpas darpariaeth a gwasanaethau cefnogi i blant 0-2 oed
1.2 Sut i wneud atgyfeiriadau at wasanaethau cefnogi i blant 0-2 oed
1.3 Sut i gyfeirio eraill at wybodaeth, cefnogaeth a chyngor
1.4 Sut mae gofal plant, gwasanaethau cefnogi a **blaenoriaethau iechyd y cyhoedd** yn ceisio mynd i'r afael ag anfantais yn ystod plentyndod
1.5 Blaenoriaethau iechyd y cyhoedd cyfredol i blant 0-2 oed a'u manteision
1.6 Adnoddau sgrinio ac asesu a ddefnyddir ar hyn o bryd ar gyfer babanod/plant bach

### Amrediad

**Blaenoriaethau iechyd y cyhoedd:** Maeth a hydradu, gofal iechyd y geg, chwarae a gweithgarwch corfforol, golwg, rhaglen imiwneiddio plant, paratoi'r plentyn i fod yn barod ar gyfer yr ysgol a hybu diogelwch yn y cartref, oedolion yn rhoi'r gorau i ysmygu, lleihau cysylltiad â mwg eilaidd, atal damweiniau ac anafiadau, diogelwch yn y gymuned

## Deilliant dysgu:

2. Hybu a chefnogi bondio ac ymlyniad i blant 0-2 oed

### Meini prawf asesu

Rydych chi'n deall:
2.1 **Damcaniaethau bondio ac ymlyniad**, a'u pwysigrwydd i ddysgu, twf, datblygiad a llesiant cyfannol babanod/plant bach
2.2 Pwysigrwydd bondio ac ymlyniad o ran lleihau effaith anfantais yn ystod plentyndod
2.3 Y mathau o ymlyniadau y gall babanod/plant bach eu ffurfio
2.4 Arwyddion o ymlyniad ansicr
2.5 Sut i hybu ymlyniadau sicr i fabanod/plant bach
2.6 Effeithiau tymor hir posibl ymlyniadau ansicr

© WJEC CBAC Ltd.

2.7 Y camau i'w cymryd lle mae arwyddion o ymlyniadau ansicr
2.8 **Amrywiaeth o ddulliau** er mwyn hybu, cynnal ac annog bondio ac ymlyniad

Rydych chi'n gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:
2.9 Modelu'r defnydd o amrywiaeth o ddulliau er mwyn cynnal bondio ac annog ymlyniadau sicr i fabanod/plant bach
2.10 Defnyddio adfyfyrio ac adborth gan eraill i werthuso sut mae eich ymarfer eich hun yn cefnogi'r broses o ddatblygu ymlyniadau sicr i fabanod/plant bach

## Amrediad

**Damcaniaethau bondio ac ymlyniad:** John Bowlby, Mary Ainsworth
**Amrywiaeth o ddulliau:** amgylchedd digyffro a meithringar, agosrwydd, rhagweladwyedd, cysondeb, nodau a ffiniau, cefnogi trawsnewid esmwyth, cydgynhyrchu, rhannu gwybodaeth, gweithio mewn partneriaeth, cyffwrdd (fel tylino babanod)

---

### Deilliant dysgu:

3. Hybu arferion gofal corfforol diogel plant 0-2 oed

### Meini prawf asesu

Rydych chi'n deall:
3.1 Pwysigrwydd nodi a darparu **arferion gofal corfforol** diogel i fabanod/plant bach, gan gynnal urddas a pharch
3.2 Pwysigrwydd awyrgylch tawel a chyfforddus i gefnogi arferion gofal corfforol diogel
3.3 Sut i gario a dal babanod/plant bach yn ddiogel
3.4 Sut i ymolchi, gwisgo a newid babanod/plant bach, gan gynnwys newid cewynnau
3.5 Sut i gefnogi hyfforddiant i ddefnyddio'r toiled
3.6 Sut i sicrhau bod baban yn cysgu mewn amgylchedd a safle diogel

Rydych chi'n gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:
3.7 Pennu a chynllunio arferion gofal corfforol diogel babanod/plant bach ar y cyd ag eraill, yn unol â'ch rôl a'ch cyfrifoldebau eich hunain
3.8 Sicrhau bod yr **arferion gofal corfforol** y cytunwyd arnynt ar gyfer babanod/plant bach yn cael eu cynnal
3.9 Hybu awyrgylch tawel a chyfforddus wrth gefnogi **arferion gofal corfforol** diogel
3.10 Modelu **arferion gofal corfforol** er mwyn sicrhau eu bod yn brofiadau diogel a phleserus sy'n hybu dysgu, twf a datblygiad cyfannol gan gynnal urddas a pharch plant
3.11 Sicrhau bod babanod/plant bach yn cael eu cario a'u dal yn ddiogel, yn unol ag egwyddorion symud a lleoli
3.12 Monitro arferion gofal corfforol, eu cofnodi, rhoi gwybod amdanynt a'u cyfleu, yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r gweithle/lleoliad

## Amrediad

**Arferion gofal corfforol**: defnyddio'r toiled, golchi dwylo, gofal y geg, gofal y croen (gan gynnwys y rhan o'r croen o gwmpas y cewyn), cyfleoedd i orffwys, i gael amser tawel neu i gysgu, darpariaethau priodol ar gyfer dod i gysylltiad â golau haul a thymereddau isel

© WJEC CBAC Ltd.

# Uned 304 Hybu gofal plant 0-2 oed

## Gwybodaeth Ategol

### Gofynion tystiolaeth

Bydd y dystiolaeth ar gyfer yr uned hon yn cael ei chyflwyno drwy'r tasgau strwythuredig. Mae canllawiau ar gyfer unrhyw dystiolaeth ychwanegol y gall fod ei hangen i'w gweld yn y pecyn asesu.

### Canllawiau cyflwyno

Dylai'r uned hon gael ei chyflwyno mewn ffordd sy'n ymgorffori ac yn adeiladu ar y wybodaeth graidd a ddatblygwyd o fewn y cymhwyster Lefel 2 Craidd, a thrwy gymhwyso'r wybodaeth hon yn ymarferol, a ddangosir drwy'r uned orfodol ymarfer craidd.

**Ymlyniad:** Mae'n cyfeirio at gysylltiad emosiynol plentyn a'i roddwr gofal sylfaenol sy'n dechrau ar adeg geni, sy'n datblygu'n gyflym rhwng 0 a 2 oed ac yn parhau i ddatblygu gydol oes.

- Ymlyniad sicr: Mae pobl ag ymlyniad sicr yn gyfforddus gyda phobl eraill, yn gallu dibynnu arnynt ac yn gwerthfawrogi agosatrwydd (ac yn gyfforddus ag ef)
- Ymlyniad osgoi: Mae gan bobl ag ymlyniad osgoi amheuon am bobl eraill, maen nhw'n ei chael hi'n anoddach ffurfio perthnasoedd, maen nhw'n osgoi agosatrwydd ac mae ganddyn nhw broblemau o ran ymddiriedaeth
- Ymlyniad pryderus: Byddai pobl ag ymlyniad pryderus yn hoffi meithrin perthnasoedd agos ag eraill ond maent yn ei chael hi'n anodd gwneud hyn am fod arnynt ofn cael eu gwrthod
- Ymlyniad ansicr: Bydd plant ag ymlyniad ansicr yn osgoi neu'n anwybyddu'r rhoddwr gofal heb ddangos fawr ddim emosiwn wrth i'r rhoddwr gofal adael neu ddychwelyd. Gall hyn fod o ganlyniad i ofal anghyson a roddwyd gan y rhoddwr gofal ei hun.
- Ymlyniad amwys: Er y gall y plentyn fynd yn ofidus iawn pan fydd rhiant neu ofalydd yn gadael, pan fydd yn dychwelyd nid yw'r plentyn yn dangos ymddygiad sy'n awgrymu ymlyniad cryf wrth y rhiant neu'r rhoddwr gofal.Efallai y bydd y plentyn yn cydnabod dychweliad y rhiant neu'r gofalwr neu'n ymateb iddo, neu efallai na fydd yn gwneud hynny, ac yn aml gall ymddangos ei fod yn 'gwylio o bell'. Mae ymchwil yn awgrymu, er ei fod yn gymharol anghyffredin, mai canlyniad argaeledd gwael a/neu anghyson y fam neu'r gofalwr yw ymlyniad amwys; gan fod y plentyn wedi dysgu nad yw'n gallu dibynnu ar y fam neu'r rhoddwr gofal pan fydd mewn angen
- Ymlyniad di-drefn: Fel mae'r label yn awgrymu, mae ymddygiad y plentyn o ran ymlyniad yn anrhagweladwy a gall fod yn anghyson. Efallai y bydd y plentyn yn anwybyddu neu'n osgoi'r gofalwr, neu'n gwrthwynebu ei ymdrechion i ymgysylltu neu gynnig cysur. Mae rhai ymchwilwyr wedi awgrymu ei bod yn debygol bod y diffyg patrwm ymlyniad yn gysylltiedig ag ymddygiad anghyson gan roddwyr gofal - mae'r plentyn yn ansicr sut y bydd y rhoddwr gofal yn ymateb ac felly mae wedi drysu o ran y ffordd y dylai ymddwyn. Mae'n bosibl bod y plentyn wedi profi ymddygiadau gwahanol gan y gofalwr yn y gorffennol, e.e. gofalgar weithiau ond ar achlysuron eraill yn dangos ymddygiad diystyriol, ymosodol neu ddifrïol.

**Anfantais yn ystod plentyndod:** plant sy'n ddifreintiedig ac sydd wedi'u hamddifadu o safon byw ddigonol ac ysgogiad ac amgylchedd priodol, heb fynediad at addysg na gwasanaethau gan gynnwys gofal iechyd, o ganlyniad i dlodi a diffyg cyfle

**Teuluoedd/gofalwyr**: yng nghyd-destun yr uned hon, gall hyn olygu unrhyw un â chyfrifoldeb rhiant (naturiol ac wedi'i ddirprwyo) dros y baban/plentyn bach.

© WJEC CBAC Ltd.

**Sut i sicrhau bod baban yn cysgu mewn amgylchedd a safle diogel:**

- Gosod y baban ar ei gefn i gysgu, mewn crud mewn ystafell gyda chi
- Peidio â gadael i unrhyw un ysmygu yn yr un ystafell â'r baban
- Peidio byth â chysgu gyda baban ar soffa neu gadair freichiau
- Peidio byth â gadael i'r baban fynd yn rhy boeth – peidio â gorchuddio pen y baban – gosod y baban yn y safle "traed wrth droed"

**Amserlen Imiwneiddio ar gyfer plant rhwng 2 fis ac 18 oed**

| Oedran | Imiwneiddio | Sylwadau |
|---|---|---|
| **2 fis** | 6-mewn-1 (DTaP/IPV/Hib/HepB) | Un pigiad sy'n cynnwys brechlynnau i ddiogelu yn erbyn chwe chlefyd ar wahân: difftheria, tetanws, y pas (pertwsis), polio, hepatitis B a ffliw Haemoffilws math b (a elwir yn Hib)-Dos cyntaf |
| | Niwmococol (PCV13) | Dos cyntaf |
| | Rotafirws | Dos cyntaf |
| | Men B | Dos cyntaf |
| **3 mis** | 6-mewn-1 (DTaP/IPV/Hib) | Ail ddos |
| | Rotafirws | Ail ddos |
| **4 mis** | 6-mewn-1 (DTaP/IPV/Hib) | Trydydd dos |
| | Niwmococol (PCV) | Ail ddos |
| | Men B | Ail ddos |
| **12-13 mis** | Hib/Men C | Mae'n cynnwys Hib (pedwerydd dos) |
| | MMR | Dos cyntaf |
| | Niwmococol (PCV) | Trydydd dos |
| | Men B | Trydydd dos |
| **2 oed** | Brechlyn ffliw plant blynyddol | O 2 oed ymlaen |
| **3-4 oed** | MMR | Ail ddos |
| | 4-mewn-1 (DTaP/IPV) | |
| **12-13 oed** | HPV | Merched yn unig |
| **13-18 oed** | 3-mewn-1 (Td/IPV) | Brechiad atgyfnerthu yn yr arddegau – Difftheria, tetanws a pholio |
| | Men ACWY | |

**Gwybodaeth, cefnogaeth a chyngor**: Plant yng Nghymru, rhwydweithiau cefnogi rhianta, bwletinau/gwasanaethau gwybodaeth i deuluoedd, y Comisiynydd Plant, NSPCC, Barnardo's, Gweithredu dros Blant, National Children's Bureau

**Gofal iechyd y geg**: mae a wnelo hyn â gofal y dannedd a'r deintgig, gan gynnwys torri dannedd, defnydd priodol o boteli a biceri bwydo, defnydd priodol o ddymis

**Eraill**: gallen nhw fod yn gydweithwyr, cymheiriaid, teuluoedd/gofalwyr. Neu yn achos rhieni maeth, eu teulu a'u rhwydwaith eu hunain neu weithwyr proffesiynol sy'n eu cefnogi

© WJEC CBAC Ltd.

**Adnoddau Sgrinio ac Asesu**

**Plant Iach Cymru**

| **Oedran** | **Offeryn** |
|---|---|
| 5-8 diwrnod | Sgrinio smotiau gwaed |
| Hyd at 4 wythnos | Sgrinio clyw babanod newydd-anedig |
| Erbyn 14 diwrnod oed | Adnodd asesu gwydnwch teuluol (FRAIT)<br>Asesiad iechyd meddwl y fam |
| 72 awr/6 wythnos | Archwiliad corfforol |
| 8 wythnos/12 wythnos/16 wythnos | Asesiad Twf |
| 6 mis | Adnodd Asesu Gwydnwch Teuluol (FRAIT) gan Ymwelwyr Iechyd |
| 15 mis/27 mis/3.5 oed | Adnodd Asesu Gwydnwch Teuluol (FRAIT) ac Asesiad Twf a Datblygiad gan Ymwelwyr Iechyd |
| Rhwng 4 a 7 oed | Gwasanaeth Nyrs Ysgol rhwng 4 a 7 oed. Sgrinio'r golwg a thwf. Sgrinio nam ar y clyw. Rhaglen Mesur Plant |

**Dechrau'n Deg**

| **Oedran** | **Offeryn** |
|---|---|
| Cyn-geni | Adnodd Asesu Anghenion Iechyd y Teulu Dechrau'n Deg<br>Adnodd Sgrinio Trais Domestig |
| 0–6 wythnos | Adnodd Asesu Anghenion Iechyd y Teulu Dechrau'n Deg<br>Graddfa Asesu Ymddygiad Newyddenedigol (NBAS) |
| 8 wythnos/12 wythnos/16 wythnos | Asesiad Twf |

**Gwasanaethau cefnogi**: Y mathau a lefelau gwahanol o raglenni iechyd ac ymyrraeth i blant, boed wedi'u targedu neu'n rhai cyffredinol, ymweld â'r cartref (bydwraig ac ymwelydd iechyd, gweithiwr cymorth teulu), asesiad teulu (gwasanaethau i deuluoedd, 'Tîm o Amgylch y Plentyn/Teulu'), dietegydd cymunedol a chynllun cyn-ysgol iach a chynaliadwy, gwasanaethau mynediad agored yn y gymuned (grwpiau rhieni a phlant bach, amser stori, tylino babanod)

**Dysgu defnyddio'r toiled:** bod yn barod i ddechrau dysgu defnyddio'r toiled, paratoi i ddechrau dysgu defnyddio'r toiled, cefnogi plentyn bach i ddysgu defnyddio'r toiled, defnyddio cewynnau tynnu i fyny a phants dysgu defnyddio'r toiled, cefnogi arferion gyda'r nos wrth ddysgu defnyddio'r toiled, trawsnewid i'r toiled o boti, cefnogi plant bach i feithrin sgiliau annibyniaeth wrth ddefnyddio'r toiled, gweithio mewn partneriaeth ag eraill, strategaethau a thechnegau atgyfnerthu cadarnhaol

## Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS) cysylltiedig

- SCD CCLD 0303: Hybu datblygiad plant a phobl ifanc
- SCD CCLD 0307: Hybu iechyd a datblygiad corfforol plant
- SCD CCLD 0308: Hybu llesiant a gwydnwch plant
- SCD CCLD 0312: Creu amgylcheddau cadarnhaol i fabanod a phlant

© WJEC CBAC Ltd.

- SCD CCLD 0314: Hybu gofal babanod a phlant
- SCD CCLD 0325: Cefnogi plant a phobl ifanc drwy gyfnodau trawsnewid mawr
- SCD HSC 0037: Gofalu am fabanod

## Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig

- Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair: Cynllun Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (2013) Llywodraeth Cymru **https://gov.wales/docs/dcells/publications/130716-building-brighter-future-cy.pdf**
- SNAP CYMRU http://www.snapcymru.org/
- Cyswllt Teulu Cymru https://contact.org.uk/wales
- Adroddiad Blynyddol Prif Swyddog Meddygol Cymru 2014-15 Iachach, Hapusach, Tecach **https://gov.wales/docs/phhs/publications/160323cmoreportcy.pdf**
- Rhaglen Plant Iach Cymru **https://gov.wales/docs/dhss/publications/160926healthy-childrency.pdf**
- Cynyddu gwytnwch – pwysigrwydd chwarae (2015) http://www.chwaraecymru.org.uk/login/uploaded/documents/INFORMATION%20SHEETS/Cynyddu%20gwytnwch.pdf
- Amddifadedd chwarae (2003) https://www.chwaraecymru.org.uk/login/uploaded/documents/INFORMATION%20SHEETS/amddifadiad%20chwarae.pdf
- Naw Mis a Mwy http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/861/Naw%20Mis%20a%20Mwy%20Fersiwn%202%20April%202015.pdf
- Mae addysg yn dechrau yn y cartref **https://gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/parents/education-begins-at-home/?lang=cy**
- Dechrau'n Deg https://gov.wales/topics/people-and-communities/people/children-and-young-people/parenting-support-guidance/help/flyingstart/?skip=1&lang=cy
- Canllawiau NICE ar Iechyd Cyn Cenhedlu **https://cks.nice.org.uk/pre-conception-advice-and-management**
- Gwybodaeth Sefydliad Iechyd y Byd am ofal cyn cenhedlu **http://www.who.int/maternal_child_adolescent/documents/preconception_care_policy_brief.pdf**
- Coleg Brenhinol y Bydwragedd **https://www.rcm.org.uk/sites/default/files/Emotional%20Wellbeing_Guide_WEB.pdf**
- Canllawiau'r GIG http://www.nhs.uk/conditions/pregnancy-and-baby/pages/pregnancy-and-baby-care.aspx
- Ymlyniad **http://www.suttontrust.com/wp-content/uploads/2014/03/baby-bonds-final.pdf**
- Menter Cyfeillgar i Fabanod UNICEF **https://www.unicef.org.uk/babyfriendly/what-is-baby-friendly/**
- Cwsg **http://www.unicef.org.uk/BabyFriendly/Resources/Resources-for-parents/Caring-for-your-baby-at-night/**
- Cychwyn Iach **http://www.healthystart.nhs.uk**
- Cymdeithas Ddeieteg Prydain (Ffeithiau am Fwyd) https://www.bda.uk.com/
- First Steps Nutrition Trust https://www.firststepsnutrition.org/
- Lleihau'r risg o farwolaeth yn y crud **https://gov.wales/docs/dsjlg/publications/cyp/140320-reduce-risk-cot-death-cy.pdf**
- The lullaby trust https://www.lullabytrust.org.uk/safer-sleep-advice/
- Y GIG – Faint o gwsg sydd ei angen ar blant? http://www.nhs.uk/Livewell/Childrenssleep/Pages/howmuchsleep.aspx

© WJEC CBAC Ltd.

- Y GIG – Cyngor ar gwsg iach i blant http://www.nhs.uk/Livewell/Childrenssleep/Pages/bedtimeritual.aspx
- Adolygiad cyflym o'r dystiolaeth ar gwsg babanod a phlant http://www.healthscotland.com/uploads/documents/23540-SleepRapidEvidenceReviewWriteUp.pdf
- 'Safe Sleep for your baby' **http://www.phac-aspc.gc.ca/hp-ps/dca-dea/stages-etapes/childhood-enfance_0-2/sids/ss-eng.php**
- 'All About… Sleep' http://www.nurseryworld.co.uk/digital_assets/409/029_All-about.pdf
- Hanfodion cwsg da http://www.babycentre.co.uk/c25004253/basics-of-good-sleep
- 'Sleep Well, Sleep Safe' http://www.beststart.org/resources/hlthy_chld_dev/pdf/BSRC_Sleep_Well_resource_FNL_LR.pdf
- Y GIG http://www.nhs.uk/conditions/pregnancy-and-baby/pages/potty-training-tips.aspx
- BabyCentre http://www.babycentre.co.uk/potty-training
- NCT https://www.nct.org.uk/parenting/potty-training
- Chwarae: iechyd a lles (2012) **https://www.chwaraecymru.org.uk/login/uploaded/documents/INFORMATION%20SHEETS/chwarae%20iechyd%20a%20lles.pdf**
- Janet Moyles, Chwarae a'r blynyddoedd cynnar: genedigaeth i saith oed (2013) http://www.playwales.org.uk/login/uploaded/documents/INFORMATION%20SHEETS/chwarae%20ar%20blynyddoedd%20cynnar.pdf
- Hybu gweithgarwch corfforol trwy chwarae'r tu allan mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar (2016) https://www.chwaraecymru.org.uk/login/uploaded/documents/INFORMATION%20SHEETS/Hybu%20gweithgarwch%20corfforol%20blynyddoedd%20cynnar.pdf
- Arfer adfyfyriol – beth ydi o a pham ei fod mor bwysig? (2018) https://issuu.com/playwales/docs/arfer_myfyriol
- Adroddiadau ar brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod – http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/page/88504

© WJEC CBAC Ltd.

# Uned 305 Hybu gofal plant 2-3 oed

| | |
|---|---|
| **Lefel:** | 3 |
| **ORIAU DYSGU DAN ARWEINIAD (ODA:** | 80 |
| **Credyd:** | 10 |
| **Crynodeb o'r Uned:** | Mae'r uned hon yn cefnogi'r dysgwr i feithrin y wybodaeth a'r sgiliau sy'n hanfodol wrth hybu gofal plant 2-3 oed. Mae'n cynnwys rôl bondio ac ymlyniad a darparu arferion gofal corfforol diogel<br><br>Yng nghyd-destun yr uned hon, mae'r term 'plant bach/plant' yn cyfeirio at blant 2-3 oed |

## Deilliant dysgu:

1. Darpariaeth gofal plant a gwasanaethau cefnogi i blant 2-3 oed

### Meini prawf asesu

Rydych yn gwybod:

1.1 Pwrpas darpariaeth gofal plant a **gwasanaethau cefnogi** i blant 2-3 oed
1.2 Sut i wneud atgyfeiriadau at wasanaethau cefnogi i blant 2-3 oed
1.3 Sut i gyfeirio eraill at wybodaeth, cefnogaeth a chyngor
1.4 Sut mae gofal plant, **blaenoriaethau iechyd y cyhoedd** a gwasanaethau cefnogi yn ceisio mynd i'r afael ag anfantais ymhlith plant
1.5 Blaenoriaethau iechyd y cyhoedd cyfredol i blant 2-3 oed a'u manteision
1.6 Adnoddau sgrinio ac asesu a ddefnyddir ar hyn o bryd ar gyfer plant bach/plant

### Amrediad

**Gwasanaethau cefnogi:** Y mathau a lefelau gwahanol o raglenni iechyd ac ymyriadau plant cyffredinol ac wedi'u targedu
**Blaenoriaethau iechyd y cyhoedd:** Maeth a hydradu, gofal iechyd y geg, chwarae a gweithgarwch corfforol, golwg, rhaglen imiwneiddio plant, paratoi'r plentyn i fod yn barod ar gyfer yr ysgol a hybu diogelwch yn y cartref, oedolion yn rhoi'r gorau i ysmygu, lleihau cysylltiad â mwg eilaidd, atal damweiniau ac anafiadau, diogelwch yn y gymuned

---

## Deilliant dysgu:

2. Hybu a chefnogi bondio ac ymlyniad i blant 2-3 oed

### Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

2.1 **Damcaniaethau bondio ac ymlyniad**, a'u pwysigrwydd i ddysgu, twf, datblygiad a llesiant cyfannol plant bach/plant
2.2 Pwysigrwydd bondio ac ymlyniad o ran lleihau effaith anfantais yn ystod plentyndod

© WJEC CBAC Ltd.

2.3 Y mathau o ymlyniadau y gall plant bach/plant eu ffurfio
2.4 Arwyddion o ymlyniad ansicr
2.5 Sut i hybu ymlyniadau sicr i blant bach/plant
2.6 Effeithiau tymor hir posibl ymlyniadau ansicr
2.7 Y camau i'w cymryd lle mae arwyddion o ymlyniadau ansicr
2.8 **Amrywiaeth o ddulliau** er mwyn hybu, cynnal ac annog bondio ac ymlyniad

Rydych chi'n gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:
2.9 Modelu'r defnydd o amrywiaeth o ddulliau er mwyn cynnal bondio ac annog ymlyniadau sicr i blant bach/plant
2.10 Defnyddio adfyfyrio ac adborth gan eraill i werthuso sut mae eich ymarfer eich hun yn cefnogi'r broses o ddatblygu ymlyniadau sicr i blant bach/plant

## Amrediad

**Damcaniaethau bondio ac ymlyniad:** John Bowlby, Mary Ainsworth
**Amrywiaeth o ddulliau:** amgylchedd digyffro a meithringar, agosrwydd, rhagweladwyedd, cysondeb, nodau a ffiniau, cefnogi trawsnewid esmwyth, cydgynhyrchu, rhannu gwybodaeth, gweithio mewn partneriaeth, cyffwrdd

---

### Deilliant dysgu:
3. Hybu'r broses o gefnogi arferion gofal corfforol diogel plant 2-3 oed

### Meini prawf asesu

Rydych chi'n deall:
3.1 Pwysigrwydd nodi a darparu **arferion gofal corfforol** diogel i blant bach/plant, gan gynnal urddas a pharch
3.2 Pwysigrwydd awyrgylch tawel a chyfforddus i gefnogi arferion gofal corfforol diogel
3.3 Sut i gefnogi hyfforddiant i ddefnyddio'r toiled
3.4 Sut i gario a dal plant bach/plant yn ddiogel

Rydych chi'n gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:
3.5 Pennu a chynllunio arferion gofal corfforol diogel plant bach/plant ar y cyd ag eraill, yn unol â'ch rôl a'ch cyfrifoldebau eich hunain
3.6 Sicrhau bod yr **arferion gofal corfforol** y cytunwyd arnynt ar gyfer plant bach/plant yn cael eu cynnal
3.7 Hybu awyrgylch tawel a chyfforddus wrth gefnogi **arferion gofal corfforol** diogel
3.8 Modelu **arferion gofal corfforol** er mwyn sicrhau eu bod yn brofiadau diogel a phleserus sy'n hybu dysgu, twf a datblygiad cyfannol gan gynnal urddas a pharch plant
3.9 Sicrhau bod plant bach/plant yn cael eu cario a'u dal yn ddiogel, yn unol ag egwyddorion symud a lleoli
3.10 Monitro arferion gofal corfforol, eu cofnodi, rhoi gwybod amdanynt a'u cyfleu, yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r gweithle/lleoliad

## Amrediad

**Arferion gofal corfforol**: defnyddio'r toiled, golchi dwylo, gofal y geg, gofal y croen (gan gynnwys y rhan o'r croen o gwmpas y cewyn), cyfleoedd i orffwys, i gael amser tawel neu i gysgu, darpariaethau priodol ar gyfer dod i gysylltiad â golau haul a thymereddau isel

© WJEC CBAC Ltd.

# Uned 305 Hybu gofal plant 2-3 oed

## Gwybodaeth Ategol

### Gofynion tystiolaeth

Bydd y dystiolaeth ar gyfer yr uned hon yn cael ei chyflwyno drwy'r tasgau strwythuredig. Mae canllawiau ar gyfer unrhyw dystiolaeth ychwanegol y gall fod ei hangen i'w gweld yn y pecyn asesu.

### Canllawiau cyflwyno

Dylai'r uned hon gael ei chyflwyno mewn ffordd sy'n ymgorffori ac yn adeiladu ar y wybodaeth graidd a ddatblygwyd o fewn y cymhwyster Lefel 2 Craidd, a thrwy gymhwyso'r wybodaeth hon yn ymarferol, a ddangosir drwy'r uned orfodol ymarfer craidd.

**Gweithgareddau, profiadau ac arferion bob dydd:** gweithgareddau arferol (cyrraedd a gadael, prydau bwyd/byrbrydau ac amseroedd gorffwys/cysgu), arferion hyblyg, gweithgareddau chwarae hewristig, cyfleoedd i chwarae, cyfleoedd a phrofiadau dan do ac awyr agored, gweithgareddau chwarae dewis rhydd ac arweinir gan oedolyn, gweithgarwch corfforol a chyswllt, symudiadau, gemau, rhigymau, llyfrau, straeon a chaneuon

**Ymlyniad:** Mae'n cyfeirio at gysylltiad emosiynol plentyn a'i roddwr gofal sylfaenol sy'n dechrau ar adeg geni, sy'n datblygu'n gyflym rhwng 2 a 3 oed ac yn parhau i ddatblygu gydol oes.

- Ymlyniad sicr: Mae pobl ag ymlyniad sicr yn gyfforddus gyda phobl eraill, yn gallu dibynnu arnynt ac yn gwerthfawrogi agosatrwydd (ac yn gyfforddus ag ef)
- Ymlyniad osgoi: Mae gan bobl ag ymlyniad osgoi amheuon am bobl eraill, maen nhw'n ei chael hi'n anoddach ffurfio perthnasoedd, maen nhw'n osgoi agosatrwydd ac mae ganddyn nhw broblemau o ran ymddiriedaeth
- Ymlyniad pryderus: Byddai pobl ag ymlyniad pryderus yn hoffi meithrin perthnasoedd agos ag eraill ond maen yn ei chael hi'n anodd gwneud hyn am fod arnynt ofn cael eu gwrthod
- Ymlyniad ansicr: Bydd plant ag ymlyniad ansicr yn osgoi neu'n anwybyddu'r rhoddwr gofal heb ddangos fawr ddim emosiwn wrth i'r rhoddwr gofal adael neu ddychwelyd. Gall hyn fod o ganlyniad i ofal anghyson a roddwyd gan y rhoddwr gofal ei hun.

**Anfantais yn ystod plentyndod:** plant sy'n ddifreintiedig ac sydd wedi'u hamddifadu o safon byw ddigonol ac ysgogiad ac amgylchedd priodol, heb fynediad at addysg na gwasanaethau gan gynnwys gofal iechyd, o ganlyniad i dlodi a diffyg cyfle

**Adnoddau sgrinio ac asesu presennol** o dan raglen Plant Iach Cymru:

- Adnodd asesu gwydnwch teuluol
- Gwerthusiad gallu rhianta
- Amserlen Asesu Sgiliau Tyfu – asesu datblygiad plant
- Asesiadau twf a phwysau

**Teuluoedd/gofalwyr:** yng nghyd-destun yr uned hon, gall hyn olygu unrhyw un â chyfrifoldeb rhiant (naturiol ac wedi'i ddirprwyo) dros y baban/plentyn bach.

© WJEC CBAC Ltd.

**Amserlen Imiwneiddio ar gyfer plant rhwng 2 fis ac 18 oed:**

| Oedran | Imiwneiddio | Sylwadau |
|---|---|---|
| **2 fis** | 6-mewn-1 (DTaP/IPV/Hib/HepB) | Un pigiad sy'n cynnwys brechlynnau i ddiogelu yn erbyn chwe chlefyd ar wahân: difftheria, tetanws, y pas (pertwsis), polio, hepatitis B a ffliw Haemoffilws math b (a elwir yn Hib)-Dos cyntaf |
| | Niwmococol (PCV13) | Dos cyntaf |
| | Rotafirws | Dos cyntaf |
| | Men B | Dos cyntaf |
| **3 mis** | 6-mewn-1 (DTaP/IPV/Hib) | Ail ddos |
| | Rotafirws | Ail ddos |
| **4 mis** | 6-mewn-1 (DTaP/IPV/Hib) | Trydydd dos |
| | Niwmococol (PCV) | Ail ddos |
| | Men B | Ail ddos |
| **12-13 mis** | Hib/Men C | Mae'n cynnwys Hib (pedwerydd dos) |
| | MMR | Dos cyntaf |
| | Niwmococol (PCV) | Trydydd dos |
| | Men B | Trydydd dos |
| **2 oed** | Brechlyn ffliw plant blynyddol | O 2 oed ymlaen |
| **3-4 oed** | MMR | Ail ddos |
| | 4-mewn-1 (DTaP/IPV) | |
| **12-13 oed** | HPV | Merched yn unig |
| **13-18 oed** | 3-mewn-1 (Td/IPV) | Brechiad atgyfnerthu yn yr arddegau – Difftheria, tetanws a pholio |
| | Men ACWY | |

**Gofal iechyd y geg:** mae hyn yn ymwneud â gofal y dannedd a'r deintgig, gan gynnwys torri dannedd, defnydd priodol o offer yfed, defnydd priodol o ddymis

**Eraill:** gallen nhw fod yn gydweithwyr, cymheiriaid, teuluoedd/gofalwyr. Neu yn achos rhieni maeth, eu teulu a'u rhwydwaith eu hunain neu weithwyr proffesiynol sy'n eu cefnogi

© WJEC CBAC Ltd.

**Gwasanaethau cefnogi:** Y mathau a lefelau gwahanol o raglenni iechyd ac ymyrraeth i blant, boed wedi'u targedu (Dechrau'n Deg) neu'n rhai cyffredinol – ymweld â'r cartref (ymwelydd iechyd, gweithiwr cymorth teulu), asesiad teulu (gwasanaethau i deuluoedd, 'Tîm o Amgylch y Plentyn/Teulu'), dietegydd cymunedol a chynllun cyn-ysgol iach a chynaliadwy, gwasanaethau mynediad agored yn y gymuned (grwpiau rhieni a phlant bach, amser stori, clybiau llyfrau, Dechrau Da, grwpiau chwaraeon/hamdden)

**Dysgu defnyddio'r toiled:** bod yn barod i ddechrau dysgu defnyddio'r toiled, paratoi i ddechrau dysgu defnyddio'r toiled, cefnogi plentyn bach i ddysgu defnyddio'r toiled, defnyddio cewynnau tynnu i fyny a phants dysgu defnyddio'r toiled, cefnogi arferion gyda'r nos wrth ddysgu defnyddio'r toiled, trawsnewid i'r toiled o boti, cefnogi plant bach i feithrin sgiliau annibyniaeth wrth ddefnyddio'r toiled, gweithio mewn partneriaeth ag eraill, strategaethau a thechnegau atgyfnerthu cadarnhaol

## Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS) cysylltiedig

- SCDCCLD 0303 Hybu datblygiad plant a phobl ifanc
- SCD CCLD 0306: Cynllunio a threfnu amgylcheddau i blant a theuluoedd
- SCD CCLD 0307: Hybu iechyd a datblygiad corfforol plant
- SCD CCLD 0308: Hybu llesiant a gwydnwch plant
- SCD CCLD 0312: Creu amgylcheddau cadarnhaol i fabanod a phlant
- SCD CCLD 0314: Hybu gofal babanod a phlant
- SCD CCLD 0325: Cefnogi plant a phobl ifanc drwy gyfnodau trawsnewid mawr

## Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig

- Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir i blant hyd at 12 oed (2018) https://careinspectorate.wales/sites/default/files/2018-01/160411regchildcarecy.pdf
- Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair: Cynllun Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (2013) Llywodraeth Cymru **https://gov.wales/docs/dcells/publications/130716-building-brighter-future-cy.pdf**
- SNAP CYMRU http://www.snapcymru.org/
- Cyswllt Teulu Cymru https://contact.org.uk/wales
- Strategaeth Tlodi Plant (2015) **https://gov.wales/topics/people-and-communities/people/children-and-young-people/child-poverty/?lang=cy**
- Deddf Gofal Plant 2006 a Rheoliadau Deddf Gofal Plant 2006 (Asesiadau Awdurdod Lleol) (Cymru) 2016 – gofynion yr Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant a luniwyd gan awdurdodau lleol
- Rheoliadau Deddf Gofal Plant 2006 (Asesiadau Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2016 http://www.legislation.gov.uk/wsi/2016/88/note/made/welsh
- Y Ddeddf Plant (2004) http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2004/31/contents
- Y Ddeddf Gofal Plant (2006) http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2006/21/contents
- Crynodeb o Ganfyddiadau Project EPPSE (Effective Pre-school, Primary and Secondary Education) 1997-2014 https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/455670/RB455_Effective_pre-school_primary_and_secondary_education_project.pdf.pdf
- 2002 'Study of Pedagogical Effectiveness in Early Learning' (SPEEL), Moyles, J., Adams, S. a Musgrove, A 2002, Ysgol Ymchwil a Datblygu Addysg Prifysgol Bolytechnig Anglia https://dera.ioe.ac.uk/4591/1/RR363.pdf
- Fframwaith y Blynyddoedd Cynnar yn yr Alban **http://www.gov.scot/Topics/People/Young-People/early-years/delivery/framework**
- Pre Birth To Three (yr Alban) **https://education.gov.scot/improvement/Documents/ELC/ELC2_PreBirthToThree/ELC2IntroPreBirthtoThree.pdf**

© WJEC CBAC Ltd.

- Cyfnod Sylfaen y Blynyddoedd Cynnar-EYFS (Lloegr) **https://www.gov.uk/government/publications/early-years-foundation-stage-framework--2**
- Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir i blant hyd at 12 oed (2018) https://careinspectorate.wales/sites/default/files/2018-01/160411regchildcarecy.pdf
- Amddifadedd chwarae (2003) https://www.chwaraecymru.org.uk/login/uploaded/documents/INFORMATION%20SHEETS/amddifadiad%20chwarae.pdf
- Cynyddu gwytnwch – pwysigrwydd chwarae (2015) http://www.chwaraecymru.org.uk/login/uploaded/documents/INFORMATION%20SHEETS/Cynyddu%20gwytnwch.pdf
- Child Safety in Wales, Examples of Interventions in Practice, Children in Wales Pre-school and early home learning effects on A-level outcomes, Adroddiad Ymchwil EPPSE, 2015, Sammons, Toth a Sylva gyda Melhuish, Siraj a Taggart, Prifysgol Rhydychen, cyhoeddwyd gan yr Adran Addysg **https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/472867/RR472A_Pre-school_and_early_home_learning_effects_on_A_level_outcomes.pdf**
- Fframwaith y Cyfnod Sylfaen **https://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/150803-fp-framework-cy.pdf**
- Rhaglen Dechrau'n Deg **https://learn.nes.nhs.scot/735/flying-start-nhs**
- Cynllun Cyn-ysgol Iach a Chynaliadwy a Cynllluniau Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru **http://www.nptfamily.com/media/7420/hspss-criteria.pdf**
- Laevers, F (1991) The innovative project Experiential Education and the definition of quality on education-unpublished paper
- Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd https://cardiff-fis.info/?lang=cy
- Cynllun Gwên **https://www.designedtosmile.org/welcome-croeso/croeso/?lang=cy**
- Child Accident Prevention Trust (CAPT) https://www.capt.org.uk/
- Gwiriadau Diogelwch Tân yn y Cartref Gwasanaeth Tân De Cymru https://www.decymru-tan.gov.uk/
- Llywodraeth Cymru https://gov.wales/topics/people-and-communities/people/children-and-young-people/childcare/?skip=1&lang=cy
- Y GIG – Faint o gwsg sydd ei angen ar blant? http://www.nhs.uk/Livewell/Childrenssleep/Pages/howmuchsleep.aspx
- Y GIG – Cyngor ar gwsg iach i blant http://www.nhs.uk/Livewell/Childrenssleep/Pages/bedtimeritual.aspx
- Y GIG http://www.nhs.uk/conditions/pregnancy-and-baby/pages/potty-training-tips.aspx
- BabyCentre http://www.babycentre.co.uk/potty-training
- NCT https://www.nct.org.uk/parenting/potty-training
- Chwarae: iechyd a lles (2012) **https://www.chwaraecymru.org.uk/login/uploaded/documents/INFORMATION%20SHEETS/chwarae%20iechyd%20a%20lles.pdf**
- Janet Moyles, Chwarae a'r blynyddoedd cynnar: genedigaeth i saith oed (2013) http://www.playwales.org.uk/login/uploaded/documents/INFORMATION%20SHEETS/chwarae%20ar%20blynyddoedd%20cynnar.pdf
- Hybu gweithgarwch corfforol trwy chwarae'r tu allan mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar (2016) https://www.chwaraecymru.org.uk/login/uploaded/documents/INFORMATION%20SHEETS/Hybu%20gweithgarwch%20corfforol%20blynyddoedd%20cynnar.pdf
- Arfer adfyfyriol – beth ydi o a pham ei fod mor bwysig? (2018) https://issuu.com/playwales/docs/arfer_myfyriol
- Adroddiadau ar brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod – http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/page/88504


© WJEC CBAC Ltd.

# Uned 306 Hybu gweithio gyda phlant 3-7 oed

| | |
|---|---|
| **Lefel:** | 3 |
| **ORIAU DYSGU DAN ARWEINIAD (ODA:** | 80 |
| **Credyd:** | 10 |
| **Crynodeb o'r Uned:** | Mae'r uned hon yn addysgu'r sgiliau sydd eu hangen i hybu datblygiad cyfannol plant drwy gymhwyso'r meysydd dysgu. Bydd dysgwyr sy'n cwblhau'r uned hon yn gallu deall dysgu a datblygiad cyfannol plant drwy gwricwlwm y blynyddoedd cynnar, ac yn gallu cynllunio, cynnal ac adolygu gweithgareddau a chyfleoedd sy'n cefnogi dysgu a datblygiad cyfannol plant 3-7 oed drwy feysydd y cwricwlwm. |

## Deilliant dysgu:
1. Darpariaeth gofal plant a gwasanaethau cefnogi i blant 3-7 oed

## Meini prawf asesu

Rydych chi'n deall:
1.1 Pwrpas darpariaeth gofal plant a gwasanaethau cefnogi i blant 3-7 oed
1.2 Y fframwaith rheoleiddio sy'n gymwys i'r cwricwlwm yng Nghymru ar gyfer plant 3-7 oed
1.3 Sut i wneud atgyfeiriadau at wasanaethau cefnogi i blant 3-7 oed
1.4 Sut i gyfeirio teuluoedd/gofalwyr at wybodaeth, cefnogaeth a chyngor
1.5 Sut mae gofal plant ac addysg yn y blynyddoedd cynnar, **blaenoriaethau iechyd y cyhoedd** a gwasanaethau cefnogi yn ceisio mynd i'r afael ag anfantais ymhlith plant
1.6 Adnoddau sgrinio ac asesu a ddefnyddir ar hyn o bryd ar gyfer plant 3-7 oed

## Amrediad

**Blaenoriaethau iechyd y cyhoedd:** Maeth a hydradu, gofal iechyd y geg, chwarae a gweithgarwch corfforol, golwg, rhaglen imiwneiddio plant, paratoi'r plentyn i fod yn barod ar gyfer yr ysgol a hybu diogelwch yn y cartref, oedolion yn rhoi'r gorau i ysmygu, lleihau cysylltiad â mwg eilaidd, atal damweiniau ac anafiadau, diogelwch yn y gymuned

---

## Deilliant dysgu:
2. Cefnogi ymlyniad a gwydnwch ar gyfer plant 3-7 oed

## Meini prawf asesu

Rydych yn deall:
2.1 **Damcaniaethau ymlyniad**, a'u pwysigrwydd o ran gwydnwch, dysgu, datlbygiad a llesiant cyfannol plant
2.2 Pwysigrwydd ymlyniad a hybu gwydnwch o ran lleihau effaith anfantais yn ystod plentyndod
2.3 Y mathau o ymlyniadau y gall plant eu ffurfio
2.4 Arwyddion o ymlyniad ansicr
2.5 Sut i hybu ymlyniadau sicr i blant
2.6 Effeithiau tymor hir posibl ymlyniadau ansicr a sut mae hyn yn effeithio ar wydnwch

© WJEC CBAC Ltd.

2.7 Y camau i'w cymryd lle mae arwyddion o ymlyniadau ansicr
2.8 **Amrywiaeth o ddulliau** er mwyn hybu, cynnal ac annog ymlyniad a gwydnwch

Rydych chi'n gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:
2.9 Modelu'r defnydd o amrywiaeth o ddulliau er mwyn annog ymlyniadau sicr a hybu gwydnwch i blant
2.10 Defnyddio adfyfyrio ac adborth gan eraill i werthuso sut mae eich ymarfer eich hun yn cefnogi'r broses o ddatblygu ymlyniadau sicr i blant bach/plant

### Amrediad

**Damcaniaethau ymlyniad:** John Bowlby, Mary Ainsworth
**Amrywiaeth o ddulliau:** amgylchedd digyffro a meithringar, agosrwydd, rhagweladwyedd, cysondeb, nodau a ffiniau, cefnogi trawsnewid esmwyth, cydgynhyrchu, rhannu gwybodaeth, gweithio mewn partneriaeth, cyffwrdd

---

Deilliant dysgu:
3. Hybu'r broses o gefnogi arferion gofal corfforol diogel plant 3-7 oed

Meini prawf asesu

Rydych chi'n deall:
3.1 Pwysigrwydd nodi a darparu **arferion gofal corfforol** diogel i blant, gan gynnal urddas a pharch
3.2 Pwysigrwydd awyrgylch tawel a chyfforddus i gefnogi arferion gofal corfforol diogel
3.3 Sut i gefnogi plant i ddysgu defnyddio'r toiled gan gynnal eu hurddas a'u parch

Rydych chi'n gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:
3.4 Pennu a chynllunio arferion gofal corfforol diogel plant ar y cyd ag eraill, yn unol â'ch rôl a'ch cyfrifoldebau eich hunain
3.5 Sicrhau bod yr **arferion gofal corfforol** y cytunwyd arnynt ar gyfer plant yn cael eu cynnal
3.6 Hybu awyrgylch tawel a chyfforddus wrth gefnogi **arferion gofal corfforol** diogel
3.7 Modelu **arferion gofal corfforol** er mwyn sicrhau eu bod yn brofiadau diogel a phleserus sy'n hybu dysgu, twf a datblygiad cyfannol gan gynnal urddas a pharch plant
3.8 Monitro arferion gofal corfforol, eu cofnodi, rhoi gwybod amdanynt a'u cyfleu, yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r gweithle/lleoliad

### Amrediad

**Arferion gofal corfforol**: defnyddio'r toiled, golchi dwylo, gofal y geg, gofal y croen, cyfleoedd i orffwys a chael amser tawel, darpariaethau priodol ar gyfer dod i gysylltiad â golau haul a thymereddau isel

---

Deilliant dysgu:
4. Fframweithiau damcaniaethol ac ymarfer seiliedig ar dystiolaeth sy'n ategu gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant 3-7 oed

© WJEC CBAC Ltd.

## Meini prawf asesu

Rydych chi'n deall:

4.1 **Damcaniaethau**, dulliau gweithredu ac **egwyddorion** traddodiadol a chyfoes sy'n ategu, ac yn dylanwadu ar, feysydd dysgu plant rhwng 3 a 7 oed
4.2 Pwysigrwydd y gydberthynas rhwng y meysydd dysgu a hybu dysgu, chwarae a datblygiad cyfannol
4.3 Sut i hybu'r iaith Gymraeg a'i diwylliant, a gallu plant i werthfawrogi eu hunain ac eraill ar draws pob maes dysgu
4.4 Sut mae darpariaeth barhaus, dysgu gweithredol a dysgu drwy brofiad yn hybu dysgu a datblygiad cyfannol yng Nghwricwlwm y Blynyddoedd Cynnar
4.5 Pwrpas defnyddio adnoddau arsylwi ac asesu presennol wrth gynllunio a chyflwyno darpariaeth barhaus yn y meysydd dysgu

Rydych chi'n gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

4.6 Defnyddio arsylwadau ac asesiadau i ddatblygu cynlluniau ar gyfer datblygiad cyfannol plant yn y meysydd dysgu
4.7 Cofnodi canlyniadau arsylwadau ac asesiadau yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r gweithle
4.8 Defnyddio fframweithiau damcaniaethol i lywio'r gwaith o gynllunio a chynnal gweithgareddau ar gyfer y meysydd dysgu
4.9 Mewnblannu egwyddorion addysgegol yn y gwaith o gynllunio a chynnal gweithgareddau mewn amrywiaeth o amgylcheddau er mwyn cefnogi datblygiad plant ym mhob un o'r meysydd dysgu
4.10 Cynllunio a datblygu gweithgareddau, cyfleoedd i chwarae ac amgylcheddau sy'n cefnogi datblygiad cyfannol yn y gwahanol feysydd dysgu, gan ystyried yr angen i hybu'r Gymraeg a diwylliant Cymru
4.11 Addasu gweithgareddau er mwyn helpu i gynnwys plant ag anghenion ychwanegol, gan gynnwys plant mwy abl a thalentog, yn y meysydd dysgu
4.12 Gweithredu a monitro cynllunio datblygu yn ymarferol yn eich gweithle/lleoliad eich hun, yn unol â'ch rôl a'ch cyfrifoldebau eich hun
4.13 Defnyddio arsylwadau ac adborth gan eraill i asesu'r ffordd mae gweithgareddau a gynlluniwyd wedi cefnogi datblygiad plant yn y meysydd dysgu
4.14 Adfyfyrio ar gynlluniau datblygu, eu hadolygu a'u gwerthuso gan ystyried cynllunio ar gyfer cynnydd a chyfleoedd i ymestyn a herio

## Amrediad

**Damcaniaethau:** gwybyddol, dyneiddiol, dysgu cymdeithasol, lluniadaethol, ymddygiadol, chwarae
**Egwyddorion:** egwyddorion addysgegol, addysgeg gymdeithasol, gan gwmpasu'r plentyn; yr amgylchedd dysgu; y gweithiwr

© WJEC CBAC Ltd.

# Uned 306 Hybu gweithio gyda phlant 3-7 oed

## Gwybodaeth Ategol

### Gofynion tystiolaeth

Bydd y dystiolaeth ar gyfer yr uned hon yn cael ei chyflwyno drwy'r tasgau strwythuredig. Mae canllawiau ar gyfer unrhyw dystiolaeth ychwanegol y gall fod ei hangen i'w gweld yn y pecyn asesu.

### Canllawiau cyflwyno

Dylai'r uned hon gael ei chyflwyno mewn ffordd sy'n ymgorffori ac yn adeiladu ar y wybodaeth graidd a ddatblygwyd o fewn y cymhwyster Lefel 2 Craidd, a thrwy gymhwyso'r wybodaeth hon yn ymarferol, a ddangosir drwy'r uned orfodol ymarfer craidd.

**Ffactorau andwyol:** dod i gysylltiad â chamddefnyddio sylweddau (ysmygu, gan gynnwys ysmygu goddefol, alcohol, meddyginiaeth ar bresgripsiwn, cyffuriau anghyfreithlon, camddefnyddio fitaminau), dim digon o asid ffolig deietegol, gallu'r fam/rhiant i fynd i'r afael â'i hanghenion/anghenion iechyd ei hun, deiet y fam, straen yn ystod beichiogrwydd, trawma yn ystod genedigaeth, genedigaeth gynamserol, ffactorau genynnol, heintiau a drosglwyddir yn rhywiol, maeth a hydradu gwael, diffyg cysylltiad ag amgylchedd llawn iaith, amgylcheddau anymatebol sy'n llawn straen a cham-drin, cam-drin domestig, dim digon o weithgarwch corfforol, dod i gysylltiad ag afiechyd cyffredin mewn plant, llygredd, gormod o olau haul, gorsymbyliad a thansymbyliad, straen gwenwyn (gan gynnwys rôl ac effaith cortisol ac adrenalin), tai annigonol, tlodi, diffyg mynediad at wasanaethau

**Anfantais yn ystod plentyndod:** plant sy'n ddifreintiedig ac sydd wedi'u hamddifadu o safon byw ddigonol ac ysgogiad ac amgylchedd priodol, heb fynediad at addysg na gwasanaethau gan gynnwys gofal iechyd, o ganlyniad i dlodi a diffyg cyfle

**Y Cwricwlwm i Gymru**
4 diben y Cwricwlwm i Gymru
1. Ddysgwyr uchelgeisiol, galluog, sy'n barod i barhau i ddysgu drwy gydol eu bywydau.
2. Cyfranwyr mentrus a chreadigol, sy'n barod i gymryd rhan lawn mewn bywyd a gwaith.
3. Dinasyddion moesegol a gwybodus sy'n barod i fod yn ddinasyddion yng Nghymru a'r byd.
4. Unigolion iach a hyderus sy'n barod i fyw bywyd cyflawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

Bwriad y dibenion hyn yw dangos sut mae'r Cwricwlwm yn anelu at gefnogi'r hyn y dylai pob plentyn fod erbyn y byddan nhw'n gorffen eu haddysg, ond mae'r blynyddoedd cynnar yn adeiladu sylfaen gadarn o ran cyflawni hyn.

5 llwybr datblygu'r Cwricwlwm i Gymru
Mae addysg plant, yn y blynyddoedd cynnar yng Nghymru, yn canolbwyntio ar bum llwybr datblygu. Y rhain yw:
- Perthyn
- Cyfathrebu
- Archwilio
- Datblygiad corfforol
- Llesiant

© WJEC CBAC Ltd.

Llwybrau plant-ganolog sydd hefyd yn rhyngddibynnol yw'r llwybrau datblygu hyn, mae'r un gwerth yn perthyn iddyn nhw o ran cefnogi datblygiad a chynnydd cyffredinol. Maen nhw'n canolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig i'r plentyn ac yn cysylltu'n agos ag egwyddorion allweddol datblygiad plant.

6 Maes Dysgu y Cwricwlwm i Gymru
Maes Un – Celfyddydau mynegiannol. Mae'r Maes hwn yn cynnwys celf, cerddoriaeth, dawns, ffilm a'r cyfryngau digidol, a drama.

Drwy'r rhain, mae plant yn dysgu:

- Cydweithio ac i werthfawrogi ac ategu cyfraniadau ei gilydd wrth greu.
- Archwilio a mynegi eu hemosiynau mewn ffyrdd creadigol.
- Sut i edrych ar waith celf pobl eraill a meddwl am yr hyn maen nhw'n ei gyfathrebu drwy'r gwaith hwnnw.
- Rheoli amser a dyfeisgarwch.

Maes Dau – Iechyd a llesiant. Mae'r Maes hwn yn adeiladu dealltwriaeth plant o werth iechyd corfforol, meddyliol, cymdeithasol ac emosiynol, ac yn eu haddysgu sut i edrych ar ôl eu hiechyd a'u llesiant.

Drwy'r rhain, mae plant yn dysgu;

- Sut i edrych ar ôl eu hiechyd corfforol a pham bod hynny'n rhywbeth o bwys. Yn y blynyddoedd cynnar, mae hyn yn cynnwys digonedd o gyfleoedd i symud y corff er mwyn datblygu ymwybyddiaeth plant o'u cyrff, eu cryfder, cydsymud a chydbwysedd.
- Adnabod ac ymateb i emosiynau ynddyn nhw eu hunain ac mewn eraill.
- Sut i ystyried effaith eu penderfyniadau ar bobl eraill.
- Sut i feithrin a chynnal perthnasoedd iach.

Maes Tri – Dyniaethau. Gall Dyniaethau yn y blynyddoedd cynnar gynnwys hanes, daearyddiaeth, crefydd, moeseg ac astudiaethau cymdeithasol, er y gall gweithwyr gyflwyno testunau eraill ym maes y dyniaethau lle y bo'n briodol gwneud hynny. Bwriad y Maes hwn yw cefnogi plant i ddod yn ddinasyddion gwybodus a moesegol.

Drwy'r rhain, bydd plant yn dysgu:

- Ynglŷn â hanes ac arferion cyfoes diwylliant Cymru a diwylliannau eraill.
- Archwilio credoau ac arferion crefyddol ac anghrefyddol.
- Archwilio eu gwerthoedd, moeseg a'u credoau eu hunain, a gwrando ar rai pobl eraill.
- Chwilfrydedd am y byd naturiol, cymdeithas ddynol a hanes.

Maes Pedwar – Ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu. Mae'r maes hwn yn anelu at gefnogi plant i ddysgu i gyfathrebu'n effeithiol yn y Saesneg (er y gall darparwyr ddewis peidio â chynnwys yr iaith Saesneg er mwyn datblygu rhuglder yn y Gymraeg), y Gymraeg ac mewn ieithoedd eraill lle bo'n berthnasol.

Drwy hyn, byddan nhw'n dysgu:

- Siarad, gwrando a chyfathrebu, wedi'u dysgu drwy brofiadau bywyd go iawn. Mae plant yn dysgu geirfa a gramadeg drwy ddefnyddio'r rhain i esbonio'r hyn maen nhw'n ei olygu yn effeithiol.
- Defnyddio sgiliau a ddysgwyd mewn un iaith (Cymraeg neu Saesneg) a chymhwyso hynny at ieithoedd eraill.
- Gwneud marciau a rhywfaint o ysgrifennu, fel llythrennau a rhifau unigol.
- Sut i ddefnyddio iaith i fynegi teimladau, dymuniadau a barnau, ac dysgu am rai pobl eraill.
- Sut mae storïau, caneuon, cerddi a rhigymau'n ysbrydoli dychymyg a chreadigrwydd.

© WJEC CBAC Ltd.

Maes Pump – Mathemateg a rhifedd. Mae'r Maes hwn yn anelu at gefnogi plant i ddysgu sgiliau mathemateg cynnar a sut y gellir defnyddio'r rhain i ddatrys problemau mewn bywyd bob dydd. Mae lleoliadau blynyddoedd cynnar yn defnyddio profiadau ymarferol fel ffordd o alluogi plant i ddysgu sgiliau mathemategol ac i gymhwyso eu gwybodaeth yn ymarferol.

Drwy hyn, byddan nhw'n ymdrin â:
- Rhifau a chyfrif.
- Sut mae adio a thynnu gwrthrychau yn effeithio ar y cyfanswm sydd yna.
- Adnabod a lluniadu siapiau a phatrymau.

Maes Chwech – Gwyddoniaeth a thechnoleg. Mae'r Maes hwn yn anelu at gefnogi plant i ddysgu sut mae gwyddoniaeth a thechnoleg yn sail i sut mae'r byd rydym yn byw ynddo'n gweithio.

Drwy hyn, gallan nhw ymdrin â:
- Defnyddio defnyddiau amrywiol i arbrofi â grymoedd a mudiant fel gwthio neu dynnu, caled neu feddal, suddo neu arnofio, ysgafn neu drwm.
- Dysgu am rannau o'r corff, y synhwyrau, anifeiliaid, planhigion a thywydd.
- Dysgu cymharu, trefnu a dosbarthu gwrthrychau a phethau eraill, fel lleoedd, y tywydd, teimladau ac ati.
- Defnyddio technoleg ddigidol, fel teganau trydanol, gwrthrychau'r cartref, tabledi a chyfrifiaduron, ac ati.

Mae'r cwricwlwm i Gymru yn cynnwys **'Cod Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig'** hefyd. Mae'n nodi 27 datganiad o'r hyn sy'n bwysig ar draws pob un o'r chwe maes dysgu a phrofiad. Mae'r datganiadau yn pennu cynnydd dysgu ym mhob maes. Yr egwyddorion cynnydd yw:
- Cynyddu effeithiolrwydd
- Ehangder a dyfnder gwybodaeth cynyddol
- Dyfnhau'r ddealltwriaeth o'r syniadau a'r disgyblaethau yn y Meysydd.
- Mireinio a soffistigeiddrwydd cynyddol wrth ddefnyddio a chymhwyso sgiliau.
- Creu cysylltiadau a throsglwyddo dysgu i gyd-destunau newydd.

Mae hyn yn cynnwys pum cam cynnydd. Mae plant 3-5 oed ar Gam Cynnydd 1.

Dan y Cwricwlwm i Gymru, nid oes amserlen benodol o weithgareddau y mae'n rhaid i weithwyr ei darparu. Yn hytrach, maen nhw'n canolbwyntio ar ddysgu ystyrlon, gweithgareddau sy'n cynnig cyfleoedd dysgu arwyddocaol.

**Mathau gwahanol:** a gynhelir (ysgolion), nas cynhelir (meithrinfeydd dydd, cylchoedd meithrin, cylchoedd chwarae, gwarchodwyr plant)

**Rhyngweithio'n effeithiol:**
- Cywair sy'n cyfleu diddordeb a chynhesrwydd
- Ail-ddweud yr hyn mae'r plentyn wedi'i ddweud gan ddangos y defnydd cywir o eiriau.
- Gwrando gweithredol
- Ymestyn ac ailadrodd yr hyn mae plant yn ei ddweud
- Rhoi gwybodaeth a disgrifiadau ynglŷn â'r hyn sy'n digwydd
- Gofyn cwestiynau penagored
- Digon o amser i ryngweithio o safon – cyflymder siarad priodol a digon o amser i'r plentyn ymateb
- Modelu geirfa briodol, er enghraifft iaith fathemategol

© WJEC CBAC Ltd.

**Ffactorau**: Anghenion deietegol arbennig (diwylliannol / crefyddol, fegan, llysieuol, er mwyn rheoli problemau iechyd e.e. palet meddal, cwlwm tafod, alergeddau ac anoddefedd), bwydo cyflenwol, siâp, lliw, ansawdd, arogl a chyflwyniad a dewis o fwyd, cydfwyta â chyfoedion, dull gweithredu cyson a bod yn fodel rôl cadarnhaol, annog i arbrofi, gweithgareddau a mentrau llawn hwyl mewn perthynas â bwyd, gan gynnwys gadael i blant gymryd rhan yn y broses o baratoi a gweini bwyd.

**Dysgu a datblygiad cyfannol plant 3-7 oed**: mae'n canolbwyntio ar feithrin pob rhan o ddysgu a datblygiad plentyn, gan gynnwys elfennau corfforol, emosiynol, ysbrydol, deallusol a chreadigol a'r ffordd y gall dysgu gefnogi hyn. Mae'n canolbwyntio ar bob rhan o ddysgu a datblygiad plant yn gynhenid ac nid ar wahân.

**Gallai dysgu cymdeithasol ac emosiynol gynnwys**:
- Sut i werthfawrogi eich hun ac eraill
- Sut i feddwl yn gyfartal am eich gilydd
- Goddef, derbyn, parchu a deall pobl eraill
- Sut i ddatblygu perthnasoedd iach
- Dinasyddiaeth fyd-eang
- Dathlu amrywiaeth
- Llythrennedd emosiynol (adnabod a labelu emosiynau)
- Caredigrwydd
- Hunanreoleiddio ymddygiad
- Technegau rheoli straen
- Datrys problemau

**Egwyddorion addysgegol:**
**Y plentyn:**
- gwneud dewisiadau, cymryd rhan, cael ei gynnwys, dechrau a chyfeirio ei ddysgu ei hun dros gyfnod o amser
- dysgu drwy weithgareddau archwiliadol ac ymarferol uniongyrchol
- cael ei herio a'i gefnogi'n briodol gan yr oedolion a'r amgylchedd dysgu, fel bod cynnydd da yn cael ei wneud

**Yr amgylchedd dysgu:**
- sy'n sicrhau llif rhwng gweithgareddau parhaus, gweithgareddau wedi'u cyfoethogi a gweithgareddau â ffocws, dan do ac yn yr awyr agored, sy'n adlewyrchu ac yn ennyn diddordebau plant
- sy'n galluogi plant i ddefnyddio adnoddau sy'n eu galluogi i wneud dewisiadau a meithrin annibyniaeth yn eu dysgu
- sy'n galluogi plant i gymhwyso, defnyddio, atgyfnerthu ac ymestyn eu sgiliau ym mhob un o'r Meysydd Dysgu a Phrofiad
- sy'n cynnwys cyfleoedd i blant fod yn weithgar yn gorfforol ac yn wybyddol yn ogystal â chael 'amser tawel' i adfyfyrio a meddwl

**Y gweithwyr:**
- sy'n annog y plentyn i feddwl am ei brofiadau dysgu ac adfyfyrio arnynt er mwyn ymestyn ei ddysgu lle y bo'n briodol
- sy'n cynllunio cyfleoedd dysgu sy'n briodol o ran datblygiad, sy'n ennyn diddordeb ac sydd wedi'u llywio gan arsylwadau ac asesiadau rheolaidd o alluoedd plant
- sy'n mynd ati i gynnwys teuluoedd/gofalwyr yng nghymuned y lleoliad/yr ysgol, gan eu gweld fel partneriaid yn addysg eu plant
- sy'n ceisio datblygu eu hunain yn broffesiynol yn barhaus, gan rannu ymarfer rhagorol ac effeithiol a dysgu ohono, a gweithio gydag ymarferwyr eraill ledled Cymru a thu hwnt.

© WJEC CBAC Ltd.

**Heriau posibl:** bwyta ffyslyd, anabledd, sgiliau annibyniaeth, dewisiadau gwael a gwybodaeth wael am faeth gan rieni, dylanwadau cyfoedion

**Gallai gwaith cynllunio gynnwys y canlynol, ond nid yw'n gyfyngedig iddynt**:
- Y ffordd mae canlyniadau arsylwadau, trafodaethau ac asesiadau wedi llywio'r broses gynllunio a chanlyniadau dysgu ar gyfer y plant.
- Y ffordd mae dogfennau canllaw a fframweithiau addysgegol wedi llywio'r broses gynllunio.
- Y ffordd mae'r gweithgareddau a gynlluniwyd yn cyfrannu at ddatblygiad cyfannol y plentyn/dysgu a datblygiad y grŵp o blant.
- Y ffordd rydych yn ennyn diddordeb y plentyn/grŵp o blant, yn darparu ar gyfer chwarae a gychwynnir gan y plentyn neu a arweinir gan oedolyn, annog llawer o gyfranogiad a rhoi digon o amser i'r plentyn archwilio, arbrofi ac ailadrodd

**Amgylcheddau chwarae cyfoethog o safon:** i adlewyrchu'r canllawiau yn 'Cymru: gwlad lle mae cyfle i chwarae', mae darpariaeth chwarae yn cynnig cyfle i bob plentyn ryngweithio'n rhydd â'r canlynol neu gael profiad ohonynt: plant a phobl ifanc eraill; y byd naturiol; rhannau rhydd; yr elfennau naturiol; her a chymryd risgiau; chwarae â hunaniaeth; symudiad; chwarae sgarmes; y synhwyrau; teimladau. Mae'r amgylcheddau hyn hefyd yn: Hyblyg, addasadwy, amrywiol a diddorol gan gynnig darpariaeth barhaus.

**Fframweithiau rheoleiddio:** fframweithiau ar gyfer arolygu lleoliadau nas cynhelir yng Nghymru. Fframwaith Arolygu ar y Cyd AGC ac Estyn.

**Gwasanaethau cefnogi**: Y mathau a lefelau gwahanol o raglenni iechyd ac ymyrraeth i blant, boed wedi'u targedu neu'n rhai cyffredinol – ymweld â'r cartref (ymwelydd iechyd, gweithiwr cymorth teulu), asesiad teulu (gwasanaethau i deuluoedd, 'Tîm o Amgylch y Plentyn/Teulu'), dietegydd cymunedol a chynllun cyn-ysgol iach a chynaliadwy, gwasanaethau mynediad agored yn y gymuned (grwpiau rhieni a phlant bach, amser stori, clybiau llyfrau, Dechrau Da, grwpiau chwaraeon/hamdden)

**Fframweithiau damcaniaethol ac ymarfer seiliedig ar dystiolaeth** sy'n ategu arfer gorau o ran datblygu amgylcheddau dysgu o safon uchel, dan do ac yn yr awyr agored

## Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS) cysylltiedig

- SCD CCLD 0206: Cefnogi plant i ddysgu drwy chwarae
- SCD CCLD 0303: Hybu datblygiad plant a phobl ifanc
- SCD CCLD 0307: Hybu iechyd a datblygiad corfforol plant
- SCD CCLD 0306: Cynllunio a threfnu amgylcheddau i blant a theuluoedd
- SCD CCLD 0308: Hybu llesiant a gwydnwch plant
- SCD CCLD 0309: Gweithredu fframweithiau ar gyfer addysg gynnar drwy ddatblygu gwaith cynllunio'r cwricwlwm
- SCD CCLD 0310: Asesu cynnydd plant yn unol â fframweithiau cwricwlwm perthnasol
- SCD CCLD 0312: Creu amgylcheddau cadarnhaol i fabanod a phlant
- SCD CCLD 0317: Ymgysylltu â theuluoedd mewn ffyrdd sy'n eu hannog i gymryd rhan yn
- addysg a datblygiad eu plant
- SCD CCLD 0325: Cefnogi plant a phobl ifanc drwy gyfnodau trawsnewid mawr
- SCD CCLD 0345: Hybu datblygiad llythrennedd, rhifedd ac iaith ar gyfer dysgu cynnar plant, mewn partneriaeth â'u teuluoedd
- SCD CCLD 0339: Hybu gofal, dysgu a datblygiad plant ag anghenion cefnogi ychwanegol mewn lleoliadau addysg gynnar

© WJEC CBAC Ltd.

## Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig


- Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir i blant hyd at 12 oed (2018) https://careinspectorate.wales/sites/default/files/2018-01/160411regchildcarecy.pdf
- Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair: Cynllun Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (2013) Llywodraeth Cymru **https://gov.wales/docs/dcells/publications/130716-building-brighter-future-cy.pdf**
- SNAP CYMRU http://www.snapcymru.org/
- Cyswllt Teulu Cymru https://contact.org.uk/wales
- Archwiliad annibynnol o'r Cyfnod Sylfaen yng Nghymru: Adroddiad terfynol, Medi 2013 – Mawrth 2014 (2014) **https://beta.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/archwiliad-annibynnol-or-cyfnod-sylfaen-yng-nghymru-adroddiad-terfynol.pdf**
- Cymwys am Oes, Llywodraeth Cymru 2014
- Chwarae a'r blynyddoedd cynnar: genedigaeth i saith oed (2013) http://www.playwales.org.uk/login/uploaded/documents/INFORMATION%20SHEETS/chwarae%20ar%20blynyddoedd%20cynnar.pdf
- Chwarae: iechyd a lles (2012) **https://www.chwaraecymru.org.uk/login/uploaded/documents/INFORMATION%20SHEETS/chwarae%20iechyd%20a%20lles.pdf**
- Hybu gweithgarwch corfforol trwy chwarae'r tu allan mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar (2016) https://www.chwaraecymru.org.uk/login/uploaded/documents/INFORMATION%20SHEETS/Hybu%20gweithgarwch%20corfforol%20blynyddoedd%20cynnar.pdfCwricwlwm i Gymru, Cwricwlwm am Oes. Llywodraeth Cymru 2015 https://gov.wales/docs/dcells/publications/151021-a-curriculum-for-wales-a-curriculum-for-life-cy.pdf
- Cynllun Gweithredu'r Cyfnod Sylfaen https://gov.wales/docs/dcells/publications/161103-fp-action-plan-cy.pdf
- Gwerthuso'r Cyfnod Sylfaen – Adroddiad Terfynol **https://gov.wales/docs/caecd/research/2015/150514-foundation-phase-final-cy.pdf**
- Fframwaith y Blynyddoedd Cynnar yn yr Alban **http://www.gov.scot/Topics/People/Young-People/early-years/delivery/framework**
- Cyfnod Sylfaen y Blynyddoedd Cynnar-EYFS (Lloegr) **https://www.gov.uk/government/publications/early-years-foundation-stage-framework--2**
- 2002 'Study of Pedagogical Effectiveness in Early Learning' (SPEEL), Moyles, J., Adams, S. a Musgrove, A 2002, Ysgol Ymchwil a Datblygu Addysg Prifysgol Bolytechnig Anglia https://dera.ioe.ac.uk/4591/1/RR363.pdf
- Crynodeb o Ganfyddiadau Prosiect EPPSE (Effective Pre-school, Primary and Secondary Education) 1997-2014 **https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/455670/RB455_Effective_pre-school_primary_and_secondary_education_project.pdf.pdf**
- Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru – Adroddiad ar ymatebion i'r Sgwrs Fawr (Adroddiad Donaldson) (2015) https://beta.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/adroddiad-ar-ymatebion-i%E2%80%99r-sgwrs-fawr.pdf
- Cwricwlwm i Gymru: Fframwaith y Cyfnod Sylfaen (2015) https://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/150803-fp-framework-cy.pdf
- Pre-school and early home learning effects on A-level outcomes, Adroddiad Ymchwil EPPSE, 2015, Sammons, Toth a Sylva gyda Melhuish, Siraj a Taggart, Prifysgol Rhydychen, cyhoeddwyd gan yr Adran Addysg.


© WJEC CBAC Ltd.

https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/472867/RR472A_Pre-school_and_early_home_learning_effects_on_A_level_outcomes.pdf

- Cynllun Gweithredu'r Cyfnod Sylfaen https://gov.wales/docs/dcells/publications/161103-fp-action-plan-cy.pdf
- Y GIG – Faint o gwsg sydd ei angen ar blant? http://www.nhs.uk/Livewell/Childrenssleep/Pages/howmuchsleep.aspx
- Y GIG – Cyngor ar gwsg iach i blant http://www.nhs.uk/Livewell/Childrenssleep/Pages/bedtimeritual.aspx
- Design for Play: A guide to creating successful play spaces http://www.playengland.org.uk/media/70684/design-for-play.pdf
- Adnoddau ar gyfer chwarae – darparu rhannau rhydd i gefnogi chwarae plant, Pecyn cymorth https://issuu.com/playwales/docs/pecyn_cymorth_rhannau_rhydd?e=5305098/53227641
- Pecyn Cymorth, Defnyddio tiroedd ysgol ar gyfer chwarae'r tu allan i oriau addysgu https://issuu.com/playwales/docs/defnyddio_tiroedd_ysgol_tu_allan_i_?e=5305098/5151155
- Creu mannau chwarae hygyrch, Pecyn cymorth https://issuu.com/playwales/docs/creu_mannau_chwarae_hygyrch?e=5305098/55847719
- Mannau Chwarae: cwynion cyffredin ac atebion syml (2012) https://www.chwaraecymru.org.uk/login/uploaded/documents/INFORMATION%20SHEETS/cwynion%20cyffredin%20ac%20atebion%20syml.pdf
- Mannau Chwarae: cynllun a dylunio (2012) https://www.chwaraecymru.org.uk/login/uploaded/documents/INFORMATION%20SHEETS/mannau%20chwarae%20-%20cynllunio%20a%20dylunio.pdf
- Chwarae a Risg (2013) https://www.chwaraecymru.org.uk/login/uploaded/documents/INFORMATION%20SHEETS/chwarae%20a%20risg.pdf
- Arfer adfyfyriol – beth ydi o a pham ei fod mor bwysig? (2018) https://issuu.com/playwales/docs/arfer_myfyriol
- Adroddiadau ar brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod – http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/page/88504
- **220914-a-curriculum-for-funded-non-maintained-nursery-settings.pdf (gov.wales)https://hwb.gov.wales/api/storage/97105ec9-0187-45d1-abd4-55d806b059bb/curriculum-for-wales-foundation-learning-in-schools-and-funded-non-maintained-nursery-settings-faqs.pdf**
- https://hwb.llyw.cymru/cwricwlwm-i-gymru/

© WJEC CBAC Ltd.

## Uned 307 Hybu'r broses o gaffael iaith newydd drwy drochi

| | |
|---|---|
| **Lefel:** | 3 |
| **ORIAU DYSGU DAN ARWEINIAD (ODA:** | 20 |
| **Credyd:** | 4 |
| **Crynodeb o'r Uned:** | Mae'r uned hon yn cefnogi'r dysgwr i feithrin ei wybodaeth a'i sgiliau mewn perthynas â hybu cefnogaeth i blant ar gyfer caffael iaith newydd drwy drochi ieithyddol mewn lleoliad gofal plant. |

### Deilliant dysgu:
1. Trochi ieithyddol mewn lleoliadau gofal plant

### Meini prawf asesu

Rydych yn gwybod:
1.1 Y cyd-destun deddfwriaethol ar gyfer trochi ieithyddol yng Nghymru a'r ffordd mae'n cael ei fewnblannu ym mholisïau ac ymarfer eich lleoliad gofal plant eich hun
1.2 Egwyddorion a thechnegau trochi ieithyddol yng nghyd-destun lleoliad gofal plant
1.3 Y rhesymau dros ddefnyddio'r iaith drochi bob amser
1.4 **Cyfnodau** y bydd plant yn mynd drwyddynt wrth gaffael iaith newydd a sut i sicrhau ymateb priodol i bob cam
1.5 Pam mae'n bwysig deall **amgylchiadau unigol** plant a sut maen nhw'n effeithio ar y broses o ddysgu iaith newydd
1.6 Pwysigrwydd cynnwys teuluoedd/gofalwyr wrth i'r plentyn ddysgu iaith, a ffyrdd o wneud hynny
1.7 Achosion pan ddylid defnyddio iaith y cartref/dewis iaith y plentyn
1.8 Manteision bod yn ddwyieithog ac yn amlieithog

### Amrediad

**Cyfnodau:** Derbyngar distaw, cynhyrchiol cynnar, datblygu lleferydd, rhuglder canolraddol, datblygiad iaith parhaus / rhuglder uwch
**Amgylchiadau unigol**: cefndir ieithyddol a chymdeithasol, anghenion dysgu ychwanegol

---

### Deilliant dysgu:
2. Cefnogi plant i gaffael yr iaith newydd drwy drochi

### Meini prawf asesu

Rydych chi'n deall:
2.1 Sut i sicrhau bod yr iaith drochi'n cael ei hynganu a'i defnyddio'n glir ac yn gywir bob amser
2.2 Sut i gynllunio a gwerthuso'r broses o ddysgu a datblygu i gaffael iaith

© WJEC CBAC Ltd.

2.3 Sut i wahaniaethu rhwng yr heriau i'r plentyn sy'n caffael iaith newydd a **heriau eraill**
2.4 Sut i integreiddio'r broses o gaffael iaith mewn gweithgareddau a phrofiadau sy'n diwallu anghenion **twf a datblygiad cyfannol** plentyn
2.5 Pwysigrwydd mathau gwahanol o weithgareddau a phrofiadau a sut i'w defnyddio i gaffael iaith
2.6 Y gydberthynas rhwng amgylcheddau dysgu ffisegol gan gynnwys arddangosfeydd ac ysgogiadau gweledol a'r broses o gaffael iaith
2.7 Effaith eich agwedd a'ch ymddygiad eich hun tuag at gaffael iaith

Rydych chi'n gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:
2.8 Sicrhau y defnyddir cyfathrebu geiriol a dieiriau er mwyn tawelu meddwl plant a gwneud iddynt deimlo'n gartrefol ac yn ddiogel yn y lleoliad trochi
2.9 Cydweithio ag eraill i ddiffinio'r llinell sylfaen lle mae pob plentyn yn gweithredu'n ieithyddol
2.10 Cydweithio ag eraill i nodi ffyrdd o fesur a chofnodi cynnydd pob plentyn o ran caffael yr iaith drochi
2.11 Cydweithio ag eraill i gynllunio, paratoi, gweithredu, monitro, gwerthuso ac adolygu gwahanol fathau o weithgareddau a phrofiadau, gan ddefnyddio ysgogiadau llafar a gweledol, er mwyn hybu datblygiad ieithyddol a thwf y datblygiad cyfannol plant
2.12 Modelu ynganu'r iaith drochi'n glir ac yn gywir bob amser wrth gyfathrebu â phlant ac eraill ac mewn gweithgareddau gyda nhw
2.13 Canmol ac annog plant er mwyn eu helpu i gaffael iaith
2.14 Modelu'r defnydd o ailadrodd ac ehangu er mwyn helpu cefnogi llafaredd a llythrennedd plant a'u helpu i gaffael iaith yn gyffredinol
2.15 Sicrhau bod plant yn cael eu cefnogi i symud drwy gyfnodau caffael iaith ar eu cyflymder eu hunain
2.16 Annog plant i ddatblygu a defnyddio strategaethau dysgu iaith
2.17 Arsylwi ar sgiliau cyfathrebu plant yn yr iaith drochi, a chael adborth gan eraill arnynt, a defnyddio hyn i lywio'r gwaith parhaus o asesu a chynllunio ar gyfer caffael iaith
2.18 Hybu agwedd groesawgar a chefnogol tuag at deuluoedd a'u helpu i fod yn rhan o brofiadau caffael iaith y plentyn
2.19 Cefnogi teuluoedd/gofalwyr i ddeall y broses mae'r plentyn yn debygol o'i dilyn wrth gaffael iaith newydd drwy drochi, a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am gynnydd
2.20 Cyfeirio teuluoedd at wybodaeth am gefnogaeth ychwanegol ar gyfer trochi ieithyddol
2.21 Cydweithio ag eraill i adolygu a gwerthuso effeithiolrwydd amgylchedd, gweithgareddau a phrofiadau eich lleoliad eich hun o ran hybu'r broses o gaffael iaith drwy drochi

## Amrediad

**Heriau eraill:** anghenion dysgu ychwanegol, datblygiad lleferydd ac iaith arafach, ymddygiad
**Twf a datblygiad cyfannol:** ymddygiadau chwarae, sgiliau echddygol bras a manwl, meysydd datblygu (corfforol, lleferydd, iaith a chyfathrebu, emosiynol-gymdeithasol)
**Mathau gwahanol o weithgareddau a phrofiadau:** defnyddio amgylcheddau dan do ac awyr agored, dysgu strwythuredig, chwarae a gynlluniwyd a chwarae digymell, ymgysylltu â phlant eraill, gemau grŵp, gweithgareddau siarad, gweithgareddau tynnu llun, canu a rhigymau

© WJEC CBAC Ltd.

# Uned 307 Hybu'r broses o gaffael iaith newydd drwy drochi

## Gwybodaeth Ategol

### Gofynion tystiolaeth

Bydd y dystiolaeth ar gyfer yr uned hon yn cael ei chyflwyno drwy'r tasgau strwythuredig. Mae canllawiau ar gyfer unrhyw dystiolaeth ychwanegol y gall fod ei hangen i'w gweld yn y pecyn asesu.

### Canllawiau cyflwyno

Dylai'r uned hon gael ei chyflwyno mewn ffordd sy'n ymgorffori ac yn adeiladu ar y wybodaeth graidd a ddatblygwyd o fewn y cymhwyster Lefel 2 Craidd, a thrwy gymhwyso'r wybodaeth hon yn ymarferol, a ddangosir drwy'r uned orfodol ymarfer craidd.

**Iaith y cartref/dewis iaith**: yr iaith sy'n cael ei siarad yn y cartref a gan deulu plentyn

**Achosion pan ddylid defnyddio iaith cartref y plentyn:** mewn achos brys fel tân, mater yn ymwneud â diogelwch neu ddiogelu plant, damweiniau, neu pan fydd plentyn yn ofidus iawn

**Trochi ieithyddol:** caffael iaith mewn amgylchedd lle mae'r holl gyfathrebu, gan gynnwys gweithgareddau dysgu, yn digwydd drwy gyfrwng yr iaith drochi.

**Eraill:** teuluoedd/gofalwyr, cydweithwyr a gweithwyr proffesiynol eraill mae eu gwaith yn cyfrannu at lesiant y plentyn

### Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS) cysylltiedig

- SCDCCLD0347 Hybu'r broses o gaffael iaith newydd gan blant drwy drochi mewn lleoliad blynyddoedd cynnar

### Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig

- Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair: Cynllun Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (2013) Llywodraeth Cymru https://gov.wales/docs/dcells/publications/130716-building-brighter-future-cy.pdf
- Cymwys am Oes, Llywodraeth Cymru 2014
- Cwricwlwm i Gymru, Cwricwlwm am Oes. Llywodraeth Cymru 2015 https://gov.wales/docs/dcells/publications/24680-a-curriculum-for-wales-a-curriculum-for-life-cy.pdf
- Strategaeth addysg cyfrwng Cymraeg https://gov.wales/docs/dcells/publications/100420welshmediumstrategycy.pdf
- Ymgyrch Mae Addysg yn Dechrau yn y Cartref Llywodraeth Cymru https://gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/parents/education-begins-at-home/?skip=1&lang=cy
- Fframwaith y Cyfnod Sylfaen (Diwygiedig 2015) https://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/150803-fp-framework-cy.pdf
- Canllawiau'r Cyfnod Sylfaen https://beta.llyw.cymru/proffil-y-cyfnod-sylfaen-canllawiau-i-ymarferwyr?_ga=2.160348285.1974554941.1550481483-1664962502.1550234187

© WJEC CBAC Ltd.

- Meysydd Dysgu a rhaglenni astudio diwygiedig: Cam 1–llythrennedd a rhifedd.
- Datblygiad creadigol
- Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd
- Datblygiad personol a chymdeithasol, llesiant ac amrywiaeth ddiwylliannol.
- Datblygiad corfforol
- Datblygu'r Gymraeg
- Arsylwi ar Blant
- Llawlyfr dysgu yn yr awyr agored y Cyfnod Sylfaen
- Addysgeg dysgu ac addysgu

- Hwb https://hwb.gov.wales/repository/tree?sort=created&language=en&tags=Welsh%20Language%20Development&tags=Foundation%20Phase&nodeId=5d487173-71ab-4499-a4ea-9d60b71c009e
- Mudiad Meithrin http://www.meithrin.cymru/
- Cwlwm https://www.meithrin.cymru/cwlwm/
- Cymraeg i Blant https://en-gb.facebook.com/Cymraegiblant/
- Chwarae/Dysgu Gweithredol – Trosolwg ar gyfer plant 3 i 7 oed https://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/130215play-activecy.pdf

© WJEC CBAC Ltd.

# Uned 308 Cefnogi teuluoedd i feithrin sgiliau rhianta

| | |
|---|---|
| **Lefel:** | 3 |
| **ODA:** | 50 |
| **Credyd:** | 13 |
| **Crynodeb o'r Uned:** | Nod yr uned hon yw sicrhau bod dysgwyr yn meddu ar y wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen er mwyn cefnogi teuluoedd/gofalwyr i feithrin sgiliau rhianta. Mae wedi'i bwriadu ar gyfer y rhai sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda theuluoedd/gofalwyr.<br>Yng nghyd-destun yr uned hon, mae'r term 'teuluoedd' yn cynnwys rhieni, gofalwyr ac aelodau ehangach o'r teulu sy'n rhan o fywydau plant ac mae'r term 'plant' yn cyfeirio at blant a phobl ifanc. |

---

## Deilliant dysgu:
1. Hawliau a chyfrifoldebau sy'n gysylltiedig â gweithio gyda theuluoedd

### Meini prawf asesu
Rydych yn gwybod:

1.1 Yr erthyglau perthnasol yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) sy'n ymwneud â gwaith gyda theuluoedd

1.2 Y fframweithiau deddfwriaethol a pholisi sy'n gysylltiedig â gweithio gyda theuluoedd

Rydych chi'n gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

1.3 Hybu ymarfer sy'n adlewyrchu CCUHP mewn perthynas â gwaith gyda theuluoedd

1.4 Hybu ymarfer sy'n adlewyrchu fframweithiau deddfwriaethol a pholisi sy'n gysylltiedig â gweithio gyda theuluoedd

---

## Deilliant dysgu:
2. Darpariaeth rhianta cadarnhaol a gwasanaethau cefnogi i deuluoedd a'u plant

### Meini prawf asesu

Rydych chi'n deall:

2.1 Y cysyniad 'rhianta cadarnhaol' a'r ffordd mae'n cael ei hybuyng Nghymru

2.2 Yr amrywiaeth o raglenni rhianta cadarnhaol sydd ar gael yng Nghymru a'r ffordd y cânt eu cyflwyno

2.3 Canlyniadau o waith ymchwil i effaith rhianta cadarnhaol ac ymyrraeth gynnar

2.4 Yr amrywiaeth o opsiynau sydd ar gael ar gyfer cefnogaeth rhianta

2.5 Pwrpas gwasanaethau cefnogi a rolau gweithwyr proffesiynol yn y rhain ar gyfer gwaith gyda theuluoedd

2.6 Y meini prawf mynediad a phrosesau atgyfeirio ar gyfer rhaglenni rhianta cadarnhaol a gwasanaethau cefnogi

2.7 Heriau penodol sy'n gysylltiedig â rhannu gwybodaeth wrth weithio rhwng amrywiaeth o asiantaethau a gwasanaethau i gefnogi teuluoedd

© WJEC CBAC Ltd.

Rydych chi'n gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

2.8 Mewnblannu egwyddorion rhianta cadarnhaol yn eich ymarfer

2.9 Cael gafael ar wybodaeth am raglenni rhianta cadarnhaol a gwasanaethau cefnogi yn eich ardal leol a'i rhannu â theuluoedd

---

## Deilliant dysgu:

3. Ffactorau sy'n dylanwadu ar sgiliau rhianta teuluoedd ac yn cael effaith negyddol arnynt

## Meini prawf asesu

Rydych chi'n deall:

3.1 Y pwysau emosiynol, cymdeithasol ac amgylcheddol gwahanol a fyddai'n gallu bod ar deuluoedd

3.2 Pam y gall rhai teuluoedd:
- fod yn fwy agored i niwed
- gael anawsterau gyda rhianta cadarnhaol

3.3 Y ffordd y gall yr anghenion cymhleth a lluosog sydd gan rai teuluoedd gael gormod o ddylanwad ar farn, tybiaethau ystrydebol a disgwyliadau pobl eraill

3.4 Cysylltiadau rhwng profiad y teuluoedd eu hunain yn ystod plentyndod, eu gwybodaeth am ddatblygiad plant a'u disgwyliadau ar gyfer eu plant

3.5 Ystyr y termau 'anfantais yn ystod plentyndod' a 'Phrofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod'

3.6 Cysylltiadau rhwng anfantais yn ystod plentyndod, Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod ac:
- **ymddygiadau sy'n niweidiol i iechyd**
- **ymddygiadau gwrthgymdeithasol**
- **cyrhaeddiad addysgol**
- tebygolrwydd uwch o fod yn blentyn sy'n wynebu risg
- straen a chwalfa deuluol

3.7 Sut i gefnogi teuluoedd i ddeall effaith Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod arnynt eu hunain ac ar eu plant a sut y gall rhianta cadarnhaol leihau risgiau cysylltiedig

3.8 Pam mae'n bwysig meithrin gwydnwch teuluoedd a'u plant

3.9 Sut y gellir lleihau neu atal cyflyrau iechyd sy'n cyfyngu ar fywyd drwy wneud newidiadau i ffordd o fyw

3.10 Ystyr newidiadau realistig i ffordd o fyw a pham mae'r rhain yn dibynnu ar amgylchiadau personol teuluoedd

3.11 Sut i gefnogi teuluoedd i ddeall goblygiadau tymor hir a thymor byr gwahanol ffyrdd o fyw a'u cymell i wneud a chynnal newidiadau

Rydych chi'n gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

3.12 Cefnogi teuluoedd i ddeall goblygiadau Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod, cyflyrau iechyd sy'n cyfyngu ar fywyd ac opsiynau o ran ffordd o fyw

3.13 Hybu manteision byw'n iach

3.14 Helpu teuluoedd i nodi cyfleoedd realistig i newid eu ffordd o fyw

3.15 Cydnabod ymdrechion teuluoedd i newid a'u hatgyfnerthu'n gadarnhaol

3.16 Dangos dealltwriaeth o deimladau teuluoedd am yr angen am ymyrraeth neu gefnogaeth arbenigol

© WJEC CBAC Ltd.

## Amrediad

**Ymddygiadau sy'n niweidiol i iechyd** – ysmygu, problemau alcohol, deiet gwael, lefelau isel o ymarfer corff ac ymddygiad rhywiol peryglus
**Ymddygiadau gwrthgymdeithasol** – ymddygiad ymosodol a threisgar, problemau gyda gwasanaethau cyfiawnder troseddol
**Cyrhaeddiad addysgol** – ymrwymiad i addysg, y gallu i ennill cymwysterau

---

### Deilliant dysgu:

4. Cefnogi teuluoedd i nodi sgiliau rhianta mae angen eu meithrin

### Meini prawf asesu

Rydych chi'n deall:
4.1 Sut i ddefnyddio adnoddau a strategaethau er mwyn datblygu amgylchedd cefnogol i deuluoedd drafod eu sgiliau rhianta ac agweddau ar iechyd, llesiant a chynnydd datblygiadol eu plentyn
4.2 Ffynonellau gwybodaeth y gellir eu defnyddio i gyfrannu at asesiad o sgiliau rhianta teuluoedd
4.3 Pwysigrwydd defnyddio dull cydgynhyrchu gyda theuluoedd er mwyn cynnal asesiad a dewis y ffordd orau o feithrin sgiliau rhianta
Rydych chi'n gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:
4.4 Egluro i deuluoedd beth yw eu rôl eu hunain o ran cefnogi eu sgiliau rhianta a sut y gall pobl eraill fod yn rhan o hynny
4.5 Meithrin dealltwriaeth wedi'i rhannu o'r hyn sydd ei angen i sicrhau bod plant yn ddiogel ac yn derbyn gofal
4.6 Defnyddio dull sy'n seiliedig ar gryfderau er mwyn cefnogi teuluoedd i nodi:
- eu profiad, arbenigedd a galluoedd ar gyfer gofalu am eu plant
- y sgiliau rhianta mae angen eu meithrin
- sut y gallant gynnwys teulu estynedig a ffrindiau er mwyn eu helpu yn y rôl rianta

4.7 Cefnogi teuluoedd i ddeall gwahaniaethau rhwng safbwyntiau ei gilydd
4.8 Defnyddio amrywiaeth o ffynonellau gwybodaeth ac arsylwadau i asesu sgiliau rhianta teuluoedd
4.9 Rhoi adborth sy'n helpu teuluoedd i archwilio a deall:
- effaith eu hymddygiad ar eu plant ac effaith ymddygiad eu plant arnyn nhw
- yr ymddygiadau maen nhw am eu newid
- sgiliau mae angen iddynt eu gwella

4.10 Cefnogi teuluoedd i nodi'r wybodaeth a'r gefnogaeth a fyddai'n gallu eu helpu i ddatblygu strategaethau ymdopi a'u sgiliau rhianta, a'u helpu i gael gafael arnynt
4.11 Cefnogi teuluoedd i gytuno ar ganlyniadau a ddymunir a datblygu cynllun i wella eu sgiliau rhianta
4.12 Cytuno ar y ffordd mae'r cynllun yn cael ei werthuso

---

### Deilliant dysgu:

5. Cefnogi teuluoedd i feithrin sgiliau rhianta

### Meini prawf asesu

Rydych chi'n deall:
5.1 Sgiliau rhianta ymarferol a fydd yn cyfrannu at ddatblygiad cyfannol plant
5.2 Sut i gefnogi teuluoedd i feithrin dealltwriaeth o gerrig milltir allweddol datblygiad plant

© WJEC CBAC Ltd.

5.3 Sut i gefnogi teuluoedd i ddeall sut y bydd sgiliau rhianta ymarferol yn cefnogi datblygiad cyfannol plant
5.4 Sut i gefnogi teuluoedd i feithrin sgiliau i ddelio â'u teimladau eu hunain a datblygu strategaethau ymdopi
5.5 Pwysigrwydd cynnwys teuluoedd yn y broses o asesu eu plant
5.6 Sut y gall mwy o hyder yn y rôl rianta gael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad y plentyn ac ar yr oedolyn

Rydych chi'n gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

5.7 Cefnogi teuluoedd i ymarfer sgiliau rhianta yn unol â'r cynllun y cytunwyd arno
5.8 Atgyfnerthu'n gadarnhaol ryngweithiadau, ymddygiadau a sgiliau sy'n adlewyrchu rhianta da
5.9 Annog teuluoedd i wneud y canlynol:
- cael disgwyliadau realistig mewn perthynas ag ymddygiad a datblygiad plant
- dilyn dull gweithredu cyson mewn perthynas â ffiniau ar gyfer ymddygiadau ac arferion y cytunwyd arnynt
- cadw eu haddewidion i'w plant
- cynnwys plant ac ymgynghori â nhw yn unol â'u hoedran, eu galluoedd a'u cyfnod datblygu
- canolbwyntio ar gryfderau eu plant
- adnabod a gwerthfawrogi rhinweddau, sgiliau a galluoedd unigryw eu plant
- defnyddio canmoliaeth i gydnabod cyflawniadau plant
- nodi cyfleoedd i chwarae gyda'u plant, a gwneud amser ar gyfer hynny

5.10 Cefnogi teuluoedd i adfyfyrio ar eu hymddygiadau a'u gweithredoedd eu hunain a'u canlyniadau
5.11 Cefnogi teuluoedd i addasu eu hymddygiadau a'u gweithredoedd er mwyn meithrin eu sgiliau rhianta
5.12 Defnyddio dull cydgynhyrchu i adolygu'r cynllun a chyflawniad canlyniadau y cytunwyd arnynt
5.13 Cynllunio ar y cyd â theuluoedd sut y gallant barhau i fagu eu hyder a meithrin eu sgiliau rhianta

© WJEC CBAC Ltd.

# Uned 308 Cefnogi teuluoedd i feithrin sgiliau rhianta

## Gwybodaeth ategol

## Gofynion tystiolaeth

Bydd y dystiolaeth ar gyfer yr uned hon yn cael ei chyflwyno drwy'r tasgau strwythuredig. Mae canllawiau ar gyfer unrhyw dystiolaeth ychwanegol y gall fod ei hangen i'w gweld yn y pecyn asesu.

## Canllawiau cyflwyno

Dylai'r uned hon gael ei chyflwyno mewn ffordd sy'n ymgorffori ac yn adeiladu ar y wybodaeth graidd a ddatblygwyd o fewn y cymhwyster Lefel 2 Craidd, a thrwy gymhwyso'r wybodaeth hon yn ymarferol, a ddangosir drwy'r uned orfodol ymarfer craidd.

**Anfantais yn ystod plentyndod:** plant sy'n ddifreintiedig ac sydd wedi'u hamddifadu o safon byw ddigonol ac ysgogiad ac amgylchedd priodol, heb fynediad at addysg na gwasanaethau gan gynnwys gofal iechyd, o ganlyniad i dlodi a diffyg cyfle

**Anghenion cymhleth:** Gallai hyn gynnwys:
- Rhieni mabwysiadol
- Ceiswyr lloches
- Rhieni anabl
- Rhieni o leiafrif ethnig
- Teuluoedd sy'n wynebu cam-drin domestig  Rhieni ifanc
- Teuluoedd sy'n wynebu tlodi
- Teuluoedd ag un rhiant yn y carchar
- Rhieni maeth gan gynnwys gofalwyr sy'n berthynas
- Salwch meddwl
- Rhieni nad ydynt yn byw gyda'u plant
- Rhieni plant anabl
- Gofalwyr ifanc
- Tadau ifanc.

Mae **ymyrraeth gynnar** yn cyfeirio at: darpariaeth ataliol gyffredinol (fel gofal iechyd ac addysg gynnar gyffredinol) i deuluoedd â phlant ar gamau cynnar bywyd; darpariaeth wedi'i thargedu yn gynnar a chyn gynted â phosibl pan fydd plentyn neu berson ifanc a/neu ei deulu yn dechrau mynd i anawsterau neu ddangos ymddygiad problemus; a rhaglenni neu fentrau wedi'u targedu, sy'n cael eu darparu i blant/pobl ifanc, teuluoedd neu grwpiau neu gymunedau penodol sydd â nodweddion mae tystiolaeth yn awgrymu sy'n eu gwneud yn fwy tebygol o wynebu risg fwy o ganlyniadau gwael

**Rhianta**: Gweithgaredd a gyflawnir gan bobl sy'n magu plant yw rhianta ac mae'n cynnwys mamau, tadau, gofalwyr maeth, rhieni mabwysiadol, llys-rieni, gofalwyr sy'n berthnasau a neiniau a theidiau

**Cefnogaeth Rhianta**: Gwasanaethau a chefnogaeth a ddarperir gyda'r nod o: wella sgiliau rhianta; gwella perthnasoedd rhwng rhieni a'u plant; gwella dealltwriaeth, agweddau ac ymddygiad rhieni a magu hyder rhieni er mwyn hybu llesiant cymdeithasol, corfforol ac emosiynol plant

© WJEC CBAC Ltd.

**Heriau penodol sy'n gysylltiedig â rhannu gwybodaeth:** GDPR a hawl y teulu i breifatrwydd, yn erbyn yr angen i rannu gwybodaeth

**Rhianta Cadarnhaol**: Mae'n cyfeirio at ymddygiad gan rieni sydd er budd pennaf y plentyn, yn feithringar ac yn grymuso, nad yw'n dreisgar ac sy'n cydnabod ac yn arwain gan bennu ffiniau er mwyn galluogi'r plentyn i ddatblygu'n llawn.

**Rhaglenni rhianta cadarnhaol:** gallai hyn gynnwys:
- Triple ‘P’
- Webster Stratton, Incredible Years
- Strengthening Families / Strengthening Communities

**Gwydnwch:** mae'n cyfeirio at ba mor dda y gall unigolyn "ddod yn ei ôl" yn dilyn profiadau trawmatig niweidiol, anfantais gymdeithasol neu ffynonellau sylweddol o straen. Mae ymchwil i wydnwch yn tynnu sylw at y ffactorau a fydd yn peri risg o ganlyniadau gwael i blant neu'n eu hamddiffyn. Ymhlith y ffactorau risg mae magwraeth y rhieni, disgyblaeth lem ac anghyson gan y rhieini; a gwrthdaro/trais.
Ymhlith y ffactorau amddiffynnol mae perthnasoedd cadarnhaol rhwng rhieni a'u plant a a rhwydwaith ehangach o gefnogaeth cymdeithasol

**Dull gweithredu seiliedig ar gryfderau**: Mae dull gweithredu seiliedig ar gryfderau yn digwydd pan mae gweithwyr allweddol yn rhoi pwyslais cadarnhaol ar wydnwch, ffactorau amddiffynnol a chryfderau. Mae hyn yn arwain at y canlynol: cyfleu ymdeimlad o obaith; pennu disgwyliadau ar gyfer llwyddiant sydd o fewn galluoedd unigolyn; hybu grym ac annibyniaeth a rhoi mesurau ar waith er mwyn sicrhau gwelliant.

**Gwasanaethau cefnogi:** Y mathau a lefelau gwahanol o raglenni iechyd ac ymyrraeth i blant, boed wedi'u targedu (Dechrau'n Deg) neu'n rhai cyffredinol – ymweld â'r cartref (ymwelydd iechyd, gweithiwr cymorth teulu), asesiad teulu (gwasanaethau i deuluoedd, ‘Tîm o Amgylch y Plentyn/Teulu’), dietegydd cymunedol a chynllun cyn-ysgol iach a chynaliadwy, gwasanaethau mynediad agored yn y gymuned (grwpiau rhieni a phlant bach, amser stori, clybiau llyfrau, Dechrau Da, grwpiau chwaraeon/hamdden)

**Teuluoedd agored i niwed**: Mae hyn yn cyfeirio at deuluoedd sydd mewn perygl o wynebu anawsterau wrth fagu plant neu'r rhai sy'n wynebu risg o fethu ag amddiffyn eu plant a gofalu amdanynt yn ddigonol. Gall teuluoedd wynebu mwy o risg o ganlyniad i amgylchiadau andwyol fel tlodi, diweithdra, profedigaeth, camddefnyddio alcohol neu sylweddau, problemau iechyd meddwl neu iechyd corfforol; cam-drin domestig neu ddiffyg rhwydwaith cefnogi. Mae hefyd yn cyfeirio at deuluoedd sy'n agored i wahaniaethu neu arwahanu oherwydd eu statws lleiafrifol neu eu sefyllfa (er enghraifft, teuluoedd o leiafrifoedd ethnig, teuluoedd sy'n ffoaduriaid neu'n geiswyr lloches, teuluoedd un rhiant neu rieni ifanc)

## Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS) cysylltiedig

- SCDCCLD 0313 Cefnogi ymyrraeth gynnar er budd plant a theuluoedd
- SCDCCLD 0319 Hybu byw'n iach i blant a theuluoedd
- SCDCCLD 0322 Grymuso teuluoedd drwy feithrin sgiliau rhianta
- SCDHSC 0319 Cefnogi teuluoedd plant a phobl ifanc yn eu cartrefi eu hunain
- SCDHSC 0047 Helpu rhieni a gofalwyr i ddysgu sgiliau er mwyn gofalu am fabanod, plant a phobl ifanc a'u diogelu
- WWP01 Ymgysylltu â rhieni er mwyn meithrin a chynnal perthnasoedd effeithiol a chefnogol sy'n grymuso.
- WWP09 Gweithredu o fewn ffiniau polisi, cyfreithiol, moesegol a phroffesiynol wrth weithio gyda theuluoedd.

© WJEC CBAC Ltd.

## Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig

- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2016
- Dechrau'n Deg – Canllawiau ar Gymorth Rhianta https://gov.wales/docs/dsjlg/publications/cyp/170519-parenting-guidance-cy.pdf
- Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol Gwaith gyda Rhieni https://app.pelorous.com/media_manager/public/115/publications/Qualifications/work-with-parents-nos-jan-2011.pdf
- Barnardo's – Promoting Resilience: A Review of Effective Strategies for Child Care Services, Dr. Tony Newman, Ymchwil a Datblygu Barnardo's, 2002 http://www.barnardos.org.uk/resilsum.pdf
- Research into Practice Building emotional resilience in the children and families workforce – an evidence-informed approach: Strategic Briefing (2016) gan Gail Kinman a Louise Grant https://www.rip.org.uk/resources/publications/strategic-briefings/building-emotional-resilience-in-the-children-and-families-workforce--an-evidenceinformed-approach-strategic-briefing-2016
- Parenting and resilience, Malcolm Hill, Anne Stafford, Peter Seaman, Nicola Ross a Brigid Daniel, Sefydliad Joseph Rowntree, 2007, https://www.jrf.org.uk/sites/default/files/jrf/migrated/files/parenting-resilience-children.pdf
- Ymgyrch Mae Addysg yn Dechrau yn y Cartref Llywodraeth Cymru https://gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/parents/education-begins-at-home/?skip=1&lang=cy
- Rhianta yng Nghymru: Canllawiau ar ymgysylltiad a chymorth, 2014 https://gov.wales/docs/dsjlg/publications/cyp/140910-parenting-in-wales-guidance-cy.pdf
- Adroddiad Ymchwiliad Bichard (2004) http://dera.ioe.ac.uk/6394/1/report.pdf
- Amddifadedd chwarae (2003) https://www.chwaraecymru.org.uk/login/uploaded/documents/INFORMATION%20SHEETS/amddifadiad%20chwarae.pdf
- Chwarae: iechyd a lles (2012) https://www.chwaraecymru.org.uk/login/uploaded/documents/INFORMATION%20SHEETS/chwarae%20iechyd%20a%20lles.pdf
- Arfer adfyfyriol – beth ydi o a pham ei fod mor bwysig? (2018) https://issuu.com/playwales/docs/arfer_myfyriol
- Defnydd ymarferol o ddyfeisiau digidol mewn lleoliadau chwarae (2018) http://www.chwaraecymru.org.uk/login/uploaded/documents/INFORMATION%20SHEETS/Defnydd%20ymarferol%20o%20ddyfeisiau%20digidol%20mewn%20lleoliadau%20chwarae.pdf
- Adroddiadau ar brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod – http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/page/88504

© WJEC CBAC Ltd.

# Uned 309 Hybu a chefnogi lleferydd, iaith a sgiliau cyfathrebu

| | |
|---|---|
| **Lefel:** | 3 |
| **ODA:** | 25 |
| **Credyd:** | 4 |
| **Crynodeb o'r Uned:** | Mae'r uned hon yn ymdrin â'r sgiliau sydd eu hangen i nodi, asesu a chefnogi plant gyda sgiliau ac anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu. Bydd arferion gwaith dysgwyr yn cynnwys nodi ac asesu plant nad yw eu sgiliau cyfathrebu ac iaith yn datblygu yn ôl y disgwyl. Byddan nhw'n cynnal asesiadau ac yn gwneud atgyfeiriadau lle y bo angen. Bydd dysgwyr yn cynnal gweithgareddau cynllunio a datblygu sydd â'r nod o ddiwallu anghenion plant a hybu datblygiad lleferydd, iaith, cyfathrebu a llythrennedd.<br><br>Yng nghyd-destun yr uned hon, mae'r term 'plant' yn cyfeirio at blant a phobl ifanc. |

## Deilliant dysgu:
1. Canllawiau a fframweithiau sy'n cefnogi lleferydd, iaith a chyfathrebu

## Meini prawf asesu

Rydych yn gwybod:

1.1 Polisïau a chanllawiau cenedlaethol sy'n ategu lleferydd, iaith a chyfathrebu

1.2 Damcaniaethau a thystiolaeth ymchwil sydd wedi dylanwadu ar bolisi ac ymarfer mewn perthynas â hybu sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu

## Deilliant dysgu:
2. Sut mae lleferydd, iaith, cyfathrebu a llythrennedd yn cael eu datblygu

## Meini prawf asesu

Rydych yn gwybod:

2.1 Egwyddorion sy'n ategu datblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu

2.2 Beth yw ystyr y termau canlynol
- iaith
- lleferydd
- cyfathrebu
- llythrennedd
- trochi iaith / ieithyddol

2.3 Patrymau/cyfnodau nodweddiadol lleferydd, iaith a chyfathrebu

2.4 Manteision dwyieithrwydd/amlieithrwydd mewn perthynas â datblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu.

2.5 Sut i nodi rhwystrau posibl a fyddai'n gallu codi i blant nad iaith y lleoliad yw eu hiaith gyntaf

© WJEC CBAC Ltd.

2.6 Y termau:
- Dwyieithrwydd cydamserol
- Dwyieithrwydd olynol

2.7 Ystyr gwahaniaethau normal mewn datblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu nodweddiadol.
2.8 Ffactorau sy'n effeithio ar ddatblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu plentyn
2.9 Nodweddion amgylchedd cadarnhaol sy'n llawn cyfathrebu
2.10 Effaith lleferydd, iaith a chyfathrebu ar **feysydd eraill** o ddatblygiad plentyn

Rydych chi'n gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:
2.11 Cefnogi plant i feithrin sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu
2.12 Darparu amgylchedd llawn iaith lle y gall plant chwarae, dysgu a datblygu

## Amrediad

**Ffactorau** – ffisiolegol, seicolegol a chymdeithasegol
**Meysydd eraill** - datblygiad personol a chymdeithasol, datblygiad corfforol, datblygiad gwybyddol, datblygiad ymddygiadol, sgiliau llythrennedd.

---

## Deilliant dysgu:
3. Cefnogi anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu

## Meini prawf asesu

Rydych yn gwybod:
3.1 Yr amrywiaeth o anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu a'r gwahaniaethau rhyngddynt
3.2 Sut i nodi ac asesu plant ag **anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu** a sut y dylid cofnodi hyn a rhoi gwybod amdano
3.3 Camau i'w cymryd pan na fydd sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu plant o fewn yr ystod ddisgwyliedig
3.4 Y strategaethau a thechnegau gwahanol sydd ar gael i gefnogi plant ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu
3.5 Pwysigrwydd polisïau a gweithdrefnau gweithle/lleoliad ynghylch ceisio cyngor a gwneud atgyfeiriadau
3.6 Cymorth/ymyriadau cenedlaethol a lleol mewn perthynas â lleferydd, iaith a chyfathrebu
3.7 Pwysigrwydd monitro, cadw cofnodion a rhannu gwybodaeth berthnasol
3.8 Mathau o weithgareddau y gellid eu defnyddio ar gyfer yr ystodau oedran gwahanol er mwyn hybu datblygiad lleferydd, iaith, cyfathrebu a llythrennedd

Rydych chi'n gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:
3.9 Defnyddio arsylwadau ac asesiadau i nodi p'un a oes unrhyw wahaniaethau o ran datblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu disgwyliedig yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r gweithle/lleoliad
3.10 Sicrhau y rhoddir gwybod am arsylwadau ac asesiadau, ac y cânt eu cofnodi, yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r gweithle/lleoliad
3.11 Hybu'r defnydd o arsylwi ac adfyfyrio ar blant i lywio gwaith cynllunio
3.12 Cefnogi'r gwaith o gynllunio a defnyddio profiadau a gweithgareddau parhaus ac wedi'u cyfoethogi i gefnogi datblygiad sgiliau lleferydd, iaith, cyfathrebu a llythrennedd yn unol â'ch rolau a'ch cyfrifoldebau eich hun
3.13 Cefnogi datblygiad amgylchedd cyfathrebu cadarnhaol

© WJEC CBAC Ltd.

3.14 Hybu'r defnydd o amrywiaeth o strategaethau a thechnegau i gefnogi plant ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu
3.15 Defnyddio cefnogaeth/ymyriadau lleferydd, iaith a chyfathrebu cenedlaethol a lleol, a rhai'r lleoliad

## Amrediad

**Anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu**: Anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu, anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu sy'n gysylltiedig ag anghenion ychwanegol eraill, anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu tymor byr, anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu parhaus.

---

### Deilliant dysgu:

4. Gweithio gydag eraill i gefnogi plant sydd ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu

### Meini prawf asesu

Rydych yn gwybod:
4.1 Pwysigrwydd rôl oedolion o ran meithrin sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu
4.2 Pwysigrwydd dull seiliedig ar gryfderau o weithio gyda phlant ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu
- mewn sefydliad/lleoliad
- ar sail un i un yng nghartrefi'r teuluoedd/gofalwyr eu hunain

4.3 Y ffactorau sy'n hwyluso gweithio gyda gweithwyr proffesiynol eraill ac amlasiantaethau

Rydych chi'n gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:
4.4 Helpu eraill i feithrin sgiliau lleferydd, iaith, cyfathrebu a llythrennedd
4.5 Dilyn dull partneriaeth o gefnogi plant ag anghenion lleferydd, iaith, cyfathrebu a llythrennedd.

© WJEC CBAC Ltd.

# **Uned 309 Hybu a chefnogi lleferydd, iaith a sgiliau cyfathrebu**Gwybodaeth Ategol

## Gofynion tystiolaeth

Bydd y dystiolaeth ar gyfer yr uned hon yn cael ei chyflwyno drwy'r tasgau strwythuredig. Mae canllawiau ar gyfer unrhyw dystiolaeth ychwanegol y gall fod ei hangen i'w gweld yn y pecyn asesu.

## Canllawiau cyflwyno

Dylai'r uned hon gael ei chyflwyno mewn ffordd sy'n ymgorffori ac yn adeiladu ar y wybodaeth graidd a ddatblygwyd o fewn y cymhwyster Lefel 2 Craidd, a thrwy gymhwyso'r wybodaeth hon yn ymarferol, a ddangosir drwy'r uned orfodol ymarfer craidd.

**Ystodau oedran:** plant o dan 2 oed; plant 2-3 oed; plant 3 – 4 oed; plant 5-7 oed.

**Rhwystrau:** gallant gynnwys rhai sy'n gysylltiedig â'r amgylchedd ffisegol; â pherthnasoedd rhyngbersonol a'r amgylchedd emosiynol; ag arferion gwaith; ag argaeledd adnoddau gan gynnwys adnoddau dynol neu gymorth neu gymhorthion eraill; â chyfyngiadau eich sgiliau cyfathrebu neu'ch astudrwydd eich hun neu rai pobl eraill; â chyd-destunau diwylliannol; ag amgylchiadau penodol y plentyn neu'r person ifanc, gan gynnwys iaith y cartref, anabledd, anfantais, pryder neu ofid.

Gall **cyfathrebu** (anfon a derbyn negeseuon) fod yn eiriol neu'n ddieiriau
Beth mae sgyrsiau'n ei olygu?

- O leiaf dau berson
- Cymryd tro
- Mynegiant wyneb
- Iaith y corff
- Cydamseru – adlewyrchu neu ddynwared ystumiau a seiniau eich gilydd
- Seibiannau
- Rhythm, cywair ac alaw
- Goslef
- Ymatebion – geiriol – seiniau neu eiriau a dieiriau

**Ffactorau: Ffisiolegol, seicolegol a chymdeithasegol** – effaith tlodi ar ddarparu amgylchedd dysgu o safon yn y cartref, faint o siarad sydd yn y cartref a beth yw ansawdd y siarad hwnnw, p'un a yw'n iaith ychwanegol, namau ar y clyw, namau corfforol, cyflyrau meddygol

**Nodweddion amgylchedd cadarnhaol sy'n llawn cyfathrebu:** polisi mewn perthynas â meithrin sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu plant gan gynnwys nodau, cyfeiriadau at ymchwil a dogfennaeth ganllaw, fformatau cynllunio ar gyfer amgylchedd cyfathrebu cadarnhaol, rolau a chyfrifoldebau staff a chyfleoedd i ddatblygu'n broffesiynol, dulliau addysgu a dysgu plentyn-ganolog / rhyngweithio o safon uchel rhwng oedolion a phlant, cyfle cyfartal – sicrhau y gall pob plentyn fanteisio ar y ddarpariaeth a bod yr amgylchedd yn cael ei addasu fel y bo'n briodol, adnoddau, sut rydych yn mynd i asesu sgiliau'r plant a bwydo hyn yn ôl i mewn i'r broses gynllunio, gweithio gyda theuluoedd/gofalwyr, monitro ac adolygu'n rheolaidd

© WJEC CBAC Ltd.

**Pwysigrwydd oedolion o ran meithrin sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu**

- Cyfathrebu â phlant mewn ffordd briodol sy'n addas i'w cyfnod datblygu gan ddefnyddio geiriau ac ymadroddion y byddan nhw'n eu deall
- Dangos sgiliau gwrando gweithredol ac ymateb i'r hyn mae plant wedi'i ddweud
- Dangos esiampl drwy ddisgrifio'r hyn sy'n digwydd
- Ymestyn ac ailadrodd yr hyn mae plant yn ei ddweud
- Ail-ddweud yr hyn mae plant yn ei ddweud
- Gofyn cwestiynau penagored
- Deall datblygiad plant er mwyn gallu cefnogi'r dysgu
- Sicrhau bod plant yn cael yr amser a'r cyfleoedd chwarae i ymarfer sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu
- Cynnig cyfleoedd i blant chwarae a siarad â'i gilydd.
- Gall ymarferwyr helpu rhieni a gofalwyr i ddarparu amgylchedd llawn iaith yn y cartref

**Iaith**

- Iaith Dderbyngar: yr hyn mae plant yn ei ddeall o'r hyn maen nhw'n ei glywed
- Iaith Fynegiannol: y ffordd mae plentyn yn mynegi ei hun – rhoi geiriau at ei gilydd, ffurfio brawddegau a mynegi syniadau cynyddol gymhleth
- Cystrawen/Gramadeg – y ffordd mae geiriau'n cael eu cyfuno i greu cymalau a brawddegau
- Morffoleg – strwythur geiriau, gan gynnwys newidiadau i eiriau, er enghraifft drwy ychwanegu terfyniadau i greu geiriau lluosog
- Pragmateg – defnyddio'r gair cywir yn y sefyllfa gywir, gwrando ar yr hyn a ddywedwyd ac ymateb iddo

**Cyfleoedd** – rhyngweithio â phrint yn eu hamgylchedd; cyfleoedd i wneud marciau; cefnogi sgiliau ysgrifennu sy'n datblygu.

**Egwyddorion:** Y pum egwyddor sy'n ymwneud yn benodol ag iaith a nodwyd yn Early Language Delays in the UK (2013)

1. Mae cyfathrebu yn allweddol er mwyn meithrin cyfleoedd bywyd yn ystod plentyndod cynnar. Mae gan bawb yn amgylchedd y plentyn rôl i'w chyflawni o ran meithrin sgiliau cyfathrebu'r plentyn. Mae hyn yn dechrau ar adeg genedigaeth ac yn cynnwys teulu agos ac estynedig ac, o bosibl, amrywiaeth o weithwyr proffesiynol, ymwelwyr iechyd, therapyddion lleferydd ac iaith, addysgwyr cynnar, athrawon, seicolegwyr.
2. Mae angen i bob rhiant ddeall pwysigrwydd sgiliau cyfathrebu cynnar a'u goblygiadau i ddatblygiad cymdeithasol ac addysgol y plentyn yn y blynyddoedd cynnar a thu hwnt.
3. Mae angen i bob gweithiwr proffesiynol wybod sut i nodi datblygiad iaith cynnar arafach a bod yn hyderus ynglŷn â'r hyn y gallant ei wneud i wella sgiliau iaith.
4. Mae angen i ni ymestyn a chyflwyno ymyriadau sydd wedi gweithio o'r blaen, a phrofi eu gwerth i boblogaethau cyfan a thros gyfnod priodol o amser.
5. Mae angen i ni gynnal y pwysau ar lunwyr polisïau er mwyn gwella gwasanaethau i'r plentyn mae ei sgiliau iaith yn datblygu'n arafach, yn enwedig yn y blynyddoedd cynnar iawn (e.e. cyn tair oed).

**Nodweddion amgylchedd cyfathrebu cadarnhaol o safon**

- Polisi mewn perthynas â datblygu sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu plant gan gynnwys nodau, cyfeiriadau at ymchwil a dogfennaeth ganllaw
- Fformatau cynllunio ar gyfer amgylchedd cyfathrebu cadarnhaol
- Rolau a chyfrifoldebau staff a chyfleoedd i ddatblygu'n broffesiynol
- Dulliau addysgu a dysgu – plentyn-ganolog / rhyngweithio o safon uchel rhwng oedolion a phlant
- Cyfle cyfartal – sicrhau y gall pob plentyn fanteisio ar y ddarpariaeth a bod yr amgylchedd yn cael ei addasu fel y bo'n briodol
- Adnoddau

© WJEC CBAC Ltd.

- Sut rydych yn mynd i asesu sgiliau'r plant a bwydo hyn yn ôl i mewn i'r broses gynllunio
- Gweithio gyda theuluoedd/gofalwyr
- Monitro ac adolygu'n rheolaidd

**Tystiolaeth ymchwil**


- Axford, N., Sonthalia, S., Wrigley,  Z., Goodwin, A., Ohlson, C., Bjornstad, G., Barlow, J., Schrader-McMillan, A., Coad, J., Toft, A., (2015) The Best Start at Home: What works to improve the quality of parent/child interactions from conception to age 5 years? A rapid review of the interventions. Y Sefydliad Ymyriadau Cynnar
- Bercow (2008) A review of services for Children and Young People with Speech, Language and Communication needs.
- Hamer, C (2011) Yr Ymddiriedolaeth Lythrennedd Genedlaethol, Talk to your Baby: Guidance for developing a strategic approach to speech, language and communication in the early years.
- Llywodraeth Cymru (2014a) ‘A review of practice in the implementation of the early language development support element within Flying Start’ (Saesneg yn unig) Rhif Ymchwil Gymdeithasol: 62/2014
- Llywodraeth Cymru (2014b) ‘A review of the research evidence on the effectiveness of different approaches to promoting early speech and language development’ (Saesneg yn unig) Rhif Ymchwil Gymdeithasol 61/2014


**Lleferydd**

- Ynganiad – ynganu seiniau
- Ffonoleg – seiniau, patrymau, dilyniannau a chyfuniadau seiniau lleferydd

**Cefnogaeth/ymyriadau**: ymyriadau ffurfiol ac anffurfiol

**Ffyrdd y gall teuluoedd/gofalwyr gefnogi datblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu eu plentyn:**

- Siarad â'u baban/babanod a chanu iddo yn y groth.
- Ymlyniad a bondio – siarad â'r baban/canu iddo o'r cychwyn cyntaf
- Caneuon a rhigymau
- Faint o siarad sydd a beth yw ansawdd y siarad hwnnw
- Diffodd y teledu
- Rhannu llyfrau a straeon gan gynnwys mynd i'r llyfrgell leol
- Chwarae â'u plentyn, gan gynnwys mynd i Grŵp Rhieni a Phlant Bach

## Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS) cysylltiedig

- SCD CCLD 0301: Hybu cyfathrebu effeithiol
- SCD CCLD 303: Hybu datblygiad plant
- SCD CCLD 0307: Hybu iechyd a datblygiad corfforol plant
- SCD CCLD 0312: Creu amgylcheddau cadarnhaol i fabanod a phlant
- SCD CCLD 0321: Cefnogi gofal, dysgu a datblygiad plant â gofynion ychwanegol mewn partneriaeth â'u teuluoedd
- SCD CCLD 0327: Cefnogi plant sydd wedi profi trawma
- SCD CCLD 0345: Hybu datblygiad llythrennedd, rhifedd ac iaith ar gyfer dysgu cynnar plant, mewn partneriaeth â'u teuluoedd

© WJEC CBAC Ltd.

## Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig


- Bercow (2008) A review of services for Children and Young People with Speech, Language and Communication needs.
- Close, R (2004) Yr Ymddiriedolaeth Lythrennedd Genedlaethol: Television and Language Development in the Early Years, A review of the literature
- Gridley, N, Hutchings, J a H. Baker-Henningham (2014) The Incredible Years Parent-Toddler Programme and parental language: a randomised controlled study. Child: care, health and development
- Hamer, C (2011) Yr Ymddiriedolaeth Lythrennedd Genedlaethol, Talk to your Baby: Guidance for developing a strategic approach to speech, language and communication in the early years.
- Talk to your baby 2017: Early Language in a Connected World. Yr Ymddiriedolaeth Lythrennedd Genedlaethol https://literacytrust.org.uk/resources/talk-your-baby-2017-presentations/
- Llywodraeth Cymru (2014a) 'A review of practice in the implementation of the early language development support element within Flying Start' (Saesneg yn unig) Rhif Ymchwil Gymdeithasol: 62/2014 https://gov.wales/statistics-and-research/review-practice-implementation-early-language-development-support-element-within-flying-start/?skip=1&lang=cy
- Llywodraeth Cymru (2014b) 'A review of the research evidence on the effectiveness of different approaches to promoting early speech and language development' (Saesneg yn unig) Rhif Ymchwil Gymdeithasol 61/2014 https://gov.wales/statistics-and-research/review-research-evidence-effectiveness-different-approaches-promoting-early-speech-language-development/?skip=1&lang=cy
- Rhaglen Plant Iach Cymru https://gov.wales/docs/dhss/publications/160926healthy-childrency.pdf
- Yr Ymddiriedolaeth Gyfathrebu. Talking About a Generation https://www.thecommunicationtrust.org.uk/media/540327/tct_talkingaboutageneration_report_online.pdf
- Dechrau Da http://www.bookstart.org.uk/
- The Communication Friendly Spaces http://www.elizabethjarmantraining.co.uk/
- Mae Elklan yn ysgrifennu ac yn cyflwyno cyrsiau achrededig ar leferydd, iaith a chyfathrebu. http://www.elklan.co.uk/
- Hanen http://www.hanen.org/Home.aspx
- Llyfrau: The Perfect Language- Learning Tool http://www.hanen.org/Helpful-Info/Articles/Promoting-Language-with-Books.aspx
- I Can http://www.ican.org.uk/
- Talking Point http://www.talkingpoint.org.uk/
- Canllawiau Dechrau'n Deg – https://gov.wales/topics/people-and-communities/people/children-and-young-people/parenting-support-guidance/help/flyingstart/?skip=&lang=cy
  - Canllawiau Allgymorth
  - Canllawiau Trawsnewid
  - Canllawiau Gofal Plant o Ansawdd Da
  - Rhaglen Graidd Ymwelwyr Iechyd Cymru Gyfan
  - Canllawiau Cefnogi Rhianta
  - Canllawiau ar Leferydd, Iaith a Chyfathrebu.
  - Taflen ffeithiau cefnogi Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu
  - Pecyn Dechrau'n Deg i Rieni – Hwiangerddi
  - Poster Cyfnodau Datblygu Lleferydd ac Iaith
- Every Child a Talker http://www.foundationyears.org.uk/2011/10/every-child-a-talker-guidance-for-early-language-lead-practitioners/


© WJEC CBAC Ltd.

- Naw Mis a Mwy
  http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/861/Naw%20Mis%20a%20Mwy%20Fersiwn%202%20April%202015.pdf
- Yr Ymddiriedolaeth Lythrennedd Genedlaethol
  http://www.literacytrust.org.uk/talk_to_your_baby/resources/418_q
- Amddifadedd chwarae (2003)
  https://www.chwaraecymru.org.uk/login/uploaded/documents/INFORMATION%20SHEETS/amddifadiad%20chwarae.pdf
- Chwarae: iechyd a lles (2012)
  https://www.chwaraecymru.org.uk/login/uploaded/documents/INFORMATION%20SHEETS/chwarae%20iechyd%20a%20lles.pdf
- Arfer adfyfyriol – beth ydi o a pham ei fod mor bwysig? (2018)
  https://issuu.com/playwales/docs/arfer_myfyriol

© WJEC CBAC Ltd.

# Uned 310 Dulliau cadarnhaol o gefnogi ymddygiad yn y blynyddoedd cynnar

| | |
|---|---|
| **Lefel:** | 3 |
| **ODA:** | 40 |
| **Credyd:** | 6 |
| **Crynodeb o'r Uned:** | Pwrpas yr uned hon yw meithrin y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau sydd eu hangen er mwyn cefnogi plant i feithrin dealltwriaeth o'r ffordd maen nhw'n ymddwyn a'u cefnogi wrth iddyn nhw ddatblygu eu hymddygiad cadarnhaol eu hunain. |

## Deilliant dysgu:
1. Egwyddorion cefnogi plant i ddatblygu ymddygiad cadarnhaol

## Meini prawf asesu

Rydych yn gwybod:
1.1 Damcaniaethau ynghylch datblygiad ymddygiad plant
1.2 Ystyr y term ‘ymddygiad heriol’
1.3 **Ffactorau** a fyddai'n gallu arwain at ymddygiad heriol gan blant
1.4 Amrywiaeth o strategaethau ataliol cychwynnol ac ymyrraeth gynnar i gefnogi ymddygiad cadarnhaol
1.5 **Modelau a fframweithiau sy'n cefnogi dulliau cadarnhaol**

Rydych chi'n gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:
1.6 Mewnblannu amrywiaeth o strategaethau ataliad cychwynnol a strategaethau ymyrraeth gynnar yn eich ymarfer
1.7 Mabwysiadu cysyniadau fframweithiau/modelau dulliau cadarnhaol y cytunwyd arnyn nhw ar gyfer cefnogi ymddygiad

## Amrediad

**Ffactorau:** Anghenion ychwanegol, yr amgylchedd, cymdeithasol, ymatebion ac ymddygiadau oedolion, ffactorau andwyol, nodau anghyfarwydd ac afrealistig, ymddygiadau anghyson gan oedolion
**Modelau a fframweithiau sy'n cefnogi dulliau cadarnhaol:** Cefnogaeth Weithredol, Ymarfer Adferol, Cefnogaeth Ymddygiad Cadarnhaol

## Deilliant dysgu:
2. Helpu i ddatblygu ymddygiad cadarnhaol plant mewn ffordd sy'n briodol i'w hoedran a'u cyfnod datblygu

## Meini prawf asesu

Rydych yn deall:
2.1 Y berthynas rhwng dulliau cadarnhaol a rhagweithiol ac ymarfer plentyn-ganolog
2.2 Pwysigrwydd bod yn glir ynghylch disgwyliadau a gosod nodau a ffiniau sy'n helpu i ddatblygu ymddygiad cadarnhaol

© WJEC CBAC Ltd.

2.3 Pam mae'n bwysig cynnwys plant wrth osod nodau ymddygiad
2.4 Sut i gefnogi plant i feithrin dealltwriaeth o'r canlynol:
- Pam mae angen gosod nodau a ffiniau ar gyfer ymddygiad
- Pam maen nhw'n ymddwyn mewn ffordd benodol
- Pryd y gall ymddygiad fod yn dderbyniol neu'n heriol
- Canlyniadau posibl ymddygiad
- Manteision ymddygiad cadarnhaol iddyn nhw eu hunain ac i eraill

2.5 Sut y gall eich gweithredoedd eich hun ddylanwadu ar ymddygiad plant
2.6 Sut y gall ymddygiad plant herio oedolion yn emosiynol

Rydych chi'n gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:
2.7 Cyfathrebu â phlant ynglŷn â'u hymddygiad
2.8 Hybu dealltwriaeth o ddisgwyliadau ynglŷn ag ymddygiad
2.9 Nodi ac adnabod sbardunau ymddygiadol plant a sut i gefnogi hyn
2.10 Rhoi canmoliaeth ac adborth adeiladol ar gyflawni nodau ymddygiadol a bodloni ffiniau y cytunwyd arnyn nhw er mwyn atgyfnerthu ymddygiad cadarnhaol plant
2.11 Adfyfyrio ar y ffordd mae eich ymddygiad a'ch ymatebion eich hun yn **cefnogi** ymddygiad cadarnhaol

### Amrediad

**Cefnogaeth**: Ailfynegi, tawelu, ailgyfeirio, tynnu sylw, achub y blaen ac anwybyddu

---

Deilliant dysgu:
3. Cydweithio ag eraill i gefnogi ymddygiad

Meini prawf asesu

Rydych chi'n deall:
3.1 Ble i gael cymorth a chefnogaeth os bydd pryderon ynglŷn ag ymddygiad plentyn
3.2 Rôl **partneriaid allweddol** wrth gefnogi ymddygiad

Rydych chi'n gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:
3.3 Datblygu amrywiaeth o gynlluniau a dulliau gweithredu ar gyfer cefnogi ymddygiad mewn partneriaeth â'r plentyn, pobl allweddol ac eraill, eu rhannu a chytuno arnyn nhw
3.4 Rhannu canlyniadau adolygiadau ac asesiadau, gan gynnwys asesiadau risg, ag eraill

### Amrediad

**Partneriaid Allweddol:** teuluoedd/gofalwyr, cydweithwyr, gweithwyr proffesiynol eraill

© WJEC CBAC Ltd.

# Uned 310 Dulliau cadarnhaol o gefnogi ymddygiad yn y blynyddoedd cynnar

## Gwybodaeth Ategol

### Gofynion tystiolaeth

Bydd y dystiolaeth ar gyfer yr uned hon yn cael ei chyflwyno drwy'r tasgau strwythuredig. Mae canllawiau ar gyfer unrhyw dystiolaeth ychwanegol y gall fod ei hangen i'w gweld yn y pecyn asesu.

### Canllawiau cyflwyno

Dylai'r uned hon gael ei chyflwyno mewn ffordd sy'n ymgorffori ac yn adeiladu ar y wybodaeth graidd a ddatblygwyd o fewn y cymhwyster Lefel 2 Craidd, a thrwy gymhwyso'r wybodaeth hon yn ymarferol, a ddangosir drwy'r uned orfodol ymarfer craidd.

Gallai **anghenion ychwanegol** gynnwys:
- Anabledd corfforol
- Anabledd dysgu
- Awtistiaeth
- Anghenion iechyd ychwanegol
- Colli synhwyrau
- Anawsterau emosiynol ac ymddygiadol
- Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd
- Mwy abl a thalentog
- Anghenion ymddygiadol

Gall **ymddygiad heriol** gynnwys ymddygiad sy'n:
- Ailadroddus/obsesiynol
- Tynnwyd yn ôl
- Ymosodol
- Hunan-niweidiol
- Aflonyddgar
- Gwrthgymdeithasol neu anghyfreithlon
- Defnyddio Iaith Ddifrïol

**Modelau a fframweithiau sy'n cefnogi dulliau cadarnhaol**:

a) <u>Cefnogaeth Weithredol</u>
  - Beth yw ystyr 'cefnogaeth weithredol'
  - Sut mae'r model Cefnogaeth Weithredol yn troi gwerthoedd yn ymarfer plentyn-ganolog
  - Gwahanol elfennau Cefnogaeth Weithredol, gan gynnwys:
  - Cynlluniau dyddiol a chyfranogiad gweithredol
  - Lefelau o help neu gefnogaeth a chymorth
  - Rhyngweithio cadarnhaol
  - Atgyfnerthu cadarnhaol
  - Addysgu sgiliau
  - Dadansoddi tasgau
  - Amrywiaeth werthfawr o weithgareddau ystyrlon

© WJEC CBAC Ltd.

b) Dulliau adferol
- Beth yw ystyr 'dulliau adferol'
- Adfer – prif nod dull adferol yw mynd i'r afael â niwed a'i wella
- Gwirfoddoli – dylai pobl gymryd rhan mewn prosesau adfer o'u gwirfodd ac yn seiliedig ar ddewis hyddysg
- Niwtraliaeth – mae prosesau adferol yn deg ac yn ddiduedd tuag at y rhai sy'n cymryd rhan
- Diogelwch – nod prosesau ac ymarfer yw sicrhau diogelwch pawb sy'n cymryd rhan a chreu man diogel ar gyfer mynegi teimladau a safbwyntiau am y ffordd mae niwed wedi cael ei achosi
- Hygyrchedd – nid yw prosesau adferol yn gwahaniaethu, ac maen nhw ar gael i bawb y mae gwrthdaro a niwed wedi effeithio arnyn nhw
- Parch – mae prosesau adferol yn parchu urddas pawb sy'n cymryd rhan a phobl mae'r niwed a achoswyd wedi effeithio arnynt

c) Cefnogaeth Ymddygiad Cadarnhaol
- Beth yw ystyr 'cefnogaeth ymddygiad cadarnhaol'
- Elfennau'r model cefnogaeth ymddygiad cadarnhaol gan gynnwys:
  - Dulliau sy'n seiliedig ar werthoedd
  - Damcaniaeth a sail dystiolaeth
  - Dadansoddi gweithredol
  - Ataliad cychwynnol
  - Ataliad eilaidd
  - Strategaethau adweithiol
- Pam mae dull wedi'i arwain gan werthoedd yn bwysig ar gyfer cefnogi ymddygiad cadarnhaol
- Pam nad oes lle i gosbi wrth gefnogi ymddygiad cadarnhaol
- Pam mae'n bwysig deall teimladau rhywun a pham ei fod yn ymddwyn fel y mae (gweithrediadau ei ymddygiad)
- Y gwahaniaeth rhwng ffurf (yr ymddygiad) a gweithrediad (y rheswm dros yr ymddygiad hwnnw)
- Pedwar gweithrediad cyffredin ymddygiad heriol: sylw cymdeithasol; osgoi/dianc; cael gafael ar bethau diriaethol; ysgogi'r synhwyrau
- Elfennau cynllun cefnogi ymddygiad
- Pwysigrwydd sesiynau dadfriffio yn dilyn achos o ymddygiad heriol
- Elfennau sesiynau dadfriffio yn dilyn achosion o ymddygiad heriol

**Ffactorau:** Profiadau niweidiol yn ystod plentyndod, anawsterau ymlyniad, colli synhwyrau, anaf i'r ymennydd neu gyflwr niwrolegol arall, achosion corfforol neu ymateb i boen neu afiechyd, anawsterau cyfathrebu, rhianta gwael, ymatebion anghyson neu amhriodol i ymddygiad, disgwyliadau ystrydebol mewn perthynas â phobl eraill, disgwyliadau anghyraeddadwy mewn perthynas â phobl eraill, yr amgylchedd, ymateb i amgylchiadau, digwyddiadau a theimladau gan gynnwys ofn a phryder, cyfnodau trawsnewid, colled, cam-drin, gofal amhriodol, gofynion i wneud rhywbeth nad yw'r plentyn am ei wneud, cael ei anwybyddu.

**Pobl allweddol**: teulu, ffrindiau, gofalwyr ac eraill mae gan y plentyn/person ifanc berthynas bwysig â nhw.

Gall **eraill** gynnwys:
- Rhieni
- Cydweithwyr
- Gweithwyr proffesiynol eraill.

© WJEC CBAC Ltd.

**Strategaethau ataliol cychwynnol ac ymyrraeth gynnar:** Newid neu osgoi ffactorau sy'n ysgogi ymddygiad heriol, newid yr amgylchedd lle mae plentyn yn byw neu'n treulio amser er mwyn diwallu ei anghenion, cymryd rhan mewn amrywiaeth werthfawr o weithgareddau ystyrlon er mwyn helpu plant i gyflawni canlyniadau sy'n bwysig iddynt, newid atgyfnerthiadau sy'n cynnal ymddygiadau heriol, rhoi cefnogaeth ar y lefel gywir er mwyn helpu plant i fod yn fwy annibynnol a gallu ymdopi'n well, cynnig tawelwch meddwl a chefnogaeth er mwyn lleihau teimladau o bryder neu ofid, meithrin gwydnwch plant.

**Damcaniaethau datblygu ymddygiad:** Damcaniaethwyr: Bandura, Skinner, Piaget, Glasser, Lee a Marlene Canter.

## Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS) cysylltiedig

- SCD CCLD 0308: Hybu llesiant a gwydnwch plant
- SCD CCLD 0325: Cefnogi plant a phobl ifanc drwy gyfnodau trawsnewid mawr
- SCD CCLD 0326: Hybu datblygiad ymddygiad cadarnhaol mewn plant a phobl ifanc
- SCD CCLD 0327: Cefnogi plant sydd wedi profi trawma

## Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig

- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- Mwy na Geiriau: Fframwaith Strategol Dilynol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg ym Maes Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol
- Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru (Ebrill 2010)
- Dimensions https://www.dimensions-uk.org/service/cymru-wales/positive-behaviour-support-in-wales-cymru/
- Denne, et al (2015) *Putting positive behavioural support into practice: the*
- *challenges of workforce training and development*, International Journal of Positive
- Behavioural Support 5,2 43-45
- Gore, et al (2013) *Definition and scope for positive behavioural support*,
- International Journal of Positive Behavioural Support 3,2, 14-23
- Yr Academi Cymorth Ymddygiad Cadarnhaol, Improving quality in the delivery of
- Positive Behavioural Support (PBS): the standards for accredited training
- Y Gynghrair Cymorth Ymddygiad Cadarnhaol (2015) Positive Behavioural Support: a
- competence framework
- NHS Education for Scotland – Positive Behavioural Support: A Learning Resource
- Ymyriad diogel ac effeithiol – defnyddio grym rhesymol a chwilio am arfau
- Restrictive Physical Intervention and Therapeutic Holding for Children and Young
- People. Guidance for nursing staff
- Restrictive Physical Intervention in Secure Children's Homes
- Diogelu Plant: Gweithio gyda'n Gilydd dan Ddeddf Plant 2004
- Gweithdrefnau Diogelu Cymru (2019) **http://www.myguideapps.com/projects/wales_safeguarding_procedures/default/**
- Canllawiau Diogelu Llywodraeth Cymru https://gov.wales/safeguarding-guidance

© WJEC CBAC Ltd.

# Uned 311 Cefnogi plant ag anghenion ychwanegol

| | |
|---|---|
| **Lefel:** | 3 |
| **ODA:** | 100 |
| **Credyd:** | 12 |
| **Crynodeb o'r Uned:** | Bydd yr uned hon yn galluogi dysgwyr i archwilio effeithiau anghenion ychwanegol ar blant a'r heriau a'r cyfleoedd a wynebir wrth gefnogi plant ag anghenion ychwanegol a'u teuluoedd/gofalwyr. Mae'r uned hon wedi'i bwriadu ar gyfer pobl sy'n gweithio gyda phlant ag anghenion ychwanegol/cymhleth, neu'r rhai sydd am wneud hynny. |

## Deilliant dysgu:

1. Canfyddiadau a safbwyntiau ynghylch anghenion ychwanegol

## Meini prawf asesu

Rydych chi'n deall:

1.1 Sut mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau yn cefnogi dull gweithredu seiliedig ar hawliau ar gyfer plant ag anghenion ychwanegol
1.2 **Achosion posibl** amrywiaeth o anghenion ychwanegol
1.3 **Cydafiachedd** posibl sy'n gysylltiedig ag anghenion ychwanegol
1.4 Natur a nodweddion amrywiaeth o anghenion ychwanegol
1.5 Pa mor bwysig yw hi i blant ag anghenion ychwanegol gael cyfle cyfartal i ddysgu, tyfu a datblygu'n gyfannol, gan gynnwys cymryd risgiau
1.6 Pam ei bod yn bosibl bod plant ag anghenion ychwanegol wedi cael eu hanghymell neu eu hatal rhag cymryd risgiau, neu pam y gall hynny ddigwydd
1.7 Safbwyntiau ynghylch amrywiaeth o anghenion ychwanegol, sut mae'r rhain wedi datblygu a newid dros amser a dylanwadu ar fodelau darparu gwasanaethau
1.8 Y ffordd mae agweddau a gwerthoedd cymdeithasol tuag at blant ag amrywiaeth o anghenion ychwanegol yn effeithio ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant
1.9 Y ffordd y gall anghenion ychwanegol plentyn gael gormod o ddylanwad ar farn, tybiaethau ystrydebol a disgwyliadau pobl eraill.
1.10 **Effeithiau** labelu plentyn yn blentyn ag anghenion ychwanegol
1.11 Yr effaith ar **bobl eraill** wrth gefnogi plentyn ag anghenion ychwanegol
1.12 Pam y gall cyfleoedd plentyn ag anghenion ychwanegol mewn bywyd fod yn fwy cyfyngedig na chyfleoedd y boblogaeth gyffredinol a sut mae gwasanaethau cefnogi yn ceisio unioni'r cydbwysedd hwn
1.13 Sut i gefnogi teuluoedd/gofalwyr plant ag anghenion ychwanegol lle y gall fod gan riant/gofalwr angen ychwanegol hefyd
1.14 Rôl asiantaethau allanol ac eraill o ran newid agweddau, polisïau ac ymarfer

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

1.15 Hybu canfyddiadau cadarnhaol o blant ag anghenion ychwanegol, gan nodi canolrwydd y plentyn, yn hytrach na'r angen ychwanegol

© WJEC CBAC Ltd.

1.16 Herio rhagfarn, delweddau ystrydebol, gwahaniaethu ac agweddau negyddol tuag at blant ag anghenion ychwanegol
1.17 Cefnogi plant i daro cydbwysedd rhwng cymryd risgiau cadarnhaol a her

## Amrediad

**Achosion posibl:** a gafwyd, genedigol, genetig
**Cyd-glefydedd:** lle mae gan blentyn fwy nag un angen ychwanegol a lle mae'r rhain yn cydfodoli gan ystyried ei holl anghenion
**Effeithiau:** cadarnhaol a negyddol
**Eraill**: cydweithwyr, teuluoedd/gofalwyr, plant eraill

---

### Deilliant dysgu

2. Cefnogi dysgu, twf a datblygiad cyfannol plant ag anghenion ychwanegol

### Meini prawf asesu

Rydych chi'n deall:
2.1 Strategaethau er mwyn goresgyn rhwystrau gwirioneddol neu ganfyddedig rhag cyfranogiad gweithredol a chynhwysiant plant a'u teuluoedd/gofalwyr
2.2 Effeithiau posibl anghenion ychwanegol penodol ar ddysgu, twf a datblygiad cyfannol plant
2.3 Sut y gall datblygiad disgwyliedig fod yn wahanol ar gyfer plant ag anghenion ychwanegol
**2.4 Y ffyrdd y gall datblygiad arafach mewn un maes effeithio ar y gallu i ddysgu sgiliau mewn meysydd eraill**
2.5 **Mathau o arsylwadau** a ddefnyddir i asesu a nodi plant ag anghenion ychwanegol
2.6 Fframweithiau a chanllawiau sydd ar gael mewn perthynas ag asesu, nodi a chefnogi plant ag anghenion ychwanegol
2.7 Pryd a sut i gofnodi achosion pan fydd asesiadau'n dangos y gall fod gan blentyn anghenion ychwanegol a rhoi gwybod amdanynt
2.8 Rôl dulliau gweithredu plentyn-ganolog ar gynlluniau datblygu unigol
2.9 **Nodweddion allweddol amgylchedd hygyrch** sy'n cefnogi dysgu, twf a datblygiad cyfannol ac yn ystyried anghenion unigol
2.10 Strategaethau a dulliau y gellir eu defnyddio gyda phlant mae angen cefnogaeth arnynt gyda'r canlynol:
- cyfathrebu a rhyngweithio
- gwybyddiaeth a dysgu
- datblygiad ymddygiadol, cymdeithasol ac emosiynol
- datblygiad synhwyraidd a/neu gorfforol

2.11 Yr amrywiaeth o archwiliadau a chefnogaeth gofal iechyd y gall plant ag anghenion ychwanegol eu cael
2.12 Pwysigrwydd dilyn cynlluniau datblygu unigol ar gyfer gweithgareddau gofal iechyd y cytunwyd arnynt
2.13 Sut i gael gafael ar ffynonellau o wybodaeth a chyngor wrth nodi gofynion cefnogi ar gyfer plant ag anghenion ychwanegol a'u teuluoedd/gofalwyr

Rydych chi'n gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:
2.14 Defnyddio arsylwadau ac asesiadau i nodi cam dysgu, twf a datblygiad cyfannol plant
2.15 Cyfrannu at gynlluniau datblygu unigol er mwyn cefnogi dysgu, twf a datblygiad cyfannol plant ag anghenion ychwanegol
2.16 Darparu amgylcheddau hygyrch sy'n hybu'r gwaith o gynnal gweithgareddau a chyfleoedd chwarae ystyrlon a chynhwysol

© WJEC CBAC Ltd.

2.17 Defnyddio cyfarpar a chymhorthion arbenigol yn briodol; gan sicrhau eu bod yn ddiogel, yn addas i'r pwrpas ac yn cael eu defnyddio yn unol â chanllawiau ac asesiadau risg
2.18 Cofnodi cyfnodau dysgu, twf a datblygiad cyfannol a rhoi gwybod amdanynt yn unol â chynlluniau datblygu unigol
2.19 Gwerthuso cynlluniau datblygu unigol ac adfyfyrio arnynt

## Amrediad

**Mathau o arsylwadau:** naratif, llinell amser, mapio symudiadau, dilyniant amser, teithiau dysgwyr, dyddiaduron
**Nodweddion allweddol amgylchedd hygyrch:** hygyrch, cynhwysol, ysgogol, cynnig ymestyn a herio

---

### Deilliant dysgu:

3. Cefnogi plant ag anghenion ychwanegol i feithrin gwydnwch yn ystod cyfnodau o newid a thrawsnewid

### Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

3.1 Anawsterau ymlyniad y gall plant ag anghenion ychwanegol eu profi
3.2 Pam y gall fod angen cefnogaeth ychwanegol sydd â ffocws pendant ar blant ag anghenion ychwanegol cyn, yn ystod ac ar ôl cyfnodau o newid a thrawsnewid
3.3 Ffyrdd o gefnogi plant ag anghenion ychwanegol drwy gyfnodau o newid a thrawsnewid
3.4 Sut i gefnogi plant ag anghenion ychwanegol a'u teuluoedd/gofalwyr i feithrin gwydnwch, deallusrwydd emosiynol a hunan-gred
3.5 Yr amrywiaeth o strategaethau ymdopi y gall plant eu defnyddio a sut y gall y canlynol ddylanwadu arnynt:
- natur a nodweddion yr angen ychwanegol
- oedran, gallu a chyfnod datblygiad
- deallusrwydd emosiynol a gwydnwch
- amgylchiadau a dynameg y teulu
- teithiau bywyd
- mathau o ymlyniad
- yr amgylchedd uniongyrchol

3.6 Pwysigrwydd cynnwys plant a'u teuluoedd/gofalwyr wrth gynllunio ar gyfer newid a thrawsnewid, neu ymateb iddynt, gan ystyried gallu a chyfnod datblygiad y plentyn

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:
3.7 Defnyddio ymyriadau priodol i gefnogi plant ag anghenion ychwanegol wrth iddynt baratoi ar gyfer newid a thrawsnewid
3.8 Cyfrannu at y gwaith o werthuso ymyriadau sy'n cefnogi plant ag anghenion ychwanegol drwy gyfnodau o newid a thrawsnewid
3.9 Cefnogi plant ag anghenion ychwanegol i feithrin ymdeimlad cadarnhaol o'r hunan
3.10 Meithrin sgiliau annibyniaeth, gan ystyried gallu a chyfnod datblygiad y plentyn

---

### Deilliant dysgu:

4. Gweithio gyda phlant ag anghenion ychwanegol a'u teuluoedd/gofalwyr er mwyn cefnogi trawsnewid effeithiol mewn perthynas â chyfathrebu

© WJEC CBAC Ltd.

### Meini prawf asesu

Rydych chi'n deall:
4.1 Sut i fagu ymddiriedaeth plant ag anghenion ychwanegol a'u teuluoedd/gofalwyr
4.2 Y dulliau cyfathrebu y gellir eu defnyddio i gefnogi plant ag anghenion ychwanegol.
4.3 Yr amrywiaeth o weithwyr proffesiynol a fyddai'n gallu cynnig cyngor a chefnogaeth i feithrin sgiliau cyfathrebu
4.4 Mathau o eiriolaeth a'r ffordd y gellir eu defnyddio i gefnogi hawliau plant ag anghenion ychwanegol a'u teuluoedd/gofalwyr

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:
4.5 Defnyddio amrywiaeth o ddulliau cyfathrebu i gefnogi plant ag anghenion ychwanegol
4.6 Cyfrannu at y broses o ddatblygu proffiliau/cynlluniau cyfathrebu fel rhan o gynlluniau datblygu unigol ar gyfer plant ag anghenion ychwanegol
4.7 Hybu eiriolaeth i blant ag anghenion ychwanegol a'u teuluoedd/gofalwyr

---

### Deilliant dysgu:
5. Gofal mwy diogel

### Meini prawf asesu

Rydych chi'n deall:
5.1 Pam mae plant ag anghenion ychwanegol:
- yn wynebu mwy o risg o gam-drin a chamfanteisio
- yn fwy tebygol o gael eu targedu gan y sawl sy'n cam-drin

5.2 Sut i gadw eich hun ac eraill yn ddiogel wrth weithio gyda phlant ag anghenion ychwanegol

Rydych chi'n gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:
5.3 Hybu dull gweithredu unigryw ar gyfer diogelu plant unigol, gan ystyried bregusrwydd, ymddygiad a phrofiadau penodol plant ag anghenion ychwanegol

---

### Deilliant dysgu:
6. Adfyfyrio ar y gofal a chymorth a roddir i blant ag anghenion ychwanegol

### Meini prawf asesu

Rydych chi'n deall:
6.1 Sut y gall cymorth effeithiol wneud gwahaniaeth i blant ag anghenion ychwanegol a'u teuluoedd/gofalwyr
6.2 Sut y gall eich ymatebion a'ch gweithredoedd eich hun gefnogi **pobl eraill** wrth weithio gyda phlant ag anghenion a allai gyfyngu ar fywyd

Rydych yn gweithio mewn
ffyrdd sy'n:
6.3 Adfyfyrio ar eich profiad, eich credoau a'ch gwerthoedd eich hun a'r ffordd mae'r rhain yn effeithio ar ymarfer
6.4 Dilyn codau ymarfer, safonau, fframweithiau a chanllawiau ar gyfer gweithio gyda phlant ag anghenion ychwanegol mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar

### Amrediad

**Eraill**: cydweithwyr, teuluoedd/gofalwyr, plant eraill.

© WJEC CBAC Ltd.

# Uned 311 Cefnogi plant ag anghenion ychwanegol

## Gwybodaeth Ategol

### Gofynion tystiolaeth

Bydd y dystiolaeth ar gyfer yr uned hon yn cael ei chyflwyno drwy'r tasgau strwythuredig. Mae canllawiau ar gyfer unrhyw dystiolaeth ychwanegol y gall fod ei hangen i'w gweld yn y pecyn asesu.

### Canllawiau cyflwyno

Dylai'r uned hon gael ei chyflwyno mewn ffordd sy'n ymgorffori ac yn adeiladu ar y wybodaeth graidd a ddatblygwyd o fewn y cymhwyster Lefel 2 Craidd, a thrwy gymhwyso'r wybodaeth hon yn ymarferol, a ddangosir drwy'r uned orfodol ymarfer craidd.

Gallai'r **gallu i ddysgu sgiliau mewn meysydd eraill** gynnwys y canlynol, ond nid yw'n gyfyngedig iddynt:

- Datblygiad lleferydd, iaith, cyfathrebu a llythrennedd
- Datblygiad cymdeithasol ac emosiynol
- Llythrennedd corfforol: sgiliau echddygol manwl
- a bras.

**Anghenion ychwanegol**
Bydd llawer o blant yn derbyn cefnogaeth ychwanegol ar ryw adeg yn eu bywydau er mwyn eu helpu i gymryd rhan mewn gweithgareddau neu addysg ac i gyflawni eu potensial. Gall hyn fod yn rhywbeth tymor hir neu'n rhywbeth tymor byr.

Gall anghenion cefnogi ychwanegol fod yn:

- gorfforol, fel parlys yr ymennydd neu golli golwg
- emosiynol, fel profi trawma
- seicolegol, fel iechyd meddwl gwael
- cymdeithasol, fel anhwylder ymlyniad
- anabledd dysgu, fel Syndrom Down
- anhawster dysgu, fel dyslecsia
- iechyd, fel diabetes

Ystyrir bod gan blentyn anghenion cefnogi ychwanegol os oes angen rhoi mwy o gymorth i'r plentyn hwnnw na'r hyn a fyddai'n ddisgwyliedig fel arfer i'w hoedran a'u cyfnod datblygiad. Byddai hyn hefyd yn cynnwys plant sy'n fwy abl a thalentog

**Ffactorau andwyol:** dod i gysylltiad â chamddefnyddio sylweddau (ysmygu, gan gynnwys ysmygu goddefol, alcohol, meddyginiaeth ar bresgripsiwn, cyffuriau anghyfreithlon, camddefnyddio fitaminau), dim digon o asid ffolig deietegol, gallu'r fam/rhiant i fynd i'r afael â'i hanghenion/anghenion iechyd ei hun, deiet y fam, straen yn ystod beichiogrwydd, trawma yn ystod genedigaeth, genedigaeth gynamserol, ffactorau genynnol, heintiau a drosglwyddir yn rhywiol, maeth a hydradu gwael, amgylcheddau anymatebol sy'n llawn straen a cham-drin, cam-drin domestig, dim digon o weithgarwch corfforol, dod i gysylltiad ag afiechyd cyffredin mewn plant, llygredd, gormod o olau haul, gorsymbyliad a thansymbyliad, straen gwenwyn (gan gynnwys rôl ac effaith cortisol ac adrenalin), tai annigonol, tlodi, diffyg mynediad at wasanaethau

**Plentyn/plant**: at bwrpas yr uned hon, mae plentyn/plant yn cyfeirio at blant 0-8 oed.

© WJEC CBAC Ltd.

**Newid/Trawsnewid:** ar gyfer plant ag anghenion ychwanegol, gall hyn gynnwys y canlynol, ond nid yw'n gyfyngedig iddynt:
- Newid gweithgaredd
- Newid gweithiwr
- Newid trefn arferol
- Y tywydd
- Bwydlen
- Mynd o un ardal i un arall, e.e. dan do/awyr agored, mynd i'r toiled, ystafell ginio
- Newid yn yr amgylchiadau gartref.

**Deallusrwydd emosiynol**: hunanymwybyddiaeth, hunanreoleiddio, cymhelliant, empathi a sgiliau cymdeithasol

Gallai **fframweithiau a chanllawiau sydd ar gael mewn perthynas ag asesu, nodi a chefnogi plant ag anghenion ychwanegol** gynnwys SOGS

Gallai **canfyddiad** gynnwys y canlynol, ond nid yw'n gyfyngedig iddynt: model meddygol anabledd, model cymdeithasol anabledd, model arbenigol neu broffesiynol anabledd, model trasiedi a/neu elusennol anabledd, model moesol anabledd, model dilysrwydd anabledd, model grymuso anabledd, model cymdeithasol addasedig anabledd, model economaidd anabledd, model marchnad anabledd, model sbectrwm anabledd

**Effaith bosibl**: datblygiad arafach, cymdeithasoli, iechyd, chwarae, llesiant, presenoldeb,

**Gwasanaethau Cefnogi:** Lleoliadau gofal plant/blynyddoedd cynnar, 1:1, arweinydd ADY yn y lleoliad, Cydlynydd ADY yn yr awdurdod lleol, gwasanaethau addysg statudol gan gynnwys ysgolion, gweithwyr iechyd proffesiynol, sefydliadau yn y trydydd sector, gwasanaethau cymdeithasol.

**Y ffyrdd y gall datblygiad arafach mewn un maes effeithio ar y gallu i ddysgu sgiliau mewn meysydd eraill** gan gynnwys:
- lleferydd ac iaith
- datblygiad cymdeithasol ac emosiynol
- sgiliau echddygol manwl
- sgiliau echddygol bras.

## Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS) cysylltiedig

- CCLD 0339: Hybu gofal, dysgu a datblygiad plant ag anghenion cefnogi ychwanegol mewn lleoliadau addysg gynnar
- TDASTL44: Gweithio gyda phlant a phobl ifanc â gofynion ychwanegol er mwyn diwallu eu hanghenion cefnogi personol
- TDASTL38: Cefnogi plant ag anableddau neu anghenion addysgol arbennig a'u teuluoedd
- SCD HSC 0315: Gweithio gyda phlant a phobl ifanc â gofynion ychwanegol er mwyn diwallu eu hanghenion cefnogi personol
- SCD CCLD 0301: Hybu cyfathrebu effeithiol
- SCD CCLD 0308: Hybu llesiant a gwydnwch plant.

## Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig

- Bil Drafft Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2015 http://www.senedd.cynulliad.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=16496
- Cod Ymarfer AAA https://beta.llyw.cymru/anghenion-addysgol-arbennig-cod-ymarfer?_ga=2.115588934.1974554941.1550481483-1664962502.1550234187

© WJEC CBAC Ltd.

- Cefnogi Dysgwyr ag Anghenion Gofal Iechyd https://learning.gov.wales/resources/browse-all/supporting-learners-with-healthcare-needs/?lang=cy
- Cefnogi disgyblion mwy abl a dawnus mewn ysgolion cynradd, Estyn, 2011 https://www.estyn.llyw.cymru/sites/default/files/documents/Cefnogi%20disgyblion%20mwy%20abl%20a%20dawnus%20mewn%20ysgolion%20cynradd%20-%20Gorffennaf%202011.pdf
- Arolwg i ganfod y ddarpariaeth ar gyfer y dysgwyr mwy galluog a thalentog drwy Gymru, Llywodraeth Cymru, 2015 https://gov.wales/docs/dcells/publications/160106-mat-report-cy.pdf
- Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Ddall https://www.rnib.org.uk/who-we-are
- SNAP CYMRU http://www.snapcymru.org/
- Anabledd Dysgu Cymru https://www.ldw.org.uk/cy/
- Cyswllt Teulu Cymru https://contact.org.uk/wales
- Canllawiau Dechrau'n Deg – https://gov.wales/topics/people-and-communities/people/children-and-young-people/parenting-support-guidance/help/flyingstart/?skip=&lang=cy
    - Canllawiau Allgymorth
    - Canllawiau Trawsnewid
    - Canllawiau Gofal Plant o Ansawdd Da
    - Rhaglen Graidd Ymwelwyr Iechyd Cymru Gyfan
    - Canllawiau Cefnogi Rhianta
    - Canllawiau ar Leferydd, Iaith a Chyfathrebu.
    - Taflen ffeithiau cefnogi Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu
    - Pecyn Dechrau'n Deg i Rieni – Hwiangerddi
    - Poster Cyfnodau Datblygu Lleferydd ac Iaith
- Pecyn Cymorth Adolygiadau sy’n Canolbwyntio ar Unigolion, Llywodraeth Cymru, 2015 https://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/150909-reviews-toolkit-cy.pdf
- Chwarae a Risg (2013) https://www.chwaraecymru.org.uk/login/uploaded/documents/INFORMATION%20SHEETS/chwarae%20a%20risg.pdf
- Amddifadedd chwarae (2003) https://www.chwaraecymru.org.uk/login/uploaded/documents/INFORMATION%20SHEETS/amddifadiad%20chwarae.pdf
- Chwarae: iechyd a lles (2012) **https://www.chwaraecymru.org.uk/login/uploaded/documents/INFORMATION%20SHEETS/chwarae%20iechyd%20a%20lles.pdf**
- Janet Moyles, Chwarae a’r blynyddoedd cynnar: genedigaeth i saith oed (2013) http://www.playwales.org.uk/login/uploaded/documents/INFORMATION%20SHEETS/chwarae%20ar%20blynyddoedd%20cynnar.pdf
- Chwarae: darpariaeth gynhwysol (2013) https://issuu.com/playwales/docs/play_inclusive_provision?e=5305098/5307437
- Cynyddu gwytnwch – pwysigrwydd chwarae (2015) http://www.chwaraecymru.org.uk/login/uploaded/documents/INFORMATION%20SHEETS/Cynyddu%20gwytnwch.pdf
- Hybu gweithgarwch corfforol trwy chwarae’r tu allan mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar (2016) https://www.chwaraecymru.org.uk/login/uploaded/documents/INFORMATION%20SHEETS/Hybu%20gweithgarwch%20corfforol%20blynyddoedd%20cynnar.pdf
- Arfer adfyfyriol – beth ydi o a pham ei fod mor bwysig? (2018) https://issuu.com/playwales/docs/arfer_myfyriol
- Gweithdrefnau Diogelu Cymru (2019) **http://www.myguideapps.com/projects/wales_safeguarding_procedures/default/**
- Canllawiau Diogelu Llywodraeth Cymru https://gov.wales/safeguarding-guidance

© WJEC CBAC Ltd.

# Uned 312 Cefnogi plant sy'n byw gydag epilepsi

| | |
|---|---|
| Lefel: | 3 |
| ODA: | 20 |
| Credyd: | 3 |
| Crynodeb o'r Uned | Mae'r uned hon yn ymdrin â'r wybodaeth sylfaenol sydd ei hangen ar bobl sy'n gweithio mewn sefydliadau/lleoliadau lle maen nhw'n gyfrifol am gynorthwyo plant a fyddai'n gallu bod yn byw gydag epilepsi. Bydd dysgwyr yn meithrin dealltwriaeth o beth yw epilepsi, camau gweithredu i'w cymryd, sut y gellir ei reoli a'i effaith bosibl ar blant yn eu bywydau bob dydd.<br>Yng nghyd-destun yr uned hon, mae'r term 'plant' yn cyfeirio ar blant neu bobl ifanc |

## Deilliant dysgu:
1. Epilepsi a'i effeithiau

## Meini prawf asesu

Rydych yn gwybod:
1.1 Y term 'epilepsi'
1.2 Y mathau gwahanol o epilepsi a dosbarthiadau o ffitiau
1.3 Achosion epilepsi
1.4 Sbardunau a rhybuddion posibl ffitiau
1.5 Camau i'w cymryd yn achos ffitiau

## Deilliant dysgu:
2. Triniaethau ar gyfer epilepsi

## Meini prawf asesu
Rydych yn gwybod:
2.1 Mathau gwahanol o feddyginiaeth atal epilepsi a ddefnyddir ar hyn o bryd
2.2 Manteision a risgiau meddyginiaeth atal epilepsi

## Deilliant dysgu:
3. Deall y gofal a roddir i blant gydag epilepsi yn unol â'r cynllun gofal y cytunwyd arno

## Meini prawf asesu

Rydych yn gwybod:
3.1 Ffyrdd o gefnogi plentyn drwy'r broses ymadfer ar ôl ffit
3.2 Risgiau posibl a'u heffeithiau ar fywydau bob dydd plant sydd wedi cael diagnosis o epilepsi
3.3 Pwysigrwydd y broses o gofnodi a rhoi gwybod am ffitiau
3.4 Cyfyngiadau eich rôl eich hun wrth roi cyngor, arweiniad, gwybodaeth a gofal i blentyn gydag epilepsi, neu ei deulu/gofalwr

© WJEC CBAC Ltd.

3.5 Sut i addasu dulliau cyfathrebu a chefnogaeth ar gyfer plant gydag epilepsi, yn dibynnu ar eu hoedran a'u cyfnod o ddatblygiad
3.6 Sut i nodi aelodau o'r tîm amlddisgyblaethol a/neu weithwyr amlasiantaethol sy'n cefnogi plant gydag epilepsi yn eich sefydliad/lleoliad eich hun

---

## Deilliant dysgu:

4. Cefnogaeth a gofal i blant ag epilepsi

## Meini prawf asesu

Rydych chi'n gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:
4.1 Rhoi mesurau ar waith i greu amgylcheddau diogel i blant gydag epilepsi yn eich sefydliad/lleoliad eich hun
4.2 Tawelu meddwl plant gydag epilepsi a'u teuluoedd/gofalwyr
4.3 Cefnogi plant neu eu teuluoedd/gofalwyr i gynnal neu gyfrannu at ddyddiadur ffitiau, neu ffordd gyfatebol o gofnodi ffitiau/absenoldeb ffitiau

© WJEC CBAC Ltd.

# Uned 312 Cefnogi plant sy'n byw gydag epilepsi

## Gwybodaeth Ategol

### Gofynion tystiolaeth

Os nad yw'r tasgau cyfannol yn eu hasesu, rhaid cwblhau portffolio o dystiolaeth ar gyfer y deilliannau gwybodaeth ac ymarfer yn yr uned hon. Dylid dilyn yr amodau a amlinellir yn y pecyn asesu o ran cadw'r dystiolaeth yn y portffolio.
Ar gyfer deilliannau'r ymarfer, rhaid bodloni'r gofynion tystiolaeth lleiaf canlynol drwy'r portffolio o dystiolaeth:

- Adroddiad adfyfyriol wedi'i ysgrifennu gan y dysgwr a'i lofnodi gan dyst yn disgrifio'r gefnogaeth a roddwyd i blant gydag epilepsi ar o leiaf un achlysur
- Rhaid i ddogfennau/cofnodion cysylltiedig gael eu cwblhau'n glir, yn gywir ac yn ddarllenadwy.

### Canllawiau cyflwyno

Dylai'r uned hon gael ei chyflwyno mewn ffordd sy'n ymgorffori ac yn adeiladu ar y wybodaeth graidd a ddatblygwyd o fewn y cymhwyster Lefel 2 Craidd, a thrwy gymhwyso'r wybodaeth hon yn ymarferol, a ddangosir drwy'r uned orfodol ymarfer craidd.

**Risgiau posibl** a'u heffeithiau ar fywydau bob dydd plant – gwahanol gamau mewn bywyd, hyder, hunan-barch, dewisiadau personol, ffyrdd o fyw

**Amgylcheddau diogel –** asesiadau risg cadarnhaol – galluogi yn hytrach na chyfyngu

**Triniaethau amgen yn lle meddyginiaethau atal epilepsi** – ymyriadau seicolegol, mesurau ataliol, cwnsela

**Dyddiadur ffitiau** – byddai hwn yn cynnwys y math o ffitiau a welwyd, eu hyd, a chyfnodau heb ffitiau

### Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS) cysylltiedig

- CHHM1 Asesu anghenion y cleient

### Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig

- Canllawiau Epilepsi ar y Cyd - Y Cyd-Gyngor Epilepsi, Medi 2011 http://www.epilepsyscotland.org.uk/pdf/Joint_Epilepsy_Council_Prevalence_and_Incidence_September_11_(3).pdf
- Y Gymdeithas Epilepsi www.epilepsysociety.org.uk
- Epilepsy Action www.epilepsy.org.uk
- NICE – Epilepsi www.nice.org.uk/Guidance/cg137
- Young Epilepsy www.youngepilepsy.org.uk
- Epilepsi Cymru https://public.epilepsy-wales.org.uk/
- SUDEP Action www.sudep.org
- Safonau Iechyd a Gofal, Llywodraeth Cymru Ebrill 2015 https://gov.wales/docs/dhss/publications/150402standardscy.pdf

© WJEC CBAC Ltd.

# Uned 313 Cefnogi hybu iechyd plant

| | |
|---|---|
| **Lefel:** | 3 |
| **ODA:** | 15 |
| **Credyd:** | 3 |
| **Crynodeb o'r Uned:** | Mae'r uned hon yn ymdrin â chyfathrebu â phlant a theuluoedd/gofalwyr mewn perthynas â gweithgareddau a modelau hybu iechyd sydd wedi'u cynllunio i newid ymddygiad. Bydd dysgwyr yn gweithio gyda phlant a theuluoedd/gofalwyr i ddatblygu cefnogaeth a chynlluniau hybu iechyd a'u hannog i gyrraedd targedau |

## Deilliant dysgu:

1. Cyfleu gwybodaeth hybu iechyd i blant a theuluoedd/gofalwyr

## Meini prawf asesu

Rydych yn gwybod:

1.1 Y polisïau a mentrau iechyd cenedlaethol a lleol mewn perthynas â hybu iechyd
1.2 **Nodweddion allweddol** ymgyrchoedd a rhaglenni hybu iechyd presennol a gynhelir gan:
- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- NICE

1.3 O ble y gellir cael gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth mewn perthynas â hybu iechyd plant
1.4 Dylanwadau posibl ar ymddygiad plant mewn perthynas ag iechyd a llesiant
1.5 Dylanwadau posibl ar ymddygiad teuluoedd/gofalwyr mewn perthynas ag iechyd a llesiant plant
1.6 Cryfderau a gwendidau modelau newid ymddygiad
1.7 Cysylltiadau rhwng modelau newid ymddygiad a gwahanol ddulliau o wella iechyd plant
1.8 Sut byddai eich ymddygiad eich hun yn gallu dylanwadu ar eraill
1.9 **Manteision ac effeithiau** newidiadau i ffordd o fyw gan blant a'u teuluoedd/gofalwyr
1.10 Pwysigrwydd datblygu cynllun hybu iechyd a phennu nodau cyraeddadwy sy'n briodol i'r sefydliad/lleoliad

Rydych chi'n gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

1.11 Ymgysylltu'n effeithiol â phlant a theuluoedd/gofalwyr a'u rhwydweithiau cefnogi ynglŷn ag iechyd a llesiant
1.12 Cynnal gweithgareddau fel rhan o brosiectau gwella iechyd plant
1.13 Cefnogi plant a theuluoedd/gofalwyr i gyfleu eu barn a'u pryderon ynglŷn ag iechyd a llesiant plant
1.14 Rhannu negeseuon cadarnhaol ynghylch hybu iechyd plant drwy sgyrsiau pob dydd

## Amrediad

**Nodweddion allweddol**: dull/ffurf cyfathrebu, cynulleidfa darged, graddfa (rhanbarthol/cenedlaethol/lleol). **Manteision ac effeithiau:** i'r unigolyn, i'r teulu, i'r gymuned/cymdeithas ehangach.

© WJEC CBAC Ltd.

### Deilliant dysgu:

2. Gweithio gyda phlant a theuluoedd/gofalwyr i hybu newid mewn ymddygiad

### Meini prawf asesu

Rydych chi'n gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

2.1 Meithrin perthynas gadarnhaol â phlant a theuluoedd/gofalwyr o fewn ffiniau proffesiynol
2.2 Cyfeirio plant a theuluoedd/gofalwyr at wybodaeth iechyd berthnasol a chyfredol
2.3 Annog plant a theuluoedd/gofalwyr i ystyried sut mae eu bywydau a'u hymddygiadau'n effeithio ar eu hiechyd a'u llesiant
2.4 Ystyried safbwyntiau plant wrth gyfleu negeseuon hybu iechyd
2.5 Cefnogi plant a theuluoedd/gofalwyr i ddatblygu cynllun hybu iechyd, gan gynnwys nodau cyraeddadwy
2.6 Cynnwys rhoddwyr gofal perthnasol yn y cynllun hybu iechyd
2.7 Cynnig anogaeth sy'n briodol i oedran er mwyn cyflawni nodau
2.8 Cefnogi plant a theuluoedd/gofalwyr i fonitro cynnydd, gan wneud newidiadau i'r cynllun os oes angen
2.9 Monitro a chofnodi cynnydd plant tuag at gyflawni eu nodau
2.10 Diweddaru cofnodion yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r sefydliad/lleoliad

© WJEC CBAC Ltd.

# Uned 313 Cefnogi hybu iechyd plant

## Gwybodaeth Ategol

### Gofynion tystiolaeth

Os nad yw'r tasgau cyfannol yn eu hasesu, rhaid cwblhau portffolio o dystiolaeth ar gyfer y deilliannau gwybodaeth ac ymarfer yn yr uned hon. Dylid dilyn yr amodau a amlinellir yn y pecyn asesu o ran cadw'r dystiolaeth yn y portffolio.
Ar gyfer deilliannau'r ymarfer, rhaid bodloni'r gofynion tystiolaeth lleiaf canlynol drwy'r portffolio o dystiolaeth:

- Arsylwi ar y dysgwr yn cyflawni o leiaf **tri** gweithgaredd hybu iechyd. Gall y rhain gynnwys:
- Digwyddiadau hybu iechyd
- Tasgau atal
- Canmol am gyflawni
- Rhaid i dystiolaeth o ddogfennau/cofnodion gael ei chwblhau'n glir, yn gywir ac yn ddarllenadwy.

### Canllawiau cyflwyno

Dylai'r uned hon gael ei chyflwyno mewn ffordd sy'n ymgorffori ac yn adeiladu ar y wybodaeth graidd a ddatblygwyd o fewn y cymhwyster Lefel 2 Craidd, a thrwy gymhwyso'r wybodaeth hon yn ymarferol, a ddangosir drwy'r uned orfodol ymarfer craidd.

**Rhoddwyr gofal** – teuluoedd, gofalwyr, ysgolion, grwpiau ieuenctid, timau amlddisgyblaethol
**Dulliau gweithredu gwahanol a ddefnyddir i wella iechyd plant**

- hybu iechyd
- datblygu cymunedol
- Atal.

**Cynllun hybu iechyd** – gan ystyried lefel o ddealltwriaeth, llythrennedd iechyd, diwylliant, cefndir, dulliau cyfathrebu a ffefrir, priodol i oedran, lefel o addysg, defnydd o wahanol adnoddau, iaith, fformat

**Gallai dylanwadau ar ymddygiad plant gynnwys**

- perthynas â'r teulu/gofalwr
- pwysau gan gyfoedion
- ymddygiad wedi'i ddysgu
- ffordd o fyw
- hysbysebu, ffasiwn, cyfryngau cymdeithasol

**Modelau newid ymddygiad**

- damcaniaeth gwybyddiaeth gymdeithasol
- damcaniaeth dysgu cymdeithasol
- cyfranogiad rhieni
- dysgu drwy arsylwi

**Rhwydweithiau cefnogi** – teuluoedd estynedig, cymunedau, grwpiau, ysgolion, cylchoedd chwarae, clybiau ieuenctid

© WJEC CBAC Ltd.

## Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS) cysylltiedig

- HT3 Galluogi unigolion i newid eu hymddygiad er mwyn gwella eu hiechyd a'u llesiant eu hunain
- PHP41 Galluogi pobl i fynd i'r afael â phroblemau sy'n gysylltiedig ag iechyd a llesiant
- PHS10 Cynghori eraill ar iechyd a llesiant, problemau cysylltiedig a'u heffaith

## Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig

- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – Hyb Gwybodaeth a Dysgu https://gofalcymdeithasol.cymru/hyb/deddf-sswb
- Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 http://www.legislation.gov.uk/anaw/2017/2/contents/enacted/welsh
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2017 https://gov.wales/topics/people-and-communities/people/future-generations-act/?lang=cy
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn 1991 https://www.unicef.org.uk/what-we-do/un-convention-child-rights/
- Adroddiad Donald Acheson 1998 https://www.gov.uk/government/publications/independent-inquiry-into-inequalities-in-health-report
- Y Ddeddf Plant (2004) http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2004/31/contents
- Y Ddeddf Gofal Plant (2006) http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2006/21/contents
- Deddf Plant 1989 https://www.legislation.gov.uk/ukpga/1989/41/contents
- Ffyniant i Bawb 2017 (Strategaeth Llywodraeth Cymru) https://gov.wales/docs/strategies/170919-prosperity-for-all-cy.pdf
- Fframwaith cynllunio'r GIG ar gyfer Cymru 2017/18 https://gov.wales/docs/dhss/publications/131126nhswalesplanningframeworken.pdf
- Safonau Iechyd a Gofal, Llywodraeth Cymru Ebrill 2015 https://gov.wales/topics/health/publications/health/guidance/care-standards/?lang=cy
- Fframwaith Gwasanaethau Cenedlaethol i Blant 2010 https://www.gov.uk/government/publications/national-service-framework-for-children-young-people-and-maternity-services-continence-issues-for-a-child-with-learning-difficulties
- Cynllun Gwên http://www.designedtosmile.org/welcome-croeso/croeso/?lang=cy
- Cynllun Cyn-ysgol Iach a Chynaliadwy – http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/page/82249
- Adroddiadau ar brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod – http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/page/88504
- Canllawiau Dechrau'n Deg – https://gov.wales/topics/people-and-communities/people/children-and-young-people/parenting-support-guidance/help/flyingstart/?skip=1&lang=cy
- Adroddiad blynyddol Prif Swyddog Meddygol Cymru https://gov.wales/topics/health/professionals/cmo/reports/?lang=cy
- Strategaeth Hirdymor Iechyd Cyhoeddus Cymru 2018 http://www.senedd.assembly.wales/documents/s77112/Paper%202%20-%20Public%20Health%20Wales%20-%20Long%20Term%20Strategy.pdf
- Strategaeth 10 mlynedd a Chynllun Tymor Canolig Integredig Iechyd Cyhoeddus Cymru http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/866/ABUHB%20IMTP%20APPROVED%20WG_10MAR17.pdf
- Strategaeth Gofal Sylfaenol Cymru http://www.gofalsylfaenolun.cymru.nhs.uk/hafan
- Rhaglen Plant Iach Cymru https://gov.wales/topics/health/publications/health/reports/healthy-child/?skip=1&lang=cy

© WJEC CBAC Ltd.

- Midwifery 2020 https://www.gov.uk/government/publications/midwifery-2020-delivering-expectations
- Mwy na Geiriau: Fframwaith Strategol Dilynol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg ym Maes Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol
  **https://gov.wales/topics/health/publications/health/guidance/words/?skip=1&lang=cy**
  disodlwyd gan: Safonau Iechyd a Gofal
  https://gov.wales/topics/health/publications/health/guidance/care-standards/?skip=1&lang=cy

© WJEC CBAC Ltd.

# Uned 314 Monitro glwcos yng ngwaed y capilarïau

| | |
|---|---|
| **Lefel:** | 3 |
| **ODA:** | 15 |
| **Credyd:** | 3 |
| **Crynodeb o'r Uned:** | Mae'r uned hon yn ymdrin â'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen er mwyn galluogi dysgwyr i fonitro glwcos yng ngwaed y capilarïau. Bydd dysgwyr yn trafod sgiliau ymarferol sydd eu hangen i fonitro lefelau glwcos yn y gwaed er mwyn cynnal rheolaeth dros ddiabetes mewn pobl eraill.<br><br>Yng nghyd-destun yr uned hon, mae'r term 'unigolyn' yn cyfeirio at oedolion, plant a phobl ifanc. |

## Deilliant dysgu:

1. Deddfwriaeth a pholisïau sy'n berthnasol i gefnogi'r gwaith o fonitro glwcos yng ngwaed y capilarïau

## Meini prawf asesu

Rydych yn gwybod:

1.1 Canllawiau a phrotocolau cenedlaethol a lleol cyfredol sy'n dylanwadu ar brosesau monitro glwcos yng ngwaed y capilarïau
1.2 Prosesau sefydliadau/lleoliadau mewn perthynas â monitro glwcos yng ngwaed y capilarïau
1.3 Pam mae'n bwysig cymryd cyfrifoldeb a bod yn atebol mewn perthynas â chwmpas ymarfer
1.4 Canlyniadau posibl peidio â dilyn gweithdrefnau
1.5 Pam mae'n rhaid cael cydsyniad a'i gadarnhau cyn cymryd camau gweithredu
1.6 Beth yw samplau gwaed y capilarïau a'r safleoedd lle y gellir eu cymryd

## Deilliant dysgu:

2. Monitro glwcos yng ngwaed y capilarïau

## Meini prawf asesu

Rydych yn gwybod:

2.1 Pwysigrwydd glanhau safleoedd wrth gymryd samplau gwaed y capilarïau
2.2 Pwysigrwydd casglu samplau gwaed y capilarïau o'r ansawdd cywir
2.3 Ffactorau a allai effeithio ar ansawdd samplau gwaed y capilarïau
2.4 Pryderon a fyddai'n gallu bod gan unigolion, neu eu teuluoedd/gofalwyr, mewn perthynas â chasglu samplau gwaed y capilarïau
2.5 Ffyrdd o baratoi unigolion ar gyfer casglu samplau gwaed y capilarïau
2.6 Achosion posibl o anghysur i unigolion yn ystod ac ar ôl y broses o gasglu samplau gwaed y capilarïau
2.7 Ffyrdd o leihau anghysur cymaint â phosibl
2.8 Camau i'w cymryd os oes problemau wrth gasglu gwaed y capilarïau

© WJEC CBAC Ltd.

2.9 Rhoi gwybod am systemau ar gyfer problemau mewn perthynas â samplu gwaed y capilarïau, a'u cofnodi
2.10 Dulliau gwaredu diogel ar gyfer gwastraff peryglus a gwastraff nad yw'n beryglus
2.11 Pwysigrwydd cynnal cyflenwadau digonol o ddefnyddiau a chyfarpar a'u storio'n ddiogel

Rydych chi'n gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:
2.12 Sicrhau bod gan unigolion ac eraill wybodaeth gywir a hawdd ei deall am y driniaeth
2.13 Nodi lle addas i samplu gwaed y capilarïau
2.14 Dilyn gweithdrefnau diogel a hylan cyn, yn ystod ac ar ôl samplu gwaed y capilarïau
2.15 Sicrhau bod gweithdrefnau cywir yn cael eu dilyn wrth samplu gwaed y capilarïau
2.16 Cofnodi prosesau samplu gwaed y capilarïau a rhoi gwybod amdanyn nhw, gan weithredu ar sail y canlyniadau yn unol â'r sefydliad/lleoliad

© WJEC CBAC Ltd.

# Uned 314 Monitro glwcos yng ngwaed y capilarïau

## Gwybodaeth Ategol

### Gofynion tystiolaeth

Os nad yw'r tasgau cyfannol yn eu hasesu, rhaid cwblhau portffolio o dystiolaeth ar gyfer y deilliannau gwybodaeth ac ymarfer yn yr uned hon. Dylid dilyn yr amodau a amlinellir yn y pecyn asesu o ran cadw'r dystiolaeth yn y portffolio.
Ar gyfer deilliannau'r ymarfer, rhaid bodloni'r gofynion tystiolaeth lleiaf canlynol drwy'r portffolio o dystiolaeth:

- Arsylwi ar y dysgwyr yn monitro samplau gwaed capilarïau unigolyn/plentyn ar o leiaf **tri** achlysur.

### Canllawiau cyflwyno

Dylai'r uned hon gael ei chyflwyno mewn ffordd sy'n ymgorffori ac yn adeiladu ar y wybodaeth graidd a ddatblygwyd o fewn y cymhwyster Lefel 2 Craidd, a thrwy gymhwyso'r wybodaeth hon yn ymarferol, a ddangosir drwy'r uned orfodol ymarfer craidd.

Argymhellir y dylai dysgwyr gwblhau'r unedau canlynol cyn dechrau'r uned hon:

- Cefnogi plant sy'n byw gyda diabetes mellitus

**neu**

- Cefnogi oedolion sy'n byw gyda diabetes mellitus

**Eraill** – gallen nhw gynnwys teulu, ffrindiau, gofalwyr ac eraill mae gan yr unigolyn/plentyn berthynas gefnogol â nhw

**Lle addas** – gan ystyried preifatrwydd, diogelwch a gofynion hylendid

**Gweithdrefnau cywir** yn unol â gweithrefnau'r lleoliad/sefydliad a ffyrdd o weithio y cytunwyd arnyn nhw;

- cymharu mesuriadau'n gywir
- cofnodi mesuriadau'n gywir a rhoi gwybod amdanyn nhw
- gwaredu defnyddiau gwastraff peryglus a rhai nad ydyn nhw'n beryglus mewn modd diogel a hylan
- dychwelyd defnyddiau a chyfarpar i gael eu storio'n ddiogel ar ôl y driniaeth.

### Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS) cysylltiedig

- CHS131 Casglu a phrofi samplau gwaed y capilarïau
- Diab HA8 Galluogi plant gyda diabetes i fonitro lefelau'r glwcos yn eu gwaed
- DIB 201 Ymwybyddiaeth o Ddiabetes
- Diab HA13 Rhoi gwybodaeth a chyngor er mwyn galluogi unigolyn gyda diabetes i sicrhau cyn lleied â phosibl o risg o hypoglycaemia

### Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig

- Cynllun Cyflawni Cymru ar gyfer Diabetes 2016-2020: Gofal o'r safon orau i bawb sydd â diabetes Rhagfyr 2016 https://gov.wales/docs/dhss/publications/161212diabetes-delivery-plancy.pdf

© WJEC CBAC Ltd.

- Ymgyrch "Gofal Glwcos" https://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20100304061513/http://www.institute.nhs.uk/quality_and_value/think_glucose/welcome_to_the_website_for_thinkglucose.html
- Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif Iechyd Cyhoeddus Cymru http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/page/65550i
- Atal a Rheoli Heintiau ar gyfer Lleoliadau Gofal Plant (2014) http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/888/Cyfieithiad%20%20%2D%20All%20Wales%20Infection%20Prevention%20and%20Control%20Guidance%20for%20Educational%20Settings%20CYMRAEG%20May%202017%20FINAL.output.pdf
- Canllawiau NICE https://www.nice.org.uk/about/what-we-do/our-programmes/nice-guidance/nice-diagnostics-guidance
- Cyflwyniad i Gasglu Sbesimenau https://www.labcorp.com/resource/introduction-to-specimen-collection#
- Casglu Sbesimenau http://www.northcumbriaccg.nhs.uk/about-us/key-policies-and-documents/policies/infection-prevention/21-specimen-collection-october-2015-version-100.pdf
- Deall diabetes https://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20100305014525/http://www.nhs.uk/Pathways/diabetes/Pages/Landing.aspx
- Safonau Iechyd a Gofal, Llywodraeth Cymru Ebrill 2015 https://gov.wales/docs/dhss/publications/150402standardscy.pdf

© WJEC CBAC Ltd.

# Uned 315 Cefnogi plant i fonitro glwcos

| | |
|---|---|
| **Lefel:** | 3 |
| **ODA:** | 15 |
| **Credyd:** | 3 |
| **Crynodeb o'r Uned:** | Mae'r uned hon yn ymdrin â'r sgiliau a'r wybodaeth ymarferol sydd eu hangen er mwyn galluogi dysgwyr i gefnogi plant a phobl allweddol i fonitro glwcos. Bydd dysgwyr yn trafod sgiliau ymarferol sydd eu hangen er mwyn helpu eraill i hunanfonitro lefelau'r glwcos yn y gwaed.<br><br>Yng nghyd-destun yr uned hon, mae'r term 'plant' yn cyfeirio at blant a phobl ifanc |

## Deilliant dysgu:

1. Deddfwriaeth a pholisïau sy'n berthnasol i gefnogi'r dasg o fonitro glwcos

## Meini prawf asesu

Rydych yn gwybod:

1.1 Canllawiau a phrotocolau cenedlaethol a lleol cyfredol sy'n dylanwadu ar gefnogi'r dasg o fonitro glwcos
1.2 Prosesau sefydliadau/lleoliadau mewn perthynas â helpu i fonitro glwcos
1.3 Canlyniadau posibl peidio â dilyn gweithdrefnau
1.4 Pam mae'n rhaid cael cydsyniad priodol a'i gadarnhau cyn cymryd camau gweithredu

## Deilliant dysgu:

2. Hybu annibyniaeth a diogelwch wrth gefnogi plant i fonitro glwcos

## Meini prawf asesu

Rydych chi'n gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

2.1 Meithrin perthnasoedd cadarnhaol a chefnogi plant i gymryd rhan o fewn ffiniau proffesiynol
2.2 Sicrhau bod gan blant a phobl allweddol wybodaeth gywir a hawdd ei deall am y triniaethau
2.3 Cadarnhau bod plant a phobl allweddol yn deall gwybodaeth yn glir
2.4 Esbonio i blant a phobl allweddol pa mor bwysig yw casglu cyfarpar cyn dechrau gweithgareddau casglu gwaed
2.5 Esbonio i blant a phobl allweddol pa mor bwysig yw dilyn rhagofalon hylendid wrth gyflawni triniaethau
2.6 Esbonio i blant a phobl allweddol pa mor bwysig yw casglu samplau gwaed o'r ansawdd cywir a beth yw'r ffactorau sy'n effeithio ar yr ansawdd
2.7 Esbonio pwysigrwydd glanhau safleoedd mynediad wrth gasglu samplau gwaed
2.8 Disgrifio dulliau gwaredu diogel ar gyfer gwastraff peryglus a gwastraff nad yw'n beryglus

© WJEC CBAC Ltd.

2.9 Esbonio i blant a phobl allweddol pa mor bwysig yw cael cyflenwadau digonol a'u storio'n ddiogel
2.10 Annog plant a phobl allweddol i feithrin eu galluoedd a'u sgiliau eu hunain o ran monitro lefelau glwcos

---

## Deilliant dysgu:

3. Cefnogi plant i fonitro glwcos

## Meini prawf asesu

Rydych yn gwybod:
3.1 Pam mae'n bwysig cadw cofnodion monitro glwcos llawn a chywir
3.2 Pwysigrwydd ymchwilio i newidiadau yng nghyflwr plant a mesuriadau glwcos yn eu gwaed
3.3 Rhesymau posibl dros newidiadau mewn cyflwr a mesuriadau glwcos yn y gwaed a'r camau i'w cymryd
3.4 Pwysigrwydd cofnodi canlyniadau monitro glwcos a gweithredu'n seiliedig arnyn nhw
3.5. Problemau posibl sy'n gysylltiedig â chofnodi canlyniadau monitro glwcos

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n
3.6 Rhoi cyngor i blant a phobl allweddol wrth fonitro glwcos gan gynnwys y canlynol
- defnyddio’r cyfarpar cywir
- technegau profi cywir
- sut i gymharu canlyniadau samplau

3.7 Annog plant a phobl allweddol i nodi lle addas ar gyfer monitro glwcos
3.8 Cefnogi plant a phobl allweddol i baratoi'r cyfarpar cyn monitro glwcos
3.9 Cefnogi plant a phobl allweddol yn ystod y driniaeth ac arsylwi arnyn nhw er mwyn sicrhau eu bod yn
- cymharu mesuriadau'n gywir
- cofnodi mesuriadau'n gywir
- gwaredu defnyddiau gwastraff peryglus a rhai nad ydyn nhw'n beryglus mewn modd diogel a hylan
- dychwelyd defnyddiau a chyfarpar i gael eu storio'n ddiogel ar ôl y driniaeth

3.10 Bwrw golwg dros amseriad mesuriadau a dehongliad plant a phobl allweddol ohonyn nhw, gan weithredu os yw'n ymddangos eu bod yn annormal
3.11 Trafod unrhyw anghysur mae plant yn ei brofi yn ystod neu ar ôl casglu samplau gwaed, a rhoi cyngor iddyn nhw ar sut i'w leihau cymaint â phosibl
3.12 Helpu plant a phobl allweddol i fonitro cyflwr cyffredinol y plentyn, gan eu hannog i geisio cyngor a chefnogaeth pan fydd newidiadau
3.13 Cwblhau cofnodion ar weithgareddau a gyflawnir gan blant a phobl allweddol a'u canlyniadau, yn unol â gweithdrefnau'r sefydliad/lleoliad
3.14 Gweithredu'n brydlon os arsylwir ar newidiadau mewn plant

© WJEC CBAC Ltd.

# Uned 315 Cefnogi plant i fonitro glwcos

## Gwybodaeth Ategol

### Gofynion tystiolaeth

Os nad yw'r tasgau cyfannol yn eu hasesu, rhaid cwblhau portffolio o dystiolaeth ar gyfer y deilliannau gwybodaeth ac ymarfer yn yr uned hon. Dylid dilyn yr amodau a amlinellir yn y pecyn asesu o ran cadw'r dystiolaeth yn y portffolio.
Ar gyfer deilliannau'r ymarfer, rhaid bodloni'r gofynion tystiolaeth lleiaf canlynol drwy'r portffolio o dystiolaeth:

- Arsylwi ar y dysgwr yn helpu plentyn a/neu bobl allweddol i fonitro lefelau'r glwcos yn y gwaed ar o leiaf tri achlysur. Gall hyn fod ar wahanol blant neu ar yr un plentyn ar nifer o achlysuron.
- Rhaid i ddogfennau a chofnodion gael eu cwblhau'n glir, yn gywir ac yn ddarllenadwy.

### Canllawiau cyflwyno

Dylai'r uned hon gael ei chyflwyno mewn ffordd sy'n ymgorffori ac yn adeiladu ar y wybodaeth graidd a ddatblygwyd o fewn y cymhwyster Lefel 2 Craidd, a thrwy gymhwyso'r wybodaeth hon yn ymarferol, a ddangosir drwy'r uned orfodol ymarfer craidd.

**Pobl allweddol** – y bobl sy'n bwysig i blentyn ac sy'n gallu gwneud gwahaniaeth i'w lesiant. Gall pobl allweddol gynnwys teulu, ffrindiau, gofalwyr ac eraill mae gan y plentyn berthynas gefnogol â nhw. Gall y bobl allweddol hyn fod yn rhan o'r broses o fonitro glwcos yn y gwaed os nad yw'r plentyn yn gallu gwneud hynny.

### Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS) cysylltiedig

- Diab HA1 Asesu anghenion gofal iechyd plant gyda diabetes a chytuno ar gynlluniau gofal
- Diab HA6 Cefnogi plant gyda diabetes i newid eu hymddygiad er mwyn lleihau'r risg o gymhlethdodau a gwella eu hansawdd bywyd
- Diab HA8 Galluogi plant gyda diabetes i fonitro lefelau'r glwcos yn eu gwaed
- Diab HA13 Rhoi gwybodaeth a chyngor er mwyn galluogi unigolyn gyda diabetes i sicrhau cyn lleied â phosibl o risg o hypoglycaemia

### Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig

- Cynllun Cyflawni Cymru ar gyfer Diabetes 2016-2020: Gofal o'r safon orau i bawb sydd â diabetes Rhagfyr 2016 https://gov.wales/docs/dhss/publications/161212diabetes-delivery-plancy.pdf
- Ymgyrch "Gofal Glwcos" https://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20100304061513/http://www.institute.nhs.uk/quality_and_value/think_glucose/welcome_to_the_website_for_thinkglucose.html
- Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif Iechyd Cyhoeddus Cymru http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/page/65550
- Deall diabetes https://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20100305014525/http://www.nhs.uk/Pathways/diabetes/Pages/Landing.aspx

© WJEC CBAC Ltd.

- Atal a Rheoli Heintiau ar gyfer Lleoliadau Gofal Plant (2014) http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/888/Cyfieithiad%20%20%2D%20All%20Wales%20Infection%20Prevention%20and%20Control%20Guidance%20for%20Educational%20Settings%20CYMRAEG%20May%202017%20FINAL.output.pdf
- Canllawiau NICE https://www.nice.org.uk/about/what-we-do/our-programmes/nice-guidance/nice-diagnostics-guidance
- Cyflwyniad i Gasglu Sbesimenau https://www.labcorp.com/resource/introduction-to-specimen-collection#
- Casglu Sbesimenau http://www.northcumbriaccg.nhs.uk/about-us/key-policies-and-documents/policies/infection-prevention/21-specimen-collection-october-2015-version-100.pdf
- Supporting Children with Type 1 Diabetes in Primary Schools and Early Years Settings (2016) https://www.ouh.nhs.uk/childrens-diabetes/schools/documents/primary-school-care-statement.pdf
- Safonau Iechyd a Gofal, Llywodraeth Cymru Ebrill 2015 https://gov.wales/docs/dhss/publications/150402standardscy.pdf


© WJEC CBAC Ltd.

## Uned 316 Cymryd samplau gwaed gwythiennol gan blant

| | |
|---|---|
| **Lefel:** | 3 |
| **ODA:** | 20 |
| **Credyd:** | 3 |
| **Crynodeb o'r Uned:** | Mae'r uned hon yn ymdrin â'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i gymryd samplau gwaed gwythiennol gan blant. Bydd dysgwyr yn dysgu'r sgiliau ymarferol sydd eu hangen i gwblhau prosesau'n ddiogel, yn effeithlon ac mewn ffyrdd sy'n lleihau gofid cymaint â phosibl.<br>Yng nghyd-destun yr uned hon, mae'r term 'plant' yn cyfeirio at blant a phobl ifanc |

### Deilliant dysgu:

1. Cymryd samplau gwaed gwythiennol gan blant

### Meini prawf asesu

Rydych yn gwybod:
1.1 Polisïau a gweithdrefnau lleol mewn perthynas â chymryd samplau gwaed gwythiennol
1.2 Ystyriaethau iechyd a diogelwch mewn perthynas â chymryd samplau gwaed gwythiennol
1.3 Adweithiau anffafriol a chymhlethdodau posibl wrth gymryd samplau gwaed gan blant
1.4 Gofynion o ran cyfarpar a deunyddiau ar gyfer cymryd samplau gwaed gan blant o wahanol oedrannau
1.5 Anatomeg gwythïen normal
1.6 Safleoedd addas ar gyfer cymryd samplau gwaed gwythiennol gan blant
1.7 Addasiadau sydd eu hangen er mwyn cymryd gwaed gan blant o wahanol oedrannau
1.8 Ystyriaethau wrth gymryd samplau gwaed gan blant

Rydych chi'n gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:
1.9 Paratoi cyfarpar priodol ar gyfer cymryd gwaed gwythiennol a chadarnhau samplau a'r cyfeintiau sydd eu hangen
1.10 Dilyn prosesau hylendid dwylo a dewis cyfarpar diogelu personol priodol
1.11 Cadarnhau pwy yw'r plentyn a chael cydsyniad dilys gan y teulu/gofalwr
1.12 Defnyddio dulliau i baratoi a thawelu'r plentyn cyn cymryd sampl gwaed a thrwy gydol y broses
1.13 Cael mynediad i wythïen gan ddefnyddio'r system casglu gwaed a ddewiswyd a gan ddefnyddio technegau a fydd yn achosi cyn lleied â phosibl o anghysur
1.14 Cymryd gwaed o'r safle a ddewiswyd gan ystyried:
- y cynhwysydd yn unol â'r ymchwiliad sydd ei angen
- cyfaint
- y drefn wrth gymryd mwy nag un sampl

1.15 Cymysgu gwaed a gwrthgeulydd yn drylwyr yn y cynwysyddion gofynnol
1.16 Monitro er mwyn canfod dangosyddion adwaith anffafriol a chymhlethdodau gan gymryd camau priodol lle bo angen
1.17 Symud unrhyw gyfarpar casglu gwaed o'r neilltu ac atal llif y gwaed gan roi digon o bwysau
1.18 Rhoi gorchuddion addas ar safleoedd pigiadau yn unol â phrotocolau'r sefydliad/lleoliad a rhoi cyngor i deuluoedd/gofalwyr ar sut i ofalu am y safle

© WJEC CBAC Ltd.

1.19 Cwblhau cofnodion yn unol â gweithdrefnau'r sefydliad/lleoliad

---

## Deilliant dysgu

2. Paratoi samplau gwaed a gymerwyd gan blant i'w prosesu

## Meini prawf asesu

Rydych chi'n gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

2.1 Labelu samplau gwaed yn glir, yn gywir ac yn ddarllenadwy, gan ddefnyddio labeli wedi'u paratoi ymlaen llaw lle bo hynny'n briodol
2.2 Rhoi samplau mewn pecynnau priodol a sicrhau bod ffurflenni cais cywir yn cael eu hatodi
2.3 Rhoi samplau mewn lle a enwebwyd ar gyfer casglu a chludo, gan sicrhau bod gwaed yn cael ei gadw ar y tymheredd gofynnol
2.4 Dogfennu tystiolaeth bod gwiriadau priodol wedi cael eu cyflawni yn unol â gweithdrefnau'r sefydliad/lleoliad
2.5 Sicrhau bod gwaed yn cael ei gludo ar unwaith i'r adran berthnasol yn unol â faint o frys sydd am ymchwiliadau samplu

© WJEC CBAC Ltd.

# Uned 316 Cymryd samplau gwaed gwythiennol gan blant

## Gwybodaeth ategol

### Gofynion tystiolaeth

Os nad yw'r tasgau cyfannol yn eu hasesu, rhaid cwblhau portffolio o dystiolaeth ar gyfer y deilliannau gwybodaeth ac ymarfer yn yr uned hon. Dylid dilyn yr amodau a amlinellir yn y pecyn asesu o ran cadw'r dystiolaeth yn y portffolio.
Ar gyfer deilliannau'r ymarfer, rhaid bodloni'r gofynion tystiolaeth lleiaf canlynol drwy'r portffolio o dystiolaeth:

- Arsylwi ar y dysgwr yn cymryd samplau gwaed gan blentyn ar o leiaf **pum** achlysur. Gallai hyn fod gan yr un plentyn ar achlysuron ar wahân, neu blant gwahanol ar achlysuron ar wahân.
- Arsylwi ar y dysgwr yn paratoi samplau gwaed i'r prosesu ar o leiaf **pum** achlysur.

### Canllawiau cyflwyno

Dylai'r uned hon gael ei chyflwyno mewn ffordd sy'n ymgorffori ac yn adeiladu ar y wybodaeth graidd a ddatblygwyd o fewn y cymhwyster Lefel 2 Craidd, a thrwy gymhwyso'r wybodaeth hon yn ymarferol, a ddangosir drwy'r uned orfodol ymarfer craidd.

Dylid defnyddio prosesau efelychu fel rhan o'r broses hyfforddi er mwyn sicrhau bod y dysgwr yn hyderus wrth gymryd samplau cyn ymarfer mewn lleoliad clinigol.
Wrth gadarnhau pwy yw'r plentyn, rhaid dilyn protocolau a gweithdrefnau'r lleoliad/sefydliad, ond dylai hyn gynnwys o leiaf tri o'r canlynol:

- enw
- dyddiad geni
- cyfeirio
- rhif y GIG
- rhif ysbyty.

Wrth labelu samplau, dylid dilyn gofynion y sefydliad/lleoliad.

**Ystyriaethau iechyd a diogelwch –** gan gynnwys gwaed yn gollwng, anafiadau a achosir gan nodwydd, ystyriaethau amgylcheddol, cyfarpar diogelu personol, gwaredu offer miniog

**Adweithiau anffafriol a chymhlethdodau** – gallen nhw gynnwys gwaedu, cleisio, poen, llewygu, methu â thynnu gwaed, ofn nodwyddau, alergeddau, fflebitis

**Ystyriaethau** gan gynnwys

- Anatomegol – safleoedd, anatomeg gysylltiedig (gwythiennau a rhydwelïau), defnyddio plasteri
- Arall – cydsyniad, ataliaeth, rheoli poen (defnyddio elïau a geliau), cyfathrebu â theuluoedd/gofalwyr, cynnwys teuluoedd/gofalwyr

**Dulliau** – gallen nhw gynnwys chwarae, technegau tynnu sylw, cyfathrebu cadarnhaol (tawelu meddwl y plentyn, rhoi gwybod i'r plentyn beth sy'n digwydd, defnyddio iaith sy'n briodol ar gyfer ei oedran, cyfathrebu'n uniongyrchol â'r plentyn, canmol ac annog)

© WJEC CBAC Ltd.

**Technegau** – gallen nhw gynnwys rhoi a thynnu rhwymyn tynhau, safle'r fraich neu'r goes a'i chynnal, eich safle eich hun mewn perthynas â'r unigolyn a'r cyfarpar.

## Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS) cysylltiedig

- CHS132 Cymryd samplau gwaed gwythiennol

## Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig

- Safon ansawdd NICE ar gyfer hylendid dwylo
- Guidelines for hand hygiene in Irish healthcare settings (2015) http://www.hpsc.ie/a-z/microbiologyantimicrobialresistance/infectioncontrolandhai/guidelines/File,15060,en.pdf
- Canllawiau Sefydliad Iechyd y Byd ar Hylendid Dwylo mewn Gofal Iechyd http://apps.who.int/iris/bitstream/handle/10665/44102/9789241597906_eng.pdf;jsessionid=2369B3883857B00CDD81279426F774EE?sequence=1
- Llywodraeth Cymru: Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well – Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru Ebrill 2010 http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/1064/Gwneud%20yn%20Dda%2C%20Gwneud%20yn%20Well%20%E2%80%93%20Safonau%20ar%20gyfer%20Gwasanaethau%20Iechyd%20Cymru%20%28Ebrill%202010%29.pdf
- Canllawiau Sefydliad Iechyd y Byd ar gymryd samplau gwaed http://www.euro.who.int/__data/assets/pdf_file/0005/268790/WHO-guidelines-on-drawing-blood-best-practices-in-phlebotomy-Eng.pdf?ua-1
- Canllawiau Llywodraeth Cymru ar Atal a Rheoli Heintiau a'r Dechneg Aseptig Di-Gyffwrdd http://www2.nphs.wales.nhs.uk:8080/WHAIPDocs.nsf/61c1e930f9121fd080256f2a004937ed/e4528983f2eddd3a80257f10003dd2f3/$FILE/ANTT%20Framework%20v4.0.pdf
- Canllawiau Marsden ar dynnu gwaed https://www.rcm.org.uk/news-views-and-analysis/analysis/how-to%E2%80%A6-perform-venepuncture
- Canllawiau NICE https://www.nice.org.uk/about/what-we-do/our-programmes/nice-guidance/nice-diagnostics-guidance
- Cyflwyniad i Gasglu Sbesimenau https://www.labcorp.com/resource/introduction-to-specimen-collection#
- Casglu Sbesimenau http://www.northcumbriaccg.nhs.uk/about-us/key-policies-and-documents/policies/infection-prevention/21-specimen-collection-october-2015-version-100.pdf
- Safonau Iechyd a Gofal, Llywodraeth Cymru Ebrill 2015 https://gov.wales/docs/dhss/publications/150402standardscy.pdf
- Ansawdd a Diogelwch https://gov.wales/topics/health/improvement/physical/?skip=1&lang=cy
- Cefnogi Dysgwyr ag Anghenion Gofal Iechyd – Dogfen ganllaw rhif: 215/2017. Mawrth 2017 https://learning.gov.wales/resources/browse-all/supporting-learners-with-healthcare-needs/?skip=1&lang=cy

© WJEC CBAC Ltd.

## Uned 317 Rhoi gofal i blant sy'n byw gyda chanser

| | |
|---|---|
| **Lefel:** | 3 |
| **ODA:** | 35 |
| **Credyd:** | 8 |
| **Crynodeb o'r Uned:** | Mae'r uned hon yn ymdrin â'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen er mwyn rhoi gofal a chymorth parhaus i blant sy'n byw gyda chanser, a'u teuluoedd/gofalwyr. Bydd dysgwyr yn dod i wybod am faterion sy'n effeithio ar blant sydd wedi cael diagnosis o ganser ac sy'n cael triniaeth ar ei gyfer, a byddan nhw'n defnyddio sgiliau ymarferol i'w cefnogi nhw a'u teuluoedd/gofalwr wrth fyw â chanser.<br>Yng nghyd-destun yr uned hon, mae'r term 'plant' yn cyfeirio ar blant neu bobl ifanc |

### Deilliant dysgu:

1. Datblygiad a symptomau canser mewn plant

### Meini prawf asesu

Rydych chi'n deall:

1.1 Y term 'canser'
1.2 Rhestr o'r mathau o ganser a geir yn fwyaf cyffredin mewn plant
1.3 Pam mae'n bwysig canfod canser yn gynnar
1.4 Y term 'metastasis'
1.5 Effaith metastasis ar blant â chanser
1.6 Y term 'lliniaru symptomau'
1.7 Sut mae geneteg canser yn sbarduno symptomau rhai mathau o ganser a'r ffyrdd o'u trin
1.8 Arwyddion a symptomau brys a fyddai'n gallu bod yn arwydd o ganser
1.9 Pam mae'n bwysig gwella ymwybyddiaeth y cyhoedd o symptomau
1.10 Ffactorau risg ar gyfer canser sy'n gyffredin i glefydau eraill
1.11 Sgil effeithiau corfforol a seicolegol y prif opsiynau triniaeth ar gyfer canser

### Deilliant dysgu:

2. Gofal a chymorth sydd ar gael i blant sydd wedi cael diagnosis o ganser

### Meini prawf asesu

Rydych chi'n deall:

2.1 Gwasanaethau canser arbenigol sydd ar gael i blant
2.2 Rôl arbenigwyr chwarae wrth ofalu am blant â chanser
2.3 Yr effaith bosibl ar deuluoedd/gofalwyr plentyn sydd wedi cael diagnosis o ganser
2.4 Pwysigrwydd cyfle cyfartal i bawb gael gwasanaethau canser
2.5 Effeithiau cadarnhaol posibl gweithiwr allweddol ar brofiadau plentyn o wasanaethau canser

© WJEC CBAC Ltd.

## Deilliant dysgu:

3. Y gofal a chymorth sydd ar gael i blant sy'n wynebu canser, eu teuluoedd/gofalwyr

### Meini prawf asesu

Rydych chi'n deall:
3.1 Ffyrdd o gefnogi plant a'u teuluoedd/gofalwyr drwy gydol y driniaeth a thu hwnt
3.2 Arwyddion a symptomau dirywiad posibl plentyn sy'n cael triniaeth ar gyfer canser
3.3 Cymhlethdodau ac effeithiau posibl canser ar blant a'u teuluoedd/gofalwyr
3.4 Rolau a chyfrifoldebau gwahanol aelodau o'r tîm amlddisgyblaethol a fyddai'n gallu bod yn helpu i gefnogi plant sy'n byw gyda chanser
3.5 Effeithiau tymor byr a thymor hir y prif opsiynau triniaeth ar gyfer canser mewn plant
3.6 Ble y gall teuluoedd/gofalwyr gael cefnogaeth a chyngor ariannol ar ôl diagnosis canser plentyn

---

## **Deilliant dysgu:**

4. Gofal a chymorth i blant sydd wedi goroesi canser, a'u teuluoedd/gofalwyr

### Meini prawf asesu

Rydych chi'n deall:
4.1 Y term ‘goroesi canser’
4.2 Egwyddorion ac argymhellion gan y mentrau goroesi canser cenedlaethol
4.3 Gwerth ymchwil canser a threialon clinigol

Rydych chi'n gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:
4.4 Gweithio ag empathi a sensitifrwydd wrth roi gofal i blentyn sy'n byw gyda chanser, ei deulu/gofalwr a'i rwydwaith cefnogi
4.5 Glynu wrth bolisïau'r sefydliad/lleoliad sy'n cefnogi plant sy'n byw gyda chanser, a'u teuluoedd/gofalwyr
4.6 Dilyn cynlluniau personol ar gyfer canser wrth gefnogi plant sy'n byw gyda chanser a'u teuluoedd/gofalwyr
4.7 Cynnig cyfleoedd i blant sy'n byw gyda chanser, a'u teuluoedd/gofalwyr, i fynegi eu teimladau
4.8 Cydweithio â gweithwyr allweddol i gefnogi plant a'u teuluoedd/gofalwyr yn ystod ac ar ôl triniaeth ar gyfer canser
4.9 Rhannu gwybodaeth a ffynonellau cyngor perthnasol â phlant a'u teuluoedd/
4.10 Dogfennu newidiadau yng nghyflwr plentyn a rhoi gwybod amdanynt

© WJEC CBAC Ltd.

# Uned 317 Rhoi gofal i blant sy'n byw gyda chanser

## Gwybodaeth Ategol

### Gofynion tystiolaeth

Os nad yw'r tasgau cyfannol yn eu hasesu, rhaid cwblhau portffolio o dystiolaeth ar gyfer y deilliannau gwybodaeth ac ymarfer yn yr uned hon. Dylid dilyn yr amodau a amlinellir yn y pecyn asesu o ran cadw'r dystiolaeth yn y portffolio.
Ar gyfer deilliannau'r ymarfer, rhaid bodloni'r gofynion tystiolaeth lleiaf canlynol drwy'r portffolio o dystiolaeth:

- Adroddiad adfyfyriol wedi'i ysgrifennu gan y dysgwr a'i lofnodi gan dyst arbenigol, ynghylch cynnig cefnogaeth i unigolion sy'n byw gyda chanser neu'n goroesi canser ar o leiaf un achlysur.
- Rhaid i ddogfennau/cofnodion cysylltiedig gael eu cwblhau'n glir, yn gywir ac yn ddarllenadwy.

### Canllawiau cyflwyno

Dylai'r uned hon gael ei chyflwyno mewn ffordd sy'n ymgorffori ac yn adeiladu ar y wybodaeth graidd a ddatblygwyd o fewn y cymhwyster Lefel 2 Craidd, a thrwy gymhwyso'r wybodaeth hon yn ymarferol, a ddangosir drwy'r uned orfodol ymarfer craidd.

**Cynllun cyflwyno ar gyfer canser** – Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif; safonau, integreiddio llwybrau, canfod yn gynnar a chanllawiau ar ofal person-ganolog; gwasanaethau diagnostig er mwyn ymdopi â'r cynnydd disgwyliedig mewn galw; llwybrau carlam i gleifion â symptomau brys; mynediad at ganolfannau diagnostig amlddisgyblaethol ar gyfer symptomau amwys a fyddai'n gallu bod yn beryglus; mynediad uniongyrchol at brofion penodol ar gyfer symptomau risg isel nad ydynt heb risg; cyfarpar delweddu; prinder yn y gweithlu ym meysydd patholeg, radioleg ac oncoleg; diwygio'r ffordd mae llwybrau diagnostig yn gweithio

**Gweithiwr allweddol** – mae'r llwybr canser yn gymhleth ac mae gweithiwr allweddol a enwir yn hanfodol er mwyn helpu'r plentyn a'i deulu ar bob cam a sicrhau taith esmwyth i'r claf. Fel arfer, y gweithiwr allweddol yw'r arbenigwr nyrsio clinigol sydd, fel rhan o dîm amlddisgyblaethol ehangach, yn cydgysylltu'r driniaeth a'r gofal. Hefyd, dylai'r system gofal iechyd, a chleifion, wybod pwy yw eu meddyg cyfrifol ar bob cam o'r llwybr gofal.

**Goroesi canser** – Dim arwyddion o ganser ar ôl gorffen y driniaeth. Mae'r term hefyd yn cyfeirio at fyw â chanser, byw drwyddo a byw y tu hwnt iddo. Yn ôl y diffiniad hwn, mae goroesi canser yn dechrau ar adeg diagnosis ac yn cynnwys pobl sy'n parhau i gael triniaeth yn y tymor hir, naill ei i leihau'r risg y bydd yn dychwelyd neu i reoli clefyd cronig.

**Metastasis** – y term meddygol am ganser sy'n dechrau mewn un rhan o'r corff ac yn lledaenu i ran arall.

**Pecynnau ymadfer** – mae'r elfennau hyn yn rhan o becyn cymorth a hunanreoli cyffredinol ar gyfer pobl mae canser yn effeithio arnynt.

**Mathau mwyaf cyffredin o ganser** – lymffoma nad yw'n Hodgkin, lymffoma Hodgkin, lewcemia, yr ymennydd a madruddyn y cefn, niwroblastoma, tiwmor Wilms

**Prif opsiynau triniaeth** – llawdriniaeth, radiotherapi, cemotherapi

© WJEC CBAC Ltd.

**Gwasanaethau gofal canser** – gofal cymhleth ac arbenigol iawn, treialon clinigol ac astudiaethau eraill, cyfleoedd i gael eich cynnwys mewn gweithgareddau ymchwil a chymryd rhan ynddyn nhw

**Aelodau** – sylfaenol, eilaidd, trydyddol

**Effeithiau posibl ar y plentyn a'r teulu**/gofalwyr – blinder, meithrin perthnasoedd, caledi ariannol i'r tuelu, gorbryder/iselder, ofn dychweliad, newidiadau mewn ymddygiad, dynameg y teulu, newidiadau corfforol, newidiadau emosiynol, problemau o ran cymdeithasoli, effaith ar addysg

**Gwybodaeth a ffynonellau cyngor** – ariannol, llesiant, cefnogaeth dilynol, cwnsela, gwasanaethau'r trydydd sector, gwasanaethau arbenigol

## Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS) cysylltiedig

- GEN44 Cydgysylltu rhwng timau sylfaenol, eilaidd a chymunedol
- PHARM50.2011 Rhoi cyngor ar therapi gwrth-ganser i unigolyn

## Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig

- Cynllun cyflawni canser Llywodraeth Cymru – https://gov.wales/topics/health/nhswales/plans/cancer-plan/?skip=1&lang=cy
- Cynllun Cyflawni Canser ar gyfer Cymru 2016-2020 – Gofal o'r safon uchaf i bawb sydd â chanser Lluniwyd gan Rwydwaith Canser Cymru Tachwedd 2016 https://gov.wales/docs/dhss/publications/161114cancerplancy.pdf
- Cynllun cyflawni ar gyfer gofal diwedd oes – https://gov.wales/topics/health/nhswales/plans/end-of-life-care/?skip=1&lang=cy
- Menter goroesi canser genedlaethol https://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20100809113601/http://www.improvement.nhs.uk/cancer/LinkClick.aspx?fileticket=4apVUSvGcow%3d&tabid=214
- National cancer survivorship initiative: new and emerging evidence on the ongoing needs of cancer survivors (2011) https://eprints.soton.ac.uk/342572/1/The_National_Cancer_Survivorship_Initiative_-_new_and_emerging_evidence.pdf
- Cynllun Gofal Diwedd Oes a'r Bwrdd Gweithredu Gofal Lliniarol http://wales.pallcare.info/
- Cymorth Canser Macmillan – https://www.macmillan.org.uk/
- Gofal Canser Marie Curie – https://www.mariecurie.org.uk/?gclid=EAIaIQobChMI7tjhp9mj3AIV4ZztCh1AOguhEAAYASAAEgLa1vD_BwE&gclsrc=aw.ds
- Cyswllt Teulu Cymru https://contact.org.uk/wales
- Gofal ar ôl canser https://www.macmillan.org.uk/documents/getinvolved/campaigns/campaigns/survivorship/survivorshipreport2009.pdf
- Living with and beyond cancer: taking action to improve outcomes (2013) https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/181054/9333-TSO-2900664-NCSI_Report_FINAL.pdf
- Cefnogi Dysgwyr ag Anghenion Gofal Iechyd – Dogfen ganllaw rhif: 215/2017. Mawrth 2017 https://learning.gov.wales/resources/browse-all/supporting-learners-with-healthcare-needs/?skip=1&lang=cy

© WJEC CBAC Ltd.

# Uned 318 Gofal lliniarol a gofal diwedd oes i blant a phobl ifanc

| | |
|---|---|
| **Lefel:** | 3 |
| **ODA:** | 35 |
| **Credyd:** | 9 |
| **Crynodeb o'r Uned:** | Mae'r uned hon yn galluogi'r dysgwr i feithrin y wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i gefnogi plant sy'n derbyn gofal lliniarol a chymorth ar ddiwedd eu hoes, gan ystyried eu teuluoedd/gofalwyr. Mae'n cynnwys egwyddorion dulliau plentyn-ganolog a phwysigrwydd meithrin perthnasoedd cadarnhaol â phlant a theuluoedd/gofalwyr. Bydd y dysgwr yn deall yr amrywiaeth o wasanaethau arbenigol sydd ar gael i roi cefnogaeth.<br>Yng nghyd-destun yr uned hon, mae'r term 'plant' yn cyfeirio at blant a phobl ifanc |

## Deilliant dysgu:

1. Polisïau a phrosesau sy'n ategu'r gwaith o ddarparu gofal lliniarol a gofal diwedd oes i blant

## Meini prawf asesu

Rydych chi'n deall:

1.1 Termau sy'n gysylltiedig â gofal lliniarol a gofal diwedd oes i blant
- gofal lliniarol
- gofal diwedd oes
- cyflwr sy'n cyfyngu ar fywyd
- gofal terfynol

1.2 Canllawiau cenedlaethol a dulliau cyfredol o roi gofal lliniarol a gofal diwedd oes a'r ffordd maen nhw'n ategu gofal

1.3 Ystyr 'dulliau plant-ganolog' wrth roi gofal lliniarol/gofalu am blant sy'n nesáu at ddiwedd eu hoes

1.4 Pwysigrwydd parchu hawliau plant i fynegi eu hunain ynglŷn â'u gofal lliniarol a gofal diwedd oes

1.5 Y ffyrdd y gall pŵer a dylanwad gael eu defnyddio a/neu eu camddefnyddio wrth roi gofal lliniarol/wrth gefnogi plant sy'n nesáu at ddiwedd eu hoes

1.6 Gwrthdaro a materion cyfreithiol neu foesegol, sy'n ymwneud yn benodol â phlant, a fyddai'n gallu codi mewn perthynas â marwolaeth, marw, gofal lliniarol neu ofal diwedd oes

1.7 Rolau perthnasau agosaf mewn perthynas â
- gofal lliniarol
- gofal diwedd oes

© WJEC CBAC Ltd.

---

## Deilliant dysgu:

2. Dulliau plentyn-ganolog yn ymwneud â gofal lliniarol/gofal diwedd oes

### Meini prawf asesu

Rydych chi'n deall:

2.1 Ffyrdd o gynnwys plant a'u teuluoedd/gofalwyr mewn penderfyniadau ynghylch eu gofal lliniarol/gofal diwedd oes
2.2 Rôl **pobl allweddol** a gwasanaethau cefnogi a fyddai'n gallu bod yn rhan o ofal lliniarol/gofal diwedd oes
2.3 Manteision rhwydweithiau gofalu a chynlluniau lleol
2.4 Pwysigrwydd gweithredu er budd pennaf y plentyn bob amser
2.5 Y cysyniad o ddull holistaidd o ofalu am gyflyrau sy'n cyfyngu ar fywyd, gofal lliniarol a gofal diwedd oes

### Amrediad

**Pobl allweddol** – aelodau o'r teulu, ffrindiau, pobl eraill sy'n bwysig ar gyfer llesiant y plentyn, tîm amlddisgyblaethol

---

## Deilliant dysgu:

3. Pwysigrwydd cyfathrebu'n effeithiol â phlant a'u teuluoedd/gofalwyr wrth feithrin perthnasoedd cadarnhaol yn ystod gofal lliniarol/gofal diwedd oes

### Meini prawf asesu

Rydych chi'n deall:

3.1 Pam mae perthnasoedd cadarnhaol yn bwysig i blant sy'n derbyn gofal lliniarol/gofal diwedd oes
3.2 Yr heriau a fyddai'n gallu codi wrth feithrin perthnasoedd cadarnhaol â phlant sy'n derbyn gofal lliniarol/gofal diwedd oes a'u teuluoedd/gofalwyr
3.3 Pwysigrwydd defnyddio iaith gyntaf wrth gyfathrebu â phlant sy'n derbyn gofal lliniarol/gofal diwedd oes a'u teuluoedd/gofalwyr
3.4 Sut y gall gwahanol **arferion a dewisiadau** ddylanwadu ar ofal lliniarol/gofal diwedd oes
3.5 Yr heriau sy'n gysylltiedig â nam ar y synhwyrau wrth roi gofal lliniarol/gofal diwedd oes
3.6 Pwysigrwydd cadarnhau bod y plentyn sydd ar ddiwedd ei oes, ei deulu/gofalwyr a'r rhai sy'n rhan o'i ofal a'i gymorth, yn eich deall yn cyfathrebu â nhw
3.7 Ystyriaethau mewn perthynas â gofalwyr ifanc sy'n rhan o ofal lliniarol/gofal diwedd oes

### Amrediad

**Arferion a dewisiadau** – credoau, crefydd, diwylliant

© WJEC CBAC Ltd.

## Deilliant dysgu:

4. Ystyr llesiant yng nghyd-destun gofal lliniarol a gofal diwedd oes i blant

## Meini prawf asesu

Rydych chi'n deall:

4.1 Pwysigrwydd trafod â phlant a'u teuluoedd/gofalwyr a'u cynnwys mewn penderfyniadau ynghylch eu gofal lliniarol/gofal diwedd oes
4.2 Pwysigrwydd cefnogi **llesiant** plant a theuluoedd/gofalwyr, yng nghyd-destun gofal lliniarol/gofal diwedd oes
4.3 Ffyrdd y gellir **gwella** llesiant plant sy'n derbyn gofal lliniarol/gofal diwedd oes
4.4 Ystyriaethau moesegol mewn perthynas â maeth a hydradu plant sy'n derbyn gofal lliniarol/gofal diwedd oes
4.5 Gwrthdaro posibl a fyddai'n gallu digwydd yn ystod gofal lliniarol/gofal diwedd oes
4.6 Y camau i'w cymryd pan fydd gwrthdaro wedi digwydd
4.7 Pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth â **phobl allweddol** er mwyn cefnogi llesiant plant
4.8 Strategaethau ymdopi y gall plant a'u teuluoedd/gofalwyr eu defnyddio wrth wynebu marwolaeth a marw
4.9 **Modelau** colled a galar

## Amrediad

**Llesiant** – cymdeithasol, emosiynol, diwylliannol, ysbrydol, deallusol, economaidd, corfforol a seicolegol
**Gwella** – ffactorau amgylcheddol, ymyriadau meddygol/nad ydynt yn feddygol, defnyddio cyfarpar a chymhorthion, therapïau amgen/cyflenwol, darpariaeth hosbisau, cyrff y trydydd sector
**Pobl allweddol** – aelodau o'r teulu, ffrindiau, pobl eraill sy'n bwysig ar gyfer llesiant y plentyn, tîm amlddisgyblaethol
**Modelau** – cylch galar Kübler-Ross, damcaniaeth Worden, Stroebe a Schute

## Deilliant dysgu:

5. Rhoi gofal lliniarol a gofal diwedd oes a chymorth parhaus i blant sy'n byw gyda chyflyrau sy'n cyfyngu ar fywyd

## Meini prawf asesu

Rydych chi'n gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

5.1 Gwrando ar blant a theuluoedd/gofalwyr mewn perthynas â gofal diwedd oes
5.2 Cyfleu gofynion plant a theuluoedd/gofalwyr i bobl eraill
5.3 Rhoi cefnogaeth i deuluoedd/gofalwyr
5.4 Nodi newidiadau yn ymddygiad plant sy'n derbyn gofal lliniarol/gofal diwedd oes, a rhoi gwybod amdanynt
5.5 Cofnodi'r newidiadau corfforol yng nghyflwr plant sy'n derbyn gofal lliniarol/gofal diwedd oes, a rhoi gwybod amdanynt
5.6 Diwallu anghenion corfforol ac emosiynol plant sy'n derbyn gofal lliniarol/gofal diwedd oes
5.7 Cyfrannu at fynd i'r afael â'r gofid a brofir gan blant a theuluoedd/gofalwyr

© WJEC CBAC Ltd.

# Uned 318 Gofal lliniarol a gofal diwedd oes i blant a phobl ifanc

## Gwybodaeth Ategol

### Gofynion tystiolaeth

Os nad yw'r tasgau cyfannol yn eu hasesu, rhaid cwblhau portffolio o dystiolaeth ar gyfer y deilliannau gwybodaeth ac ymarfer yn yr uned hon. Dylid dilyn yr amodau a amlinellir yn y pecyn asesu o ran cadw'r dystiolaeth yn y portffolio.
Ar gyfer deilliannau'r ymarfer, rhaid bodloni'r gofynion tystiolaeth lleiaf canlynol drwy'r portffolio o dystiolaeth:

- Adroddiad adfyfyriol wedi'i ysgrifennu gan y dysgwr a'i lofnodi gan dyst arbenigol ynghylch darparu cefnogaeth liniarol neu ofal diwedd oes i blant a theuluoedd/gofalwyr/eraill ar o leiaf un achlysur.
- Rhaid i dystiolaeth o ddogfennau/cofnodion gael ei chwblhau'n glir, yn gywir ac yn ddarllenadwy.

### Canllawiau cyflwyno

Dylai'r uned hon gael ei chyflwyno mewn ffordd sy'n ymgorffori ac yn adeiladu ar y wybodaeth graidd a ddatblygwyd o fewn y cymhwyster Lefel 2 Craidd, a thrwy gymhwyso'r wybodaeth hon yn ymarferol, a ddangosir drwy'r uned orfodol ymarfer craidd.

Deilliant dysgu 3, meini prawf asesu 3.1 – Dylai dysgwyr ddysgu pwysigrwydd, effaith a manteision meithrin a chynnal unrhyw gydberthynas o safbwynt y plentyn – pam mae'n bwysig o ran hunanfynegiant, ymddiriedaeth ac ati. Mae'n bosibl bod gan y plentyn oedolyn mae'n ymddiried ynddo, nid o reidrwydd rhywun sy'n ymwneud â darparu gofal iechyd.
Deilliant dysgu 5, meini prawf asesu - Gall dysgwyr fodloni'r meini prawf hyn drwy efelychu/trafodaeth broffesiynol, lle y bo angen yn sgil y natur sensitif a'r tebygolrwydd o ddigwydd.
Dylai cynnwys yr uned hon ymgorffori dysgu y gall gofal lliniarol i blant ddigwydd dros gyfnod estynedig o amser (gan gynnwys dros flynyddoedd), a dylai ystyriaeth o'r cymorth a'r gofal y bydd dysgwyr yn eu datblygu o'r uned hon adlewyrchu ac atgyfnerthu hyn.

**Elfennau Craidd Gofal Lliniarol** – cyfathrebu a rhannu gwybodaeth yn brydlon ac yn agored; Dewisiadau/opsiynau ym mhob agwedd ar ofal, gan gynnwys therapïau cyflenwol; marw yn eu dewis le; cydgysylltu gwasanaethau yn y cartref, os mai hwn yw'r man gofal a ddewiswyd; ffyrdd arbenigol o reoli symptomau; y gallu i gael gafael ar arbenigedd a chyngor arbenigol 24 awr; cefnogaeth emosiynol ac ymarferol i bob aelod o'r teulu; gofal seibiant, gyda mewnbwn meddygol a nyrsio, pan fo angen.

**Diwedd Oes** – y 12 mis olaf mae disgwyl i rywun fyw

**Anghenion corfforol** – gofal y geg, gofal ymataliaeth, rhwymedd, gofal personol, symudedd

**Pobl eraill y gall fod angen rhannu gwybodaeth â nhw** – gweithwyr gofal, asiantaethau gwahanol

© WJEC CBAC Ltd.

**Cefnogaeth i ofalwyr a theuluoedd** – gall gynnwys atgyfeirio at wasanaethau cefnogi, gwasanaethau'r trydydd sector, cefnogaeth mewn profedigaeth, cefnogaeth emosiynol ac ymarferol

## Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS) cysylltiedig

- SCDHSC0385 Cefnogi unigolion ar ddiwedd eu hoes

## Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig

- Safonau Cymru Gyfan ar gyfer Gofal Lliniarol – http://www.wales.nhs.uk/palliativecare
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn 1991 https://www.unicef.org.uk/what-we-do/un-convention-child-rights/
- Y Ddeddf Plant (2004) http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2004/31/contents
- Y Ddeddf Gofal Plant (2006) http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2006/21/contents
- Deddf Plant 1989 https://www.legislation.gov.uk/ukpga/1989/41/contents
- Canllawiau NICE – Gofal diwedd oes i fabanod, plant a phobl ifanc â chyflyrau sy'n cyfyngu ar fywyd: cynllunio a rheoli (NG61) Rhagfyr 2016 https://www.nice.org.uk/guidance/ng61
- Safon Ansawdd NICE – Gofal diwedd oes i blant a phobl ifanc (QS160) Medi 2017 https://www.nice.org.uk/guidance/qs160
- Together for short lives https://www.togetherforshortlives.org.uk/about-us/
- Cyswllt Teulu Cymru https://contact.org.uk/wales
- Cefnogi Dysgwyr ag Anghenion Gofal Iechyd – Dogfen ganllaw rhif: 215/2017. Mawrth 2017 https://learning.gov.wales/resources/browse-all/supporting-learners-with-healthcare-needs/?skip=1&lang=cy

© WJEC CBAC Ltd.

# Uned 319 Rhoi brechiadau trwynol rhag y ffliw

| | |
|---|---|
| **Lefel:** | 3 |
| **ODA:** | 15 |
| **Credyd:** | 3 |
| **Crynodeb o'r Uned:** | Mae'r uned hon yn ymdrin â'r sgiliau a'r camau sydd ynghlwm wrth roi brechiadau trwynol rhag y ffliw mewn modd diogel ac effeithiol, yn ogystal ag arwyddion a symptomau'r ffliw, pwy a ddylai gael ei frechu a'r gweithdrefnau cysylltiedig. |

## Deilliant dysgu:

1. Safonau a gweithdrefnau ar gyfer rhoi brechlynnau ffliw a chwistrellir drwy'r trwyn

## Meini prawf asesu

Rydych chi'n deall:
1.1 Safonau a chanllawiau ymarfer ar gyfer rhoi brechlynnau ffliw a chwistrellir drwy'r trwyn
1.2 Ffynonellau o wybodaeth, cyngor a chefnogaeth ar frechlynnau ffliw a chwistrellir drwy'r trwyn
1.3 Arwyddion/symptomau a thriniaethau'r ffliw
1.4 Rôl Sefydliad Iechyd y Byd o ran monitro'r ffliw
1.5 Grwpiau a ddylai ac na ddylai gael brechlynnau ffliw a chwistrellir drwy'r trwyn
1.6 Y weithdrefn ar gyfer rhoi'r brechlynnau ffliw a chwistrellir drwy'r trwyn
1.7 Manteision a sgil effeithiau posibl brechlynnau ffliw a chwistrellir drwy'r trwyn

## Deilliant dysgu:

2. Hybu a rhoi brechlynnau ffliw a chwistrellir drwy'r trwyn

## Meini prawf asesu

Rydych chi'n deall:
2.1 Argymhellion arfer da ar gyfer annog pobl i gael brechlynnau ffliw a chwistrellir drwy'r trwyn
2.2 Ffyrdd o oresgyn rhwystrau a fyddai'n gallu atal pobl rhag cael eu himiwneiddio
2.3 Ystyriaethau ar gyfer rhoi brechlynnau ffliw a chwistrellir drwy'r trwyn
2.4 Y sefyllfa bresennol yng Nghymru o ran nifer y bobl sy'n cael eu himiwneiddio

Rydych chi'n gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:
2.5 Cadarnhau bod brechlynnau a chwistrellir drwy'r trwyn wedi cael eu storio'n ddiogel cyn eu defnyddio
2.6 Paratoi'r amgylchedd ar gyfer rhoi brechlynnau ffliw a chwistrellir drwy'r trwyn gan ystyried canllawiau iechyd a diogelwch
2.7 Dilyn safonau ansawdd, gofynion cyfreithiol a gweithdrefnau wrth gasglu gwybodaeth berthnasol a chael caniatâd gan deuluoedd/gofalwyr cyn rhoi brechlynnau a chwistrellir drwy'r trwyn
2.8 Dilyn gweithdrefnau rheoli heintiau wrth roi brechlynnau a chwistrellir drwy'r trwyn

© WJEC CBAC Ltd.

2.9 Cyfathrebu mewn ffordd gadarnhaol wrth roi brechlynnau a chwistrellir drwy'r trwyn er mwyn sicrhau bod plant a'u teuluoedd/gofalwyr yn cael eu hysbysu'n llawn am yr hyn a fydd yn digwydd a'r sgil effeithiau posibl
2.10 Gwaredu brechlynnau a chyfarpar brechu yn dilyn triniaeth
2.11 Cofnodi'r brechiad a roddwyd a'r camau a gymerwyd yn unol â pholisi'r sefydliad/lleoliad, a rhoi gwybod amdanynt

© WJEC CBAC Ltd.

# Uned 319 Rhoi brechiadau trwynol rhag y ffliw

# Gwybodaeth Ategol

## Gofynion tystiolaeth

Os nad yw'r tasgau cyfannol yn eu hasesu, rhaid cwblhau portffolio o dystiolaeth ar gyfer y deilliannau gwybodaeth ac ymarfer yn yr uned hon. Dylid dilyn yr amodau a amlinellir yn y pecyn asesu o ran cadw'r dystiolaeth yn y portffolio.
Ar gyfer deilliannau'r ymarfer, rhaid bodloni'r gofynion tystiolaeth lleiaf canlynol drwy'r portffolio o dystiolaeth:

- Arsylwi ar y dysgwr yn rhoi brechlynnau ffliw a chwistrellir drwy'r trwyn ar o leiaf **tri** achlysur.

## Canllawiau cyflwyno

Dylai'r uned hon gael ei chyflwyno mewn ffordd sy'n ymgorffori ac yn adeiladu ar y wybodaeth graidd a ddatblygwyd o fewn y cymhwyster Lefel 2 Craidd, a thrwy gymhwyso'r wybodaeth hon yn ymarferol, a ddangosir drwy'r uned orfodol ymarfer craidd.

Dylai dysgwyr ddysgu argymhellion arfer da gan gynnwys difrifoldeb y clefyd

**Ystyriaethau ar gyfer rhoi brechlynnau ffliw a chwistrellir drwy'r trwyn** – gan gynnwys asesu'r amgylchedd, cludo brechlynnau (tymheredd cyson), cyfarpar argyfwng, cyfarpar sydd ei angen i baratoi brechlyn, ei roi a'i waredu
Dylai dysgwyr ddysgu am y sefyllfa bresennol yng Nghymru, gan gynnwys sut i asesu ffynonellau o ddata ar nifer y bobl sy'n cael eu himiwneiddio.

**Cyfathrebu mewn ffordd gadarnhaol** – gan gynnwys tawelu meddwl y plentyn, rhoi gwybod i'r plentyn beth sy'n digwydd, defnyddio iaith sy'n briodol ar gyfer oedran y plentyn, cyfathrebu'n uniongyrchol â'r plentyn

## Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig

- Brechlyn ffliw a chwistrellir drwy'r trwyn http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/page/96845
- Rheoli gwastraff gofal iechyd http://www.hse.gov.uk/healthservices/healthcare-waste.htm
- Brechlyn ffliw plant blynyddol http://www.nhsdirect.wales.nhs.uk/doityourself/vaccinations/annualflu/
- Ystadegau Iechyd Cyhoeddus Cymru ar nifer y bobl sy'n cael eu himiwneiddio yng Nghymru http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/page/43510
- Iechyd Cyhoeddus Cymru – brechlynnau i blant http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/page/59487
- Cefnogi Dysgwyr ag Anghenion Gofal Iechyd – Dogfen ganllaw rhif: 215/2017. Mawrth 2017 https://learning.gov.wales/resources/browse-all/supporting-learners-with-healthcare-needs/?skip=1&lang=cy

© WJEC CBAC Ltd.

# Uned 320 Rhoi gofal stoma

| | |
|---|---|
| **Lefel:** | 3 |
| **ODA:** | 20 |
| **Credyd:** | 3 |
| **Crynodeb o'r Uned:** | Mae'r uned hon yn ymdrin â gofalu am stoma'r coluddyn/y bledren. Gall hyn fod ar gyfer unigolion â stoma newydd neu unigolion sydd â stoma ers tro nad ydynt yn gallu rheoli eu gofal stoma eu hunain, neu mae angen cymorth arnynt i wneud hynny.<br>Yng nghyd-destun yr uned hon, mae'r term 'unigolyn' yn cyfeirio at oedolion, plant neu bobl ifanc. |

## Deilliant dysgu:

1. Gofal stoma

## Meini prawf asesu

Rydych chi'n deall:

1.1 Anatomeg mewn perthynas â lleoliad a gweithrediad gwahanol **fathau o stoma**
1.2 Safleoedd ar gyfer stomata
1.3 Y gwahaniaethau mewn ansawdd carthion ar gyfer gwahanol **fathau o stoma**
1.4 Cyfrifoldebau ac atebolrwydd personol mewn perthynas â gofal stoma
1.5 Pwysigrwydd rhoi rhagofalon safonol ar waith ar gyfer rhoi gofal stoma
1.6 Canlyniadau posibl ymarfer gwael wrth roi gofal stoma
1.7 Pam y gall fod gan unigolyn stoma
1.8 Effeithiau deiet a symudedd ar weithrediad stoma

## Amrediad

**Mathau o stoma** – colostomi, ileostomi, cwndid ilëol, neffrostomi, wrostomi

## Deilliant dysgu:

2. Sut i gynnal urddas unigolyn wrth roi gofal stoma

## Meini prawf asesu

Rydych chi'n deall:

2.1 Pryderon a gofidiau posibl a fyddai'n gallu bod gan unigolion a'u teuluoedd/gofalwyr mewn perthynas â gofal stoma a sut i'w goresgyn
2.2 Pwysigrwydd bod yn sensitif tuag at ganfyddiad unigolion o'r sefyllfa a'r effaith ar eu bywydau
2.3 Ffactorau a fyddai'n gallu effeithio ar lefel y cymorth gofal stoma sydd ei angen

© WJEC CBAC Ltd.

## Deilliant dysgu:

3. Ffactorau sy'n effeithio ar ddarpariaeth gofal stoma

## Meini prawf asesu

Rydych chi'n deall:

3.1 Adweithiau anffafriol posibl a fyddai'n gallu digwydd yn ystod ac ar ôl gweithgareddau gofal stoma a sut y dylid ymdrin â'r rhain
3.2 Rôl ymarferwyr arbenigol gofal stoma a sut y gellir cysylltu â nhw
3.3 Canlyniadau posibl halogi systemau draenio stoma
3.4 Cyfarpar a deunyddiau sydd eu hangen er mwyn rhoi gofal stoma
3.5 Mathau o declynnau stoma sydd ar gael a pha mor addas ydynt ar gyfer gwahanol fathau o stoma
3.6 Dillad diogelu personol a chyfarpar diogelu ychwanegol y dylid eu gwisgo er eich diogelwch eich hun a diogelwch yr unigolyn
3.7 Y cofnodion sydd eu hangen ar gyfer gweithgareddau gofal stoma a gyflawnir

---

## Deilliant dysgu:

4. Rhoi gofal stoma i unigolion

## Meini prawf asesu

Rydych chi'n gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

4.1 Dilyn mesurau iechyd a diogelwch gan gynnwys rhagofalon ar gyfer atal a rheoli heintiau wrth roi gofal stoma
4.2 Cadarnhau pwy yw'r unigolyn a chael cydsyniad dilys cyn cyflawni gweithgareddau gofal stoma
4.3 Rhoi gwybodaeth berthnasol, cefnogaeth a thawelwch meddwl i unigolion a'u teuluoedd/gofalwyr, a hynny mewn modd sy'n sensitif tuag at eu hanghenion a'u pryderon
4.4 Cadarnhau bod yr holl gyfarpar a deunyddiau ar gyfer gofal stoma yn addas i'r pwrpas
4.5 Rhoi gofal stoma gan ddilyn technegau priodol, yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr
4.6 Gweithio mewn ffordd sy'n sicrhau cymaint â phosibl o gysur ac urddas a chyn lleied â phosibl o boen a thrawma i'r unigolyn
4.7 Rhoi gwybod am gyflyrau neu ymddygiad a fyddai'n gallu achosi adweithiau anffafriol i'r gweithgaredd, a chymryd y camau priodol
4.8 Gwaredu cyfarpar a dillad gwely budr yn ddiogel, yn hylan ac mewn ffyrdd sy'n sicrhau cyn lleied â phosibl o risg o groes-heintio
4.9 Cofnodi canlyniadau gweithgarwch gofal stoma a rhoi gwybod amdanynt yn gywir gan ddefnyddio dulliau y cytunwyd arnynt yn y sefydliad/lleoliad
4.10 Rhoi gwybod am ganfyddiadau a/neu broblemau i aelod priodol o'r tîm gofal

© WJEC CBAC Ltd.

## Deilliant dysgu:

5. Defnyddio arferion gofal person-ganolog er mwyn helpu unigolion/teuluoedd/gofalwyr i ofalu am eu stomata

## Meini prawf asesu

Rydych chi'n gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

5.1 Annog unigolion i gyfleu unrhyw bryderon ynglŷn â'u stoma a'i weithrediad
5.2 Monitro patrymau o ran gweithrediad stoma, ansawdd gwastraff corff a newidiadau a fyddai'n gallu bod wedi digwydd, a rhoi gwybod amdanynt
5.3 Annog unigolion i fwyta ac yfed bwyd a diod priodol er mwyn sicrhau bod y stoma'n parhau i weithio'n effeithiol
5.4 Rhoi cymorth gweithredol i unigolion ar gyfer rheoli eu stomata eu hunain mewn ffordd sy'n hybu hunan-barch a hunan-fri, sy'n sicrhau cymaint â phosibl o breifatrwydd ac sy'n gyson â chynlluniau gofal
5.5 Darparu cyfarpar gofal stoma ar adeg ac mewn lle sy'n gyfleus i anghenion ac amgylchiadau unigolion
5.6 Cymryd camau priodol pan fydd yn ymddangos bod cyfarpar gofal stoma yn amhriodol neu'n anaddas

© WJEC CBAC Ltd.

# Uned 320 Rhoi gofal stoma

## Gwybodaeth Ategol

### Gofynion tystiolaeth

Os nad yw'r tasgau cyfannol yn eu hasesu, rhaid cwblhau portffolio o dystiolaeth ar gyfer y deilliannau gwybodaeth ac ymarfer yn yr uned hon. Dylid dilyn yr amodau a amlinellir yn y pecyn asesu o ran cadw'r dystiolaeth yn y portffolio.
Ar gyfer deilliannau'r ymarfer, rhaid bodloni'r gofynion tystiolaeth lleiaf canlynol drwy'r portffolio o dystiolaeth:

- Dylai dysgwyr allu dangos tystiolaeth o ofalu am unigolion ar o leiaf tri achlysur gwahanol.

### Canllawiau cyflwyno

Dylai'r uned hon gael ei chyflwyno mewn ffordd sy'n ymgorffori ac yn adeiladu ar y wybodaeth graidd a ddatblygwyd o fewn y cymhwyster Lefel 2 Craidd, a thrwy gymhwyso'r wybodaeth hon yn ymarferol, a ddangosir drwy'r uned orfodol ymarfer craidd.

Byddai dysgwyr sy'n cwblhau'r uned hon yn cael budd o fod wedi astudio uned Ymataliaeth Lefel 2 cyn yr uned hon, neu ochr yn ochr â hi.
Lle bo'r stoma newydd ffurfio yn y cyfnod yn syth ar ôl llawdriniaeth, rhaid cyflawni'r gweithgareddau hyn gan ddefnyddio technegau aseptig a gan ddilyn canllawiau a gweithdrefnau lleol

**Cymorth gweithredol** – mae Cymorth Gweithredol yn ffordd i bobl gymryd rhan mewn gweithgareddau bob dydd ystyrlon o'u dewis, gyda chymaint neu gyn lleied o gefnogaeth ag sydd ei angen arnynt.

**Ffactorau** – oedran, cyflwr meddygol, credoau a dewisiadau personol

**Effaith** – deiet, iechyd meddwl

### Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS) cysylltiedig

- SFHCHS10 Rhoi gofal stoma

### Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig

- Good Practice in Health Care, Incontinent urostomy (2009) - Cyhoeddwr: Cymdeithas Nyrsys Wroleg Ewrop (EAUN) https://nurses.uroweb.org/wp-content/uploads/EAUN_IU_Guidelines_EN_2009_LR.pdf
- Canllawiau Ymarfer Clinigol ar gyfer Llawfeddygaeth Ostomi (2015) https://www.fascrs.org/sites/default/files/downloads/publication/clinical_practice_guidelines_for_ostomy_surgery.pdf
- Canllawiau a fformiwlari gofal stoma http://www.wales.nhs.uk/sites3/Documents/814/FORMULARYstomaAccessoriesABUHBfinal%5BFeb2016%5D.pdf
- Byw gyda cholostomi https://www.nhs.uk/conditions/colostomy/living-with/
- Cefnogi Dysgwyr ag Anghenion Gofal Iechyd – Dogfen ganllaw rhif: 215/2017. Mawrth 2017 https://learning.gov.wales/resources/browse-all/supporting-learners-with-healthcare-needs/?skip=1&lang=cy

© WJEC CBAC Ltd.

# Uned 321 Gofalu am glwyfau nad ydynt yn rhai cymhleth

| | |
|---|---|
| **Lefel:** | 3 |
| **ODA:** | 20 |
| **Credyd:** | 4 |
| **Crynodeb o'r Uned:** | Nod yr uned hon yw helpu dysgwyr i ofalu am glwyfau nad ydynt yn rhai cymhleth; bydd hyn yn cynnwys y wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i drin a gorchuddio briwiau a chlwyfau, ac mae'n berthnasol mewn amrywiaeth o sefydliadau/lleoliadau iechyd a gofal, gan gynnwys ysbytai, cartrefi gofal a chartref yr unigolyn ei hun.<br>Yng nghyd-destun yr uned hon, mae'r term 'unigolyn' yn cyfeirio at oedolion, plant a phobl ifanc. |

## Deilliant dysgu:

1. Deall deddfwriaeth a ffyrdd o weithio y cytunwyd arnynt wrth ofalu am glwyfau nad ydynt yn rhai cymhleth

### Meini prawf asesu

Rydych chi'n deall:

1.1 Canllawiau a ffyrdd o weithio y cytunwyd arnynt sy'n llywio gofal am glwyfau nad ydynt yn rhai cymhleth

1.2 Pwysigrwydd cydymffurfio â gofynion rheoli heintiau a gofynion o ran Cyfarpar Diogelu Personol bob amser wrth ofalu am glwyfau nad ydynt yn rhai cymhleth

## Deilliant dysgu:

2. Gwella a halogi clwyfau

### Meini prawf asesu

Rydych chi'n deall:

2.1 Camau'r broses o wella clwyf

2.2 Ffactorau sy'n hybu neu'n oedi'r broses o wella clwyf

2.3 Arwyddion a symptomau haint mewn clwyfau nad ydynt yn rhai cymhleth

2.4 Y gwahaniaethau rhwng asepsis, gwrth-heintio a chroes-heintio

2.5 Ffynonellau posibl halogi clwyfau

2.6 Camau i'w cymryd os bydd clwyf yn cael ei halogi

## Deilliant dysgu:

3. Y gweithdrefnau a thechnegau ar gyfer trin a gorchuddio briwiau a chlwyfau nad ydynt yn rhai cymhleth

© WJEC CBAC Ltd.

### Meini prawf asesu

Rydych chi'n deall:
3.1 Pwysigrwydd eich cyfrifoldeb a'ch atebolrwydd eich hun, a phryd y dylid ceisio rhagor o arweiniad, wrth roi triniaethau a gorchuddion
3.2 Pwysigrwydd dilyn dogfennau canllaw penodedig wrth roi triniaethau a gorchuddion
3.3 Y mathau o wahanol driniaethau a gorchuddion a ddefnyddir yn eich maes gwaith eich hun, a'u swyddogaethau
3.4 Gweithdrefnau ar gyfer gorchuddio briwiau a chlwyfau nad ydynt yn rhai cymhleth
3.5 Gweithdrefnau ar gyfer ymdrin ag adweithiau anffafriol sy'n digwydd wrth roi triniaethau a gorchuddion

---

### Deilliant dysgu:

4. Paratoi i orchuddio briwiau a chlwyfau nad ydynt yn rhai cymhleth

### Meini prawf asesu

Rydych chi'n gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:
4.1 Cyfeirio at y cynllun triniaeth a'r ddogfennaeth asesu clwyfau
4.2 Chwilio am unrhyw wrtharwyddion triniaethau a gorchuddion
4.3 Cadarnhau bod y cyfarpar, triniaethau a gorchuddion sydd eu hangen yn addas i'r pwrpas
4.4 Rhoi gwybodaeth, cefnogaeth a thawelwch meddwl mewn perthynas â chredoau a dewisiadau personol
4.5 Cadarnhau pwy yw'r unigolyn a chael cydsyniad dilys i gyflawni'r gweithgaredd
4.6 Rhoi mesurau iechyd a diogelwch ar waith sy'n berthnasol i'r driniaeth a'r amgylchedd
4.7 Helpu'r unigolyn i leoli ei hun mewn ffordd sy'n golygu bod modd mynd at safle'r clwyf neu'r briw
4.8 Helpu'r unigolyn i addasu ei ddillad gan gynnal ei breifatrwydd a'i urddas

---

### Deilliant dysgu:

5. Cyflawni triniaethau i orchuddio clwyfau nad ydynt yn rhai cymhleth

### Meini prawf asesu

Rydych chi'n gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:
5.1 Tynnu gorchuddion presennol gan ddilyn gweithdrefnau y cytunwyd arnynt
5.2 Edrych dros y briw neu'r clwyf er mwyn canfod unrhyw newidiadau yn ei ymddangosiad
5.3 Sicrhau bod gorchuddion yn aros yn ddi-haint cyn ac wrth eu rhoi
5.4 Rhoi gorchuddion ar glwyfau nad ydynt yn rhai cymhleth gan ddilyn gweithdrefnau safonol
5.5 Rhoi cefnogaeth drwy gydol triniaethau gorchuddio gan ystyried yr angen i sicrhau cyn lleied â phosibl o bryder ac anghysur
5.6 Rheoli diogelwch, urddas a chysur yr unigolyn yn ystod ac ar ôl y driniaeth
5.7 Gwaredu gwastraff yn ddiogel gan ddilyn gweithdrefnau safonol
5.8 Cofnodi canlyniadau a **chasgliadau'r** gweithgaredd, yn unol â ffyrdd o weithio y cytunwyd arnynt
5.9 Rhoi gwybod am ganlyniadau a **chanfyddiadau** gan ddilyn ffyrdd o weithio y cytunwyd arnynt

## Amrediad

**Canfyddiadau** – cyflwr clwyfau/briwiau, cynnydd y broses wella, llid, poen

© WJEC CBAC Ltd.

# Uned 321 Gofalu am glwyfau nad ydynt yn rhai cymhleth

## Gwybodaeth Ategol

### Gofynion tystiolaeth

Os nad yw'r tasgau cyfannol yn eu hasesu, rhaid cwblhau portffolio o dystiolaeth ar gyfer y deilliannau gwybodaeth ac ymarfer yn yr uned hon. Dylid dilyn yr amodau a amlinellir yn y pecyn asesu o ran cadw'r dystiolaeth yn y portffolio.
Ar gyfer deilliannau'r ymarfer, rhaid bodloni'r gofynion tystiolaeth lleiaf canlynol drwy'r portffolio o dystiolaeth:

- Mae angen i ddysgwyr ddangos tystiolaeth o fynd ati'n ymarferol i drin a gorchuddio clwyfau ar o leiaf **tri** achlysur ar wahân.
- Cwblhau dogfennaeth.

### Canllawiau cyflwyno

Dylai'r uned hon gael ei chyflwyno mewn ffordd sy'n ymgorffori ac yn adeiladu ar y wybodaeth graidd a ddatblygwyd o fewn y cymhwyster Lefel 2 Craidd, a thrwy gymhwyso'r wybodaeth hon yn ymarferol, a ddangosir drwy'r uned orfodol ymarfer craidd.

**Techneg Aseptig Di-Gyffwrdd (ANTT)** – adnodd a ddefnyddir i atal heintiau mewn sefydliadau/lleoliadau gofal iechyd yw'r Dechneg Aseptig Di-Gyffwrdd neu ANTT®

**Ffactorau sy'n hybu** – y math o glwyf, hylendid, maeth, oedran

**Ffactorau sy'n oedi** – haint, oedran, gordewdra, meddyginiaeth, cyd-glefydedd

**Camau'r broses o wella clwyf** – gwaedataliad, llid, ymlediad, aeddfediad

### Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS) cysylltiedig

- CHS12 Rhoi triniaethau a gorchuddion sy'n gysylltiedig â gofalu am friwiau a chlwyfau

© WJEC CBAC Ltd.

## Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig

- Guidelines for hand hygiene in Irish healthcare settings (2015) http://www.hpsc.ie/a-z/microbiologyantimicrobialresistance/infectioncontrolandhai/guidelines/File,15060,en.pdf
- Canllawiau Sefydliad Iechyd y Byd ar Hylendid Dwylo mewn Gofal Iechyd http://apps.who.int/iris/bitstream/handle/10665/44102/9789241597906_eng.pdf;jsessionid=2369B3883857B00CDD81279426F774EE?sequence=1
- Llywodraeth Cymru: Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well – Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru Ebrill 2010 http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/1064/Gwneud%20yn%20Dda%2C%20Gwneud%20yn%20Well%20%E2%80%93%20Safonau%20ar%20gyfer%20Gwasanaethau%20Iechyd%20Cymru%20%28Ebrill%202010%29.pdf
- Canllawiau NICE https://www.nice.org.uk/about/what-we-do/our-programmes/nice-guidance/nice-diagnostics-guidance
- Safonau Iechyd a Gofal, Llywodraeth Cymru Ebrill 2015 https://gov.wales/docs/dhss/publications/150402standardscy.pdf
- Ansawdd a Diogelwch https://gov.wales/topics/health/improvement/physical/?skip=1&lang=cy
- Canllawiau Llywodraeth Cymru ar Atal a Rheoli Heintiau a'r Dechneg Aseptig Di-Gyffwrdd http://www2.nphs.wales.nhs.uk:8080/WHAIPDocs.nsf/61c1e930f9121fd080256f2a004937ed/e4528983f2eddd3a80257f10003dd2f3/$FILE/ANTT%20Framework%20v4.0.pdf
- Canllawiau arfer gorau: rheoli'r croen a chlwyfau'n effeithiol mewn perthynas â llosgiadau nad ydynt yn rhai cymhleth https://www.bbraun.se/content/dam/b-braun/global/website/products-and-therapies/wound-management/Docs/Best%20Practice%20non-complex%20burns%20and%20wound.pdf.bb-.45729854/Best%20Practice%20non-complex%20burns%20and%20wound.pdf
- Cefnogi Dysgwyr ag Anghenion Gofal Iechyd – Dogfen ganllaw rhif: 215/2017. Mawrth 2017 https://learning.gov.wales/resources/browse-all/supporting-learners-with-healthcare-needs/?skip=1&lang=cy

© WJEC CBAC Ltd.

# Uned 322 Cynnal profion sgrinio golwg

| | |
|---|---|
| **Lefel:** | 3 |
| **ODA:** | 20 |
| **Credyd:** | 4 |
| **Crynodeb o'r Uned:** | Mae'r uned hon yn galluogi dysgwyr i feithrin y wybodaeth a'r sgiliau i gynnal profion sgrinio golwg ar gyfer plant oed ysgol. Mae'r uned yn ymdrin â phwysigrwydd iechyd y llygaid a sgrinio golwg yn ogystal ag achosion posibl ac effeithiau problemau sy'n gysylltiedig â'r llygaid a namau ar y golwg. Bydd dysgwr yn meithrin y sgiliau ymarferol sydd eu hangen i ddarparu sgrinio golwg effeithiol a diogel ar gyfer plant 4 – 5 oed yn yr ysgol. |

## Deilliant dysgu:

1. Egwyddorion a chyd-destun polisi mewn perthynas â sgrinio golwg

## Meini prawf asesu

Rydych yn gwybod:
1.1 Polisi Sgrinio Golwg, a chanllawiau ymarfer i Gymru
1.2 Amserlen sgrinio golwg yng Nghymru
1.3 Llwybrau gofal lleol ar gyfer cael gafael ar weithwyr arbenigol ym maes gofal y llygaid
1.4 Manteision a risgiau a chyfyngiadau posibl sgrinio golwg
1.5 Ymgyrchoedd presennol sy'n hybu iechyd y llygaid yng Nghymru

## Deilliant dysgu:

2. Darparu sgrinio golwg i blant rhwng 4 a 5 oed yn yr ysgol

## Meini prawf asesu

Rydych yn gwybod:
2.1 Strwythur a gweithrediad y llygad
2.2 Datblygiad golwg plant
2.3 Pwysigrwydd hybu iechyd cadarnhaol y llygaid ymhlith plant
2.4 Mathau o **namau ar y golwg** neu golled golwg mewn plant a'u hachosion ac effeithiau posibl
2.5 Cysylltiadau posibl rhwng colled golwg a chyflyrau neu anghenion eraill
2.6 Sut mae profion golwg a ddefnyddir gyda phlant yn cael eu cynnal
2.7 Rolau a chyfrifoldebau aelodau o'r tîm amlasiantaethol sy'n gweithio gyda phlant â cholled golwg
2.8 Ffyrdd y gall plant â cholled golwg gael eu monitro a'u cefnogi'n barhaus
2.9 Ffynonellau o wybodaeth, cyngor, cefnogaeth a chanllawiau ar namau ar y golwg/colled golwg
2.10 Pwysigrwydd ymyriadau cynnar a chefnogaeth i blant â namau ar y golwg neu golled golwg
2.11 Lle i geisio cymorth a chefnogaeth ychwanegol os oes angen wrth sgrinio

© WJEC CBAC Ltd.

Rydych chi'n gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

2.12 Dilyn safonau ansawdd a gweithdrefnau wrth gynnal profion sgrinio golwg

2.13 Paratoi i ymgymryd â sgrinio golwg i gynnwys
- Coladu gwybodaeth berthnasol gan deuluoedd/gofalwyr,
- Paratoi'r amgylchedd

2.14 Cynnal asesiadau golwg yn unol â phrotocolau cyfredol

2.15 Esbonio i blant sut y bydd y prawf sgrinio golwg yn cael ei gynnal, gan ei gefnogi drwy'r broses

2.16 Cofnodi ac adrodd canlyniadau'r sgrinio golwg yn unol â pholisïau'r sefydliad

2.17 Cadw at y llwybr cyfeirio lleol os yw prawf golwg y plentyn yn methu â bodloni holl feini prawf llwyddo Cymru

2.18 Defnyddio cyfarpar y golwg yn ddiogel a'i storio'n gywir ar ôl ei ddefnyddio

© WJEC CBAC Ltd.

# Uned 322 Cynnal profion sgrinio golwg

## Gwybodaeth Ategol

### Gofynion tystiolaeth

Os nad yw'r tasgau cyfannol yn eu hasesu, rhaid cwblhau portffolio o dystiolaeth ar gyfer y deilliannau gwybodaeth ac ymarfer yn yr uned hon. Dylid dilyn yr amodau a amlinellir yn y pecyn asesu o ran cadw'r dystiolaeth yn y portffolio.
Ar gyfer deilliannau'r ymarfer, rhaid bodloni'r gofynion tystiolaeth lleiaf canlynol drwy'r portffolio o dystiolaeth:

- Arsylwi ar y dysgwr yn darparu gwasanaethau sgrinio golwg yn ystod tair sesiwn sgrinio o leiaf (bydd angen felly i'r ymgeisydd sgrinio golwg o leiaf 30 o blant).
- Rhaid i dystiolaeth o'r ddogfennaeth a gwblhawyd ar ôl sgrinio'r golwg gael ei chofnodi'n glir, yn gywir ac yn ddarllenadwy yn unol â pholisïau'r sefydliad/lleoliad.
- Cyfrif adfyfyriol gan y dysgwr yn manylu ar y prosesau sgrinio golwg a lofnodwyd gan dyst Orthoptydd.

### Canllawiau cyflwyno

Argymhellir bod yr uned hon yn cael ei chyflwyno a'i hasesu gan y Gwasanaethau Orthoptig yng Nghymru.
Dylai'r uned hon gael ei chyflwyno mewn ffordd sy'n ymgorffori ac yn adeiladu ar y wybodaeth graidd a ddatblygwyd o fewn y cymhwyster Lefel 2 Craidd, a thrwy gymhwyso'r wybodaeth hon yn ymarferol, a ddangosir drwy'r uned orfodol ymarfer craidd.

**Safonau ansawdd a gweithdrefnau** – gan gynnwys atal a rheoli heintiau, cyfrinachedd, diogelu, preifatrwydd ac urddas a defnyddio a storio cyfarpar yn ddiogel

### Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS) cysylltiedig

- SFFHCHS134 Cynnal profion sgrinio'r golwg

### Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig

- Deddf Cydraddoldeb 2010
- Y Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol **https://legacyscreening.phe.org.uk/vision-child**
- Blaenoriaethau'r Cynllun Gofal Llygaid tan 2018, Awst 2017
- **http://gov.wales/docs/dhss/publications/170807eye-healthcy.pdf**
- Cymdeithas Orthoptig Prydain ac Iwerddon **www.orthoptics.org.uk**
- Canllawiau NICE **https://www.nice.org.uk/Search?q=Vision+Screening**
- Gwasanaethau Gofal Llygaid Cymru **http://www.eyecare.wales.nhs.uk/hafan**
- Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Ddall – Cymru **https://www.rnib.org.uk/cy/wales-cymru-1**
- Ysbyty Llygaid Moorfields **http://www.moorfields.nhs.uk/content/anatomy-eye**
- Gwefan y GIG **http://www.nhs.uk/conditions/eye-tests-for-children/Pages/Introduction.aspx**
- Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Ddall **https://www.rnib.org.uk/information-parents**
- Llygadgrynu **http://ihv.org.uk/wp-content/uploads/2015/10/33-PT_Nystagmus_V4.pdf**

© WJEC CBAC Ltd.

- Pecyn cymorth y Coleg Nyrsio Brenhinol ar gyfer Nyrsys Ysgol **www.rcn.org.uk**
- Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Ddall – gofalu am eich llygaid **https://www.rnib.org.uk/eye-health/looking-after-your-eyes**
- Gweithdrefnau Diogelu Cymru (2019) **http://www.myguideapps.com/projects/wales_safeguarding_procedures/default/**
- Canllawiau Diogelu Llywodraeth Cymru https://gov.wales/safeguarding-guidance

© WJEC CBAC Ltd.

# Uned 323 Cynnal profion sgrinio clyw ar gyfer plant oed ysgol

| | |
|---|---|
| **Lefel:** | 3 |
| **ODA:** | 15 |
| **Credyd:** | 3 |
| **Crynodeb o'r Uned:** | Mae'r uned hon yn galluogi dysgwyr i feithrin y wybodaeth a'r sgiliau i gynnal profion sgrinio clyw ar gyfer plant oed ysgol. Mae'r uned yn ymdrin â phwysigrwydd iechyd y clustiau a sgrinio clyw, yn ogystal ag achosion ac effeithiau posibl namau ar y clyw a phroblemau sy'n gysylltiedig â'r clyw. Bydd dysgwyr yn meithrin y sgiliau ymarferol sydd eu hangen i ddarparu gwasanaethau sgrinio clyw effeithiol a diogel. |

## Deilliant dysgu:

1. Egwyddorion a chyd-destun polisi mewn perthynas â sgrinio clyw

## Meini prawf asesu

Rydych chi'n deall:

1.1 Cyfeiriad polisi mewn perthynas â sgrinio clyw a chanllawiau ymarfer i Gymru
1.2 Amserlen sgrinio clyw yng Nghymru
1.3 Y ffyrdd mae'r egwyddorion sgrinio iechyd a'r cysyniad o ddewis ar sail gwybodaeth yn ategu gwasanaethau sgrinio clyw
1.4 Sut mae egwyddorion dulliau gweithredu plentyn-ganolog yn sail i sgrinio clyw
1.5 Manteision sgrinio clyw
1.6 Risgiau a chyfyngiadau canlyniadau sgrinio clyw
1.7 Y ddeddfwriaeth, cyd-destun polisi a chodau ymarfer sy'n ategu gwaith gyda phlant â cholled clyw

## Deilliant dysgu:

2. Darparu gwasanaethau sgrinio clyw i blant

## Meini prawf asesu

Rydych yn gwybod:

2.1 Sut mae'r glust yn gweithio
2.2 Beth yw sain
2.3 Y term 'awdioleg'
2.4 Iaith a thermau cyffredin a ddefnyddir i ddisgrifio colled clyw
2.5 Achosion posibl colled clyw mewn plant
2.6 Y lefelau gwahanol o golled clyw
2.7 Mathau o **golled/cyflyrau clyw** ac effaith colled clyw ar ddatblygiad plentyn
2.8 Mathau o gymhorthion a chyfarpar sydd ar gael i blant â cholled clyw
2.9 Ffyrdd y gall plant â cholled clyw gyfathrebu
2.10 Effeithiau colled clyw plentyn ar deuluoedd/gofalwyr/eraill
2.11 Sut mae plant â cholled clyw yn cael eu monitro a'u cefnogi'n barhaus

© WJEC CBAC Ltd.

2.12 Sut mae profion clyw a ddefnyddir gyda phlant yn cael eu cynnal
2.13 Pwysigrwydd rhoi gwybod i weithwyr proffesiynol eraill sy'n gweithio gyda'r plentyn a'i deulu am ganlyniadau a chamau gweithredu yn dilyn prawf sgrinio clyw ar gyfer plant

Rydych chi'n gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:
2.14 Addasu'r broses sgrinio ar gyfer plant gan ystyried anghenion ychwanegol
2.15 Paratoi i gynnal profion clyw gan gynnwys casglu gwybodaeth berthnasol/cael caniatâd gan deuluoedd/gofalwyr
2.16 Dilyn polisïau a gweithdrefnau'r sefydliad/lleoliad wrth gynnal profion sgrinio clyw
2.17 Esbonio i blant sut y bydd y prawf sgrinio clyw yn cael ei gynnal, gan ei gefnogi drwy'r broses
2.18 Dilyn protocolau a chanllawiau arfer da mewn perthynas â'r ffordd mae'r canlyniadau'n cael eu cofnodi a'u storio a'r ffordd y rhoddir gwybod amdanynt
2.19 Cyfeirio at lwybrau/camau atgyfeirio yn dilyn canlyniadau profion sgrinio clyw ar gyfer plant
2.20 Cael cydsyniad rhiant/gofalwr cyn rhannu unrhyw wybodaeth
2.21 Cyfeirio at ffynonellau o wybodaeth, cyngor, cefnogaeth a chanllawiau i deuluoedd, gofalwyr a gweithwyr proffesiynol mewn perthynas â cholled clyw

## Amrediad

**Colled/cyflyrau clyw** - synwyrnerfol, dargludol, cymysg, clust ludiog

© WJEC CBAC Ltd.

# Uned 323 Cynnal profion sgrinio clyw ar gyfer plant oed ysgol

## Gwybodaeth Ategol

### Gofynion tystiolaeth

Os nad yw'r tasgau cyfannol yn eu hasesu, rhaid cwblhau portffolio o dystiolaeth ar gyfer y deilliannau gwybodaeth ac ymarfer yn yr uned hon. Dylid dilyn yr amodau a amlinellir yn y pecyn asesu o ran cadw'r dystiolaeth yn y portffolio.
Ar gyfer deilliannau'r ymarfer, rhaid bodloni'r gofynion tystiolaeth lleiaf canlynol drwy'r portffolio o dystiolaeth:

- Arsylwi ar y dysgwr yn darparu gwasanaethau sgrinio clyw ar o leiaf deg achlysur.
- Rhaid i dystiolaeth o'r ddogfennaeth a gwblhawyd ar ôl sgrinio clyw gael ei chofnodi'n glir, yn gywir ac yn ddarllenadwy yn unol â pholisïau'r sefydliad/lleoliad.
- Adroddiad adfyfyriol gan y dysgwr yn disgrifio'r gwaith o gynnal prosesau sgrinio clyw, wedi'i lofnodi gan dyst sy'n awdiolegydd.

### Canllawiau cyflwyno

Argymhellir bod yr uned hon yn cael ei chyflwyno a'i hasesu gan y gwasanaeth awdioleg yng Nghymru.
Dylai'r uned hon gael ei chyflwyno mewn ffordd sy'n ymgorffori ac yn adeiladu ar y wybodaeth graidd a ddatblygwyd o fewn y cymhwyster Lefel 2 Craidd, a thrwy gymhwyso'r wybodaeth hon yn ymarferol, a ddangosir drwy'r uned orfodol ymarfer craidd.

Caiff yr uned hon ei chyflwyno a'i hasesu gan y gwasanaeth awdioleg yng Nghymru
**Anghenion ychwanegol** – corfforol, datblygiadol, nam ar y synhwyrau, ymddygiadol/emosiynol

### Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig

- Y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar http://www.ndcs.org.uk/
- GIG Cymru http://www.screeningforlife.wales.nhs.uk
- Cyswllt Teulu Cymru https://contact.org.uk/wales
- Rhaglenni Sgrinio Iechyd Cyhoeddus https://gov.wales/topics/health/protection/public-health-screening/?skip=1&lang=cy
- Sgrinio Clyw Babanod Cymru http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/980/hafan
- Sgrinio am Oes http://www.screeningforlife.wales.nhs.uk/newborn-hearing-screening-wales-w-
- Cefnogi Dysgwyr ag Anghenion Gofal Iechyd – Dogfen ganllaw rhif: 215/2017. Mawrth 2017 https://learning.gov.wales/resources/browse-all/supporting-learners-with-healthcare-needs/?skip=1&lang=cy

© WJEC CBAC Ltd.

## Uned 324 Awtochwistrellu adrenalin

| | |
|---|---|
| **Lefel:** | 3 |
| **ODA:** | 15 |
| **Credyd:** | 3 |
| **Crynodeb o'r Uned:** | Mae'r uned hon yn ymdrin ag egwyddor a defnyddio gwahanol fathau o ddyfeisiau awtochwistrellu fel y gall dysgwyr fod yn hyderus o ran sut i'w rheoli mewn achos o adwaith difrifol.<br>Yng nghyd-destun yr uned hon, mae'r term 'unigolyn' yn cyfeirio at oedolion, plant a phobl ifanc |

### Deilliant dysgu:

1. Helpu i ddefnyddio dyfeisiau awtochwistrellu adrenalin yn ddiogel

### Meini prawf asesu

Rydych chi'n deall:

1.1 Rhesymau dros ragnodi adrenalin awtochwistrellu
1.2 Effaith adrenalin yn y corff ac ar symptomau anaffylacsis
1.3 Manteision ac anfanteision dyfeisiau awtochwistrellu adrenalin
1.4 Mathau o ddyfeisiau awtochwistrellu adrenalin gan gynnwys dosiau sydd ar gael i wahanol grwpiau oedran
1.5 Y rhesymau pam nad yw dyfeisiau awtochwistrellu adrenalin yn addas i wahanol grwpiau oedran o bosibl
1.6 Polisïau, gweithdrefnau a chanllawiau ar gyfer storio a defnyddio dyfeisiau awtochwistrellu adrenalin yn ddiogel mewn sefydliadau/lleoliadau
1.7 Arferion lleol mewn perthynas â storio a chynnal a chadw dyfeisiau awtochwistrellu adrenalin yn ddiogel
1.8 Ble i gael cyngor a chanllawiau ar ddyfeisiau awtochwistrellu adrenalin

Rydych chi'n gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

1.9 Dangos y ffordd gywir o ddefnyddio dyfeisiau awtochwistrellu adrenalin
1.10 Cynghori unigolion/plant a'u teuluoedd/gofalwr ynghylch y camau i'w cymryd ar ôl i ddyfeisiau awtochwistrellu adrenalin gael eu defnyddio
1.11 Cofnodi'r camau a gymerwyd, a rhoi gwybod amdanynt, yn unol â deddfwriaeth a pholisi'r sefydliad/lleoliad

© WJEC CBAC Ltd.

# Uned 324 Awtochwistrellu adrenalin

## Gwybodaeth Ategol

### Gofynion tystiolaeth

Os nad yw'r tasgau cyfannol yn eu hasesu, rhaid cwblhau portffolio o dystiolaeth ar gyfer y deilliannau gwybodaeth ac ymarfer yn yr uned hon. Dylid dilyn yr amodau a amlinellir yn y pecyn asesu o ran cadw'r dystiolaeth yn y portffolio.
Ar gyfer deilliannau'r ymarfer, rhaid bodloni'r gofynion tystiolaeth lleiaf canlynol drwy'r portffolio o dystiolaeth:

- Arsylwi ar y dysgwr yn helpu unigolyn/plentyn drwy ddangos sut i ddefnyddio dyfais awtochwistrellu ar o leiaf tri achlysur – **Dylid efelychu/arddangos y broses o ddefnyddio'r awtochwistrellydd.**

### Canllawiau cyflwyno

Dylai'r uned hon gael ei chyflwyno mewn ffordd sy'n ymgorffori ac yn adeiladu ar y wybodaeth graidd a ddatblygwyd o fewn y cymhwyster Lefel 2 Craidd, a thrwy gymhwyso'r wybodaeth hon yn ymarferol, a ddangosir drwy'r uned orfodol ymarfer craidd.

Rhaid i'r uned gael ei chyflwyno ar ôl neu ochr yn ochr ag uned Lefel 2 'Ymateb i adweithiau anaffylactig' (209).

Drwy gydol deilliant dysgu 2, rhaid i ddysgwyr ystyried oedran a sefyllfa'r plentyn wrth gyfathrebu ag ef, ei deulu/gofalwyr a'i rwydwaith cefnogaeth ehangach. Yn dibynnu ar y sefyllfa, gall fod yn briodol neu'n amhriodol ei gynnwys yn uniongyrchol, ond rhaid ystyried yr iaith a ddefnyddir, y lleoliad, dulliau cyfathrebu ac ati. Dylai'r ffordd mae'r deilliant hwn yn cael ei gyflwyno gysylltu â'r cynnwys yr ymdriniwyd ag ef yn y cymwysterau craidd ar gyfathrebu cadarnhaol a goresgyn rhwystrau a'i ddefnyddio.

**Dyfeisiau awtochwistrellu adrenalin –** dyfais a ddelir yn y llaw i roi dos mesuredig o adrenalin drwy awtochwistrellu. Fe'i defnyddir i drin anaffylacsis. Mae fersiynau brand gwahanol o ddyfeisiau awtochwistrellu adrenalin ar gael (e.e. EpiPen, Jext, Emerade ac ati), ac mae gan bob un ei gweithdrefn ei hun ar gyfer ei defnyddio.

**Manteision ac anfanteision** – gan gynnwys y dosiau sydd ar gael, diogelwch, pa mor hawdd ydynt i'w defnyddio, ystod dyddiad dod i ben.

**Arddangos** – dylai dysgwyr gyfleu sut mae defnyddio'r chwistrellwyr drwy arddangos gan ddefnyddio cyfarpar ffug, h.y. mae efelychu'r broses o ddefnyddio'r chwistrellwyr yn briodol.

**Camau i'w cymryd** – yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r lleoliad/sefydliad ac yn unol â'ch rôl a'ch cyfrifoldebau. Bydd hyn yn cynnwys ceisio sylw meddygol brys, cael gwared ar sbardun yr alergedd, lleoli eich hun mewn ffordd sy'n sicrhau diogelwch wrth aros am gymorth, camau i'w cymryd os bydd adrenalin yn cael ei chwistrellu ar ddamwain.

### Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS) cysylltiedig

- SFHAL13 Galluogi unigolyn i ddefnyddio adrenalin a hunanchwistrellir

© WJEC CBAC Ltd.

## Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig

- EpiPen http://www.epipen.co.uk/patients/epipenr-user-guide
- Jext http://www.jext.co.uk/jext-video-demonstrations.aspx
- Emerade http://www.emerade-bausch.co.uk/patient/how-to-use-emerade
- Cefnogi Dysgwyr ag Anghenion Gofal Iechyd – Dogfen ganllaw rhif: 215/2017. Mawrth 2017 https://learning.gov.wales/resources/browse-all/supporting-learners-with-healthcare-needs/?skip=1&lang=cy
- BSACI (Cymdeithas Alergeddau ac Imiwnoleg Glinigol Prydain), sef sefydliad ar gyfer gweithwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n gofalu am gleifion ag alergeddau – http://www.bsaci.org
- Allergy UK https://www.allergyuk.org/
- Gwefan GIG Cymru – Alergeddau https://www.nhsdirect.wales.nhs.uk/encyclopaedia/ff/article/allergies?locale=cy
- Triniaeth Frys ar gyfer Adweithiau Anaffylactig https://www.resus.org.uk/anaphylaxis/
- GIG Cymru https://www.nhsdirect.wales.nhs.uk/Encyclopaedia/a/article/anaphylaxis/?locale=cy
- Cyngor Dadebru'r DU https://www.resus.org.uk/anaphylaxis/
- Anaphylaxis UK https://www.anaphylaxis.org.uk
- Llywodraeth Cymru: Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well – Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru Ebrill 2010 http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/1064/Gwneud%20yn%20Dda%2C%20Gwneud%20yn%20Well%20%E2%80%93%20Safonau%20ar%20gyfer%20Gwasanaethau%20Iechyd%20Cymru%20%28Ebrill%202010%29.pdf
- Canllawiau NICE https://www.nice.org.uk/about/what-we-do/our-programmes/nice-guidance/nice-diagnostics-guidance
- Safonau Iechyd a Gofal, Llywodraeth Cymru Ebrill 2015 https://gov.wales/docs/dhss/publications/150402standardscy.pdf
- Ansawdd a Diogelwch https://gov.wales/topics/health/improvement/physical/?skip=1&lang=cy

© WJEC CBAC Ltd.

## Uned 325 Cefnogi rhieni newydd a rhieni beichiog

| | |
|---|---|
| **Lefel:** | 3 |
| **ODA:** | 20 |
| **Credyd:** | 4 |
| **Crynodeb o'r Uned:** | Mae'r uned hon yn ymdrin â'r wybodaeth a'r sgiliau ymarferol i alluogi dysgwyr i gefnogi rhieni newydd a rhieni beichiog. Byddan nhw'n meithrin dealltwriaeth o anghenion iechyd a llesiant babanod a'u mamau a'r canllawiau y dylid eu rhoi i rieni newydd a'u rhwydweithiau cefnogaeth. Bydd dysgwyr yn meithrin y sgiliau ymarferol sydd eu hangen i gefnogi rhieni newydd yn effeithio drwy roi cyngor, arweiniad a gwybodaeth am gael gafael ar wasanaethau. |

### Deilliant dysgu:

1. Iechyd a llesiant mewn perthynas â dulliau atal cenhedlu a gofal cyn-geni

### Meini prawf asesu

Rydych chi'n deall:

1.1 Y gwahanol ddulliau atal cenhedlu sydd ar gael
1.2 Y cynlluniau a mentrau presennol mewn perthynas ag atal cenhedlu yng Nghymru
1.3 Y term 'iechyd cyn cenhedlu' a ffyrdd y gellir ei wella
1.4 Pwysigrwydd rhoi cyngor a gwybodaeth gyfredol sy'n seiliedig ar dystiolaeth am ddulliau atal cenhedlu, yn unol â chanllawiau a phrotocolau
1.5 Y rhaglenni cyn-geni a gynigir yng Nghymru
1.6 Manteision mynychu grŵp cyn-geni
1.7 Egwyddorion
- gofal cyn-geni
- gofal menyw-ganolog
- gwneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth mewn perthynas â beichiogrwydd anghymhleth

1.8 Ffactorau addasadwy yn ystod beichiogrwydd a pham mae'n bwysig mynd i'r afael â'r rhain
1.9 Sut y gellir defnyddio ymyriadau byr i fynd i'r afael â ffactorau addasadwy
1.10 Ffactorau risg perthynol a fyddai'n gallu effeithio ar lesiant y fam a'r plentyn yn y groth
- chwalfa deuluol
- cam-drin domestig

1.11 Sut i ddefnyddio'r adnodd trais domestig i asesu risg

Rydych chi'n gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

1.12 Rhoi gwybodaeth a chefnogaeth mewn perthynas ag iechyd cyn cenhedlu, o dan oruchwyliaeth gweithiwr proffesiynol priodol
1.13 Hybu ffyrdd iach o fyw yn ystod beichiogrwydd
1.14 Dilyn canllawiau, polisïau a gweithdrefnau wrth weithio gyda darpar rieni
1.15 Cydhwyluso sesiynau ymyrryd byr
1.16 Cydhwyluso sesiynau grŵp cyn-geni

© WJEC CBAC Ltd.

---

## Deilliant dysgu:

2. Canllawiau mewn perthynas â chyngor a gwybodaeth i rieni am iechyd a llesiant babanod newydd-anedig

## Meini prawf asesu

Rydych yn gwybod:
2.1 Canllawiau cenedlaethol a pholisïau lleol, a phrotocolau sy'n gysylltiedig â rhoi cyngor a gwybodaeth i rieni/gofalwyr ynghylch iechyd a llesiant babanod newydd-anedig
2.2 Gweithwyr proffesiynol a gwasanaethau/asiantaethau a fyddai'n gallu rhoi cyngor a chefnogaeth i rieni
2.3 Canllawiau cenedlaethol a pholisïau lleol ar gyfer diogelwch plant
2.4 Hawliau a chyfrifoldebau rhieni dros eu plant fel y'u diffinnir o dan Ddeddf Plant 1989

---

## Deilliant dysgu:

3. Y gofynion o ran iechyd a llesiant babanod newydd-anedig a'u rhieni

## Meini prawf asesu

Rydych yn deall:
3.1 Anghenion babanod ar wahanol gamau datblygiad corfforol, cymdeithasol, emosiynol a gwybyddol
3.2 Tueddiadau a newidiadau mewn perthynas â gofalu am fabanod newydd-anedig
3.3 Ffyrdd y gall dilyn ffordd iach o fyw alluogi rhieni i hybu eu hiechyd a'u llesiant eu hunain, ac iechyd a llesiant eu babanod
3.4 Manteision grymuso rhieni i reoli gofal eu babanod
3.5 Pwysigrwydd gorffwys a chwsg i fabanod newydd-anedig
3.6 Egwyddorion ac ymarfer mewn perthynas â bwydo babanod yn ystod blwyddyn gyntaf eu bywydau
3.7 Ffyrdd y gall anghenion babanod newydd-anedig effeithio ar y rhai sy'n gofalu amdanynt
3.8 Effeithiau posibl y teulu a'r amgylchedd, gan gynnwys gallu'r rhieni, ar iechyd a llesiant babanod
3.9 Y ffactorau sy'n cynyddu'r risg o niwed sylweddol i fabanod newydd-anedig
3.10 Y broses ar gyfer ymateb i bryderon babanod newydd-anedig sy'n wynebu risg o niwed sylweddol

---

## Deilliant dysgu:

4. Rhoi cyngor i rieni ar ddiwallu anghenion iechyd a llesiant babanod newydd-anedig

## Meini prawf asesu

Rydych yn gwybod:
4.1 Pwrpas eich rôl eich hun i rieni
4.2 Pwysigrwydd cadarnhau bod y rhieni'n deall sut i hybu a diogelu iechyd a llesiant eu baban

© WJEC CBAC Ltd.

Rydych chi'n gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

4.3 Grymuso rhieni i nodi sut y gallen nhw gael cefnogaeth i hybu a diogelu iechyd a llesiant eu baban
4.4 Rhoi gwybodaeth mewn ffordd sy'n galluogi rhieni i wneud dewisiadau hyddysg am ofal eu baban
4.5 Trafod â rhieni newidiadau posibl i'w ffordd o fyw a fydd yn gwella eu gallu i reoli eu cyfrifoldebau rhianta
4.6 Helpu rhieni i ddatblygu cynlluniau realistig a chyraeddadwy ar gyfer hybu a diogelu iechyd a llesiant eu baban
4.7 Rhoi gwybodaeth am sut i gael gafael ar wasanaethau, gwybodaeth ac adnoddau eraill sydd ar gael yn lleol neu'n genedlaethol i rieni, gan gynnwys argaeledd gwasanaethau cynllunio teulu
4.8 Diweddaru cofnodion yn unol â pholisi a phrotocol lleol
4.9 Cytuno ar ddyddiadau ar gyfer adolygu cynnydd cynlluniau a gofynion pellach

© WJEC CBAC Ltd.

# Uned 325 Cefnogi rhieni newydd a rhieni beichiog

## Gwybodaeth Ategol

### Gofynion tystiolaeth

Os nad yw'r tasgau cyfannol yn eu hasesu, rhaid cwblhau portffolio o dystiolaeth ar gyfer y deilliannau gwybodaeth ac ymarfer yn yr uned hon. Dylid dilyn yr amodau a amlinellir yn y pecyn asesu o ran cadw'r dystiolaeth yn y portffolio.
Ar gyfer deilliannau'r ymarfer, rhaid bodloni'r gofynion tystiolaeth lleiaf canlynol drwy'r portffolio o dystiolaeth:

- Dylid arsylwi ar y dysgwr yn rhoi cefnogaeth i riant yn ystod gofal cyn-geni ac yn cefnogi rhieni â baban newydd-anedig (y 7 diwrnod cyntaf).
- Arsylwi ar y dysgwr yn cefnogi rhieni newydd.
- Tystiolaeth o ddogfennau/cofnodion sydd wedi'u cwblhau'n glir, yn gywir ac yn ddarllenadwy.

### Canllawiau cyflwyno

Dylai'r uned hon gael ei chyflwyno mewn ffordd sy'n ymgorffori ac yn adeiladu ar y wybodaeth graidd a ddatblygwyd o fewn y cymhwyster Lefel 2 Craidd, a thrwy gymhwyso'r wybodaeth hon yn ymarferol, a ddangosir drwy'r uned orfodol ymarfer craidd.
Mae cyfeiriadau at rieni yn yr uned hon yn cwmpasu gofalwyr a gwarcheidwaid lle y bo'n berthnasol. Gall fod sefyllfaoedd penodol lle y bydd angen i gefnogaeth gael ei roi gan ofalwr neu warcheidwad yn hytrach na'r rhiant biolegol.

**Ymyriadau byr:** rhaglen un i un er mwyn mynd i'r afael â ffactorau addasadwy neu gyfyngu arnynt

Mae **iechyd cyn cenhedlu** yn cynnwys maeth, cynnal pwysau iach, defnydd o gyffuriau ac alcohol, cyflyrau meddygol sydd eisoes yn bodoli a meddyginiaeth, imiwneiddio, sylweddau gwenwynig a halogion amgylcheddol, trais, pryderon ynghylch iechyd meddwl a rhoi'r gorau i ddefnyddio dulliau atal cenhedlu

**Egwyddorion gofal mamol** (gofal cyn-geni, gofal menyw ganolog, gwneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth ar gyfer beichiogrwydd anghymhleth) gan gynnwys darparu gwybodaeth, darparu a threfnu gofal, ffyrdd o fyw, rheoli symptomau cyffredin beichiogrwydd, archwiliadau clinigol, sgrinio, twf a llesiant y ffetws

**Ffactorau addasadwy (ffyrdd iach o fyw yn ystod beichiogrwydd):** deiet a fitaminau, asid ffolig, iechyd a llesiant emosiynol, rhoi'r gorau i ysmygu/amgylchedd di-fwg, defnyddio a chamddefnyddio sylweddau, diffyg gweithgarwch corfforol, heintiau a drosglwyddir yn rhywiol

**Ffyrdd iach o fyw** – gall ffyrdd iach o fyw gynnwys deiet, maeth, ymarfer corff, gorffwys, rheoli straen

**Newidiadau i ffordd o fyw** – gall newidiadau i ffordd o fyw gynnwys cyfeiriadau at ysmygu, yfed llai o alcohol, cyffuriau adloniant

© WJEC CBAC Ltd.

## Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS) cysylltiedig

- SCDCCLD0322 Grymuso teuluoedd drwy feithrin sgiliau rhianta
- SCDCCLD0330 Cynnal gwasanaeth i blant a theuluoedd

## Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig

- Deddf Plant 1989 https://www.legislation.gov.uk/ukpga/1989/41/contents
- Y Ddeddf Plant (2004) http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2004/31/contents
- Y Ddeddf Gofal Plant (2006) http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2006/21/contents
- 'Plant a Phobl Ifanc: Gweithredu'r Hawliau' (2004) http://www.cynulliad.cymru/Committee%20Documents/HSS(2)-02-04%20Paper%201%20%20Children%20and%20Young%20People%20Rights%20to%20Action-04022004-14558/n000000000000000000000000000016990-Cymraeg.pdf
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) (Daeth i rym yn
- y DU yn 1992) http://www.unicef.org.uk/UNICEFs-Work/Our-mission/UN-Convention/
- Dulliau atal cenhedlu https://www.nhsdirect.wales.nhs.uk/LifestyleWellbeing/Sexualhealthcontraception/
- Canllawiau'r GIG http://www.nhs.uk/conditions/pregnancy-and-baby/pages/pregnancy-and-baby-care.aspx
- Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: Iechyd meddwl amenedigol yng Nghymru (2017) http://www.assembly.wales/laid%20documents/cr-ld11234/cr-ld11234-w.pdf
- Cyrsiau Cyn-geni y Cyngor Nyrsio Brenhinol https://www.nct.org.uk/courses-and-workshops/antenatal
- Adroddiad blynyddol Sgrinio Cyn Geni Cymru (2017) http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/newyddion/46792
- Rhaglen Plant Iach Cymru https://gov.wales/docs/dhss/publications/160926healthy-childrency.pdf
- Cynyddu gwytnwch – pwysigrwydd chwarae (2015) http://www.chwaraecymru.org.uk/login/uploaded/documents/INFORMATION%20SHEETS/Cynyddu%20gwytnwch.pdf
- Naw Mis a Mwy http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/861/Naw%20Mis%20a%20Mwy%20Fersiwn%202%20April%202015.pdf
- Mae addysg yn dechrau yn y cartref https://gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/parents/education-begins-at-home/?lang=cy
- Dechrau'n Deg https://gov.wales/topics/people-and-communities/people/children-and-young-people/parenting-support-guidance/help/flyingstart/?skip=1&lang=cy
- Canllawiau NICE ar Iechyd Cyn Cenhedlu https://cks.nice.org.uk/pre-conception-advice-and-management
- Gwybodaeth Sefydliad Iechyd y Byd am ofal cyn cenhedlu http://www.who.int/maternal_child_adolescent/documents/preconception_care_policy_brief.pdf
- Coleg Brenhinol y Bydwragedd https://www.rcm.org.uk/sites/default/files/Emotional%20Wellbeing_Guide_WEB.pdf
- Canllawiau'r GIG http://www.nhs.uk/conditions/pregnancy-and-baby/pages/pregnancy-and-baby-care.aspx
- Ymlyniad http://www.suttontrust.com/wp-content/uploads/2014/03/baby-bonds-final.pdf
- Menter Cyfeillgar i Fabanod UNICEF https://www.unicef.org.uk/babyfriendly/what-is-baby-friendly/

© WJEC CBAC Ltd.

- Cwsg http://www.unicef.org.uk/BabyFriendly/Resources/Resources-for-parents/Caring-for-your-baby-at-night/
- Cychwyn Iach http://www.healthystart.nhs.uk
- Cymdeithas Ddeieteg Prydain (Ffeithiau am Fwyd) https://www.bda.uk.com/
- First Steps Nutrition Trust https://www.firststepsnutrition.org/
- Lleihau'r risg o farwolaeth yn y crud https://gov.wales/docs/dsjlg/publications/cyp/140320-reduce-risk-cot-death-cy.pdf
- The lullaby trust https://www.lullabytrust.org.uk/safer-sleep-advice/
- Y GIG – Faint o gwsg sydd ei angen ar blant? http://www.nhs.uk/Livewell/Childrenssleep/Pages/howmuchsleep.aspx
- Y GIG – Cyngor ar gwsg iach i blant http://www.nhs.uk/Livewell/Childrenssleep/Pages/bedtimeritual.aspx
- Adolygiad cyflym o'r dystiolaeth ar gwsg babanod a phlant http://www.healthscotland.com/uploads/documents/23540-SleepRapidEvidenceReviewWriteUp.pdf
- 'Safe Sleep for your baby' http://www.phac-aspc.gc.ca/hp-ps/dca-dea/stages-etapes/childhood-enfance_0-2/sids/ss-eng.php
- 'All About… Sleep' http://www.nurseryworld.co.uk/digital_assets/409/029_All-about.pdf
- Hanfodion cwsg da http://www.babycentre.co.uk/c25004253/basics-of-good-sleep
- 'Sleep Well, Sleep Safe' http://www.beststart.org/resources/hlthy_chld_dev/pdf/BSRC_Sleep_Well_resource_FNL_LR.pdf
- Janet Moyles, Chwarae a'r blynyddoedd cynnar: genedigaeth i saith oed (2013) http://www.playwales.org.uk/login/uploaded/documents/INFORMATION%20SHEETS/chwarae%20ar%20blynyddoedd%20cynnar.pdf

© WJEC CBAC Ltd.

# Uned 326 Cyflwyniad i ofal plant yn y cartref

| | |
|---|---|
| **Lefel:** | 3 |
| **ODA:** | 40 |
| **Credyd:** | 6 |
| **Crynodeb o'r Uned:** | Mae'r uned hon yn addas ar gyfer darpar warchodwyr plant, cynorthwywyr gwarchod plant neu nanis yng Nghymru. Mae'n rhoi cyflwyniad i ofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant yn y cartref. |

## Deilliant dysgu:

1. Gofynion deddfwriaeth, polisïau cenedlaethol, canllawiau a fframweithiau rheoleiddio ar gyfer gofal plant yn y cartref yng Nghymru

## Meini prawf asesu

Rydych chi'n deall:

1.1 Y ddeddfwriaeth, polisïau cenedlaethol, canllawiau a fframweithiau sy'n ategu gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant mewn gofal plant yn y cartref yng Nghymru
1.2 Pwysigrwydd glynu wrth ddeddfwriaeth, polisïau cenedlaethol, canllawiau a fframweithiau ym maes gofal plant yn y cartref
1.3 Pwysigrwydd dull seiliedig ar hawliau mewn gofal plant yn y cartref
1.4 Sut mae deddfwriaeth a pholisïau cenedlaethol yng Nghymru yn sail i ddull seiliedig ar hawliau

---

## Deilliant dysgu:

2. Gweithio mewn partneriaeth â theuluoedd/gofalwyr mewn gofal plant yn y cartref

## Meini prawf asesu

Rydych chi'n deall:

2.1 Pwysigrwydd meithrin perthnasoedd cadarnhaol â theuluoedd/gofalwyr, eu cynnwys yng ngofal eu plentyn a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt
2.2 Ffyrdd y gellir hybu gwasanaeth gofal plant yn y cartref i deuluoedd/gofalwyr a ffynonellau cefnogaeth
2.3 Pwrpas rhoi gwybodaeth i deuluoedd/gofalwyr am wasanaeth gofal plant yn y cartref
2.4 Pwysigrwydd cytuno ar gontract gyda theuluoedd/gofalwyr, ei ddefnyddio a'i adolygu
2.5 Ffyrdd y gellir cyfathrebu, cofnodi a rhannu **gwybodaeth am y plentyn** rhwng y gwasanaeth gofal plant yn y cartref a rhieni/gofalwyr

## Amrediad

**Gwybodaeth am y plentyn**: dylai gynnwys gwybodaeth bersonol/teuluol a ffurflenni cofnodion y plentyn ond hefyd wybodaeth arall fel dyddiaduron dyddiol a chofnodion damweiniau/digwyddiadau a meddyginiaeth

© WJEC CBAC Ltd.

---

## Deilliant dysgu:

3. Iechyd a llesiant mewn gofal plant yn y cartref

### Meini prawf asesu

Rydych chi'n deall:

3.1 Y mathau o ddamweiniau, digwyddiadau, argyfyngau a pheryglon iechyd a diogelwch a fyddai'n gallu digwydd mewn gofal plant yn y cartref
3.2 Sut y gellir defnyddio asesiadau risg i gefnogi iechyd a llesiant ym maes gofal plant yn y cartref
3.3 Beth yw ystyr y term diogelu
3.4 Y prif gategorïau o gam-drin ac esgeulustod ac arwyddion a symptomau sy'n gysylltiedig â phob categori
3.5 Rôl a chyfrifoldebau darparwyr gofal plant yn y cartref mewn perthynas â diogelu gan gynnwys prosesau mewn perthynas â datgeliadau a/neu honiadau
3.6 Ffyrdd o ddiogelu plant gan eich amddiffyn eich hun a/neu eraill rhag honiadau o niwed neu gam-drin ar yr un pryd mewn lleoliad yn y cartref
3.7 Pwysigrwydd cefnogi plant i gael deiet cytbwys a hydradu da mewn gofal plant yn y cartref

---

## Deilliant dysgu:

4. Arferion, newidiadau a chyfnodau trawsnewid ym maes gofal plant yn y cartref

### Meini prawf asesu

Rydych chi'n deall:

4.1 Y mathau o arferion ym maes gofal plant yn y cartref sy'n cefnogi twf a datblygiad plant, a manteision yr arferion hynny
4.2 Pwysigrwydd gweithio gyda theuluoedd/gofalwyr i sicrhau bod anghenion a dewisiadau unigol plant yn cael eu bodloni drwy arferion y cytunwyd arnynt
4.3 Pwysigrwydd addasu arferion mewn lleoliad gofal plant yn y cartref
4.4 Cyfnodau o newid a thrawsnewid a fyddai'n gallu digwydd ym mywyd plentyn
4.5 Ffyrdd o gefnogi plant gyda newid a thrawsnewid

---

## Deilliant dysgu:

5. Datblygiad cyfannol plant mewn gofal plant yn y cartref

### Meini prawf asesu

Rydych chi'n deall:

5.1 Cyfnodau a dilyniannau datblygiad plant a ffactorau a fyddai'n gallu effeithio ar allu plant i gyflawni canlyniadau disgwyliedig
5.2 Pwysigrwydd arsylwi ar ddatblygiad plentyn, ei fonitro a'i gofnodi, a chynllunio ar gyfer camau nesaf ei ddatblygiad
5.3 Pwysigrwydd chwarae ym maes gofal plant yn y cartref
5.4 Pwysigrwydd taro cydbwysedd mewn perthynas â chymryd risgiau er mwyn cefnogi datblygiad cyfannol plant
5.5 Pwysigrwydd sicrhau cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau a phrofiadau sy'n cefnogi datblygiad cyfannol mewn gofal plant yn y cartref

© WJEC CBAC Ltd.

5.6 Ffyrdd y gellir defnyddio amgylcheddau gofal plant yn y cartref i gefnogi chwarae drwy brofiad ar gyfer plant
5.7 Y ffordd y gall gofal plant yn y cartref hybu ac annog ymddygiad cadarnhaol gan blant drwy ddefnyddio dulliau cadarnhaol
5.8 Pwysigrwydd ymarfer plentyn-ganolog mewn gofal plant yn y cartref
5.9 Pwysigrwydd hybu cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant mewn gofal plant yn y cartref
5.10 Y mathau o anghenion cefnogi ychwanegol a fyddai'n gallu bod gan blant
5.11 Sut gellir addasu gweithgareddau a phrofiadau bob dydd er mwyn sicrhau dull gweithredu cynhwysol ar gyfer plant ag anghenion cefnogi ychwanegol mewn lleoliad yn y cartref

---

## Deilliant dysgu:

6. Y Gymraeg a diwylliant Cymru

## Meini prawf asesu

Rydych chi'n deall:
6.1 Pwysigrwydd cydnabod a chefnogi'r Gymraeg a diwylliant Cymru ym maes gofal plant yn y cartref
6.2 Pwysigrwydd cefnogi cyfleoedd a gweithgareddau sy'n meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth plant o'r Gymraeg a diwylliant Cymru
6.3 Ffyrdd y gall amgylchedd gofal plant yn y cartref gynnig cyfleoedd i blant ddefnyddio a phrofi'r Gymraeg a thraddodiadau a dathliadau diwylliannol Cymreig

---

## Deilliant dysgu:

7. Ymarfer proffesiynol ym maes gofal plant yn y cartref

## Meini prawf asesu

Rydych chi'n deall:
7.1 Pwysigrwydd adfyfyrio a sut i'w ddefnyddio i wella eich ymarfer
7.2 Pwysigrwydd nodi gofynion a chyfleoedd datblygiad proffesiynol parhaus
7.3 Pryd a sut i geisio cefnogaeth ym maes gofal plant yn y cartref
7.4 Pwysigrwydd meithrin perthnasoedd â gweithwyr proffesiynol eraill
7.5 Pwysigrwydd ymddwyn mewn ffyrdd na fyddai'n codi amheuaeth ynghylch eich addasrwydd i weithio ym maes gofal plant yn y cartref
7.6 Pwysigrwydd cyfrinachedd ym maes gofal plant yn y cartref
7.7 Ffyrdd o gofnodi a storio gwybodaeth ym maes gofal plant yn y cartref

© WJEC CBAC Ltd.

# Uned 326 Cyflwyniad i ofal plant yn y cartref

## Gwybodaeth Ategol

### Gofynion tystiolaeth

Bydd angen portffolio o dystiolaeth ar gyfer yr uned hon

### Canllawiau cyflwyno

Rhaid i ddysgwyr gwblhau Uned 326 – Cyflwyniad i ofal plant yn y cartref cyn dechrau Uned 327 – Paratoi ar gyfer Ymarfer ym maes Gwarchod Plant

**Damweiniau, digwyddiadau, argyfyngau a pheryglon iechyd a diogelwch:**
Damweiniau: Rhywbeth sy'n digwydd yn annisgwyl ac yn anfwriadol, gan arwain at ddifrod neu anaf fel arfer, e.e. plentyn yn cwympo.
Digwyddiad(au): Achos(ion) lle y bydd rhywbeth yn digwydd; digwyddiad untro, e.e. rhiant heb gasglu plentyn o'r lleoliad.
Argyfyngau: Sefyllfaoedd difrifol, annisgwyl lle mae angen gweithredu ar unwaith, e.e. plentyn ar goll.
Peryglon diogelwch: Perygl neu risg

**Gweithgareddau a phrofiadau**: Mae'n cyfeirio at weithgareddau chwarae, dysgu a hamdden sy'n addas i ddewisiadau, anghenion a galluoedd y plentyn neu berson ifanc rydych yn gweithio gydag ef, fel chwarae yn yr awyr agored, chwarae rhydd, chwarae rôl, gwneud marciau, chwarae â thoes, sgipio, pêl-droed, darllen ac dweud stori, gweithgareddau TGCh, celf a chrefft.

Gallai **anghenion cefnogi ychwanegol:** gallai hyn gynnwys:
- Anabledd corfforol
- anabledd dysgu
- Awtistiaeth
- Anawsterau lleferydd, iaith a chyfathrebu
- colled synhwyraidd
- anawsterau emosiynol ac ymddygiadol
- Dyslecsia
- Dyspracsia
- Mwy abl a thalentog

Mae **datblygiad cyfannol** yn cyfeirio at blant yn meithrin sgiliau a'r cymhwysedd i feithrin eu sgiliau corfforol, cymdeithasol, emosiynol, gwybyddol ac ieithyddol

**Amgylcheddau gofal plant yn y cartref:** Amgylcheddau lle mae gwarchodwr plant, nani neu ddarparwr arall gofal plant yn y cartref yn darparu gwasanaeth. Mae hyn yn cynnwys yr amgylcheddau y tu mewn i'r lleoliad a'r tu allan iddo, ac yn y gymuned.

**Deddfwriaeth, polisïau cenedlaethol, canllawiau a fframweithiau:** gweler y ddeddfwriaeth a'r canllawiau cenedlaethol isod

Byddai **eraill** yn cynnwys cydweithwyr, gweithwyr neu weithwyr proffesiynol eraill a theuluoedd/gofalwyr y daw unigolion i gysylltiad â nhw wrth ofalu am blentyn a'i gefnogi.

© WJEC CBAC Ltd.

Mae **dulliau gweithredu cadarnhaol** yn golygu gweithio gyda'r plentyn a'i systemau cefnogaeth er mwyn:

- ceisio deall beth mae rhywun yn ei deimlo a pham ei fod yn ymateb fel y mae
- lle bo modd, gwneud unrhyw newidiadau sydd eu hangen ac ymyrryd yn gynnar yn y broses er mwyn ceisio atal sefyllfaoedd anodd yn y lle cyntaf
- deall beth sydd angen ei gynllunio a'i gyflwyno er mwyn cynorthwyo'r plentyn i reoli gofid a dicter mewn ffordd sy'n lleihau'r angen i ymddwyn mewn ffordd sy'n herio unrhyw gyfyngiadau.

Mae **gweithwyr proffesiynol** yn cynnwys cydweithwyr, gweithwyr neu weithwyr proffesiynol eraill y daw unigolion i gysylltiad â nhw wrth ofalu am blentyn a'i gefnogi.

**Trefn arferol mewn gofal plant yn y cartref:** Arferion gofal personol – yn dibynnu ar oedran y plentyn, arferion dyddiol ac arferion llai rheolaidd mewn gofal plant yn y cartref.

**Mathau o chwarae:** gallai hyn gynnwys:

- chwarae'n greadigol
- chwarae corfforol
- chwarae dychmygol/dychmygu neu chwarae rôl
- chwarae amgylcheddol
- chwarae mewn amgylchedd strwythuredig
- chwarae anstrwythuredig
- chwarae hunangyfeiriedig
- chwarae wedi'i hwyluso gan oedolyn.

## Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS) cysylltiedig

- SCD CCLD 0203: Cefnogi datblygiad plant a phobl ifanc
- SCD CCLD 0206: Cefnogi plant i ddysgu drwy chwarae
- SCD CCLD 0209: Cefnogi plentyn ag anghenion cefnogi ychwanegol
- SCD HSC 0034: Hybu'r gwaith o ddiogelu plant a phobl ifanc
- SCD CCLD 0303: Hybu datblygiad plant a phobl ifanc
- SCD CCLD 0320: Gofalu am blant gartref
- SCD CCLD 0328: Rheoli busnes gofal plant ar raddfa fach
- SCD CCLD 0330: Cynnal gwasanaeth i blant a theuluoedd

## Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig

- Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair: Cynllun Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (2013) Llywodraeth Cymru
  **https://gov.wales/docs/dcells/publications/130716-building-brighter-future-cy.pdf**
- Fframwaith y Cyfnod Sylfaen (Diwygiedig 2015)
  **https://gov.wales/docs/dcells/publications/150803-fp-framework-cy.pdf**
- Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 – Mae a wnelo Rhan 4 â chwarae a chyfranogiad a'r gofyniad i awdurdodau lleol gyflawni Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae.
  https://www.legislation.gov.uk/mwa/2010/1/part/4/enacted/welsh
- Rheoliadau Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae (Cymru) 2012
  http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2012/2555/regulation/3/made/welsh
- Deddf Gofal Plant 2006 http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2006/21/contents a Rheoliadau Deddf Gofal Plant 2006 (Asesiadau Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2016
  http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2016/88/contents/made/welsh – gofynion yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant a luniwyd gan awdurdodau lleol.

© WJEC CBAC Ltd.

- Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir yng Nghymru (2016) https://careinspectorate.wales/sites/default/files/2018-01/160411regchildcarecy.pdf
- Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru), 2016 http://www.senedd.cynulliad.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=16496
- 2002 'Study of Pedagogical Effectiveness in Early Learning' (SPEEL), Moyles, J., Adams, S. a Musgrove, A 2002, Ysgol Ymchwil a Datblygu Addysg Prifysgol Bolytechnig Anglia https://dera.ioe.ac.uk/4591/1/RR363.pdf
- Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru (2015) - Adolygiad Donaldson https://gov.wales/docs/dcells/publications/150225-successful-futures-cy.pdf
- Mwy na Geiriau (2012) https://gov.wales/topics/health/publications/health/guidance/words/?skip=1&lang=cy
- Strategaeth y Gymraeg: Iaith fyw: iaith byw (2012 i 2017). https://gov.wales/topics/welshlanguage/welsh-language-strategy-and-policies/welsh-language-policies-upto-2017/a-living-language-a-language-for-living-strategy-2012-2017/?skip=1&lang=cy
- Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 http://www.legislation.gov.uk/cy/mwa/2011/1/contents/enacted/welsh
- Deddf Plant 1989 http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1989/41/contents
- Deddf Plant 2004 http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2004/31/contents
- Canllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan (2008) http://www.plantyngnghymru.org.uk/polisi-document/canllawiau-amddiffyn-plant-cymru-gyfan-2008/
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) (Daeth i rym yn y DU yn 1992) http://www.unicef.org.uk/UNICEFs-Work/Our-mission/UN-Convention/
- Atal a Rheoli Heintiau ar gyfer Lleoliadau Gofal Plant (2015) https://www.documents.hps.scot.nhs.uk/hai/infection-control/guidelines/infection-prevention-control-childcare-2015-v2.pdf
- Bwyd a Maeth mewn Lleoliadau Gofal Plant (2018) https://beta.llyw.cymru/bwyd-maeth-mewn-lleoliadau-gofal-plant?_ga=2.183827558.1974554941.1550481483-1664962502.1550234187
- Chwarae Cymru, Arfer adfyfyriol – beth ydi o a pham ei fod mor bwysig? (2018) https://issuu.com/playwales/docs/arfer_myfyriol
- Gweithdrefnau Diogelu Cymru (2019) **http://www.myguideapps.com/projects/wales_safeguarding_procedures/default/**
- Canllawiau Diogelu Llywodraeth Cymru https://gov.wales/safeguarding-guidance


© WJEC CBAC Ltd.

## Uned 327 Paratoi ar gyfer ymarfer ym maes gwarchod plant

| | |
|---|---|
| **Lefel:** | 3 |
| **ODA:** | 25 |
| **Credyd:** | 4 |
| **Crynodeb o'r Uned:** | Mae'r uned hon yn addas ar gyfer darpar warchodwyr plant yng Nghymru. Mae'n rhoi cyflwyniad i ofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant ac yn meithrin gwybodaeth darpar warchodwyr plant er mwyn eu helpu i baratoi ar gyfer cofrestru. |

### Deilliant dysgu:

1. Cofrestru fel gwarchodwr plant yng Nghymru

### Meini prawf asesu

Rydych chi'n deall:

1.1 Rôl, cyfrifoldebau ac atebolrwydd gwarchodwr plant
1.2 Y broses ar gyfer cofrestru fel gwarchodwr plant yng Nghymru
1.3 Pwysigrwydd 'Datganiad o Bwrpas' a sut mae'n adlewyrchu'r gwasanaeth gwarchod plant sy'n cael ei ddarparu
1.4 Y polisïau a gweithdrefnau perthnasol mae angen eu datblygu er mwyn bodloni gofynion rheoleiddiol ar gyfer gwasanaeth gwarchod plant a'u pwysigrwydd
1.5 Pwysigrwydd cael yswiriant priodol ar gyfer gwasanaeth gwarchod plant
1.6 Ffynonellau o gefnogaeth a gwybodaeth ar gyfer sefydlu a rhedeg gwasanaeth gwarchod plant

### Deilliant dysgu:

2. Ymarfer proffesiynol ym maes gwarchod plant

### Meini prawf asesu

Rydych chi'n deall:

2.1 Ffyrdd y gellir ymgorffori dull gweithredu seiliedig ar hawliau mewn ymarfer ym maes gwarchod plant a pham mae hyn yn bwysig
2.2 Sut y gall gwarchodwr plant weithio gyda theuluoedd/gofalwyr i sicrhau bod anghenion unigol plant yn cael eu diwallu a bod eu dewisiadau'n cael eu bodloni
2.3 Ffyrdd y gall gwarchodwr plant arsylwi ar ddatblygiad plentyn, ei fonitro a'i gofnodi, a chynllunio ar gyfer camau nesaf ei ddatblygiad
2.4 Pwysigrwydd adolygu ansawdd ac ymarfer adfyfyriol a sut mae'n bosibl gweithredu hyn mewn lleoliad gwarchod plant
2.5 Ffyrdd y gall gwarchodwr plant ddefnyddio adborth i gefnogi'r broses o ddatblygu ansawdd
2.6 Pwysigrwydd ymgysylltu â gweithwyr proffesiynol eraill er mwyn cefnogi datblygiad proffesiynol parhaus mewn gwasanaeth gwarchod plant
2.7 Pwysigrwydd rheoli a chofnodi cwynion

© WJEC CBAC Ltd.

## Deilliant dysgu:

3. Iechyd a llesiant mewn lleoliad gwarchod plant

## Meini prawf asesu

Rydych yn deall

3.1 Pwysigrwydd ymarfer diogel er mwyn sicrhau diogelwch plant mewn gwasanaeth gwarchod plant
3.2 Y mathau o gofnodion sydd eu hangen i gefnogi ymarfer diogel mewn gwasanaeth gwarchod plant
3.3 Pwysigrwydd cael caniatâd ysgrifenedig gan deuluoedd/gofalwyr a'r amgylchiadau lle mae angen caniatâd ysgrifenedig mewn gwasanaeth gwarchod plant
3.4 Rolau a chyfrifoldebau gwarchodwr plant a phobl eraill o ran atal a rheoli heintiau
3.5 Rôl a chyfrifoldebau gwarchodwr plant a phobl eraill o ran diogelwch bwyd
3.6 Ffyrdd y gall gwarchodwr plant weithio i gefnogi plant i gael deiet cytbwys a hydradu da
3.7 Rolau a chyfrifoldebau gwarchodwr plant a phobl eraill mewn perthynas â rhoi a storio meddyginiaeth
3.8 Ffyrdd y gall gwarchodwr plant weithio wrth gyflawni, cofnodi ac adolygu asesiadau risg
3.9 Pwysigrwydd gadael mewn argyfwng mewn lleoliad gwarchod plant

---

## Deilliant dysgu:

4. Gwaith cynllunio busnes effeithiol ar gyfer gwasanaeth gwarchod plant

## Meini prawf asesu

Rydych chi'n deall:

4.1 Pwysigrwydd datblygu cynllun gweithredol ar gyfer gwasanaeth gwarchod plant
4.2 Pwysigrwydd gwaith cynllunio ariannol ar gyfer gwasanaeth gwarchod plant
4.3 Ffyrdd y gall gwarchodwr plant weithio i sicrhau gwaith rheoli ariannol priodol mewn gwasanaeth gwarchod plant
4.4 Ffyrdd y gall gwarchodwr plant hybu a thyfu gwasanaeth gwarchod plant

© WJEC CBAC Ltd.

# Uned 327 Paratoi ar gyfer ymarfer ym maes gwarchod plant

## Gwybodaeth Ategol

### Gofynion tystiolaeth

Trafodaethau proffesiynol yn seiliedig ar bortffolio o waith a gwblheir er mwyn helpu i gofrestru fel gwarchodwr plant yng Nghymru

### Canllawiau cyflwyno

Rhaid i ddysgwyr gwblhau Uned 326 – Cyflwyniad i ofal plant yn y cartref cyn dechrau Uned 327 – Paratoi ar gyfer Ymarfer ym maes Gwarchod Plant

Gallai **rheoli ariannol** gynnwys CThEF; anfonebu, talu a chasglu ffioedd; system/prosesau a gweithdrefnau cyfrifyddu; Systemau TG

Byddai **eraill** yn cynnwys cydweithwyr, gweithwyr neu weithwyr proffesiynol eraill a theuluoedd/gofalwyr y daw unigolion i gysylltiad â nhw wrth ofalu am blentyn a'i gefnogi.

Mae **gweithwyr proffesiynol** yn cynnwys cydweithwyr, gweithwyr neu weithwyr proffesiynol eraill y daw unigolion i gysylltiad â nhw wrth ofalu am blentyn a'i gefnogi.

**Polisïau a gweithdrefnau:** y rhain fyddai'r polisïau a'r gweithdrefnau sy'n ofynnol gan y rheoleiddiwr.

**Datganiad o Bwrpas:** dyma ddogfen sydd ei hangen at bwrpasau rheoleiddio ac sy'n nodi'r hyn y bydd y gwasanaeth yn ei ddarparu.

**Ymarfer diogel:** mae hyn yn cynnwys ymarfer diogel y tu mewn i'r lleoliad gwarchod plant a'r tu allan iddo. Mae hyn hefyd yn cynnwys mynediad i'r lleoliad, mewngofnodi ac allgofnodi plant, llyfr ymwelwyr ac ati.

**Mathau o gofnodion:** cofnod damweiniau/digwyddiadau a meddyginiaeth, cofrestr presenoldeb, llyfr ymwelwyr, caniatâd rhieni

### Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS) cysylltiedig

- SCD CCLD 0203: Cefnogi datblygiad plant a phobl ifanc
- SCD CCLD 0206: Cefnogi plant i ddysgu drwy chwarae
- SCD CCLD 0209: Cefnogi plentyn ag anghenion cefnogi ychwanegol
- SCD CCLD 0320: Gofalu am blant gartref
- SCD CCLD 0328: Rheoli busnes gofal plant ar raddfa fach
- SCD CCLD 0330: Cynnal gwasanaeth i blant a theuluoedd

© WJEC CBAC Ltd.

## Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig

- Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair: Cynllun Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (2013) Llywodraeth Cymru **https://gov.wales/docs/dcells/publications/130716-building-brighter-future-cy.pdf**
- Fframwaith y Cyfnod Sylfaen (Diwygiedig 2015) **https://gov.wales/docs/dcells/publications/150803-fp-framework-cy.pdf**
- Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 – Mae a wnelo Rhan 4 â chwarae a chyfranogiad a'r gofyniad i awdurdodau lleol gyflawni Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae. https://www.legislation.gov.uk/mwa/2010/1/part/4/enacted/welsh
- Rheoliadau Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae (Cymru) 2012 http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2012/2555/regulation/3/made/welsh
- Deddf Gofal Plant 2006 http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2006/21/contents a Rheoliadau Deddf Gofal Plant 2006 (Asesiadau Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2016 http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2016/88/contents/made/welsh – gofynion yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant a luniwyd gan awdurdodau lleol.
- Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir yng Nghymru (2016) https://careinspectorate.wales/sites/default/files/2018-01/160411regchildcarecy.pdf
- Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru), 2016 http://www.senedd.cynulliad.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=16496
- 2002 'Study of Pedagogical Effectiveness in Early Learning' (SPEEL), Moyles, J., Adams, S. a Musgrove, A 2002, Ysgol Ymchwil a Datblygu Addysg Prifysgol Bolytechnig Anglia https://dera.ioe.ac.uk/4591/1/RR363.pdf
- Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru (2015) - Adolygiad Donaldson https://gov.wales/docs/dcells/publications/150225-successful-futures-cy.pdf
- Mwy na Geiriau (2012) https://gov.wales/topics/health/publications/health/guidance/words/?skip=1&lang=cy
- Strategaeth y Gymraeg: Iaith fyw: iaith byw (2012 i 2017). https://gov.wales/topics/welshlanguage/welsh-language-strategy-and-policies/welsh-language-policies-upto-2017/a-living-language-a-language-for-living-strategy-2012-2017/?skip=1&lang=cy
- Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 http://www.legislation.gov.uk/cy/mwa/2011/1/contents/enacted/welsh
- Deddf Plant 1989 http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1989/41/contents
- Deddf Plant 2004 http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2004/31/contents
- Canllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan (2008) http://www.plantyngnghymru.org.uk/polisi-document/canllawiau-amddiffyn-plant-cymru-gyfan-2008/
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) (Daeth i rym yn y DU yn 1992) http://www.unicef.org.uk/UNICEFs-Work/Our-mission/UN-Convention/
- Atal a Rheoli Heintiau ar gyfer Lleoliadau Gofal Plant (2015) https://www.documents.hps.scot.nhs.uk/hai/infection-control/guidelines/infection-prevention-control-childcare-2015-v2.pdf
- Bwyd a Maeth mewn Lleoliadau Gofal Plant (2018) https://beta.llyw.cymru/bwyd-maeth-mewn-lleoliadau-gofal-plant?_ga=2.183827558.1974554941.1550481483-1664962502.1550234187
- Chwarae Cymru, Arfer adfyfyriol – beth ydi o a pham ei fod mor bwysig? (2018) https://issuu.com/playwales/docs/arfer_myfyriol

© WJEC CBAC Ltd.

# Uned 328 Hwyluso dysgu mewn grŵp

| | |
|---|---|
| **Lefel:** | 3 |
| **ODA:** | 20 |
| **Credyd:** | 4 |
| **Crynodeb o'r Uned:** | Nod yr uned hon yw cefnogi dysgwyr i feithrin y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i gynllunio, paratoi, cyflwyno a gwerthuso dysgu mewn grŵp |

## Deilliant dysgu:

1. Cynllunio a pharatoi sesiynau hyfforddi

## Meini prawf asesu

Rydych yn gwybod:
1.1 **Camau'r** cylch hyfforddi
1.2 Pwysigrwydd nodi'r gynulleidfa darged cyn datblygu sesiynau hyfforddi
1.3 Y gwahaniaeth rhwng addysgu a hwyluso
1.4 Y cylch dysgu
1.5 Mathau o arddulliau dysgu mae gwahanol ddysgwyr yn eu mabwysiadu
1.6 Dulliau dysgu ac adnoddau y gellir eu defnyddio i ategu hyfforddiant
1.7 Rhwystrau posibl rhag dysgu, a dulliau o oresgyn rhwystrau

Rydych chi'n gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:
1.8 Nodi nodau'r sesiwn
1.9 Pennu amcanion **CAMPUS**
1.10 Canfod cefndir a phrofiad y cyfranogwyr
1.11 Paratoi cynlluniau sesiynau yn unol â nodau ac amcanion a nodwyd
1.12 Paratoi'r amrywiaeth o adnoddau sydd eu hangen i gyflwyno'r sesiwn, a chael gafael ar yr adnoddau hynny, gan gynnwys:
- amgylchedd
- technoleg
- gofynion hygyrchedd
- gofynion o ran trefniadau ymarferol
- deunydd ysgrifennu a deunydd i'w rannu

## Amrediad

**Camau**– nodi anghenion hyfforddi, cynllunio'r hyfforddiant, cyflwyno'r hyfforddiant, gwerthuso'r canlyniadau
**CAMPUS** – Cyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol, Synhwyrol.

© WJEC CBAC Ltd.

## Deilliant dysgu:

2. Hwyluso sesiynau hyfforddi

## Meini prawf asesu

Rydych yn gwybod:

2.1 Technegau cyflwyno er mwyn darparu ar gyfer amrywiaeth o arddulliau dysgu
2.2 Pwysigrwydd pennu rheolau sylfaenol gyda'r cyfranogwyr sy'n cynnwys dealltwriaeth o gyfrinachedd ac unrhyw wybodaeth y gall fod angen ei rhannu
2.3 Sut i sicrhau bod yr holl gyfranogwyr yn cael cyfle i gyfrannu a chymryd rhan mewn sesiynau
2.4 Dulliau a ddefnyddir i ddelio ag anawsterau a fyddai'n gallu codi mewn sesiynau hyfforddi
2.5 Effeithiau posibl eich barn eich hun ar y cyfranogwyr a'r broses o gyflwyno sesiynau hyfforddi
2.6 Sut i gyfeirio cyfranogwyr at ragor o wybodaeth a fydd yn eu helpu i ddysgu'n barhaus

Rydych chi'n gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

2.7 Meithrin dealltwriaeth wedi'i rhannu o ddisgwyliadau'r sesiwn hyfforddi
2.8 Hybu cyfranogiad gweithredol pob cyfranogwr
2.9 Hwyluso trafodaethau, gan ddefnyddio gwaith unigol a gwaith grŵp fel y bo'n briodol
2.10 Cefnogi amrywiaeth o wahanol arddulliau dysgu gan sicrhau bod cyfranogwyr yn cael eu cynnwys mewn gwaith grŵp a/neu waith unigol
2.11 Ystyried cydraddoldeb, amrywiaeth a dwyieithrwydd wrth hwyluso sesiynau hyfforddi
2.12 Defnyddio amrywiaeth o ddulliau **cyfathrebu** sy'n hybu rhyngweithio yn ystod y sesiwn

## Amrediad

**Cyfathrebu** – geiriol, dieiriau, gwrando gweithredol, technegau holi, iaith corff agored, tôn llais

---

## Deilliant dysgu:

3. Adolygu a gwerthuso sesiynau hyfforddi

## Meini prawf asesu

Rydych chi'n deall:

3.1 Gwerth adborth gan gyfranogwyr a gwerthuso
3.2 Dulliau casglu adborth a gwerthuso
3.3 Sut i helpu cyfranogwyr i adfyfyrio ar eu dysgu eu hunain

Rydych chi'n gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

3.4 Adolygu adborth yn erbyn amcanion y sesiwn hyfforddi
3.5 Gwerthuso a defnyddio adborth i wella sesiynau hyfforddi yn y dyfodol
3.6 Cynnal cofnodion o sesiynau hyfforddi a gynhaliwyd

© WJEC CBAC Ltd.

# Uned 328 Hwyluso dysgu mewn grŵp

## Gwybodaeth Ategol

### Gofynion tystiolaeth

Os nad yw'r tasgau cyfannol yn eu hasesu, rhaid cwblhau portffolio o dystiolaeth ar gyfer y deilliannau gwybodaeth ac ymarfer yn yr uned hon. Dylid dilyn yr amodau a amlinellir yn y pecyn asesu o ran cadw'r dystiolaeth yn y portffolio.
Ar gyfer deilliannau'r ymarfer, rhaid bodloni'r gofynion tystiolaeth lleiaf canlynol drwy'r portffolio o dystiolaeth:

- Tystiolaeth o gynlluniau sesiynau
- Arsylwi ar y broses o gyflwyno rhan o sesiwn hyfforddi gan sicrhau bod hyn yn cwmpasu holl elfennau ymarferol yr uned hon
- Tystiolaeth o'r ffordd y defnyddiwyd adborth i werthuso a gwella sesiynau hyfforddi.

### Canllawiau cyflwyno

Dylai'r uned hon gael ei chyflwyno mewn ffordd sy'n ymgorffori ac yn adeiladu ar y wybodaeth graidd a ddatblygwyd o fewn y cymhwyster Lefel 2 Craidd, a thrwy gymhwyso'r wybodaeth hon yn ymarferol, a ddangosir drwy'r uned orfodol ymarfer craidd.

**Arddulliau dysgu** – amrywiaeth o ddamcaniaethau sy'n ceisio esbonio gwahaniaethau yn y ffordd mae unigolion yn dysgu. Mae'r damcaniaethau hyn yn cynnig y gellir dosbarthu pob unigolyn yn ôl ei arddull dysgu. Un cysyniad cyffredin yw bod unigolion yn dysgu mewn ffyrdd gwahanol.
**Y Cylch Dysgu** – cysyniad mewn perthynas â'r ffordd mae pobl yn dysgu o brofiad. Bydd yn cynnwys sawl cam neu gyfnod, a gall y cyntaf ddilyn yr olaf. Gallai enghreifftiau fod:

- Cylch Dysgu Kolb
- Cylch Dysgu Honey a Mumford

### Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS) cysylltiedig

- LSILADD01. Nodi anghenion dysgu a datblygu cyfunol
- LSILADD03. Cynllunio a pharatoi rhaglenni dysgu a datblygu.
- LSILADD05. Datblygu a pharatoi adnoddau ar gyfer dysgu a datblygu.
- LSICLD1.2.1V2. Cynllunio, paratoi a hwyluso dysgu cymunedol a gwaith grŵp datblygiadol.
- LSILADD06. Rheoli dysgu a datblygu mewn grwpiau.
- LSILADD07. Hwyluso dysgu a datblygiad unigolion.
- LSIAG27. Hwyluso dysgu mewn grwpiau.
- LSICLD4.4.1V2. Monitro a gwerthuso ansawdd gweithgareddau dysgu a datblygu.
- LSILADD13. Gwerthuso a gwella darpariaeth dysgu a datblygu.
- SFTDW9 Nodi anghenion dysgu a datblygu'r grwpiau rydych yn gweithio gyda nhw.
- SCDCCLD0415. Arwain y gwaith o gynghori a chefnogi ymarferwyr mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar sy'n gweithio gyda phlant ag anghenion cefnogi ychwanegol.
- LSILADD04. Cynllunio a pharatoi cyfleoedd dysgu a datblygu penodol.
- LSIFL308 v 2. Datblygu sesiynau hyfforddi
- Hwyluso'r gwaith o ddatblygu ymarfer grŵp effeithiol mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol neu leoliadau plant a phobl ifanc (O20c) 683
- Rheoli prosesau sefydlu mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol neu leoliadau plant a phobl ifanc (O20c) 684

© WJEC CBAC Ltd.

## Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig


- Rhestr o'r Cymwysterau gofynnol i weithio yn y sector blynyddoedd cynnar a gofal plant yng Nghymru, 2017. **https://gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau/rhestr-or-cymwysterau-gofynnol-i-weithio-yn-y-sector-blynyddoedd-cynnar-a-gofal-plant-yng-nghymru**
- Canllaw ar Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer gofal cymdeithasol, y blynyddoedd cynnar a gofal plant. **https://gofalcymdeithasol.cymru/dysgu-a-datblygu/safonau-gwalwedigaethol-cenedlaethol-sgc**
- Fframwaith deddfwriaethol ar gyfer gofal plant yng Nghymru. http://www.plantyngnghymru.org.uk/resource/fframwaith-deddfwriaethol-ar-gyfer-gofal-plant-yng-nghymru/
- Llywodraeth Cymru. Rheoleiddio ac arolygu gofal plant. https://gov.wales/topics/people-and-communities/people/children-and-young-people/childcare/regulation/?skip=1&lang=cy
- Llywodraeth Cymru – Y Blynyddoedd Cynnar. https://gov.wales/topics/people-and-communities/people/children-and-young-people/early-years/?skip=1&lang=cy
- Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer gofal plant a reoleiddir i blant hyd at 12 oed (2018) **https://gov.wales/docs/cssiw/publications/160303regchildcarecy.pdf**
- Cymwysterau Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant, Gofal Cymdeithasol Cymru. **https://gofalcymdeithasol.cymru/dysgu-a-datblygu/cymwysterau-blynyddoedd-cynnar-a-gofal-plant**
- Darpariaeth gofal plant ac addysg blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg (2017)http://www.comisiynyddygymraeg.cymru/Cymraeg/Rhestr%20Cyhoeddiadau/Nodyn%20Briffio%20Darpariaeth%20Gofal%20Plant%20ac%20Addysg%20Blynyddoedd%20Cynnar%20Cyfrwng%20Cymraeg.pdf
- Deddfwriaeth Iechyd a Diogelwch sy'n berthnasol i'r blynyddoedd cynnar. **http://resources.hwb.wales.gov.uk/VTC/ngfl/nln_materials/nln_health_and_social_care/Health%20and%20safety%20legislation%20relevant%20to%20an%20early%20years%20setting/access/reference.html**
- Cynllun Gweithlu Gofal Plant, Chwarae a Blynyddoedd Cynnar Rhagfyr 2017. https://gov.wales/topics/people-and-communities/people/children-and-young-people/early-years/childcare-play-early-years-workforce-plan/?skip=1&lang=cy
- Canllaw ar Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer gofal cymdeithasol, y blynyddoedd cynnar a gofal plant. **https://gofalcymdeithasol.cymru/dysgu-a-datblygu/safonau-galwedigaethol-cenedlaethol-sgc**
- Llywodraeth Cymru – Dechrau'n Deg. https://gov.wales/topics/people-and-communities/people/children-and-young-people/parenting-support-guidance/help/flyingstart/?skip=1&lang=cy
- Arfer adfyfyriol – beth ydi o a pham ei fod mor bwysig? (2018) https://issuu.com/playwales/docs/arfer_myfyriol
- Ysbrydoli dysgwyr – sut i fod yn hyfforddwr mwy effeithiol (2018) https://issuu.com/playwales/docs/ysbrydoli_dysgwyr


© WJEC CBAC Ltd.

## Uned 329 Cefnogi unigolion drwy fwydo gyda thiwb

| | |
|---|---|
| **Lefel:** | 3 |
| **ODA:** | 15 |
| **Credyd:** | 3 |
| **Crynodeb o'r Uned:** | Mae'r uned hon yn ymdrin â dulliau bwydo unigolion gan ddefnyddio technegau ar wahân i fwydo geneuol sef bwydo drwy diwb gastrostomi. Bydd dysgwyr yn datblygu ymwybyddiaeth o bolisïau a phrotocolau a dull person-ganolog. Byddan nhw'n deall y broses a'r technegau sy'n gysylltiedig â bwydo gyda thiwb. Byddan nhw hefyd yn meithrin sgiliau bwydo unigolion gyda thiwb a'r gallu i reoli stociau o gynhyrchion.<br>Yng nghyd-destun yr uned hon, mae'r term 'unigolyn' yn cyfeirio at oedolion, plant a phobl ifanc |

### Deilliant dysgu:

1. Canllawiau, polisïau a phrotocolau cyfredol sy'n ymwneud â bwydo gyda thiwb

### Meini prawf asesu

Rydych chi'n deall:

1.1 Polisïau, protocolau a chanllawiau cenedlaethol a lleol cyfredol y sefydliad sy'n ymwneud â bwydo gyda thiwb

1.2 Canlyniadau posibl peidio â chadw at weithdrefnau wrth ofalu am **unigolion** mae angen eu bwydo gyda thiwb

1.3 Y canllawiau lleol mewn perthynas â:
- defnyddio tiwb i roi bwyd i unigolion a'u cynllun personol
- gweithdrefnau rheoli heintiau sy'n gysylltiedig â bwydo gyda thiwb
- pwysigrwydd clirio a gwaredu cyfarpar yn ddiogel ar ôl ei ddefnyddio
- Rolau pobl eraill wrth ofalu am unigolion sy'n cael eu bwydo gyda thiwb

1.4 Pwysigrwydd gwybod ble a phryd i geisio cefnogaeth clinigol

### Amrediad

**Unigolion** – yn cyfeirio at oedolion neu blant mewn lleoliad gofal neu sy'n byw yn y gymuned sy'n cael eu bwydo gyda thiwb gartref
**Rolau -** nyrs gymunedol, nyrs arbenigol maeth, deietegydd, rolau cefnogi gan gynnwys therapydd lleferydd ac iaith, fferyllydd,tîm ehangach/rhithwir e.e. materion cyfeirio deintyddol/iechyd y geg fel y bo'n briodol, swyddogaethau unrhyw drydydd parti e.e. cwmni bwydo gyda thiwb gartref

© WJEC CBAC Ltd.

## Deilliant dysgu:

2. Ymgymryd â thechnegau bwydo gyda thiwb

## Meini prawf asesu

Rydych chi'n deall:
2.1 Y tiwbiau bwydo gwahanol sydd ar gael a gofal priodol ar gyfer y tiwb sydd gan y claf yn ei le
2.2 Y dewis o fwydydd tiwbiau bwydo sydd ar gael ac y bydd y bwyd sy'n cael ei ragnodi yn dibynnu ar anghenion maeth yr unigolyn
2.3 Pwysigrwydd gwneud yn siŵr bod unigolion yn cael digon o faeth a hydradu
2.4 Pwysigrwydd monitro a chofnodi cymeriant hylif a bwyd yn ôl cynllun personol unigolyn
2.5 Pwysigrwydd bod yn gywir wrth wirio bwyd, dyddiad dod i ben a'r swm i'w roi yn ôl cynllun personol yr unigolyn
2.6 Technegau gwahanol o roi bwyd i unigolyn gyda thiwb e.e. bolws/pwmp
2.7 Pwysigrwydd cylchdroi stoc a'r amodau storio
2.8 Yr adweithiau andwyol neu **broblemau** a fyddai'n gallu ddigwydd cyn, yn ystod neu ar ôl bwydo a sut i uwchgyfeirio'r rhain
2.9 Sut i leihau effeithiau andwyol bwydo gyda thiwb e.e. symptomau gastroberfeddol
2.10 Y rhesymau pam y gallai fod angen gohirio neu atal bwydo a gofyn am gymorth
2.11 Y ffactorau a fydd yn effeithio ar lefel y gofal a chymorth sydd eu hangen ar unigolion, teuluoedd/gofalwyr/eraill
2.12 Yr effaith seicolegol, emosiynol a chorfforol bosibl y gall bwydo gyda thiwb ei chael ar unigolion, teuluoedd/gofalwyr/eraill

Rydych chi'n gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:
2.13 Gofalu am y tiwb yn ddyddiol yn unol â chynllun personol yr unigolyn
2.14 Cadarnhau bod y cyfarpar a'r bwyd:
- yn briodol i'r weithdrefn
- addas i'r diben
- yn y cynllun personol

2.15 Gwirio a yw'r unigolyn wedi cymryd unrhyw hylifau/cynhyrchion maethol yn ddiweddar ac amser cwblhau'r bwydo diwethaf
2.16 Dewis, gwirio a pharatoi'r bwyd yn ôl cynllun personol yr unigolyn
2.17 Lleoli'r unigolyn i wneud yn siŵr ei fod yn ddiogel ac yn gysurus wrth fwydo
2.18 Sicrhau bod y dull bwydo gyda thiwb wedi'i osod:
- Gan ddefnyddio'r bwyd â'r dyddiad mwyaf priodol
- yn ôl yr amseru yng nghynllun personol yr unigolyn
- gan ddefnyddio technegau priodol
- yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr
- i sicrhau'r cysur a'r urddas mwyaf posibl

2.19 Gwirio bod digon o hylifau, bwydydd a chyfarpar ar gael i ddiwallu anghenion yn y dyfodol
2.20 Cofnodi ac adrodd yn unol â pholisi a phrotocol y sefydliad

## Amrediad

**Problemau** – yn cynnwys blocio tiwb/y tiwb yn gollwng/y tiwb yn dadleoli (cwympo allan)/*buried bumper*/heintiau o amgylch safle'r stoma/adlifiad/mewnsugno/cyfog a chwydu/rhwymedd/dolur rhydd

© WJEC CBAC Ltd.

# Uned 329 Cefnogi unigolion drwy fwydo gyda thiwb

## Gwybodaeth Ategol

### Gofynion tystiolaeth

Os nad yw'r tasgau cyfannol yn eu hasesu, rhaid cwblhau portffolio o dystiolaeth ar gyfer y deilliannau gwybodaeth ac ymarfer yn yr uned hon. Dylid dilyn yr amodau a amlinellir yn y pecyn asesu o ran cadw'r dystiolaeth yn y portffolio.
Ar gyfer deilliannau'r ymarfer, rhaid bodloni'r gofynion tystiolaeth lleiaf canlynol drwy'r portffolio o dystiolaeth:

- Cyfrif adfyfyriol gan y dysgwr wedi'i lofnodi gan dyst arbenigol, ar gefnogi unigolyn (neu unigolion) sydd â thiwb bwydo yn ei le,ar o leiaf tri achlysur.
- Rhaid i ddogfennaeth/cofnodion gael eu cwblhau'n glir, yn gywir ac yn ddarllenadwy.

### Canllawiau cyflwyno

Argymhellir bod nyrs gofrestredig neu nyrs maeth gyda phrofiad cyfredol o fwydo gyda thiwb yn asesu'r uned hon.
Dylai'r uned hon gael ei chyflwyno mewn ffordd sy'n ymgorffori ac yn adeiladu ar y wybodaeth graidd a ddatblygwyd o fewn y cymhwyster Lefel 2 Craidd, a thrwy gymhwyso'r wybodaeth hon yn ymarferol, a ddangosir drwy'r uned orfodol ymarfer craidd.
Datblygodd IDDSI (International Diet Dysphagia Standardisation Initiative) fframwaith byd-eang i safoni sut mae'r ffordd mae bwyd a hylifau i bobl o bob oed â phroblemau bwydo, cnoi neu lyncu yn cael eu disgrifio. Mae'r lefelau a'r disgrifyddion cysylltiedig cyfredol i'w gweld yma: **https://iddsi.org/framework/**
**Gastrostomi** – tiwb sy'n cael ei fewnosod yn uniongyrchol i mewn i'r stumog, drwy stoma. Mae'r tiwb hwn yn ddull diogel ac effeithiol o sicrhau cymeriant digonol o faeth a hylifau pan fydd maethiad a hydradu'r geg yn cael eu peryglu neu lle mae angen cymeriant ychwanegol (Löser, 2005). Mae hyn yn cynnwys **Gastrostomi Endosgopig drwy'r Croen (PEG) a Gastrostomi (RIG) wedi'i Fewnosod mewn Ffordd Radiolegol (RIG)**

**Bwyd â'r dyddiad priodol arno** – byddai hyn yn unol ag egwyddorion cylchdroi stoc

### Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS) cysylltiedig

- CHS17.2012 Cynnal technegau bwydo gyda thiwb er mwyn sicrhau cymeriant maeth a hylif unigolion
- A/601/8980 Paratoi ar gyfer a chyflawni technegau bwydo gyda thiwb

### Deddfwriaeth gysylltiedig

- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – Hyb Gwybodaeth a Dysgu **https://gofalcymdeithasol.cymru/hyb/deddf-sswb**
- Mwy na Geiriau: Fframwaith Strategol Dilynol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg ym Maes Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol **https://gov.wales/topics/health/publications/health/guidance/words/?skip=1&lang=cy**
- Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru (Ebrill 2010)

© WJEC CBAC Ltd.

- Fframwaith Cymwyseddau Cymru i Gynorthwyo Oedolion y mae angen eu Bwydo gyda Thiwb Gartref drwy Diwb Bwydo Gastrostomi (Ebrill 2016 **)** **www.wales.nhs.uk/Governance-emanual/opendoc/290078**
- Safon ansawdd NICE 61 (2014) Atal a Rheoli Heintiau **https://www.NICE.org.uk/guidance/qs61**
- Canllaw clinigol NICE 32. (2017) Cymorth maeth i oedolion: cymorth maethiad geneuol, bwydo gyda thiwbiau a maeth drwy'r gwythiennau **https://www.nice.org.uk/guidance/CG32**
- BAPEN **http://www.bapen.org.uk/**
- PINNT **http://pinnt.com/Home.aspx**

© WJEC CBAC Ltd.

# Uned 333 Sgiliau astudio

| | |
|---|---|
| **Lefel:** | 3 |
| **ODA:** | 10 |
| **Credyd:** | 2 |
| **Crynodeb o'r Uned:** | Nod yr uned hon yw cefnogi dysgwyr i fagu hyder wrth ddefnyddio sgiliau astudio i wella eu dysgu. |

## Deilliant dysgu:

1. Cymhwyso modelau, offer a thechnegau sgiliau astudio ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus

## Meini prawf asesu

Rydych chi'n deall:
1.1 Ystyr y termau:
- arddulliau dysgu
- ymarfer adfyfyriol
- dysgu drwy brofiad
- llên-ladrad

1.2 Sut i reoli amser, cynllunio a threfnu astudio
1.3 Sut i ganfod a sefydlu ydy deunyddiau sydd wedi'u cyhoeddi yn berthnasol ac yn gyfredol
1.4 Sut i goladu, dehongli a gwerthuso gwybodaeth
1.5 Sut i gyfeirio gwybodaeth a ddefnyddir i ategu rhesymu a / neu gynnwys ffeithiol
1.6 Dulliau y gellir eu defnyddio i gysylltu ymarfer adfyfyriol â dysgu academaidd

Rydych chi'n gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:
1.7 Gwerthuso eich cryfderau a'ch meysydd datblygu eich hun o ran defnyddio modelau a thechnegau sgiliau astudio
1.8 Nodi'r gefnogaeth sydd ei hangen i ymgymryd ag astudiaeth broffesiynol
1.9 Creu cynllun i fynd i'r afael ag unrhyw feysydd datblygu a nodwyd
1.10 Creu **cynllun astudio personol**
1.11 Cymhwyso dulliau, offer a thechnegau sgiliau astudio
1.12 Cysylltu ymarfer adfyfyriol â dysgu academaidd
1.13 Gwerthuso effeithiolrwydd dulliau, offer a thechnegau sgiliau astudio

## Amrediad

**Cynllun astudio personol**: amrywiaeth o nodau i'w cyflawni, camau i gyflawni nodau, olrhain cynnydd, cefnogaeth ac adnoddau, rheoli amser, gwerthuso

© WJEC CBAC Ltd.

# Uned 333 Sgiliau astudio

## Gwybodaeth Ategol

### Gofynion tystiolaeth

Os nad yw'r tasgau cyfannol yn eu hasesu, rhaid cwblhau portffolio o dystiolaeth ar gyfer y deilliannau gwybodaeth ac ymarfer yn yr uned hon. Dylid dilyn yr amodau a amlinellir yn y pecyn asesu o ran cadw'r dystiolaeth yn y portffolio. Mae canllawiau ar gyfer unrhyw dystiolaeth ychwanegol y gall fod ei hangen i'w gweld yn y pecyn asesu.
Ar gyfer deilliannau'r ymarfer, rhaid bodloni'r gofynion tystiolaeth lleiaf canlynol drwy'r portffolio o dystiolaeth:

- Creu cynllun astudio personol
- Gwerthusiad adfyfyriol o'r defnydd o astudio personol

### Canllawiau cyflwyno

Dylai'r uned hon gael ei chyflwyno mewn ffordd sy'n ymgorffori ac yn adeiladu ar y wybodaeth graidd a ddatblygwyd o fewn y cymhwyster Lefel 2 Craidd, a thrwy gymhwyso'r wybodaeth hon yn ymarferol, a ddangosir drwy'r uned orfodol ymarfer craidd.

### Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig

**Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol**

© WJEC CBAC Ltd.

# Uned 334 Hybu dealltwriaeth plant o gynaliadwyedd yn y blynyddoedd cynnar

| | |
|---|---|
| **Lefel:** | 3 |
| **ODA:** | 5 |
| **Credyd:** | 2 |
| **Crynodeb o'r Uned:** | Nod yr uned hon yw cefnogi dysgwyr i ddatblygu'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i hybu dealltwriaeth plant o gynaliadwyedd yn y blynyddoedd cynnar drwy gyfrwng amrywiaeth o weithgareddau. |

## Deilliant dysgu:

1. Deall pwysigrwydd hybu gwybodaeth plant am gynaliadwyedd

## Meini prawf asesu

Rydych chi'n deall:

1.1 Beth yw ystyr y term 'cynaliadwyedd'
1.2 Sut mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn nodi'r nodau a'r weledigaeth ar gyfer cynaliadwyedd yng Nghymru o fewn cyd-destun byd-eang
1.3 Pam ei bod yn bwysig i blant ddysgu am gynaliadwyedd yn nhermau'r cyd-destun lleol, cenedlaethol a byd-eang
1.4 Pam mae plentyndod cynnar yn gyfnod hollbwysig o ran datblygu gwerthoedd ac agweddau sylfaenol am gynaliadwyedd
1.5 Sut i ddefnyddio gwahanol **fathau o weithgareddau, profiadau a chyfleoedd i ddatblygu dealltwriaeth plant o gynaliadwyedd**
1.6 Sut i fewnblannu egwyddorion addysgeg mewn gweithgareddau, profiadau a chyfleoedd sy'n hybu cynaliadwyedd

## Amrediad

**Mathau o weithgareddau, profiadau a chyfleoedd i ddatblygu dealltwriaeth plant o gynaliadwyedd –** Chwarae (chwarae creadigol, chwarae corfforol, chwarae llawn dychymyg, chwarae amgylcheddol, chwarae strwythuredig, chwarae heb strwythur / hunangyfeiriedig), celf, crefft, straeon, caneuon, archwilio'r amgylchedd awyr agored, garddio, gwylio natur, bwydo adar, gwestai trychfilod, gwneud compost, ailgylchu, coginio, gweithgareddau pontio'r cenedlaethau, technoleg ddigidol (apiau, AI ac ati)

© WJEC CBAC Ltd.

## Deilliant dysgu:

2. Hybu dealltwriaeth plant o gynaliadwyedd

## Meini prawf asesu

Rydych chi'n gallu gweithio
mewn ffyrdd sy'n:

2.1 Hybu cefnogaeth i blant gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau, profiadau a chyfleoedd sy'n cynnal cynaliadwyedd
2.2 Modelu rôl yr arfer gorau wrth ddarparu gweithgareddau, profiadau a chyfleoedd sy'n hybu cynaliadwyedd i blant a'u cefnogi nhw i gymryd rhan ynddynt
2.3 Mewnblannu egwyddorion addysgeg wrth gefnogi plant i gymryd rhan mewn gweithgareddau, profiadau a chyfleoedd sy'n hybu cynaliadwyedd
2.4 Sicrhau bod addasiadau'n cael eu gwneud i gefnogi ymgysylltiad a chynhwysiant pob plentyn

## Deilliant dysgu:

3. Gwerthuso defnyddio gweithgareddau, profiadau a chyfleoedd sy'n cefnogi dealltwriaeth plant o gynaliadwyedd

## Meini prawf asesu

Rydych chi'n gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

3.1 Gwerthuso pa mor dda mae amrywiaeth o weithgareddau, profiadau a chyfleoedd wedi cefnogi datblygiad gwerthoedd, agweddau a dealltwriaeth plant am gynaliadwyedd
3.2 Adfyfyrio ar eich ymarfer eich hun wrth hybu cynaliadwyedd

© WJEC CBAC Ltd.

# Uned 334 Hybu dealltwriaeth plant o gynaliadwyedd yn y blynyddoedd cynnar

Gwybodaeth Ategol

## Gofynion tystiolaeth

Bydd y dystiolaeth ar gyfer yr uned hon yn cael ei chyflwyno drwy'r tasgau strwythuredig. Mae canllawiau ar gyfer unrhyw dystiolaeth ychwanegol y gall fod ei hangen i'w gweld yn y pecyn asesu.

## Canllawiau cyflwyno

Dylai'r uned hon gael ei chyflwyno mewn ffordd sy'n ymgorffori ac yn adeiladu ar y wybodaeth graidd a ddatblygwyd o fewn y cymhwyster Lefel 2 Craidd, a thrwy gymhwyso'r wybodaeth hon yn ymarferol, a ddangosir drwy'r uned orfodol ymarfer craidd.

**Egwyddorion addysgeg:**

- y plentyn (cael dewis, cyfranogi, cymryd rhan, cychwyn a chyfarwyddo eu dysgu eu hunain dros gyfnod, dysgu o'u gweithgareddau archwiliadol, ymarferol ac uniongyrchol eu hunain, cael eu herio a'u cefnogi'n briodol gan yr oedolion a'r amgylchedd dysgu, fel eu bod nhw'n gwneud cynnydd da),
- yr amgylchedd dysgu (sy'n darparu llif rhwng gweithgareddau parhaus, datblygedig a chanolbwyntiedig, dan do ac yn yr awyr agored, sy'n adlewyrchu ac yn ymgysylltu â diddordebau plant, sy'n caniatáu i blant gael mynediad at adnoddau sy'n eu galluogi nhw i ddefnyddio dewis a datblygu annibyniaeth yn eu dysgu, sy'n galluogi plant i gymhwyso, defnyddio, atgyfnerthu ac estyn eu sgiliau ar draws eu dysgu, gan gynnwys cyfleoedd i blant fod yn gorfforol ac yn wybyddol weithgar yn ogystal â chael 'amser tawel' i adfyfyrio a meddwl),
- y gweithwyr (sy'n annog y plentyn i feddwl am ei brofiadau dysgu ac adfyfyrio arnynt er mwyn ymestyn ei ddysgu pan fo'n briodol, sy'n cynllunio cyfleoedd dysgu diddorol sy'n briodol i gam datblygiad y plentyn, wedi'u llywio gan arsylwi ac asesu galluoedd plant yn rheolaidd, sy'n mynd ati i gynnwys teuluoedd/gofalwyr yn y lleoliad/cymuned yr ysgol, gan eu gweld nhw fel partneriaid yn nysg eu plant; sy'n ceisio datblygu eu hunain yn barhaus yn broffesiynol, gan rannu a dysgu o arfer rhagorol ac effeithiol a gweithio gydag ymarferwyr eraill ledled Cymru a thu hwnt)

## Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig

Cyfeiriwch at yr adrannau **Canllawiau cyffredinol ar ddeddfwriaeth, cyfarwyddyd a pholisi cenedlaethol** a'r **Canllawiau cyffredinol ar adnoddau**.
**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 – Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru**

**Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol**

© WJEC CBAC Ltd.

# Uned 336 Hybu defnyddio technoleg ddigidol gyda phlant yn y blynyddoedd cynnar

| | |
|---|---|
| **Lefel:** | 3 |
| **ODA:** | 5 |
| **Credyd:** | 2 |
| **Crynodeb o'r Uned:** | Nod yr uned hon yw cefnogi dysgwyr i ddatblygu'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i hybu defnyddio technoleg ddigidol gyda phlant yn y blynyddoedd cynnar |

## Deilliant dysgu:

1. Deall sut mae technoleg ddigidol yn gallu cael ei defnyddio i gefnogi datblygiad cyfannol yn y blynyddoedd cynnar

## Meini prawf asesu

Rydych chi'n deall:

1.1 Beth yw ystyr y term 'technoleg ddigidol'

1.2 **Gwahanol fathau o dechnoleg ddigidol** sy'n gallu cael eu defnyddio i gefnogi datblygiad cyfannol ar gyfer:
- plant 0 – 2 oed
- plant 2 – 3 oed
- plant 3 – 7 oed

1.3 Manteision posibl defnyddio gwahanol fathau o dechnoleg ddigidol gyda phlant o wahanol oedrannau

1.4 Sut mae gwahanol fathau o dechnoleg ddigidol yn gallu cael eu defnyddio i wella dysgu cymdeithasol ac emosiynol

1.5 Opsiynau chwarae digidol sy'n gallu cael eu defnyddio i ysgogi dychymyg a hybu dysgu cymdeithasol ac emosiynol

1.6 Sut i gefnogi continwwm chwarae rhwng digidol a di-ddigidol

1.7 Pwysigrwydd plant yn ymwneud â thechnoleg ddigidol gydag oedolion neu gyfoedion yn hytrach nag ar eu pennau eu hunain

1.8 Sut i gefnogi **defnyddio** technoleg ddigidol **yn ddiogel**

1.9 Sut i oresgyn rhwystrau posibl o ran defnyddio technoleg ddigidol yn ddiogel gyda phlant

1.10 Sut i gefnogi teuluoedd / gofalwyr i fynd ati i ddefnyddio technoleg ddigidol yn ddiogel gyda'u plant

1.11 Sut a ble i gael arweiniad ychwanegol ynglŷn â defnyddio technoleg ddigidol yn ddiogel

## Amrediad

**Gwahanol fathau o dechnoleg ddigidol –** teganau, apiau, deallusrwydd artiffisial (AI), adnoddau bywyd go iawn fel cloriannau digidol, cyfrifianellau, camerâu a dyfeisiau recordio.

**Defnydd diogel** – mesurau diogelwch wrth ddefnyddio'r rhyngrwyd, apiau a chyfryngau cymdeithasol

© WJEC CBAC Ltd.

### Deilliant dysgu:

2. Hybu defnyddio technoleg ddigidol yn y blynyddoedd cynnar

### Meini prawf asesu

Rydych chi'n gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

2.1 Annog plant i ddefnyddio gwahanol fathau o dechnoleg ddigidol i gefnogi:
- datblygiad cyfannol
- dysgu cymdeithasol ac emosiynol

2.2 Sicrhau bod addasiadau'n cael eu gwneud i gefnogi ymgysylltiad a chynhwysiant pob plentyn

2.3 Hybu defnyddio technoleg ddigidol yn ddiogel i gefnogi datblygiad cyfannol plant gyda:
- teuluoedd / gofalwyr / eraill

2.4 Gwerthuso effeithiolrwydd technoleg ddigidol er mwyn gwella:
  - datblygiad cyfannol
  - dysgu cymdeithasol ac emosiynol

2.5 Adfyfyrio ar eich sgiliau eich hun o ran defnyddio technoleg ddigidol yn ddiogel gyda phlant, a gwerthuso'r sgiliau hynny

2.6 Cael gwybodaeth a / neu gefnogaeth i ddatblygu eich sgiliau eich hun o ran defnyddio technoleg ddigidol yn ddiogel

© WJEC CBAC Ltd.

# Uned 336 Hybu defnyddio technoleg ddigidol gyda phlant yn y blynyddoedd cynnar

## Gwybodaeth Ategol

### Gofynion tystiolaeth

Bydd y dystiolaeth ar gyfer yr uned hon yn cael ei chyflwyno drwy'r tasgau strwythuredig. Mae canllawiau ar gyfer unrhyw dystiolaeth ychwanegol y gall fod ei hangen i'w gweld yn y pecyn asesu.

### Canllawiau cyflwyno

Dylai'r uned hon gael ei chyflwyno mewn ffordd sy'n ymgorffori ac yn adeiladu ar y wybodaeth graidd a ddatblygwyd o fewn y cymhwyster Lefel 2 Craidd, a thrwy gymhwyso'r wybodaeth hon yn ymarferol, a ddangosir drwy'r uned orfodol ymarfer craidd.

**Manteision posibl –** gallai'r rhain gynnwys:
- Datblygu sgiliau echddygol
- Cryfhau cydsymud ac amser ymateb
- Gwella datblygiad cymdeithasol ac emosiynol
- Hybu cydweithredu a pherthnasoedd
- Adeiladu ymwybyddiaeth ddiwylliannol
- Datblygiad iaith
- Gwell dysgu drwy brofiad

Byddai **dysgu cymdeithasol ac emosiynol** yn cynnwys:
- Sut i werthfawrogi eich hun ac eraill
- Sut i feddwl yn gyfartal am eich gilydd
- Goddef, derbyn, parchu a deall pobl eraill
- Sut i ddatblygu perthnasoedd iach
- Dinasyddiaeth fyd-eang
- Dathlu amrywiaeth
- Llythrennedd emosiynol (adnabod a labelu emosiynau)
- Caredigrwydd
- Hunanreoleiddio ymddygiad
- Technegau rheoli straen
- Datrys problemau

**Rhwystrau posibl rhag defnyddio technoleg ddigidol** – gallai'r rhain gynnwys:
- Amser
- Hyder y plentyn
- Hyder gweithwyr
- Adnoddau
- Canllaw cyffredinol
- Canllawiau ar amser sgrin
- Diffyg ymgysylltiad oedolion

© WJEC CBAC Ltd.

**Deallusrwydd Artiffisial (AI)** – cangen o gyfrifiadureg yw hon sy'n anelu at greu systemau a pheiriannau sy'n gallu cyflawni tasgau lle mae angen deallusrwydd a galluoedd datrys problemau dynol fel arfer.

Roedd systemau AI yn defnyddio algorithmau – cyfarwyddiadau cam wrth gam sy'n esbonio sut i gyflawni tasg – ac yn crynhoi data. Yna mae'r system yn dadansoddi ac yn adnabod patrymau yn y data sydd wedi'u storio a'u crynhoi, ac mae hyn yn galluogi'r peiriant i wneud rhagfynegiadau a phenderfyniadau gwybodus. Mae AI yn rhoi'r gallu i gyfrifiaduron a pheiriannau 'feddwl' a dysgu ar eu pennau eu hunain. Wrth iddyn nhw ddatblygu eu 'cof' mae angen llai o gyfarwyddiadau neu fewnbynnau gan fodau dynol.

Mae amrywiaeth o deganau ac apiau wedi'u pweru gan AI sy'n gallu cael eu defnyddio gyda phlant. Gall AI helpu i bersonoli dysgu ar gyfer plant unigol.

© WJEC CBAC Ltd.

## Uned 337 Ymarfer sy'n ystyriol o drawma gyda phlant

| | |
|---|---|
| **Lefel:** | 3 |
| **ODA:** | 30 |
| **Credyd:** | 5 |
| **Crynodeb o'r Uned:** | Nod yr uned hon yw cefnogi dysgwyr i ddatblygu'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i ddarparu cefnogaeth cadarnhaol i blant sydd wedi profi trawma.<br>Pan ddefnyddir y term 'trawma' yn yr uned, mae hyn yn ymwneud â 'thrawma', 'trawma cymhleth' a 'thrawma datblygiadol' |

### Deilliant dysgu:

1. Deall effaith trawma ar ddatblygiad plant

### Meini prawf asesu

Rydych chi'n deall:
1.1 Ystyr y termau; 'trawma', 'trawma cymhleth' a 'thrawma datblygiadol'
1.2 Effaith trawma ar:
- hunanreoleiddio
- datblygiad emosiynol
- perthnasoedd cymdeithasol
- ymdeimlad o'r hunan
- iaith a chyfathrebu
- dysgu a datblygu sgiliau

1.3 Niwrowyddoniaeth trawma:
  - profiadau datblygiadol cynnar
  - sut mae'r ymennydd yn ymateb i berygl
  - gorgynnwrf a datgysylltiad
  - sbardunau trawmatig

1.4 Pam gall plant sydd wedi profi trawma gael trafferth gyda thrawsnewidiadau
1.5 Y potensial ar gyfer newid yn ymgyflwyniad plant sydd wedi profi trawma
1.6 Effaith bosibl trawma ar iechyd meddwl

© WJEC CBAC Ltd.

---

### Deilliant dysgu:

2. Deall trawma datblygiadol

### Meini prawf asesu

Rydych chi'n deall:

2.1 Sut mae **effeithiau trawma datblygiadol** yn berthnasol i'r **drefn y mae'r system niwrolegol a'r ymennydd yn datblygu**
2.2 Pam gallai rhai plant fod mewn mwy o berygl o drawma datblygiadol
2.3 Arwyddion o effeithiau trawma datblygiadol a datgysylltu

### Amrediad

**Effeithiau trawma datblygiadol –** datblygiad synhwyraidd, datgysylltiad, datblygu ymlyniad, rheoleiddio emosiynol, rheoleiddio ymddygiadol, gwybyddiaeth, hunangysyniad a datblygiad hunaniaeth
**Y drefn y mae'r ymennydd yn datblygu –** datblygiad cychwynnol y system nerfol, a datblygiad dilynol yr ymennydd yn dilyn 3 cham: 1. Coesyn yr ymennydd (mewnbwn synhwyraidd a goroesi), 2. Yr ymennydd canol (ymlyniad a datblygiad emosiynol), 3. Yr ymennydd cortigol (meddwl, dysgu, iaith ac atal)

---

### Deilliant dysgu:

3. Defnyddio ymyriadau i helpu i atgyweirio trawma

### Meini prawf asesu

Rydych chi'n deall:

3.1 Beth yw ystyr '**sylfaen ddiogel**' a pham mae hyn yn bwysig i blant sydd wedi profi trawma
3.2 Yr amrywiaeth o ymatebion y gall plant sydd wedi profi trawma eu defnyddio i geisio cadw eu hunain yn ddiogel
3.3 Sut mae'r **model niwroddilyniannol** yn gallu cael ei ddefnyddio i dawelu neu rybuddio coesyn yr ymennydd
3.4 Yr amrywiaeth o ymyriadau sy'n gallu cael eu defnyddio i helpu i atgyweirio effeithiau trawma datblygiadol
3.5 Yr amrywiaeth o **weithgareddau tawelu coesyn yr ymennydd** sy'n gallu cael eu defnyddio gyda phlant
3.6 Pwysigrwydd arsylwi ar ymddygiadau ac ymateb mewn ffyrdd sy'n gallu helpu i atgyweirio effeithiau trawma
3.7 Pam ei bod yn bwysig i weithwyr ddeall eu harddull a'u strategaethau ymlyniad eu hunain wrth ymateb i blant sydd wedi profi trawma
3.8 Pwysigrwydd gallu adfyfyrio ar sut mae eich profiadau bywyd a'ch strategaethau ymlyniad yn effeithio ar eich perthynas â'r plant rydych chi'n gofalu amdanynt
3.9 Sut i fodelu **ymddygiadau** sy'n helpu i atgyweirio trawma datblygiadol

Rydych chi'n gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

3.10 Darparu sylfaen ddiogel i blant yn gyson
3.11 Ffurfio perthnasoedd cadarnhaol, diogel, gofalgar/meithringar gyda phlant
3.12 Defnyddio amrywiaeth o ymyriadau a gweithgareddau i helpu i atgyweirio effeithiau trawma datblygiadol
3.13 Monitro, adolygu a gwerthuso'r ymyriadau a'r gweithgareddau a ddefnyddir
3.14 Ymddygiadau model rôl sy'n helpu i atgyweirio trawma datblygiadol

© WJEC CBAC Ltd.

3.15 Cefnogi plant drwy fethiant ac i wneud camgymeriadau diogel
3.16 Canmol a dathlu llwyddiannau
3.17 Adfyfyrio ar eich arddull ymlyniad a'ch strategaethau eich hun, a sut mae'r rhain yn effeithio ar eich ymatebion i blant, a chydnabod hyn

## Amrediad

**Sylfaen ddiogel –** diogelwch corfforol, diogelwch emosiynol, diogelwch cymdeithasol, diogelwch diwylliannol
**Y model niwroddilyniannol** – perthynol (a gynigir gan oedolyn diogel), perthnasol (cyfateb i ddatblygiad y plentyn yn hytrach na'i oed gwirioneddol), ailadroddus (mewn patrwm), rhythmig (cyseinio â phatrymau niwral), gwobrwyo (pleserus), dangos parch (tuag at y plentyn a theuluoedd/gofalwyr)
**Gweithgareddau tawelu coesyn yr ymennydd** – drymio, dawnsio, trampolinio, siglo, cerdded, rhedeg, tapio, anadlu'n rhythmig, canu, rapio
**Ymddygiadau** – datrys problemau, cyfathrebu, dangos gwahanol emosiynau, ymdopi pan fydd rhywbeth yn mynd o'i le, adfer perthnasoedd

© WJEC CBAC Ltd.

# Uned 337 Ymarfer sy'n ystyriol o drawma gyda phlant

## Gwybodaeth Ategol

### Gofynion tystiolaeth

Bydd y dystiolaeth ar gyfer yr uned hon yn cael ei chyflwyno drwy'r tasgau strwythuredig. Mae canllawiau ar gyfer unrhyw dystiolaeth ychwanegol y gall fod ei hangen i'w gweld yn y pecyn asesu.

### Canllawiau cyflwyno

Dylai'r uned hon gael ei chyflwyno mewn ffordd sy'n ymgorffori ac yn adeiladu ar y wybodaeth graidd a ddatblygwyd o fewn y cymhwyster Lefel 2 Craidd, a thrwy gymhwyso'r wybodaeth hon yn ymarferol, a ddangosir drwy'r uned orfodol ymarfer craidd.

Mae **trawma cymhleth** yn digwydd pan fydd profiadau brawychus, a achosir gan rywun y dylai plant allu ymddiried ynddynt, yn norm ym mywydau plant (D'Andrea et al, 2012). Mae plant yn addasu i'r amgylchedd gelyniaethus hwn ac mae adweithedd sylfaenol y plentyn yn newid. Gall plant fod yn or-sensitif i fygythiad a gallant ymateb yn negyddol i giwiau niwtral a hyd yn oed cadarnhaol.

Mae **trawma datblygiadol** yn digwydd pan fydd plant yn profi esgeulustod difrifol yn eu blynyddoedd cynharaf. Mae esgeulustod yn digwydd pan fydd y profiadau corfforol, emosiynol neu wybyddol sy'n ofynnol ar gyfer datblygiad normal naill ai'n annigonol neu'n absennol. Mae'r effaith yn ddifrifol p'un a yw'r esgeulustod yn fwriadol neu'n ganlyniad i broblemau mae rhoddwyr gofal yn eu hwynebu wrth reoli eu bywydau eu hunain a bywydau eu plant. Mae'r arswyd a'r diymadferthedd sy'n cael eu profi gan fabanod sydd wedi'u hesgeuluso wedi arwain llawer o ddamcaniaethwyr i ddisgrifio esgeulustod cynnar fel 'trawma datblygiadol' (D'Andrea et al, 2012).

**Datgysylltiad** – gwahaniad neu ddatgysylltiad rhwng meddyliau, teimladau ac ymddygiadau a gwahaniad rhwng y meddwl a'r corff. Dyma sut mae'r meddwl yn rhoi profiadau ac atgofion annioddefol mewn gwahanol gydrannau. Mae'n digwydd pan fydd y 3 rhan o'r ymennydd yn datgysylltu oddi wrth ei gilydd ac o ganlyniad i hyn bydd yr ymennydd cyntefig yn symud i lawr fel ffordd o amddiffyn rhywun rhag niwed
Gorgynnwrf – **cynnwrf** gormodol: cyflwr annormal o ymatebolrwydd cynyddol i ysgogiadau sy'n cael ei nodi gan amryw o symptomau ffisiolegol a seicolegol (megis bod yn fwy effro a phryderus a chyfradd curiad y galon a resbiradaeth yn cynyddu)
Sylwer ar y berthynas rhwng gorgynnwrf a datgysylltiad a sut mae'r bwlch rhwng y ddau'n ehangu gydag oedran a phrofiad. Er enghraifft, pan fydd babanod yn crïo maen nhw'n dangos cyflwr o orgynnwrf; os yw'r baban yn crïo ac yn cael ei adael yn rhy hir, efallai y bydd yn dechrau datgysylltu.
**Profiadau bywyd** – er enghraifft, unrhyw brofiadau personol o drawma a datblygiad eu gwydnwch eu hunain (e.e. eu profiad eu hunain o gael eu magu, profiad personol o drawma, ymlyniad).

Mae **trawma** yn deillio o ddigwyddiadau y tu allan i brofiad dynol arferol sy'n llethu mecanweithiau ymdopi arferol. Mae'n gysylltiedig ag arswyd a diymadferthedd ac yn aml mae'n cynnwys teimlad bod yr unigolyn neu rywun sy'n bwysig iddo mewn perygl difrifol. Mae gan bob plentyn dreftadaeth genetig wahanol a set unigryw o brofiadau bywyd sy'n arwain at ymatebion amrywiol i drallod.

© WJEC CBAC Ltd.

Mae trawma yn deillio o brofiad plant o ddigwyddiadau niweidiol, nid y digwyddiadau eu hunain. Mae rhai plant yn profi nifer o ddigwyddiadau niweidiol heb ddioddef trawma, ac eraill yn cael eu llethu gan brofiadau sy'n ymddangos yn llai difrifol. Mae rhai'n gwella'n ddigymell ar ôl trawma ond mae eraill yn dioddef effeithiau tymor hir difrifol sy'n ymyrryd â bywyd bob dydd.

## Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig

Cyfeiriwch at yr adrannau **Canllawiau cyffredinol ar ddeddfwriaeth, cyfarwyddyd a pholisi cenedlaethol** a'r **Canllawiau cyffredinol ar adnoddau**.

**Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol**
SCDCCLD0327 Cefnogi plant sydd wedi profi trawma

© WJEC CBAC Ltd.

# Uned 338 Hybu defnyddio amgylcheddau awyr agored ar gyfer twf, dysgu a datblygu yn y blynyddoedd cynnar

| | |
|---|---|
| **Lefel:** | 3 |
| **ODA:** | 5 |
| **Credyd:** | 3 |
| **Crynodeb o'r Uned:** | Nod yr uned hon yw cefnogi dysgwyr i ddatblygu'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i hybu dysgu, twf a datblygu yn yr amgylchedd awyr agored drwy gyfrwng amrywiaeth o weithgareddau, profiadau a chyfleoedd. |

## Deilliant dysgu:

1. Deall egwyddorion defnyddio'r amgylchedd awyr agored i gefnogi datblygiad cyfannol

## Meini prawf asesu

Rydych chi'n deall:

1.1 Gwahanol **fathau o amgylcheddau awyr agored**
1.2 Nodweddion amgylcheddau awyr agored sy'n cefnogi datblygiad cyfannol
1.3 **Manteision cael mynediad i amgylcheddau awyr agored** drwy gyfrwng **gwahanol fathau o weithgareddau, profiadau a chyfleoedd** ar gyfer:
- plant 0 – 2 oed
- plant 2 – 3 oed
- plant 3 – 7 oed

1.4 Pwysigrwydd mynediad rheolaidd i amgylcheddau awyr agored i bob plentyn
1.5 Sut i hybu manteision cael mynediad i amgylcheddau awyr agored gyda theuluoedd / gofalwyr
1.6 Sut gallai diffyg mynediad i amgylcheddau awyr agored effeithio ar blant
1.7 Sut i fewnblannu egwyddorion addysgeg mewn gweithgareddau mewn amgylcheddau awyr agored
1.8 Asesiadau risg mae'n rhaid eu cynnal i sicrhau diogelwch wrth ddefnyddio amgylcheddau awyr agored sydd:
- yn gytbwys
- yn ystyried y manteision yn ogystal â'r risgiau

1.9 Sut i ennyn diddordeb plant mewn **archwilio ymhellach a dysgu** am yr amgylchedd awyr agored tra byddan nhw dan do

## Amrediad

**Mathau o amgylcheddau awyr agored –** mannau gwyrdd lleol, parciau, coedydd, coedwigoedd, traethau, meysydd chwarae, gwarchodfeydd natur, parciau bywyd gwyllt, amgueddfeydd awyr agored, meysydd chwaraeon, gerddi, pyllau
**Manteision cael mynediad i amgylcheddau awyr agored –** datblygiad corfforol, deallusol, emosiynol a chymdeithasol, llesiant, hyder, gwydnwch, cymryd risg, ysgogi a defnyddio'r synhwyrau, deall yr amgylchedd naturiol a chynaliadwyedd, deall pethau byw, dinasyddiaeth leol a byd-eang, cysylltiad â chymunedau a rhwydweithiau lleol, chwilfrydedd, archwilio a chreadigrwydd, dysgu drwy brofiad, gofod a graddfa, profiadau bywyd go iawn

© WJEC CBAC Ltd.

**Gwahanol fathau o weithgareddau, profiadau a chyfleoedd –** Chwarae (chwarae creadigol, chwarae corfforol, chwarae llawn dychymyg, chwarae amgylcheddol, chwarae strwythuredig, chwarae heb strwythur / hunangyfeiriedig), teithiau cerdded natur, ymdrochi mewn pyllau, casglu dail, adeiladu ffau, garddio, bwydo adar, helfeydd / gwestai trychfilod, byrddau tywod / dŵr, teganau gwynt
**Archwilio a dysgu pellach** – straeon, caneuon, rhigymau, celf, chwarae, drama, cyfryngau digidol

---

## Deilliant dysgu:

2. Hybu defnyddio amgylcheddau awyr agored i gefnogi datblygiad cyfannol plant

## Meini prawf asesu

Rydych chi'n gallu gweithio
mewn ffyrdd sy'n:

2.1 Hybu cefnogaeth i blant gael mynediad at amrywiaeth o amgylcheddau awyr agored gyda:
- teuluoedd / gofalwyr
- eraill

2.2 Hybu cefnogaeth i blant gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau, profiadau a chyfleoedd mewn amgylcheddau awyr agored
2.3 Modelu rôl arfer gorau wrth ddarparu gweithgareddau, profiadau a chyfleoedd mewn amgylcheddau awyr agored i blant a'u cefnogi nhw i gymryd rhan ynddynt
2.4 Mewnblannu egwyddorion addysgeg wrth gefnogi plant i gael mynediad at weithgareddau, profiadau a chyfleoedd mewn amgylcheddau awyr agored a chymryd rhan ynddynt
2.5 Sicrhau bod addasiadau'n cael eu gwneud i gefnogi ymgysylltiad a chynhwysiant pob plentyn
2.6 Cynnal asesiadau risg cytbwys i sicrhau bod mesurau diogelwch priodol ar waith ar gyfer defnyddio amgylcheddau awyr agored
2.7 Hybu cefnogaeth i fynd ati i archwilio ymhellach a dysgu am yr awyr agored tra byddan nhw dan do

---

## Deilliant dysgu:

3. Gwerthuso defnyddio amgylcheddau awyr agored i gefnogi datblygiad cyfannol

## Meini prawf asesu

Rydych chi'n gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

3.1 Gwerthuso pa mor dda mae amrywiaeth o amgylcheddau awyr agored wedi cefnogi datblygiad cyfannol
3.2 Gwerthuso pa mor dda mae amrywiaeth o weithgareddau, profiadau a chyfleoedd mewn amgylcheddau awyr agored wedi cefnogi datblygiad cyfannol
3.3 Adfyfyrio ar eich ymarfer eich hun wrth gefnogi plant i ddefnyddio'r amgylchedd awyr agored

© WJEC CBAC Ltd.

# Uned 338 Hybu defnyddio amgylcheddau awyr agored ar gyfer twf, dysgu a datblygu yn y blynyddoedd cynnar

## Gwybodaeth Ategol

### Gofynion tystiolaeth

Bydd y dystiolaeth ar gyfer yr uned hon yn cael ei chyflwyno drwy'r tasgau strwythuredig. Mae canllawiau ar gyfer unrhyw dystiolaeth ychwanegol y gall fod ei hangen i'w gweld yn y pecyn asesu.

### Canllawiau cyflwyno

Dylai'r uned hon gael ei chyflwyno mewn ffordd sy'n ymgorffori ac yn adeiladu ar y wybodaeth graidd a ddatblygwyd o fewn y cymhwyster Lefel 2 Craidd, a thrwy gymhwyso'r wybodaeth hon yn ymarferol, a ddangosir drwy'r uned orfodol ymarfer craidd.

**Egwyddorion addysgeg:**

- y plentyn (cael dewis, cyfranogi, cymryd rhan, cychwyn a chyfarwyddo eu dysgu eu hunain dros gyfnod, dysgu o'u gweithgareddau archwiliadol, ymarferol ac uniongyrchol eu hunain, cael eu herio a'u cefnogi'n briodol gan yr oedolion a'r amgylchedd dysgu, fel eu bod nhw'n gwneud cynnydd da),
- yr amgylchedd dysgu (sy'n darparu llif rhwng gweithgareddau parhaus, datblygedig a chanolbwyntiedig, dan do ac yn yr awyr agored, sy'n adlewyrchu ac yn ymgysylltu â diddordebau plant, sy'n caniatáu i blant gael mynediad at adnoddau sy'n eu galluogi nhw i ddefnyddio dewis a datblygu annibyniaeth yn eu dysgu, sy'n galluogi plant i gymhwyso, defnyddio, atgyfnerthu ac estyn eu sgiliau ar draws eu dysgu, gan gynnwys cyfleoedd i blant fod yn gorfforol ac yn wybyddol weithgar yn ogystal â chael 'amser tawel' i adfyfyrio a meddwl),
- y gweithwyr (sy'n annog y plentyn i feddwl am ei brofiadau dysgu ac adfyfyrio arnynt er mwyn ymestyn ei ddysgu pan fo'n briodol, sy'n cynllunio cyfleoedd dysgu diddorol sy'n briodol i gam datblygiad y plentyn, wedi'u llywio gan arsylwi ac asesu galluoedd plant yn rheolaidd, sy'n mynd ati i gynnwys teuluoedd/gofalwyr yn y lleoliad/cymuned yr ysgol, gan eu gweld nhw fel partneriaid yn nysg eu plant; sy'n ceisio datblygu eu hunain yn barhaus yn broffesiynol, gan rannu a dysgu o arfer rhagorol ac effeithiol a gweithio gydag ymarferwyr eraill ledled Cymru a thu hwnt)

**Asesiad risg cytbwys:**

Mae gwybodaeth ar gael o Chwarae Cymru **https://chwarae.cymru/chwarae/chwarae-a-risg/**

### Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig

Cyfeiriwch at yr adrannau **Canllawiau cyffredinol ar ddeddfwriaeth, cyfarwyddyd a pholisi cenedlaethol** a'r **Canllawiau cyffredinol ar adnoddau**.

Amgylcheddau Ysbrydoledig: https://www.pacey.org.uk/working-in-childcare/inspiring-environments/

**Safon Alwedigaethol Genedlaethol**

© WJEC CBAC Ltd.

# Uned 339 — Hybu cefnogaeth i blant ddatblygu ymddygiadau sy'n gwerthfawrogi eu hunain ac eraill

| | |
|---|---|
| **Lefel:** | 3 |
| **ODA:** | 7 |
| **Credyd:** | 3 |
| **Crynodeb o'r Uned:** | Nod yr uned hon yw cefnogi dysgwyr i ddatblygu'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i hybu cefnogaeth i blant ddatblygu ymddygiadau sy'n dangos gwerth iddyn nhw eu hunain ac i eraill drwy gyfrwng dysgu cymdeithasol ac emosiynol. |

## Deilliant dysgu:

1. Deall pwysigrwydd dysgu cymdeithasol ac emosiynol i blant

## Meini prawf asesu

Rydych chi'n deall:

1.1 Beth yw ystyr y term 'dysgu cymdeithasol ac emosiynol'

1.2 Manteision posibl dysgu cymdeithasol ac emosiynol ar gyfer:
- plant
- cymunedau a chymdeithas

1.3 Beth yw ystyr "ymdeimlad o berthyn" a sut mae dysgu cymdeithasol ac emosiynol yn gallu cefnogi hyn

1.4 Ystyr y termau:
- nodweddion gwarchodedig
- rhagfarn
- tuedd ddiarwybod
- hiliaeth
- gwahaniaethu lluosog
- ymagwedd wrth-hiliaeth
- ymwybyddiaeth ddiwylliannol
- sensitifrwydd diwylliannol

1.5 Effaith bosibl hiliaeth ar blant, teuluoedd a chymunedau

1.6 Sut gall dull gweithredu gwrth-hiliaeth effeithio'n gadarnhaol ar blant, teuluoedd a chymunedau

1.7 Sut mae dysgu cymdeithasol ac emosiynol yn gallu cael ei ddefnyddio i addasu a/neu ddylanwadu ar agweddau, gwerthoedd ac ymddygiadau plant yn gadarnhaol o ran gwerthfawrogi eu hunain ac eraill

1.8 Pam mai 3 – 7 oed yw'r cyfnod amser gorau posibl i addasu a/neu ddylanwadu ar agweddau, gwerthoedd ac ymddygiadau plant yn gadarnhaol

© WJEC CBAC Ltd.

Deilliant dysgu:

2. Hybu dysgu cymdeithasol ac emosiynol

Meini prawf asesu

Rydych chi'n deall:

2.1 Sut i ddefnyddio **offer a thechnegau** sy'n sensitif yn ddiwylliannol i gefnogi dysgu cymdeithasol ac emosiynol
2.2 Pwysigrwydd cynnwys teuluoedd / gofalwyr yn y ffordd mae plant yn dysgu, yn gymdeithasol ac yn emosiynol
2.3 Pam ei bod yn bwysig i weithwyr adfyfyrio ar eu hagweddau, eu gwerthoedd, eu hymddygiadau a'u rhagfarnau eu hunain wrth gefnogi dysgu cymdeithasol ac emosiynol plant

Rydych chi'n gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

2.4 Modelu rôl o ran defnyddio offer a thechnegau sy'n ddiwylliannol sensitif i gefnogi:
- dysgu cymdeithasol ac emosiynol
- ymdeimlad o berthyn

2.5 Sicrhau bod addasiadau'n cael eu gwneud i gefnogi ymgysylltiad a chynhwysiant pob plentyn
2.6 Hybu defnyddio offer a thechnegau sy'n ddiwylliannol sensitif i gefnogi dysgu cymdeithasol ac emosiynol gyda gweithwyr a theuluoedd eraill
2.7 Monitro a gwerthuso defnyddio offer a thechnegau sy'n sensitif yn ddiwylliannol ar gyfer dysgu cymdeithasol ac emosiynol wrth addasu a/neu ddylanwadu ar agweddau, gwerthoedd ac ymddygiadau plant yn gadarnhaol
2.8 Adfyfyrio'n barhaus ar eich agweddau, eich gwerthoedd, eich ymddygiadau a'ch rhagfarnau eich hun a sut gallai'r rhain effeithio ar:
- dysgu cymdeithasol ac emosiynol plant
- eraill

2.9 Mynd ati i hybu ac ymarfer ymagwedd wrth-hiliaeth

## Amrediad

**Offer a thechnegau** – cysyniad calon a meddwl, straeon, drama, chwarae rôl, chwarae llawn dychymyg, celf, archwilio a labelu teimladau, dathlu amrywiaeth

© WJEC CBAC Ltd.

# Uned 339 Hybu cefnogaeth i blant ddatblygu ymddygiadau sy'n gwerthfawrogi eu hunain ac eraill

# Gwybodaeth ategol

## Gofynion tystiolaeth

Bydd y dystiolaeth ar gyfer yr uned hon yn cael ei chyflwyno drwy'r tasgau strwythuredig. Mae canllawiau ar gyfer unrhyw dystiolaeth ychwanegol y gall fod ei hangen i'w gweld yn y pecyn asesu.

## Canllawiau cyflwyno

Dylai'r uned hon gael ei chyflwyno mewn ffordd sy'n ymgorffori ac yn adeiladu ar y wybodaeth graidd a ddatblygwyd o fewn y cymhwyster Lefel 2 Craidd, a thrwy gymhwyso'r wybodaeth hon yn ymarferol, a ddangosir drwy'r uned orfodol ymarfer craidd.

## Gwybodaeth ategol

Byddai **dysgu cymdeithasol ac emosiynol** yn cynnwys:
- Sut i werthfawrogi eich hun ac eraill
- Sut i feddwl yn gyfartal am eich gilydd
- Goddef, derbyn, parchu a deall pobl eraill
- Sut i ddatblygu perthnasoedd iach
- Dinasyddiaeth fyd-eang
- Dathlu amrywiaeth
- Llythrennedd emosiynol (adnabod a labelu emosiynau)
- Caredigrwydd
- Hunanreoleiddio ymddygiad
- Technegau rheoli straen
- Datrys problemau

Byddai **manteision posibl dysgu cymdeithasol ac emosiynol** yn cynnwys:
Gwella:
- Cymhwysedd cymdeithasol
- Cymhwysedd emosiynol
- Hunanreoleiddio ymddygiadol
- Problemau emosiynol ac ymddygiadol
- Canlyniadau dysgu cynnar

(Blewitt et al 2018)
Lleihau:
- Heriau emosiynol ac ymddygiadol yn ystod blynyddoedd llencyndod

(Durlak et al 2008)
Effeithiau cadarnhaol ar:
- Troseddu
- Cyflogaeth
- Iechyd
- Sgiliau gwybyddol ac anwybyddol

(Heckman a Karapakula 2019)

© WJEC CBAC Ltd.

Cyfeiriad: **https://thinkequal.org/wp-content/uploads/2022/05/TE-Impact-Studies-Summary-2020.pdf**

**Nodweddion gwarchodedig -** Deddf Cydraddoldeb 2010 yw'r ddeddfwriaeth/deddf sy'n berthnasol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Mae'n amddiffyn pobl rhag gwahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth. Mae'n gwneud hyn drwy nodi nifer o 'nodweddion gwarchodedig'. Mae gwahaniaethu yn erbyn unigolyn o ganlyniad i'r canlynol yn erbyn y gyfraith:

- oedran (mae pobl ifanc dan 18 oed yn cael eu diogelu rhag gwahaniaethu ar sail oedran mewn perthynas â gwaith yn unig)
- anabledd
- ailbennu rhywedd
- priodas a phartneriaeth sifil
- beichiogrwydd a mamolaeth
- hil
- crefydd neu gred
- rhyw
- cyfeiriadedd rhywiol.

**Rhagfarn –** rhagdybiaeth neu agwedd negyddol tuag at aelodau o grŵp yn seiliedig ar nodweddion wedi'u rhannu fel hil, rhyw, oedran, crefydd, dosbarth, diwylliant ac ati. Gall rhagfarn fod yn hiliol ond gall hefyd fod ar sail rhyw, oedran neu ddosbarth. Fel arfer, caiff credoau rhagfarnllyd eu dysgu yn gynnar mewn bywyd a gallant effeithio ar ymddygiad mewn ffyrdd cynnil ac amlwg.

**Tuedd ddiarwybod** - Mae tuedd ddiarwybod yn cyfeirio at ffurfiau diarwybod o ragfarn, gwahaniaethu a stereoteipio yn seiliedig ar hil, rhywedd, hunaniaeth rywiol, ethnigrwydd, gallu, oedran ac ati. Mae tueddiadau a rhagfarnau yn aml yn datblygu yn ystod plentyndod cynnar gan rieni, y systemau addysg, y cyfryngau a phrofiadau personol. Gall pawb feddwl mewn ffordd sy'n cynnwys tuedd ddiarwybod ar ryw adeg ond mae'n bwysig ceisio bod yn ymwybodol o hynny a pheidio â gadael iddo effeithio ar ein hymddygiad.

**Hiliaeth** – rhagfarn a gwahaniaethu yn erbyn pobl ar sail eu hil neu ethnigrwydd.

**Gwahaniaethu lluosog** – gwahaniaethu yn erbyn pobl oherwydd mwy nag un nodwedd sy'n rhan o'u hunaniaeth, er enghraifft rhywedd a hil, a bod y rhain yn rhyngweithio i greu mwy o wahaniaethau.

**Ymagwedd** wrth-hiliaeth – Gall hiliaeth ymwneud â chanlyniadau ein gweithredoedd a gall y canlyniadau hyn ddod o lawer o bethau bach nad yw pobl hyd yn oed yn sylwi eu bod yn eu gwneud, nid ymddygiad hiliol amlwg yn unig. Felly gall fod yn anfwriadol ond gall achosi niwed o hyd.
Mae gwrth-hiliaeth yn ymrwymiad gweithredol i weithio yn erbyn anghyfiawnder a gwahaniaethu hiliol.
Mae'n golygu gwneud penderfyniadau ymwybodol a meddylgar am eich ymddygiadau eich hun a sut maen nhw'n effeithio ac yn dylanwadu'n negyddol ar eich tueddiadau a'ch gweithredoedd eich hun. Does dim rhaid i chi fod yn gwbl rydd o hiliaeth neu duedd i fod yn wrth-hiliol. Rhan o'r rôl fel unigolyn gwrth-hiliol yw hunanfyfyrio a hunanwella.
Mae rhywun gwrth-hiliol yn wahanol i rywun anhiliol oherwydd natur weithredol y safbwynt. Mae bod yn wrth-hiliol yn golygu eich bod chi'n rhan weithredol o'r ateb, ond mae bod yn anhiliol yn golygu nad ydych chi'n effeithio ar y broblem.
Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu cynllun gweithredu gwrth-hiliaeth, â'r nod o atal ymddygiad hiliol. Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targed uchelgeisiol o ddileu hiliaeth yng Nghymru erbyn 2030. Mae'r Cynllun yn nodi argymhellion ar gyfer cefnogi gwrth-hiliaeth er

© WJEC CBAC Ltd.

mwyn gwireddu'r uchelgais hwn. (gweler **Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol | LLYW.CYMRU**)

**Ymwybyddiaeth ddiwylliannol –** bod yn feddylgar, yn sylwgar ac yn ymwybodol o sut mae grwpiau diwylliannol yn debyg ac yn wahanol i'w gilydd. Mae ymwybyddiaeth ddiwylliannol yn ein helpu ni i weld a pharchu safbwyntiau pobl eraill ac i werthfawrogi pobl sy'n wahanol i ni.

**Sensitifrwydd diwylliannol** - ymwybyddiaeth a gwerthfawrogiad o'r gwerthoedd, y normau a'r credoau sy'n nodweddiadol i grwpiau diwylliannol, ethnig, hiliol neu grwpiau eraill ynghyd â pharodrwydd i addasu ein hymddygiad ein hunain yn unol â hynny

**Effaith bosibl hiliaeth** – economaidd / addysgol / cyflogaeth / carcharu / gwahaniaethau ac anghydraddoldebau iechyd, hunan-barch, hyder, ymdeimlad o berthyn

**Pam mai 3 – 7 oed yw'r cyfnod amser gorau i addasu agweddau, gwerthoedd ac ymddygiadau plant** – Yn ystod y blynyddoedd cynnar mae gan yr ymennydd niwroplastigrwydd unigryw a 3 – 7 oed yw'r cyfnod gwneud cysylltiadau niwral sy'n para, a'r plentyn yn adeiladu ei hunaniaeth, ei ffyrdd arferol o ymateb, ei reoleiddio emosiynol a'i bensaernïaeth gwybyddol, ymddygiadol ac agweddol. Mae 90% o ymennydd oedolyn wedi'i ffurfio'n llawn erbyn 5 oed.
Mae'r blynyddoedd cynnar hyd at 7 oed yn cynnig cyfnod optimaidd o amser i addasu agweddau ac ymddygiad yn gadarnhaol mewn modd sy'n para nes bod rhywun yn oedolyn ac yn gallu cynyddu:

- hunan-werth
- llythrennedd emosiynol
- hunanreoleiddio
- meddwl yn feirniadol
- cynhwysiant
- datrys problemau
- empathi
- datrys gwrthdaro mewn modd heddychlon
- gwydnwch (*resilience*)
- cydraddoldeb rhwng y rhywiau
- cydraddoldeb ar sail hil
- sgiliau meithrin perthnasoedd.

Cyfraniad Think Equal at iechyd a llesiant

## Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig

Cyfeiriwch at yr adrannau **Canllawiau cyffredinol ar ddeddfwriaeth, cyfarwyddyd a pholisi cenedlaethol** a'r **Canllawiau cyffredinol ar adnoddau**.

DARPL – Dysgu Proffesiynol am Amrywiaeth a Gwrth-Hiliaeth: https://darpl.org/

**Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol**

© WJEC CBAC Ltd.

# Uned 208 Cefnogi plant sy'n byw gyda diabetes mellitus

| | |
|---|---|
| **Lefel:** | 2 |
| **ODA:** | 20 |
| **Credyd:** | 5 |
| **Crynodeb o'r Uned:** | Bydd yr uned hon yn galluogi dysgwyr i ddeall beth yw diabetes; gwahanol fathau o ddiabetes a ffyrdd o drin a rheoli'r cyflwr. Bydd dysgwyr yn ystyried pwysigrwydd llesiant yng nghyd-destun gofal a chymorth. Byddan nhw'n gallu dilyn dull plentyn-ganolog o gefnogi plant i reoli eu diabetes.<br>Yng nghyd-destun yr uned hon, mae'r term ‘diabetes’ yn cyfeirio at ddiabetes mellitus ac mae'r term ‘plant’ yn cyfeirio at blant a phobl ifanc. |

## Deilliant dysgu:

1. Beth sy'n achosi diabetes a ffyrdd o'i drin

## Meini prawf asesu

Rydych yn gwybod:
1.1 **Mathau gwahanol** o ddiabetes a thriniaethau cyffredin
1.2 Yr ystod normal o ran glwcos yn y gwaed ar gyfer diabetes math 1
1.3 Arwyddion a symptomau diabetes ansefydlog
1.4 Cymhlethdodau tymor hir posibl yn sgil diabetes ansefydlog
1.5 Pwysigrwydd adnabod cetonwria
1.6 Y camau i'w cymryd os bydd plentyn sydd â diabetes yn anymatebol
1.7 Ffactorau risg a fyddai'n gallu arwain at ddiabetes math 2 cynnar
1.8 **Ffyrdd** y gellir rheoli diabetes math 1
1.9 Effaith inswlin ar lefelau glwcos yn y gwaed mewn diabetes math 1
1.10 Y termau ‘hypoglycaemia’, ‘hyperglycaemia’ a ‘rheolaeth glycaemig’
1.11 Effaith mathau eraill o afiechyd ar reolaeth glycaemig

## Amrediad

**Mathau o ddiabetes** – math 1, math 2
**Ffyrdd** – anffarmacolegol (cyngor ar ffordd o fyw) a ffarmacolegol (chwistrelladwy)

© WJEC CBAC Ltd.

### Deilliant dysgu:

2. Pwysigrwydd dulliau plentyn-ganolog wrth gefnogi plant sy'n byw gyda diabetes

### Meini prawf asesu

Rydych yn gwybod:
2.1 Heriau sy'n wynebu plant sydd wedi cael diagnosis o ddiabetes a'u teuluoedd/gofalwyr
2.2 Ffactorau sy'n effeithio ar lesiant plant sy'n byw gyda diabetes
2.3 Pwysigrwydd dull 'plentyn-ganolog' wrth weithio gyda phlant sy'n byw gyda diabetes a'u teuluoedd/gofalwyr
2.4 Sut i gefnogi plant sy'n byw gyda diabetes, gan gynnwys addasiadau i'w cefnogi yn eu bywyd bob dydd
2.5 Rolau:
- teuluoedd/gofalwyr
- timau amlddisgyblaethol
- nyrsys arbenigol diabetes

### Deilliant dysgu:

3. Cefnogi plant a'u teuluoedd/gofalwyr i reoli eu diabetes

### Meini prawf asesu

Rydych yn gwybod:
3.1 Sut i gefnogi plant a'u teuluoedd/gofalwyr i reoli eu cyflwr eu hunain yn unol â'u hoedran a'u cyfnod o ddatblygiad
3.2 Effaith rheolaeth glycaemig mewn perthynas â'r canlynol:
- amgylchedd cartref
- patrymau bwyta
- agweddau at fwyd
- gweithgaredd corfforol
- cymhlethdodau tymor hir

3.3 Pwysigrwydd cofnodi'r gofal a'r gefnogaeth a roddir i blant sy'n byw gyda diabetes a rhoi gwybod amdanyn nhw

### Deilliant dysgu:

4. Pwysigrwydd maeth i blant sy'n byw gyda diabetes

### Meini prawf asesu

Rydych yn gwybod:
4.1 Anghenion maethol plant sy'n byw gyda diabetes
4.2 Egwyddorion deiet cytbwys ar gyfer plant sy'n byw gyda diabetes
4.3 Pwysigrwydd prydau bwyd rheolaidd i blant sy'n byw gyda diabetes
4.4 Effaith gwahanol garbohydradau a siwgrau coeth ar lefelau glwcos yn y gwaed

© WJEC CBAC Ltd.

## Deilliant dysgu:

5. Defnyddio dulliau plentyn-ganolog i gefnogi plant a'u cefnogi i reoli eu diabetes yn unol â'u hoedran a'u cyfnod o ddatblygiad

## Meini prawf asesu

Rydych chi'n gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

5.1 Defnyddio dulliau sy'n annog plant mewn modd cadarnhaol i ymddwyn mewn ffyrdd sy'n cefnogi eu gofal wrth iddyn nhw reoli eu diabetes

5.2 Tawelu meddwl plant sy'n byw gyda diabetes a'u teuluoedd/gofalwyr

5.3 Cofnodi pryderon a fyddai'n gallu effeithio ar allu plentyn â diabetes i ofalu amdano ei hun a rhoi gwybod amdanynt.

© WJEC CBAC Ltd.

# Uned 208 Cefnogi plant sy'n byw gyda diabetes mellitus

## Gwybodaeth Ategol

### Gofynion tystiolaeth

Os nad yw'r tasgau cyfannol yn eu hasesu, rhaid cwblhau portffolio o dystiolaeth ar gyfer y deilliannau gwybodaeth ac ymarfer yn yr uned hon. Dylid dilyn yr amodau a amlinellir yn y pecyn asesu o ran cadw'r dystiolaeth yn y portffolio.
Ar gyfer deilliannau'r ymarfer, rhaid bodloni'r gofynion tystiolaeth lleiaf canlynol drwy'r portffolio o dystiolaeth:

- Arsylwi ar y dysgwr yn cyfathrebu â phlentyn neu'n ei gefnogi ar o leiaf tri achlysur.
- Rhaid i ddogfennau a chofnodion gael eu cwblhau'n glir, yn gywir ac yn ddarllenadwy.

### Canllawiau cyflwyno

Dylai'r uned hon gael ei chyflwyno mewn ffordd sy'n ymgorffori ac yn adeiladu ar y wybodaeth graidd a ddatblygwyd o fewn y cymhwyster Lefel 2 Craidd, a thrwy gymhwyso'r wybodaeth hon yn ymarferol, a ddangosir drwy'r uned orfodol ymarfer craidd.

Wrth gyflwyno'r uned hon, mae angen cynnig trosolwg i ddysgwyr o **Ddiabetes Insipidus**. Er nad oes cysylltiad rhwng y cyflwr hwn a chyflwr Diabetes Mellitus; weithiau bydd dryswch rhwng y ddau gyflwr, felly byddai'n fuddiol cynnig trosolwg i ddysgwyr o gyflwr Diabetes Insipidus (achosion ac effeithiau, gan gynnwys ei gysylltiad ag Anafiadau i'r Ymennydd Caffaeledig). Mae'r gwefannau canlynol yn rhoi arweiniad ar Diabetes Insipidus:

- https://www.pituitary.org.uk/media/386047/To-A-E-and-hospital-ward-staff-–-Diabetes-Insipidus-patient-Oct-2014-PM.pdf
- https://www.pituitary.org.uk/information/publications/conditions-and-procedures/diabetes-inspidus-booklet/

**Plentyn-ganolog** – ffordd o weithio sydd â'r nod o roi'r unigolyn wrth wraidd y sefyllfa ofal gan ystyried ei unigoliaeth, ei ddymuniadau a'i ddewisiadau

**Ffactorau sy'n effeithio ar lesiant** – deiet, iechyd corfforol ac iechyd meddwl

### Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS) cysylltiedig

- Diab HA6 Cefnogi plant gyda diabetes i newid eu hymddygiad er mwyn lleihau'r risg o gymhlethdodau a gwella eu hansawdd bywyd
- Diab HA10 Helpu plant gyda diabetes i leihau risg cardiofasgwlar
- Diab HA9 Helpu unigolyn gyda diabetes i reoli lefelau glwcos yn y gwaed yn well
- Diab HA5 Helpu unigolyn i ddeall effeithiau bwyd, diod ac ymarfer corff ar ei ddiabetes
- Diab HA13 Rhoi gwybodaeth a chyngor er mwyn galluogi unigolyn gyda diabetes i sicrhau cyn lleied â phosibl o risg o hypoglycaemia

© WJEC CBAC Ltd.

## Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig

- Gwefan Diabetes UK – https://www.diabetes.org.uk/home
- Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal www.nice.org.uk/guidance
- Plant Iach Cymru https://gov.wales/topics/health/publications/health/reports/healthy-child/?lang=cy
- 10 Cam i Bwysau Iach http://everychildwales.co.uk/dyma-ein-10-cam-i-bwysau-iach/?lang=cy
- Cynllun Cyflawni Cymru ar gyfer Diabetes 2016-2020 Gofal o'r safon orau i bawb sydd â diabetes Rhagfyr 2016
- Darlun o ddiabetes yng Nghymru https://seneddymchwil.blog/2017/04/27/darlun-o-ddiabetes-yng-nghymru/
- Safonau Iechyd a Gofal, Llywodraeth Cymru Ebrill 2015 https://gov.wales/docs/dhss/publications/150402standardscy.pdf

© WJEC CBAC Ltd.

# Uned 209 Ymateb i adweithiau anaffylactig

| | |
|---|---|
| **Lefel:** | 2 |
| **ODA:** | 10 |
| **Credyd:** | 2 |
| **Crynodeb o'r Uned:** | Mae'r uned hon yn meithrin dealltwriaeth lawn ymhlith dysgwyr o achosion a thriniaethau anaffylacsis, sut mae'n effeithio ar y corff a sut y gellir rhoi diagnosis ohono a'i drin. Bydd dysgwyr yn edrych yn fanwl ar y ffordd mae anaffylacsis yn effeithio ar fywydau unigolion/plant a'u teuluoedd/gofalwyr a byddan nhw'n dysgu'r sgiliau sydd eu hangen i'w helpu yn achos adwaith anaffylactig.<br>Yng nghyd-destun yr uned hon, mae'r term 'unigolyn' yn cyfeirio at oedolion, plant a phobl ifanc. |

## Deilliant dysgu:

1. Ymateb yn ddiogel i adwaith anaffylactig

## Meini prawf asesu

Rydych yn gwybod:

1.1 Sut mae anaffylacsis yn wahanol i adweithiau alergaidd eraill
1.2 Arwyddion a symptomau anaffylacsis
1.3 Systemau cysylltiedig y corff sy'n gyfrifol am adwaith anaffylactig
1.4 Y gwahanol **fathau o anaffylacsis**
1.5 Ffactorau a fyddai'n gallu sbarduno anaffylacsis
1.6 Dulliau o drin adwaith anaffylactig, gan gynnwys offer a chyffuriau
1.7 Ffactorau sy'n pennu'r driniaeth briodol ar gyfer adweithiau anaffylactig
1.8 Ble i gael cyngor, cefnogaeth ac arweiniad ar anaffylacsis ac adweithiau alergaidd
1.9 Canllawiau a phrotocolau sy'n gysylltiedig â chefnogi plant a'u teuluoedd/gofalwyr yn achos anaffylacsis ac adweithiau alergaidd
1.10 Gweithdrefnau sy'n gallu lleihau'r posibilrwydd o adwaith alergaidd ac anaffylacsis

Rydych chi'n gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

1.11 Rhoi cefnogaeth i unigolion/plant sy'n dangos arwyddion a symptomau adwaith anaffylactig
1.12 Dilyn dull ABCDE o drin adwaith anaffylactig
1.13 Dilyn gweithdrefnau'r sefydliad/lleoliad ar gyfer storio adrenalin yn ddiogel er mwyn ei ddefnyddio i drin adweithiau anaffylactig
1.14 Cofnodi a rhoi gwybod am yr achos o adwaith anaffylactig a'r camau a gymerwyd yn unol â pholisi a gweithdrefnau'r sefydliad/lleoliad ac unrhyw gytundebau â theulu/gofalwr yr unigolyn/plentyn

## Amrediad

**Mathau o anaffylacsis** – monogyfnodol, deugyfnodol, estynedig

© WJEC CBAC Ltd.

# Uned 209 Ymateb i adweithiau anaffylactig

## Gwybodaeth Ategol

### Gofynion tystiolaeth

Os nad yw'r tasgau cyfannol yn eu hasesu, rhaid cwblhau portffolio o dystiolaeth ar gyfer y deilliannau gwybodaeth ac ymarfer yn yr uned hon. Dylid dilyn yr amodau a amlinellir yn y pecyn asesu o ran cadw'r dystiolaeth yn y portffolio.
Ar gyfer deilliannau'r ymarfer, rhaid bodloni'r gofynion tystiolaeth lleiaf canlynol drwy'r portffolio o dystiolaeth:

- Arsylwi ar y dysgwr yn cyflawni ymateb wedi'i efelychu i adwaith anaffylactig. **Caniateir efelychu adwaith anaffylactig a'r ymateb gofynnol.**

### Canllawiau cyflwyno

Dylai'r uned hon gael ei chyflwyno mewn ffordd sy'n ymgorffori ac yn adeiladu ar y wybodaeth graidd a ddatblygwyd o fewn y cymhwyster Lefel 2 Craidd, a thrwy gymhwyso'r wybodaeth hon yn ymarferol, a ddangosir drwy'r uned orfodol ymarfer craidd.

**Anaffylacsis** – adwaith gorsensitifrwydd cyffredinol neu systemig eithafol a difrifol sy'n peryglu bywyd yw anaffylacsis. Ei nodweddion yw problemau gyda llwybr anadlu a/neu anadlu a/neu gylchrediad sy'n datblygu'n gyflym ac yn peryglu bywyd ac sydd fel arfer yn gysylltiedig â newidiadau i'r croen a newidiadau mwcosaidd

**Arwyddion a symptomau** – gallen nhw gynnwys gwrid, brech ar y croen, panig/gorbryder, pilenni mwcws yn chwyddo (e.e. y tafod, y gwddf, y gwefusau a'r geg), trafferth llyncu neu siarad, cynnydd yng nghyfradd curiad y galon, asthma/anawsterau anadlu difrifol, poen yn yr abdomen, cyfog/chwydu, gostyngiad mewn pwysedd gwaed, pendro, teimlo'n wanllyd/llewygu, ymgwympo a mynd yn anymwybodol

**Ffactorau a fyddai'n gallu sbarduno** – gallen nhw gynnwys bwyd (e.e. cnau mwnci, cnau almon, cnau Ffrengig, cnau cashiw, cnau Brasil, sesame, pysgod, pysgod cregyn, cynnyrch llaeth, wyau), meddyginiaeth (e.e. penisilin, asbrin), cemegion, deunyddiau (e.e. latecs), pigiadau gwenyn/gwenyn meirch/pryfed, yr amgylchedd (e.e. clefyd y gwair)

**Cefnogaeth** – dylid rhoi cefnogaeth yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r lleoliad/sefydliad ac yn unol â'ch rôl a'ch cyfrifoldebau. Gallai cefnogaeth gynnwys galw am help, gwneud i'r unigolyn deimlo'n gyfforddus ac yn ddiogel, rhoi adrenalin chwistrelladwy lle y bo'n briodol ac yn unol â'ch rôl a'ch cyfrifoldeb, cael gwared ar y sbardun

**Dull ABCDE** – Gellir defnyddio'r dull hwn i asesu a thrin cleifion sy'n dioddef sioc anaffylactig. Y camau yw Llwybr Anadlu, Anadlu, Cylchrediad, Anabledd, Cysylltiad (Airway, Breathing, Circulation, Disability, Exposure – ABCDE – yn Saesneg)

### Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS) cysylltiedig

- SFHAL1 Cysylltu unigolyn â gofal dilynol ar ôl adwaith alergaidd acíwt a difrifol
- SFHAL 2 Adnabod pryd y dylid ystyried p'un a oes gan unigolyn alergedd
- SFHAL10 Galluogi'r staff mewn amgylcheddau addysgol i gefnogi'r gwaith o reoli alergedd unigolyn

© WJEC CBAC Ltd.

## Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig

- Canllawiau NICE https://www.nice.org.uk/Search?q=Anaphylaxis
- Canllawiau QS119 NICE ar Anaffylacsis https://www.nice.org.uk/guidance/qs119
- BSACI (Cymdeithas Alergeddau ac Imiwnoleg Glinigol Prydain), sef sefydliad ar gyfer gweithwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n gofalu am gleifion ag alergeddau – http://www.bsaci.org
- Allergy UK https://www.allergyuk.org/
- Gwefan GIG Cymru – Alergeddau https://www.nhsdirect.wales.nhs.uk/encyclopaedia/ff/article/allergies?locale=cy
- Coleg Brenhinol Paediatreg ac Iechyd Plant – Llwybrau Gofal Alergedd http://www.rcpch.ac.uk/improving-child-health/clinical-guidelines-and-standards/search-paediatric-clinical-guidelines/publi#allergy
- GIG Cymru https://www.nhsdirect.wales.nhs.uk/Encyclopaedia/a/article/anaphylaxis/?locale=cy
- Cyngor Dadebru'r DU https://www.resus.org.uk/anaphylaxis/
- Anaphylaxis UK https://www.anaphylaxis.org.uk
- Safonau Iechyd a Gofal, Llywodraeth Cymru Ebrill 2015 https://gov.wales/docs/dhss/publications/150402standardscy.pdf

© WJEC CBAC Ltd.

## Uned 210 Cyflwyniad i ddiffyg anadl ac asthma mewn plant

| | |
|---|---|
| **Lefel:** | 2 |
| **ODA:** | 10 |
| **Credyd:** | 2 |
| **Crynodeb o'r Uned:** | Mae'r uned hon yn rhoi cyflwyniad i ddysgwyr am ddiffyg anadl ac asthma. Bydd dysgwyr yn meithrin dealltwriaeth o ddiffyg anadl ac asthma a byddan nhw yn gwybod sut i gefnogi plant sy'n profi'r cyflyrau hyn.<br>Yng nghyd-destun yr uned hon, mae'r term 'plant' yn cyfeirio at blant a phobl ifanc. |

### Deilliant dysgu:

1. Achosion ac effeithiau diffyg anadl

### Meini prawf asesu

Rydych yn gwybod:
1.1 Beth yw ystyr 'diffyg anadl'
1.2 Achosion diffyg anadl
1.3 Cysylltiadau rhwng diffyg anadl a mathau eraill o afiechyd
1.4 Arwyddion a symptomau diffyg anadl mewn plant
1.5 Cymhlethdodau posibl y gall diffyg anadl eu hachosi mewn plant

### Deilliant dysgu:

2. Achosion ac effeithiau asthma

### Meini prawf asesu

Rydych yn gwybod:
2.1 Arwyddion a symptomau asthma
2.2 Sut mae asthma yn cael ei fonitro mewn plant
2.3 Achosion a sbardunau posibl asthma
2.4 Effeithiau posibl asthma ar fywydau bob dydd plant a'u datblygiad

© WJEC CBAC Ltd.

## Deilliant dysgu:

3. Sut y gellir rheoli asthma

### Meini prawf asesu

Rydych yn gwybod:
3.1 Meddyginiaethau a ddefnyddir i drin asthma
3.2 Defnyddio a gweithredu gwahanol fathau o fewnanadlydd
3.3 Pwrpas 'gwahanyddion' a phryd y dylid eu defnyddio
3.4 Sut y gellir rheoli asthma yn barhaus
3.5 Sut a phryd i geisio cefnogaeth/arweiniad ychwanegol

## Deilliant dysgu:

4. Y gefnogaeth sydd ei hangen ar blant i reoli pyliau acíwt o asthma

### Meini prawf asesu

Rydych yn gwybod:
4.1 Sut y gellir cefnogi plant a'u teuluoedd/gofalwyr i reoli pyliau acíwt o asthma
4.2 Eich rôl a'ch cyfrifoldebau eich hun wrth gefnogi plant a'u teuluoedd/gofalwyr mewn perthynas ag asthma acíwt

## Deilliant dysgu:

5. Cefnogi plant a'u teuluoedd/gofalwyr i reoli diffyg anadl ac asthma

### Meini prawf asesu

Rydych chi'n gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:
5.1 Defnyddio iaith a dulliau cyfathrebu priodol wrth siarad â phlant am eu hasthma a'i effeithiau.
5.2 Cyfeirio teuluoedd/gofalwyr plant a phobl berthnasol eraill at wybodaeth am sut i gael gafael ar wasanaethau, gwybodaeth a chefnogaeth mewn perthynas ag asthma
5.3 Dilyn gweithdrefnau'r sefydliad/lleoliad ar gyfer storio a chynnal a chadw mewnanadlwyr yn gywir
5.4 Rhoi gwybod i deuluoedd/gofalwyr plant am weithdrefnau'r sefydliad/lleoliad ar gyfer storio a chynnal a chadw mewnanadlwyr
5.5 Cofnodi'r cyngor a'r arweiniad a roddir yn unol â gweithdrefnau'r sefydliad/lleoliad, a rhoi gwybod amdanyn nhw

© WJEC CBAC Ltd.

## Uned 210 Cyflwyniad i ddiffyg anadl ac asthma mewn plant

# Gwybodaeth Ategol

### Gofynion tystiolaeth

Os nad yw'r tasgau cyfannol yn eu hasesu, rhaid cwblhau portffolio o dystiolaeth ar gyfer y deilliannau gwybodaeth ac ymarfer yn yr uned hon. Dylid dilyn yr amodau a amlinellir yn y pecyn asesu o ran cadw'r dystiolaeth yn y portffolio.
Ar gyfer deilliannau'r ymarfer, rhaid bodloni'r gofynion tystiolaeth lleiaf canlynol drwy'r portffolio o dystiolaeth:

- Cynhelir dogfennaeth i gofnodi'r cyngor a roddir i unigolion ar ddiffyg anadl.
- Gall dysgwyr esbonio'r broses y dylid ei dilyn os bydd plentyn yn cael pwl acíwt o asthma.

### Canllawiau cyflwyno

Dylai'r uned hon gael ei chyflwyno mewn ffordd sy'n ymgorffori ac yn adeiladu ar y wybodaeth graidd a ddatblygwyd o fewn y cymhwyster Lefel 2 Craidd, a thrwy gymhwyso'r wybodaeth hon yn ymarferol, a ddangosir drwy'r uned orfodol ymarfer craidd.

Dylid cofnodi'r cyngor a roddir gan ddysgwyr i blant a'u teuluoedd/gofalwyr ar gyfer rheoli diffyg anadl a rhoi gwybod amdano yn unol â'r ddeddfwriaeth a pholisïau'r sefydliad/lleoliad.

**Achosion diffyg anadl** – asthma, niwmonia, anaffylacsis, anaemia, gordewdra, gorwneud wrth ymarfer/ymarfer corff

**Mathau eraill o afiechyd sy'n gysylltiedig â diffyg anadl** – broncitis, afiechydon y llwybr anadlu uchaf, clefyd y gwair

### Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS) cysylltiedig

- SCDHSC0225 Cefnogi unigolion i ddilyn eu gweithdrefnau gofal iechyd a monitro eu hunain
- SCDHSC 0243 Cefnogi defnydd diogel o ddeunyddiau ac offer

© WJEC CBAC Ltd.

## Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig

- Gwefan GIG Cymru – Asthma **https://www.nhsdirect.wales.nhs.uk/encyclopaedia/a/article/asthma/?locale=cy**
- Sefydliad Prydeinig yr Ysgyfaint – triniaeth asthma **https://www.blf.org.uk/support-for-you/asthma/treatment**
- Gwybodaeth am reoli asthma gan Asthma UK. **https://www.asthma.org.uk/advice/manage-your-asthma/action-plan/**
- Gwybodaeth gan Asthma UK am fewnanadlwyr **https://www.asthma.org.uk/advice/inhalers-medicines-treatments/inhalers-and-spacers/**
- Gwefan y GIG – tudalennau ar asthma **http://www.nhs.uk/Conditions/Asthma/Pages/Treatment.aspxowse-all/supporting-learners-with-healthcare-needs/?lang=en**
- Sefydliad Prydeinig yr Ysgyfaint – Diffyg Anadl **https://www.blf.org.uk/support-for-you/breathlessness/causes**
- Gwefan y GIG **http://www.nhs.uk/Conditions/shortness-of-breath/Pages/Introduction.aspx**
- NICE – diffyg anadl – **www.nice.org.uk**
- Sefydliad Prydeinig yr Ysgyfaint **https://www.blf.org.uk/support-for-you/asthma**
- Coleg Brenhinol Paediatreg ac Iechyd Plant – Llwybrau Gofal Alergedd – asthma https://www.rcpch.ac.uk/resources/allergy-care-pathway-asthma-andor-rhinitis
- Asthma UK **https://www.asthma.org.uk/** ac yng Nghymru **https://www.asthma.org.uk/cymru/**
- Safonau Iechyd a Gofal, Llywodraeth Cymru Ebrill 2015 https://gov.wales/docs/dhss/publications/150402standardscy.pdf

© WJEC CBAC Ltd.

# Uned 211 Cefnogi gofal ymataliaeth mewn plant

| | |
|---|---|
| **Lefel:** | 2 |
| **ODA:** | 20 |
| **Credyd:** | 4 |
| **Crynodeb o'r Uned:** | Mae'r uned hon yn datblygu ac yn galluogi dysgwyr i gefnogi plant sydd â phroblemau parhaus mewn perthynas ag ymataliaeth nad ydyn nhw'n gyson â'u hoedran na'u cyfnod o ddatblygiad. Bydd dysgwyr yn meithrin sgiliau er mwyn cefnogi plant i leihau anghysur a chymhlethdodau eraill.<br>Yng nghyd-destun yr uned hon, mae'r term 'plant' yn cyfeirio at blant a phobl ifanc |

## Deilliant dysgu:

1. Cefnogi plant i reoli eu hymataliaeth

## Meini prawf asesu

Rydych yn gwybod:

1.1 Beth yw ystyr 'ymataliaeth' ac 'anymataliaeth'
1.2 Anatomi a ffisioleg y system wrinol
1.3 Anatomi a ffisioleg y llwybr ymborth
1.4 Ffactorau sy'n effeithio ar ymataliaeth mewn plant
1.5 Pwysigrwydd cynnal eich glendid a'ch hylendid eich hun, a glendid a hylendid pobl eraill, wrth gefnogi unigolyn i reoli ymataliaeth

Rydych chi'n gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

1.6 Cefnogi plant i gyfleu eu dewisiadau o ran rheoli eu hymataliaeth
1.7 Cefnogi plant i ddefnyddio cyfleusterau toiled yn rheolaidd er mwyn eu galluogi i gyflawni patrwm ysgarthu yn unol â'u cynllun personol
1.8 Cynnal cofnodion cywir a rhoi gwybod am newidiadau i batrymau ysgarthu plant os oes angen
1.9 Cefnogi plant i ddewis bwyd a diod a fydd yn cefnogi ymataliaeth
1.10 Cefnogi plant i ddefnyddio cymhorthion ymataliaeth yn unol â'u hanghenion a'u dewisiadau
1.11 Annog plant i ddefnyddio dillad a argymhellir, cymhorthion ymataliaeth a thechnegau rheoli i gefnogi ymataliaeth
1.12 Cefnogi plant i ddefnyddio cymhorthion ymataliaeth a thechnegau rheoli mewn ffyrdd sy'n sicrhau cymaint â phosibl o annibyniaeth, hunan-barch, urddas a phreifatrwydd iddynt
1.13 Cofnodi a rhoi gwybod pan fydd yn ymddangos bod y cymhorthion ymataliaeth a thechnegau rheoli a ddefnyddir yn anaddas

© WJEC CBAC Ltd.

## Deilliant dysgu:

2. Cefnogi plant ag anymataliaeth wrinol

## Meini prawf asesu

Rydych chi'n deall:
2.1 Mathau o anymataliaeth wrinol
2.2 Symptomau anymataliaeth wrinol
2.3 Achosion anymataliaeth wrinol a chyflyrau cysylltiedig
2.4 Triniaethau ac ymyriadau ar gyfer anymataliaeth wrinol
2.5 Cymhorthion y gellir eu defnyddio i gefnogi ymataliaeth wrinol

Rydych chi'n gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:
2.6 Cynnal yr amgylchedd, offer a defnyddiau'n gywir, yn unol â chanllawiau a phrotocolau
2.7 Cefnogi plant i gynnal eu hylendid personol gan reoli ymataliaeth wrinol
2.8 Dilyn egwyddorion rheoli heintiau wrth gefnogi plant ag anymataliaeth wrinol

---

## Deilliant dysgu:

3. Cefnogi plant ag anymataliaeth ymgarthol

## Meini prawf asesu

Rydych chi'n deall:
3.1 Achosion anymataliaeth ymgarthol mewn plant
3.2 Symptomau anymataliaeth ymgarthol a chyflyrau cysylltiedig
3.3 Profion am achosion o anymataliaeth ymgarthol
3.4 Triniaethau ac ymyriadau ar gyfer anymataliaeth ymgarthol

Rydych chi'n gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:
3.5 Cynnal yr amgylchedd, offer a defnyddiau'n gywir, yn unol â chanllawiau a phrotocolau
3.6 Cefnogi plant i gynnal eu hylendid personol gan reoli ymataliaeth ymgarthol
3.7 Dilyn egwyddorion rheoli heintiau wrth gefnogi plant ag anymataliaeth ymgarthol

© WJEC CBAC Ltd.

# Uned 211 Cefnogi gofal ymataliaeth mewn plant

## Gwybodaeth Ategol

### Gofynion tystiolaeth

Os nad yw'r tasgau cyfannol yn eu hasesu, rhaid cwblhau portffolio o dystiolaeth ar gyfer y deilliannau gwybodaeth ac ymarfer yn yr uned hon. Dylid dilyn yr amodau a amlinellir yn y pecyn asesu o ran cadw'r dystiolaeth yn y portffolio.
Ar gyfer deilliannau'r ymarfer, rhaid bodloni'r gofynion tystiolaeth lleiaf canlynol drwy'r portffolio o dystiolaeth:

- Adroddiad adfyfyriol wedi'i ysgrifennu gan y dysgwr a'i lofnodi gan dyst yn disgrifio'r gefnogaeth a roddwyd i blant mewn perthynas â gofal ymataliaeth ar o leiaf un achlysur.
- Gellir asesu'r gefnogaeth a roddir i blant er mwyn rheoli anymataliaeth drwy drafod yr hyn mae'r dysgwr wedi'i wneud, a pham, yn hytrach nag arsylwi ar y gefnogaeth ei hun (er mwyn parchu urddas y plentyn).

### Canllawiau cyflwyno

Dylai'r uned hon gael ei chyflwyno mewn ffordd sy'n ymgorffori ac yn adeiladu ar y wybodaeth graidd a ddatblygwyd o fewn y cymhwyster Lefel 2 Craidd, a thrwy gymhwyso'r wybodaeth hon yn ymarferol, a ddangosir drwy'r uned orfodol ymarfer craidd.

- Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol mai symptom yw anymataliaeth ymgarthol, sy'n aml â sawl ffactor cyfrannol, ac felly dylid osgoi tybiaethau rhy syml bod yr achosiaeth yn gysylltiedig ag un diagnosis sylfaenol.
- Byddai rhoi siartiau cefnogaeth i unigolion yn rhan o'r broses o helpu unigolion i gynnal eu hymataliaeth.

**Symptomau** – gollwng wrin, amlder troethi, amharodrwydd i yfed hylifau.

**Gwrthgolinergigau** – gallant reoli pledren orweithredol drwy ymlacio cyhyrau'r bledren. Mae cyffuriau at bledren orweithredol, sydd ar ffurf tabledi gan amlaf, hefyd yn helpu i atal wrin rhag gollwng drwy reoli gwingiadau'r bledren

**Cymhorthion –** padiau ymataliaeth, padiau llithriad, pants anymataliaeth, gwain, cathetrau hunanysbeidiol, cathetrau (bagiau draenio wrinol, systemau cyswllt, falfiau cathetr, dillad, strapiau a standiau cymorth)

**Achosion anymataliaeth ymgarthol (gan gynnwys)** – rhwymedd gyda baeddu gorlif; niwed niwrolegol, seicolegol (gan gynnwys cam-drin rhywiol)

**Achosion anymataliaeth wrinol** – ffactorau anorganig (e.e. problemau datblygu, cynhyrchu gormod o wrin); dal wrin i mewn yn wirfoddol; rhwymedd; heintiadau'r llwybr wrinol, problemau meddygol sylfaenol eraill; anymataliaeth wrth chwerthin, cam-drin corfforol, emosiynol neu rywiol, anymataliaeth oherwydd straen, niwrolegol

**Offer** – cathetrau, bagiau draenio wrinol, systemau cyswllt, falfiau cathetr, dillad, strapiau a standiau cymorth

© WJEC CBAC Ltd.

**Triniaethau ac ymyriadau** – ffordd o fyw, therapïau corfforol ac ymddygiadol (e.e. ailhyfforddi'r bledren); Adolygu arferion bwyta a chymeriant hylifau; Meddyginiaeth (e.e. gwrthgolinergigau), dulliau llawfeddygol, symbylu'r nerfau, triniaethau mewnwthiol, opsiynau rheoli ceidwadol (e.e. cathetrau)

## Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS) cysylltiedig

- SCDHSC0219 Cefnogi unigolion i reoli ymataliaeth
- CC01 Asesu camweithrediad y bledren a'r coluddyn
- CC11 Rhoi rhaglenni defnyddio'r toiled ar waith ar gyfer unigolion
- CC09 Galluogi unigolion i ysgarthu'n effeithiol
- CC08 Gofalu am unigolion gan ddefnyddio cynhyrchion ymatal

## Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig

- Canllawiau NICE https://www.nice.org.uk/guidance/conditions-and-diseases/neurological-conditions/urinary-incontinence
- BAUS https://www.baus.org.uk/
- Grŵp cymorth syndrom coluddyn llidus https://www.theibsnetwork.org/support-groups/
- **Gwlychu gwely o dan 19 oed** https://www.nice.org.uk/guidance/cg111/chapter/1-Guidance#children-under-5-years-with-bedwetting
- Cymuned y Bledren a'r Coluddyn https://www.bladderandbowel.org/bladder/bladder-resources/lifestyle-fluids-and-diet/
- Y GIG – Anymataliaeth wrinol https://www.nhs.uk/conditions/urinary-incontinence/
- Y GIG – Anymataliaeth ymgarthol https://www.nhs.uk/conditions/bowel-incontinence/
- Safonau Iechyd a Gofal, Llywodraeth Cymru Ebrill 2015 https://gov.wales/docs/dhss/publications/150402standardscy.pdf

© WJEC CBAC Ltd.

# Uned 212 Cefnogi unigolion o ran symud a lleoli

| | |
|---|---|
| **Lefel:** | 2 |
| **ODA:** | 20 |
| **Credyd:** | 3 |
| **Crynodeb o'r Uned:** | Nod yr uned hon yw helpu dysgwyr i feithrin y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i gynorthwyo unigolion gyda symud a lleoli. Mae'r uned yn cwmpasu egwyddorion symud a lleoli, ergonomeg ac osgo, yn ogystal â thechnegau ar gyfer symud a lleoli'n ddiogel.<br>Yng nghyd-destun yr uned hon, mae'r term 'unigolyn' yn cyfeirio at oedolion, plant a phobl ifanc. |

## Deilliant dysgu:

1. Anatomeg a ffisioleg sy'n gysylltiedig â chodi a chario a symud a lleoli

### Meini prawf asesu

Rydych yn gwybod:
1.1 Anatomeg a ffisioleg y corff dynol mewn perthynas â chodi a chario a symud a lleoli
1.2 Pwysigrwydd osgo da
1.3 Beth yw ystyr y term 'anhwylderau cyhyrsgerbydol' a goblygiadau tymor byr a thymor hir posibl y rhain
1.4 Pwysigrwydd **dull ergonomig** o godi a chario a symud a lleoli ar gyfer iechyd cyhyrsgerbydol
1.5 Risgiau posibl i unigolion a'r rhai sy'n eu cynorthwyo os na chânt eu symud a'u lleoli yn gywir

### Amrediad

**Dull ergonomig:** mae'n ystyried natur y dasg, yr unigolyn, y llwyth, yr amgylchedd a chyfranogiad y gweithiwr

## Deilliant dysgu:

2. Paratoi i gynorthwyo unigolion o ran symud a lleoli

### Meini prawf asesu

Rydych chi'n deall:
2.1 **Camau gweithredu** mae angen eu cymryd cyn cynorthwyo unigolyn o ran symud a lleoli

Rydych chi'n gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:
2.2 Dilyn y **camau gweithredu** gofynnol cyn cynorthwyo unigolyn o ran symud a lleoli

© WJEC CBAC Ltd.

## Amrediad

**Camau gweithredu:** edrych dros asesiadau risg a chynlluniau (cynlluniau personol, cynlluniau codi a chario, asesiadau risg ar gyfer gofal mannau pwyso), cytuno ar unrhyw gefnogaeth sydd ei angen gan weithwyr eraill, sicrhau bod esgidiau a dillad yn ddiogel ar gyfer symud a lleoli, paratoi'r amgylchedd gan gael gwared ar unrhyw beryglon a sicrhau bod digon o le i symud, archwilio a pharatoi cyfarpar symud a lleoli sy'n cael ei ddefnyddio gan sicrhau ei fod yn ddiogel, yn lân, wedi'i wefru ac yn gyfredol, rhoi mesurau atal a rheoli heintiau ar waith, cadarnhau gyda'r unigolyn faint o gymorth sydd ei angen arno i symud, sicrhau lle y bo modd bod yr unigolyn yn deall y rheswm dros gael ei symud neu ei leoli mewn ffordd benodol, cael cydsyniad gan yr unigolyn i'w symud lle y bo modd

---

### Deilliant dysgu:

3. Cynorthwyo unigolion o ran symud a lleoli

### Meini prawf asesu

Rydych yn gwybod:

3.1 **Gweithgareddau symud a lleoli** y gellir eu defnyddio i gynorthwyo unigolion
3.2 Pam na ddylid llusgo unigolion
3.3 Cyfarpar symud a lleoli a ddefnyddir i gynorthwyo unigolion
3.4 Pwysigrwydd cyfathrebu clir a chydgysylltu camau gweithredu ar gyfer symud a lleoli
3.5 Camau gweithredu i'w cymryd lle mae pryderon ynghylch:
- unigolyn
- cyfarpar symud a lleoli
- ymarfer anniogel

Rydych chi'n gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

3.6 Dilyn y cynlluniau y cytunwyd arnyn nhw ar gyfer cynorthwyo unigolion o ran symud a lleoli yn ddiogel
3.7 Annog cyfranogiad gweithredol mewn gweithgareddau symud a lleoli
3.8 Cyfathrebu â'r unigolyn, arsylwi arno ac addasu ei leoliad er mwyn:
- sicrhau cyn lleied â phosibl o boen, anghysur a ffrithiant
- sicrhau urddas, preifatrwydd a pharch
- sicrhau cymaint â phosibl o annibyniaeth
- sicrhau diogelwch

3.9 Cydgysylltu camau gweithredu ag eraill wrth gynorthwyo unigolion o ran symud a lleoli
3.10 Dychwelyd yr amgylchedd i'w drefniant arferol
3.11 Sicrhau bod cyfarpar symud a lleoli yn lân, yn ddiogel, yn cael ei ddychwelyd i'r lleoliad y cytunwyd arno ac yn barod i'w ddefnyddio yn y dyfodol
3.12 Defnyddio safonau atal a rheoli heintiau
3.13 Cwblhau cofnodion yn unol â gweithdrefnau'r gweithle

## Amrediad

**Gweithgareddau symud a lleoli:** unigolion yn symud yn annibynnol, yn cerdded yn annibynnol o un arwyneb i un arall, yn symud yn annibynnol gan ddilyn cyfarwyddiadau, cael cymorth gan un gweithiwr gofal a chymorth, cael cymorth gan ddau weithiwr gofal a chymorth, cael cymorth gan ddefnyddio cyfarpar symud a lleoli y cytunwyd arno

© WJEC CBAC Ltd.

# Uned 212 Cefnogi unigolion o ran symud a lleoli

## Gwybodaeth Ategol

### Gofynion tystiolaeth

Os nad yw'r tasgau cyfannol yn eu hasesu, rhaid cwblhau portffolio o dystiolaeth ar gyfer y deilliannau gwybodaeth ac ymarfer yn yr uned hon. Dylid dilyn yr amodau a amlinellir yn y pecyn asesu o ran cadw'r dystiolaeth yn y portffolio.
Ar gyfer deilliannau'r ymarfer, rhaid bodloni'r gofynion tystiolaeth lleiaf canlynol drwy'r portffolio o dystiolaeth:

- Arsylwi ar y dysgwr yn cynorthwyo unigolion o ran symud a lleoli ar o leiaf **tri** achlysur.
- Rhaid i ddogfennau a chofnodion gael eu cwblhau'n glir, yn gywir ac yn ddarllenadwy.

### Canllawiau cyflwyno

Dylai'r uned hon gael ei chyflwyno mewn ffordd sy'n ymgorffori ac yn adeiladu ar y wybodaeth graidd a ddatblygwyd o fewn y cymhwyster Lefel 2 Craidd, a thrwy gymhwyso'r wybodaeth hon yn ymarferol, a ddangosir drwy'r uned orfodol ymarfer craidd.

**Cyfarpar symud a lleoli:** gallen nhw gynnwys teclynnau codi sefydlog, teclynnau codi symudol, cynfasau llithro, cynfas diwbaidd, gwregysau codi, gwregys symud a chodi, gwely proffilio trydan, trofwrdd, ysgol wely, blociau llaw, codwr coesau, bwrdd trosglwyddo ochrol hyd llawn, bwrdd trosglwyddo syth a chrwm, cymorth sefyll, disg sefyll a throi, systemau cysgu

**Gweithgareddau symud a lleoli:** cynnal archwiliadau diogelwch ar gyfarpar, gwthio, tynnu a throi llwythi, codi a gostwng llwythi o'r llawr / lefel isel, addasu osgo wrth eistedd, cario llwyth dros bellter byr, codi a chario silindrau, gwthio llwythi i fyny ac i lawr ramp

**Anhwylderau cyhyrsgerbydol:** maen nhw'n cynnwys unrhyw anaf, niwed neu anhwylder i'r cymalau neu feinweoedd eraill yn y breichiau, y coesau neu'r cefn

### Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS) cysylltiedig

- SCDHSC0360 Symud a lleoli unigolion
- HSC 2028 Symud a lleoli unigolion yn unol â'u cynllun gofal
- HSC223 Cyfrannu at symud a chodi unigolion
- PCS23 Helpu i drosglwyddo a lleoli cleifion yn yr amgylchedd amdriniaethol

© WJEC CBAC Ltd.

## Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig

- Rheoliadau Gweithrediadau Codi a Chario 1992 (diwygiwyd 2002) http://www.hse.gov.uk/foi/internalops/ocs/300-399/313_5.htm
- Rheoliadau Gweithrediadau Codi a Chyfarpar Codi (1998) http://www.hse.gov.uk/work-equipment-machinery/loler.htm
- Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau a Digwyddiadau Peryglus (2013) http://www.hse.gov.uk/riddor/index.htm
- Cynllun Gwybodaeth a Phasbort Hyfforddiant Codi a Chario Cymru Gyfan y GIG (2010) http://www.nationalbackexchange.org/files/training_guidelines/all_wales_nhs_manual_handling_passport_scheme.pdf
- Cynllun Pasbort Codi a Chario CLILC, Canllawiau Codi a Chario Pobl ar gyfer Gofal Cymdeithasol
- Safonau Iechyd a Gofal, Llywodraeth Cymru Ebrill 2015 https://gov.wales/docs/dhss/publications/150402standardscy.pdf
- Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch – What you need to do – Moving and handling http://www.hse.gov.uk/healthservices/moving-handling-do.htm

© WJEC CBAC Ltd.

# Uned 213 Cyflwyniad i fesuriadau ffisiolegol mewn plant

| | |
|---|---|
| **Lefel:** | 2 |
| **ODA:** | 15 |
| **Credyd:** | 3 |
| **Crynodeb o'r Uned:** | Bydd yr uned yn galluogi dysgwyr i feithrin y sgiliau a'r cymwyseddau sydd eu hangen i ymgymryd ag amrywiaeth o fesuriadau ffisiolegol sy'n ofynnol mewn sefydliadau/lleoliadau iechyd a gofal. |

## Deilliant dysgu:

1. Ffyrdd o weithio y cytunwyd arnyn nhw ar gyfer ymgymryd â mesuriadau ffisiolegol

### Meini prawf asesu

Rydych yn gwybod:

1.1 **Ffyrdd o weithio y cytunwyd arnyn nhw** wrth ymgymryd â **mesuriadau ffisiolegol**
1.2 Eich rôl a'ch cyfrifoldebau eich hun wrth ymgymryd â **mesuriadau ffisiolegol**
1.3 Pwysigrwydd cofnodi newidiadau ym mesuriadau ffisiolegol plentyn a rhoi gwybod amdanyn nhw
1.4 Prosesau ar gyfer uwchgyfeirio cwestiynau gan blant lle bo'r wybodaeth ofynnol y tu allan i gwmpas eich ymarfer

### Amrediad

**Ffyrdd o weithio y cytunwyd arnyn nhw** – dilyn canllawiau cenedlaethol, polisïau, protocolau ac arfer da
**Mesuriadau ffisiolegol** – pwysedd gwaed, pwls, tymheredd, dirlawnder ocsigen, resbiradaeth, indecs màs y corff (BMI), lefel ymwybyddiaeth, taldra, pwysau

## Deilliant dysgu:

2. Gwneud mesuriadau ffisiolegol

### Meini prawf asesu

Rydych yn gwybod:

2.1 Rhesymau dros ymgymryd â mesuriadau ffisiolegol
2.2 Ystodau normal ar draws gwahanol grwpiau ar gyfer
- pwysedd gwaed
- pwls
- tymheredd
- dirlawnder ocsigen
- resbiradaeth
- indecs màs y corff (BMI)
- lefel ymwybyddiaeth

2.3 Gweithdrefnau priodol ar gyfer ymgymryd â mesuriadau ffisiolegol

© WJEC CBAC Ltd.

2.4 Camau i'w cymryd pan fydd mesuriadau ffisiolegol y tu allan i'w hamrediad normal

Rydych chi'n gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:
2.5 Esbonio i'r plentyn a'r teulu/gofalwr pa fesuriadau ffisiolegol yr ymgymerir â nhw a chael cydsyniad dilys
2.6 Sicrhau bod cyfarpar yn addas i'r pwrpas wrth baratoi i ymgymryd â mesuriadau ffisiolegol
2.7 Rhoi rhagofalon safonol ar waith ar gyfer rheoli heintiau ac iechyd a diogelwch
2.8 Cyflawni'r mesuriadau yn unol â ffyrdd o weithio y cytunwyd arnyn nhw ar yr amlder sydd wedi'i ragnodi, ac mewn ffordd sy'n berthnasol i'r pwrpas asesu
2.9 Cefnogi a thawelu meddwl y plentyn wrth ymgymryd â mesuriadau ffisiolegol, gan addasu dulliau cyfathrebu a thechnegau fel y bo'n briodol
2.10 Cofnodi mesuriadau ffisiolegol a rhoi gwybod amdanyn nhw yn unol â ffyrdd o weithio a gytunwyd
2.11 Ailstocio a storio cyfarpar yn ddiogel ar ôl y driniaeth

## Amrediad

**Grwpiau** – babanod newydd-anedig, plant 0-2 oed, plant 2-3, 3-7, 8-12 oed, pobl ifanc

© WJEC CBAC Ltd.

# Uned 213 Cyflwyniad i fesuriadau ffisiolegol mewn plant

## Gwybodaeth Ategol

### Gofynion tystiolaeth

Os nad yw'r tasgau cyfannol yn eu hasesu, rhaid cwblhau portffolio o dystiolaeth ar gyfer y deilliannau gwybodaeth ac ymarfer yn yr uned hon. Dylid dilyn yr amodau a amlinellir yn y pecyn asesu o ran cadw'r dystiolaeth yn y portffolio.
Ar gyfer deilliannau'r ymarfer, rhaid bodloni'r gofynion tystiolaeth lleiaf canlynol drwy'r portffolio o dystiolaeth:

- Arsylwi ar y dysgwr yn cyflawni o leiaf pum set lawn o fesuriadau ffisiolegol. Dylid gwneud hyn wrth ymarfer neu mewn sefyllfa wedi'i hefelychu lle na fydd mesuriadau'n codi'n naturiol o fewn y rôl yn y sefydliad/lleoliad.

### Canllawiau cyflwyno

Dylai'r uned hon gael ei chyflwyno mewn ffordd sy'n ymgorffori ac yn adeiladu ar y wybodaeth graidd a ddatblygwyd o fewn y cymhwyster Lefel 2 Craidd, a thrwy gymhwyso'r wybodaeth hon yn ymarferol, a ddangosir drwy'r uned orfodol ymarfer craidd.
Mae cynnwys yr uned hon yn ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr feithrin dealltwriaeth o naw mesuriad ffisiolegol allweddol. Rhagwelir y bydd dysgwyr sy'n cwblhau'r uned hon yn ymgymryd â'r rhan fwyaf o'r mesuriadau hyn yn eu hamgylchedd gwaith neu leoliad.
Cydsyniad mewn perthynas â phlant – Fel oedolion, mae gan bobl ifanc (16 oed) hawl i gydsynio i'w triniaeth eu hunain a dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y gellir penderfynu yn erbyn hyn. Tybir bod ganddyn nhw ddigon o allu i benderfynu ynghylch eu triniaeth feddygol eu hunain oni bai bod tystiolaeth ddigonol sy'n awgrymu fel arall. Gall plant o dan 16 oed gydsynio i'w triniaeth eu hunain os credir bod ganddyn nhw ddigon o ddeallusrwydd, cymhwysedd a dealltwriaeth i werthfawrogi'r hyn mae eu triniaeth yn ei olygu yn llawn. Fel arall, gall rhywun â chyfrifoldebau rhiant gydsynio ar eu rhan.

**Gweithdrefnau priodol** – gan gynnwys dewis y maint llawes cywir, cael cydsyniad ac ati
**Perthnasol** – arsylwadau sylfaenol a mesuriadau ffisiolegol mewn perthynas â maes e.e. pwysedd gwaed, pwls / tymheredd, ocsimetreg, cyfradd resbiradol ac ati.

### Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS) cysylltiedig

- SFHCHS19 Ymgymryd â mesuriadau clinigol arferol
- SFHCHS224 Paratoi cyfarpar i fonitro gweithrediad ffisiolegol

© WJEC CBAC Ltd.

## Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig

- 1000 o fywydau a mwy http://www.1000ofywydauamwy.wales.nhs.uk/hafan
- Cymdeithas Gorbwysedd Prydain https://bihsoc.org/
- Canllawiau Royal Marsden https://www.rmmonline.co.uk/manual/c11-sec-0003
- Canllawiau NICE https://www.nice.org.uk/about/what-we-do/our-programmes/nice-guidance/nice-diagnostics-guidance
- GIG Cymru – Atal a Rheoli Heintiau http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/page/95109
- GIG Cymru – Atal a Rheoli Heintiau ar gyfer Lleoliadau Gofal Plant (2014) http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/888/Cyfieithiad%20%20%2D%20All%20Wales%20Infection%20Prevention%20and%20Control%20Guidance%20for%20Educational%20Settings%20CYMRAEG%20May%202017%20FINAL.output.pdf
- GIG Cymru – Canllawiau ar Atal a Rheoli Heintiau Cymru Gyfan ar gyfer Lleoliadau Addysg (2017) http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/888/Cyfieithiad%20%20%2D%20All%20Wales%20Infection%20Prevention%20and%20Control%20Guidance%20for%20Educational%20Settings%20CYMRAEG%20May%202017%20FINAL.output.pdf
- GIG Cymru – Llawlyfr Cenedlaethol ar gyfer Atal a Rheoli Heintiau (NIPCM): Mae polisïau model a ddatblygwyd yn flaenorol gan Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi ildio eu lle i fabwysiadu Llawlyfr Rheoli Heintiau Cenedlaethol yr Alban (NICM) http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/tudalen/95337
- Safonau Iechyd a Gofal, Llywodraeth Cymru Ebrill 2015 https://gov.wales/docs/dhss/publications/150402standardscy.pdf

© WJEC CBAC Ltd.

# Uned 214 Cynnal profion pwynt gofal

| | |
|---|---|
| **Lefel:** | 2 |
| **ODA:** | 15 |
| **Credyd:** | 3 |
| **Crynodeb o'r Uned:** | Nod yr uned hon yw helpu dysgwyr i gynnal profion pwynt gofal. Bydd dysgwyr sy'n cwblhau'r uned hon yn gallu cynnal profion pwynt gofal cywir mewn amrywiaeth o amgylcheddau er mwyn cael canlyniadau cywir.<br>Yng nghyd-destun yr uned hon, mae'r term 'unigolyn' yn cyfeirio at oedolion, plant a phobl ifanc. |

## Deilliant dysgu:

1. Canllawiau, polisïau a phrotocolau sy'n gysylltiedig â phrofion pwynt gofal

## Meini prawf asesu

Rydych yn gwybod:

1.1 Y rheoliadau cenedlaethol cyfredol ar gyfer profion pwynt gofal
1.2 Rôl llywodraethu wrth gynnal profion pwynt gofal
1.3 Pwysigrwydd dilyn gweithdrefnau profion pwynt gofal yn unol â phrotocolau a pholisïau a bennwyd
1.4 Mathau o ymchwiliadau a chyfarpar pwynt gofal sy'n ofynnol mewn sefydliad/lleoliad
1.5 Risgiau a manteision profion pwynt gofal
1.6 Rôl a chyfrifoldeb y gweithredwr profion pwynt gofal
1.7 Yr amodau sydd eu hangen ar gyfer storio defnyddiau traul sy'n gysylltiedig â phrofion pwynt gofal
1.8 Mesurau sicrhau ansawdd mewnol sy'n gysylltiedig â phrofion pwynt gofal
1.9 Gwybodaeth a gofnodir wrth gynnal pob prawf pwynt gofal

## Deilliant dysgu:

2. Cynnal profion pwynt gofal

## Meini prawf asesu

Rydych yn gwybod:

2.1 Ffactorau a fyddai'n gallu cyflwyno risg wrth gynnal profion pwynt gofal
2.2 Mathau o gyfarpar ac offer mae'n ddiogel eu hailddefnyddio, a'r rhai mae'n rhaid cael gwared arnyn nhw ar ôl eu defnyddio unwaith
2.3 Esbonio i'r unigolyn, ei deulu neu ei ofalwr pa fesuriadau ffisiolegol yr ymgymerir â nhw, a chael cydsyniad dilys
2.4 Dulliau o baratoi unigolion ar gyfer casglu samplau
2.5 Ffynonellau gwall posibl y gellir dod ar eu traws wrth gasglu samplau
2.6 Manteision defnyddio systemau cofnodi a chadw cofnodion electronig
2.7 Gweithdrefnau ar gyfer cofnodi a rhoi gwybod am ganlyniadau profion a phroblemau wrth eu cynnal

© WJEC CBAC Ltd.

Rydych chi'n gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

2.8 Rhoi rhagofalon priodol ar waith ar gyfer atal a rheoli heintiau sy'n berthnasol i'r weithdrefn brofi a'r amgylchedd

2.9 Cadarnhau bod adnoddau a chyfarpar o'r math cywir, eu bod yn gweithio a'u bod yn bodloni'r mesurau perfformiad a'r gofynion diogelwch disgwyliedig

2.10 Cadarnhau hunaniaeth yr unigolyn a bod cydsyniad dilys wedi'i gael

2.11 Cymryd y sampl priodol gan ystyried cysur yr unigolyn drwy gydol y broses

2.12 Cynnal profion yn unol â'r weithdrefn weithredol er mwyn sicrhau diogelwch ac ansawdd y canlyniadau

2.13 Cofnodi a rhoi gwybod am ganlyniadau profion yn unol â gweithdrefnau'r sefydliad/lleoliad

2.14 Rheoli'r broses o gynnal a chadw, glanhau, dihalogi a gwaredu cyfarpar a deunyddiau profi, gan ddilyn polisïau a chyfarwyddiadau lleol

© WJEC CBAC Ltd.

# Uned 214 Cynnal profion pwynt gofal

## Gwybodaeth Ategol

### Gofynion tystiolaeth

Os nad yw'r tasgau cyfannol yn eu hasesu, rhaid cwblhau portffolio o dystiolaeth ar gyfer y deilliannau gwybodaeth ac ymarfer yn yr uned hon. Dylid dilyn yr amodau a amlinellir yn y pecyn asesu o ran cadw'r dystiolaeth yn y portffolio.
Ar gyfer deilliannau'r ymarfer, rhaid bodloni'r gofynion tystiolaeth lleiaf canlynol drwy'r portffolio o dystiolaeth:

- Arsylwi ar y dysgwr yn cynnal o leiaf **tri** gweithgaredd profi pwynt gofal ar gyfer **pob** math o sampl y mae rôl y sefydliad/lleoliad yn ei gwmpasu.

### Canllawiau cyflwyno

Dylai'r uned hon gael ei chyflwyno mewn ffordd sy'n ymgorffori ac yn adeiladu ar y wybodaeth graidd a ddatblygwyd o fewn y cymhwyster Lefel 2 Craidd, a thrwy gymhwyso'r wybodaeth hon yn ymarferol, a ddangosir drwy'r uned orfodol ymarfer craidd.

**Cydsyniad mewn perthynas â phlant** – Fel oedolion, mae gan bobl ifanc (16 oed) hawl i gydsynio i'w triniaeth eu hunain a dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y gellir penderfynu yn erbyn hyn. Tybir bod ganddyn nhw ddigon o allu i benderfynu ynghylch eu triniaeth feddygol eu hunain oni bai bod tystiolaeth ddigonol sy'n awgrymu fel arall. Gall plant o dan 16 oed gydsynio i'w triniaeth eu hunain os credir bod ganddyn nhw ddigon o ddeallusrwydd, cymhwysedd a dealltwriaeth i werthfawrogi'r hyn mae eu triniaeth yn ei olygu yn llawn. Fel arall, gall rhywun â chyfrifoldebau rhiant gydsynio ar eu rhan.

**Llywodraethu** – bydd hyn yn benodol i'r lleoliad ond mae'n cynnwys – dirprwyo, atal a rheoli heintiau, llywodraethu gwybodaeth – diogelu data, diogelwch yr unigolyn, codau bar – cadarnhau hunaniaeth (ID) y gweithredwr a hunaniaeth (ID) y claf, trywyddau archwilio cyfrinachedd

**Ffactorau** – gan gynnwys traws-heintiad, cyfarpar ac ymarfer anniogel

**Manteision** – gallen nhw gynnwys llai o bosibilrwydd o wall, system fyw wedi'i diweddaru â'r canlyniadau diweddaraf, arbed amser, gwybodaeth wedi'i llenwi ymlaen llaw ar ffurflenni

**Problemau** – gallen nhw gynnwys camddefnydd, camweithio, ymyrraeth, darlleniadau anarferol, diffyg cydymffurfio gan yr unigolyn/plentyn, sampl annigonol

**Cysur** – gan ystyried cynnal urddas a phreifatrwydd, darparu gorchuddion/cyfarpar perthnasol, lleoli, cyfathrebu'n briodol

### Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS) cysylltiedig

- CHS217 Cynnal profion pwynt gofal
- SFHCHS19 Ymgymryd â mesuriadau clinigol arferol
- SFHCHS224 Paratoi cyfarpar i fonitro gweithrediad ffisiolegol

© WJEC CBAC Ltd.

## Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig


- Point of Care Testing Governance Pathology: Why, When and How? - A User Guide. Pwyllgor Cynghori Gwyddonol Cymru, Ionawr 2008
- Canllawiau'r Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA): Management and use of IVD Point of care Test devices 2013 https://www.gov.uk/government/collections/in-vitro-diagnostic-ivd-devices-use-safety-and-management
- Department of Health. Clinical Governance in the new NHS. London DoH 1999 (Health Service circular: HSC (99) 065
- BS EN ISO 22870:2006 Point of Care Testing (POCT) Requirement for quality and competence https://www.bsigroup.co.uk
- Safonau Iechyd a Gofal, Llywodraeth Cymru Ebrill 2015 https://gov.wales/docs/dhss/publications/150402standardscy.pdf


© WJEC CBAC Ltd.

# Uned 215 Casglu sbesimenau

| | |
|---|---|
| **Lefel:** | 2 |
| **ODA:** | 10 |
| **Credyd:** | 3 |
| **Crynodeb o'r Uned:** | Bydd yr uned hon yn sicrhau bod dysgwyr yn meithrin y sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen i gasglu sampl ar gyfer profion ac ymchwiliadau mewn labordy.<br>Yng nghyd-destun yr uned hon, mae'r term 'unigolyn' yn cyfeirio at oedolion, plant a phobl ifanc. |

## Deilliant dysgu:

1. Canllawiau, polisïau a phrotocolau sy'n gysylltiedig â chasglu sbesimenau

## Meini prawf asesu

Rydych yn gwybod:
1.1 Rheoliadau cyfredol sy'n ategu casglu sbesimenau
1.2 Rôl llywodraethu wrth gasglu sbesimenau
1.3 Pwysigrwydd casglu sbesimenau yn unol â phrotocolau a pholisïau gosod

## Deilliant dysgu:

2. Casglu sbesimenau

## Meini prawf asesu

Rydych yn gwybod:
2.1 Sut i baratoi unigolion ar gyfer casglu sbesimenau
2.2 Dulliau o gadarnhau hunaniaeth yr unigolion/plant cyn dechrau triniaeth, a phwysigrwydd gwneud hynny
2.3 Ffynonellau gwall posibl y gellir dod ar eu traws wrth gasglu sbesimenau
2.4 Pwysigrwydd labelu sbesimenau gan ddilyn gweithdrefnau'r sefydliad/lleoliad
2.5 Llestri casglu sydd eu hangen ar gyfer gwahanol fathau o sbesimenau a phrofion yn y sefydliad/lleoliad

Rydych chi'n gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:
2.6 Cadarnhau pwy yw'r unigolyn
2.7 Esbonio i'r unigolyn a'r teulu/gofalwr pa samplau sydd i'w cymryd a chael cydsyniad dilys
2.8 Rhoi rhagofalon priodol ar waith ar gyfer atal a rheoli heintiau sy'n berthnasol i'r weithdrefn casglu sbesimen a'r amgylchedd
2.9 Cadarnhau bod adnoddau a chyfarpar o'r math cywir, eu bod yn gweithio a'u bod yn bodloni'r mesurau perfformiad a'r gofynion diogelwch disgwyliedig
2.10 Cymryd y sampl priodol yn unol â gweithdrefnau'r sefydliad/lleoliad
2.11 Sicrhau bod yr unigolion yn gyfforddus drwy gydol y broses o gasglu sbesimen

© WJEC CBAC Ltd.

2.12 Sicrhau bod y sampl wedi'i labelu'n gywir, ac ailgadarnhau hunaniaeth yr unigolyn
2.13 Paratoi'r sbesimen i'w gludo gan ddilyn polisïau a chyfarwyddiadau lleol
2.14 Bod yn gyfrifol am y sampl nes iddi gael ei throsglwyddo i gael ei chludo
2.15 Cofnodi a rhoi gwybod yn unol â gweithdrefnau'r sefydliad/lleoliad
2.16 Rheoli'r broses o gynnal a chadw, glanhau, dihalogi a gwaredu cyfarpar a deunyddiau casglu, gan ddilyn polisïau a chyfarwyddiadau lleol

© WJEC CBAC Ltd.

# Uned 215 Casglu sbesimenau

## Gwybodaeth Ategol

### Gofynion tystiolaeth

Os nad yw'r tasgau cyfannol yn eu hasesu, rhaid cwblhau portffolio o dystiolaeth ar gyfer y deilliannau gwybodaeth ac ymarfer yn yr uned hon. Dylid dilyn yr amodau a amlinellir yn y pecyn asesu o ran cadw'r dystiolaeth yn y portffolio.
Ar gyfer deilliannau'r ymarfer, rhaid bodloni'r gofynion tystiolaeth lleiaf canlynol drwy'r portffolio o dystiolaeth:

- Arsylwi ar y dysgwr yn cyflawni o leiaf **tri** gweithgaredd casglu sbesimenau.

### Canllawiau cyflwyno

Dylai'r uned hon gael ei chyflwyno mewn ffordd sy'n ymgorffori ac yn adeiladu ar y wybodaeth graidd a ddatblygwyd o fewn y cymhwyster Lefel 2 Craidd, a thrwy gymhwyso'r wybodaeth hon yn ymarferol, a ddangosir drwy'r uned orfodol ymarfer craidd.

**Llywodraethu** – bydd hyn yn benodol i'r lleoliad ond mae'n cynnwys – dirprwyo, atal a rheoli heintiau, llywodraethu gwybodaeth – diogelu data, cadarnhau hunaniaeth (ID) yr unigolyn/plentyn, trywyddau archwilio cyfrinachedd, cludo, labelu a phecynnu samplau

**Cysur** – gan ystyried cynnal urddas a phreifatrwydd, darparu gorchuddion/cyfarpar perthnasol, lleoli, cyfathrebu'n briodol

### Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS) cysylltiedig

- SFHCHS7 Cael a phrofi sbesimenau gan blant
- SFHHCS17 Cael sbesimenau gan blant ar gyfer ymchwiliadau mewn labordy
- SFHCHS187 Gwaredu sbesimenau a samplau biofeddygol yn ddiogel
- SFHCHS186 Storio sbesimenau a samplau

### Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig

- Canllawiau NICE https://www.nice.org.uk/about/what-we-do/our-programmes/nice-guidance/nice-diagnostics-guidance
- Cyflwyniad i Gasglu Sbesimenau https://www.labcorp.com/resource/introduction-to-specimen-collection#
- Casglu Sbesimenau http://www.northcumbriaccg.nhs.uk/about-us/key-policies-and-documents/policies/infection-prevention/21-specimen-collection-october-2015-version-100.pdf
- Safonau Iechyd a Gofal, Llywodraeth Cymru Ebrill 2015 https://gov.wales/docs/dhss/publications/150402standardscy.pdf

© WJEC CBAC Ltd.

## Uned 330 Egwyddorion a damcaniaethau sy'n dylanwadu ar ofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant yn yr 21ain ganrif yng Nghymru

<table>
<tr><td>Lefel:</td><td>Lefel 3</td></tr>
<tr><td>Gwerth credyd:</td><td>34</td></tr>
<tr><td>ODA:</td><td>280</td></tr>
<tr><td>Nod yr Uned</td><td><ul><li>Rhoi gwybodaeth a dealltwriaeth i ddysgwyr o'r egwyddorion a'r damcaniaethau sy'n dylanwadu ar ofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant yng Nghymru.</li><li>Adeiladu ar ac estyn y wybodaeth a gafwyd yn y cymhwyster Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Craidd a'r cymhwyster Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori.</li><li>Adeiladu ar ac estyn y dysgu ymarferol a damcaniaethol a ddatblygwyd yng nghydran ymarfer y cymhwyster hwn.</li></ul></td></tr>
<tr><td>Crynodeb o'r Uned:</td><td>Mae'r cynnwys yn canolbwyntio ar egwyddorion a damcaniaethau sy'n dylanwadu ar iechyd, llesiant a datblygiad plant a sut gallai'r sector gofal plant a iechyd plant ymateb i holl anghenion plant 0-19 mlwydd oed.<br><br>Mae 5 maes testun:<ul><li>cefnogi datblygiad cyfannol o 0 i 19 oed</li><li>dulliau'n ymwneud ag ymddygiad cadarnhaol i gefnogi datblygiad cyfannol</li><li>darpariaeth gofal iechyd ar gael yng Nghymru o adeg cenhedlu hyd at 19 oed a sut mae'n cefnogi iechyd a llesiant</li><li>yr egwyddorion i sicrhau dysgu cynhwysol i bob plentyn 0-19 oed</li><li>effaith meddwl traddodiadol a chyfoes ar ddatblygiad cyfannol plant.</li></ul>Mae'r uned hon yn cyfrif am 15% o'r cymhwyster diploma cyfan.</td></tr>
<tr><td>Math o asesiad:</td><td>Asesiad allanol<br>Arholiad allanol: bydd hyn yn asesu cynnwys o destunau 1-5 ac yn arholiad ysgrifenedig neu ar-lein.<br><br>Asesir yr holl gynnwys ym Mlwyddyn 2 dros rychwant oes y fanyleb.<br><br>Gellir asesu'r holl gynnwys drwy unrhyw un o'r tri amcan asesu.</td></tr>
</table>

© WJEC CBAC Ltd.

| **Testun 1:** | Cefnogi datblygiad cyfannol o 0 i 19 oed |
|---|---|
| **Trosolwg o'r testun:** | Bydd y maes testun hwn yn datblygu ac yn ymestyn gwybodaeth a dealltwriaeth a enillwyd yn Uned 002 o Gymhwyster Craidd GChDDP DD1 ac yn Unedau 300/301 y cymhwyster hwn.<br><br>Mae'r cynnwys hwn yn galluogi dysgwyr i gadarnhau eu gwybodaeth am gamau cyffredinol datblygiad 0-19 oed a ffactorau sy'n effeithio ar ddatbygiad ac ymestyn eu gwybodaeth drwy feithrin dealltwriaeth ddamcaniaethol fanwl ac eang o:<br>• y ffordd y mae pob maes datblygu yn cydberthyn fel rhan o ddatblygiad cyfannol<br>• sut y gellir hybu a chefnogi iechyd, llesiant a datblygiad mewn amrywiaeth o leoliadau a gweithgareddau gwahanol e.e. gweithgareddau tîm, clybiau ieuenctid<br>• ffactorau sy'n hybu iechyd a llesiant cadarnhaol e.e. gofal cyn ac ar ôl cenhedlu, ymwybyddiaeth o gamddefnyddio sylweddau<br>• effaith ffactorau cyfredol a chyfoes ar iechyd a llesiant e.e. gofalwyr ifanc, diogelwch ar-lein. |
| **1.1 Datblygu 0-19 oed a'r ffordd mae meysydd yn cydberthyn fel rhan o ddatblygiad cyfannol.** | Dylai fod gan ddysgwyr ddealltwriaeth sylfaenol o bob maes datblygu rhwng 0 ac 19 oed.<br><br>Gan gynnwys:<br>• datblygiad emosiynol<br>• datblygiad deallusol (gwybyddol: datblygiad niwrolegol a datblygiad yr ymennydd, dealltwriaeth a chysyniadau<br>• datblygiad iaith, lleferydd a chyfathrebu, gan gynnwys dwyieithrwydd, amlieithrwydd a chaffael iaith<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad cymdeithasol gan gynnwys ymddygiad (moesol a chymdeithasol).<br><br>Dylai dysgwyr wybod a deall sut mae pob maes datblygu yn cydberthyn.<br><br>Dylai dysgwyr allu adnabod patrymau datblygu annodweddiadol, a gwybod a deall pam mae rhai plant yn datblygu y tu hwnt i amrediad disgwyliedig cerrig milltir datblygiad.<br><br>Dylai dysgwyr wybod a deall sut y gall cymryd rhan mewn gweithgareddau unigol, grŵp neu dîm, mewn amrywiaeth o leoliadau, gefnogi datblygiad cyfannol plentyn 0-19 oed:<br><br>Gall lleoliadau gynnwys:<br>• amgylchedd cartref plentyn<br>• lleoliadau gofal plant<br>• lleoliadau addysg<br>• clybiau ffurfiannol<br>• amgylcheddau hamdden/chwaraeon (dan do/yn yr awyr agored)<br>• amgylcheddau chwarae (dan do/yn yr awyr agored)<br>• ardaloedd hamdden/mannau chwarae agored<br>• clybiau ieuenctid |

© WJEC CBAC Ltd.

| | |
|---|---|
| **1.2 Hybu iechyd, llesiant a datblygiad cyfannol o adeg cenhedlu hyd at 19 oed.** | Dylai dysgwyr wybod a deall ffactorau sy'n hybu llesiant a datblygiad cyfannol ac o 0 i 19 oed, yn y tymor byr a/neu'r tymor hir.<br><br>Dylai dysgwyr wybod a deall y gall gofal priodol cyn cenhedlu ac ar ôl cenhedlu yn ystod beichiogrwydd gefnogi datblygiad plentyn o'i genhedlu ymlaen.<br><br>Ffactorau sy'n hybu iechyd a llesiant **cadarnhaol** yn cynnwys:<br>**cyn cynhedlu**<br>• rhieni yn cael eu cefnogi i fod mor iach yn gorfforol ac yn feddyliol â phosibl cyn cenhedlu<br>• deiet a maeth digonol e.e. cymryd asid ffolig (cyn cenhedlu ac yn ystod 12 wythnos cyntaf beichiogrwydd)<br>**ar ôl cenhedlu**<br>• maeth a hydradu priodol e.e. osgoi bwydydd risg uchel<br>• cael yr archwiliadau sgrinio monitro rheolaidd ac afreolaidd — fel y bo'n briodol<br><br>**0-19 oed**<br>Gall ffactorau gynnwys:<br>• sefydlogrwydd a diogelwch<br>• amgylchedd cymdeithasol priodol<br>• ymwybyddiaeth o risgiau camddefnyddio sylweddau<br>• maeth a hydradu digonol<br>• ymwybyddiaeth o newidiadau corfforol<br>• ysgogiad a her<br>• cyfleoedd am brofiadau newydd<br>• perthnasoedd a modelau rôl<br>• canolbwyntio ar gryfderau er mwyn meithrin gwydnwch<br>• iechyd rhywiol priodol – deall dulliau atal cenhedlu a heintiau a drosglwyddir yn rhywiol<br><br>Dylai dysgwyr wybod a deall sut y gall cynlluniau, mentrau a rhaglenni cyfredol a pherthnasol gefnogi datblygiad a llesiant cadarnhaol rhwng 0 ac 19 oed.<br><br>Gan gynnwys:<br>• Cynllun Gwên<br>• Rhaglen y 1,000 Diwrnod Cyntaf<br>• Cynllun Ysgolion Iach<br>• Y Rhaglen Plant Iach.<br><br>Dylai dysgwyr wybod a deall deddfwriaeth gyfredol a pherthnasol sy'n anelu at gefnogi iechyd a llesiant o genhedlu hyd at 19 mlwydd oed.<br><br>Gan gynnwys:<br>• Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015<br>• Iechyd Cyhoeddus Cymru, Astudiaeth Profiadau Niweidiol mewn Plentyndod Cymru 2015<br>• Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. |

© WJEC CBAC Ltd.

| | |
|---|---|
| **1.3 Ffactorau cyfredol a chyfoes a'u heffaith ar iechyd a llesiant.** | Dylai dysgwyr wybod a deall ffactorau cyfredol a chyfoes a'u heffaith ar iechyd a llesiant.<br><br>Gan gynnwys:<br>• gwrthradicaleiddio<br>• newidiadau yn strwythur y teulu<br>• polisi addysg a diwygio'r cwricwlwm yng Nghymru<br>• anffurfio organau cenhedlu benywod<br>• sefyllfa ariannol<br>• polisi a mentrau iechyd yng Nghymru<br>• y cyfryngau torfol, hunanddelwedd, meddylfryd twf/ymwybyddiaeth ofalgar<br>• iechyd meddwl<br>• adnabod a dathlu amrywiaeth h.y. diwylliant, hunan-hunaniaeth a rhywioldeb, crefydd, anghenion ychwanegol<br>• technoleg: cyfryngau cymdeithasol, seiberfwlio, e-ddiogelwch<br>• gofalwyr ifanc.<br><br>Dylai dysgwyr wybod a deall sut mae cadw plant yn ddiogel yn cefnogi iechyd, llesiant a datblygiad plant a'r hyn yr ystyrir yn amhriodol.<br><br>Gall yr enghreifftiau gynnwys:<br><br>• bwlio<br>• meithrin perthynas amhriodol<br>• cyfathrebu amhriodol ar-lein<br>• ar-lein/amlygiad i ddeunyddiau amhriodo<br>• secstio<br>• cyfryngau cymdeithasol. |

© WJEC CBAC Ltd.

| | |
|---|---|
| **Testun 2:** | Dulliau'n ymwneud ag ymddygiad cadarnhaol i gefnogi datblygiad cyfannol |
| **Trosolwg o'r testun:** | Bydd y maes testun hwn yn adeiladu ar y wybodaeth a enillir yn y Cymhwyster Lefel 2 Craidd – Uned 001, Lefel 2 GChDDP Ymarfer a Theori Uned 216: DD4 ac yn Uned orfodol 300 y cymhwyster hwn.<br><br>Mae'r cynnwys hwn yn galluogi dysgwyr i gadarnhau eu gwybodaeth am ddulliau y gellir eu defnyddio i gefnogi ymddygiad cadarnhaol ar waith ac ymestyn eu gwybodaeth drwy feithrin dealltwriaeth ddamcaniaethol fanwl ac eang o:<br>• ffactorau sy'n effeithio ar ymddygiad – ffocws cryf ar 8-19 oed e.e. glasoed, rhywioldeb<br>• sut y gall gweithwyr/teuluoedd a gofalwyr gefnogi ymddygiad cadarnhaol mewn amrywiaeth o leoliadau a sefyllfaoedd gwahanol e.e. mewn addysg statudol a/neu yn y gymuned<br>• sut y gall rhinweddau ymddygiad gysylltu â damcaniaethau a sut y gellir defnyddio'r damcaniaethau hyn er mwyn gwneud newid<br>• effaith gadarnhaol defnyddio camau gweithredu ac agweddau cefnogol ar ymddygiad plant a phobl ifanc rhwng 0 ac 19 oed<br>• timau a gwasanaethau yng Nghymru a all gyfrannu at gefnogi ymddygiad cadarnhaol<br>• sut y gall mynediad at wasanaethau amrywio ledled Cymru. |
| **2.1 Ffactorau sy'n effeithio ar ymddygiad.** | Dylai dysgwyr wybod a deall y ffactorau a fyddai'n gallu effeithio ar ymddygiad plentyn a sut y gall y rhain newid mewn gwahanol leoliadau a sefyllfaoedd.<br><br>Ffactorau sy'n effeithio ar ymddygiad yn cynnwys:<br>• anghenion ychwanegol<br>• ymatebion ac ymddygiadau oedolion<br>• profiadau niweidiol yn ystod plentyndod<br>• bwlio a phwysau gan gyfoedion<br>• profi amgylcheddau gwahanol/newidiol<br>• mewnbwn gan deulu/gofalwyr<br>• nodau a ffiniau<br>• effaith bondiau, ymlyniad, gwydnwch a phontio<br>• iechyd meddwl a llesiant<br>• glasoed<br>• cynlluniau gwobrwyo<br>• rhywioldeb<br>• sefyllfaoedd a rhyngweithio rhwng plant<br>• arbrofi gyda sylweddau<br>• amrywiadau mewn disgwyliadau a chyfrifoldebau.<br><br>Mae angen i ddysgwyr wybod a deall y cyswllt rhwng ymlyniad ac ymddygiad a sut y gall rhinweddau ymddygiad gysylltu â damcaniaethau ategol.<br><br>Damcaniaethwyr i gynnwys:<br>• Mary Ainsworth<br>• Bowlby. |

© WJEC CBAC Ltd.

| | |
|---|---|
| | Dylai dysgwyr wybod a deall sut y gall gweithredoedd, agweddau a phrofiadau yn y cartref ac y tu allan i amgylchedd y cartref gael effaith ar ymddygiad plentyn<br><br>Gweithredoedd, agweddau a phrofiadau i gynnwys<br>• peidio â chadw at weithdrefnau/trefniadau y cytunwyd arnyn nhw<br>• profiadau personol unigolyn/unigolion<br>• dulliau/agwedd cadarnhaol a negyddol<br>• dulliau rhianta<br>• arddulliau a ddefnyddir gan yr holl weithwyr yn y sector<br>• rhagfarn a stereoteipio.<br><br>Dylai dysgwyr wybod a deall y gall ymddygiad newid gan ddibynnu ar ffactorau/nodweddion yn yr amgylchedd/sefyllfa.<br><br>Dylai dysgwyr wybod a deall sut y gall gweithwyr a theuluoedd/gofalwyr gefnogi ymddygiad cadarnhaol, mewn sefyllfaoedd/amgylcheddau gwahanol.<br><br>Sefyllfaoedd/Amgylcheddau i gynnwys:<br>• cartref<br>• lleoliadau blynyddoedd cynnar/gofal plant<br>• ysgolion statudol hyd at 19 oed<br>• cymuned. |

© WJEC CBAC Ltd.

| | |
|---|---|
| **2.2 Cefnogi ymddygiad cadarnhaol.** | Dylai dysgwyr adnabod sut y gellir defnyddio'r damcaniaethau hyn am ddatblygu ymddygiad i gefnogi ymddygiad plant.<br><br>Damcaniaethwyr i gynnwys:<br>• Bandura<br>• Glasser<br>• Pavlov<br>• Skinner.<br><br>Dylai dysgwyr wybod a deall yr effaith gadarnhaol y gall defnyddio camau gweithredu ac agweddau priodol a chefnogol ei chael ar ymddygiad plant rhwng 0 ac 19 oed.<br><br>Effaith i gynnwys:<br>• mwy o gymhelliant<br>• dangos ymddygiad cadarnhaol<br>• gwell cyfathrebu<br>• mwy o hunan-barch a hunan-gred<br>• atal ymddygiad amhriodol parhaus<br>• osgoi straen ar berthynas/perthynas yn chwalu<br>• adnabod sbardunau ac ymatebion<br><br>Dylai dysgwyr wybod am y gwasanaethau cenedlaethol a lleol yng Nghymru a all fod ynghlwm wrth gefnogi ymddygiad cadarnhaol.<br><br>Ymhlith y gwasanaethau hyn mae:<br>• Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS)<br>• gwasanaethau addysg<br>• Dechrau'n Deg<br>• y gwasanaethau prawf<br>• gwasanaethau cymdeithasol<br>• uned cymorth ymddygiad arbenigol<br>• Tîm o Amgylch y Teulu<br>• Gwasanaethau ieuenctid.<br><br>Dylai dysgwyr wybod a deall sut y gall mynediad at wasanaethau amrywio ledled Cymru. |

© WJEC CBAC Ltd.

| **Testun 3:** | Darpariaeth gofal iechyd ar gael yng Nghymru o adeg cenhedlu hyd at 19 oed a sut mae'n cefnogi iechyd a llesiant. |
|---|---|
| **Trosolwg o'r testun:** | Bydd y maes testun hwn yn adeiladu ar y wybodaeth a enillir yn y Cymhwyster Lefel 2 Craidd — Uned 002, Lefel 2 GChDDP Ymarfer a Theori Uned 216: DD4 ac yn Uned orfodol 303 y cymhwyster hwn.<br><br>Mae'r cynnwys hwn yn galluogi dysgwyr i gadarnhau eu gwybodaeth mewn perthynas â sgrinio, monitro a phrofi a gwasanaethau iechyd y gellir cael gafael arnyn nhw er mwyn cefnogi datblygiad, ac ymestyn eu gwybodaeth drwy feithrin dealltwriaeth ddamcaniaethol fanwl ac eang o'r canlynol:<br>• sut mae gwasanaethau sgrinio Llywodraeth Cymru yn hybu iechyd a llesiant a'r ffordd y mae hyn yn effeithio ar iechyd drwy gydol bywyd<br>• pam y gall newidiadau i amserlenni imiwneiddio cynlluniedig ddigwydd e.e. penderfyniadau gwybodus i beidio ag imiwneiddio<br>• yr amrywiaeth o brosesau monitro a sgrinio rheolaidd a heb fod yn rheolaidd cyn ac ar ôl cenhedlu hyd at 19 oed e.e. sganiau cyn geni<br>• gwerth ac effaith nodi unrhyw gyflwr iechyd penodol yn gynnar e.e. ehangach na'r ffocws craidd ar Iaith, Lleferydd a Chyfathrebu.<br>• rolau gweithwyr proffesiynol/gweithwyr/timau gofal iechyd a sut maen nhw'n cydweithio i hybu iechyd plant 0-19 yn ymarferol.<br><br>Bydd yr uned hon yn rhoi gwybodaeth gadarn i ddysgwyr am gefnogi datblygiad o safbwynt gofal iechyd sy'n hanfodol i ddatblygu gwybodaeth gyfannol, os yw'r lleoliad gwaith mewn lleoliad blynyddoedd cynnar/gofal plant. |

© WJEC CBAC Ltd.

| | |
|---|---|
| **3.1 Sgrinio, monitro a chynnal profion rheolaidd mewn perthynas â phlant o adeg eu cenhedlu hyd at 19 oed.** | Dylai dysgwyr wybod a deall gwerth ac effaith sgrinio, monitro a chynnal profion **rheolaidd** cyn cenhedlu, yn ystod beichiogrwydd, ac fel rhan o ofal cyn-geni ac ôl-enedigol<br><br>Patrwm rheolaidd i gynnwys:<br>• pwysedd gwaed<br>• profion gwaed<br>• hanes teulu<br>• sganiau<br>• profion wrin.<br><br>Dylai dysgwyr wybod a deall beth yw gwerth ac effaith rhaglenni imiwneiddio presennol, gan gynnwys pigiadau atgyfnerthu cyn ysgol ar iechyd, llesiant a datblygiad plant drwy gydol eu bywydau.<br><br>Dylai dysgwyr wybod a deall rhesymau pam y gellir newid rhaglenni cyfredol – gall newidiadau fod yn seiliedig ar egwyddorion moesegol neu dystiolaeth feddygol e.e. HPV yn cael ei gynnig i ferched a bechgyn 12-13 oed o fis Medi 2019<br><br>Dylai dysgwyr wybod a deall pam nad yw rhai plant yn cael imiwneiddiadau rheolaidd na sgrinio fel rhan o'r rhaglen arolygu plant.<br><br>Dylai rhesymau gynnwys:<br>• penderfyniadau gwybodus – mae grwpiau penodol cydnabyddedig na ellir eu himiwneiddio<br>• penderfyniadau anwybodus – mae rhai rhieni yn dewis peidio ag imiwneiddio eu plant.<br><br>Dylai dysgwyr wybod a deall gwasanaethau sgrinio Llywodraeth Cymru a sut maen nhw'n hybu iechyd a llesiant plant.<br><br>Gan gynnwys:<br>• Sgrinio Cyn Geni Cymru<br>• Sgrinio Clyw Babanod Newydd-anedig Cymru<br>• Sgrinio Smotyn Gwaed Newydd-anedig Cymru<br>• Sgrinio am Oes.<br><br>Dylai dysgwyr wybod a deall gwerth ac effaith y rhaglen arolygu iechyd plant.<br><br>Gall strategaethau a gwasanaethau sgrinio fod yn sensitif o ran amser. |

© WJEC CBAC Ltd.

| | |
|---|---|
| **3.2 Effaith prosesau sgrinio, monitro a chynnal profion nad ydynt yn rheolaidd mewn perthynas â phlant o adeg eu cenhedlu hyd at 19 oed.** | Dylai dysgwyr wybod a deall swyddogaeth/rôl, gwerth ac effaith prosesau sgrinio, monitro a chynnal profion nad ydynt yn rheolaidd mewn perthynas â phlant o adeg eu cenhedlu hyd at 19 oed.<br><br>Nad yw'n arfer rheolaidd i gynnwys:<br>• profion genetig<br>• sganiau e.e. sganiau cyn-geni<br>• profion ar gyfer cyflyrau iechyd ac anhwylderau penodol<br>• profion a ariennir gan y GIG, os oes angen clinigol<br>• profion a ariennir gan unigolion sy'n chwilio am ymyriadau pellach/nad ydynt wedi'u comisiynu gan GIG Cymru.<br><br>Effaith i gynnwys:<br>• nodi pryderon iechyd/datblygu yn gynnar<br>• gall osgoi cael triniaeth nad oes ei hangen — mae o fudd i blant, y teulu/gofalwyr a gwasanaethau iechyd<br>• targedu cyflyrau iechyd penodol<br>• pwysigrwydd diagnosis cywir ac amserol<br>• efallai bydd modd cael mynediad cyflymach at driniaeth. |
| **3.3 Rolau gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ym mhob rhan o'r sector.** | Dylai dysgwyr wybod a deall y rolau gwahanol a gyflawnir gan weithwyr proffesiynol/gweithwyr iechyd plant yn y sector amrywiol hwn a sut maen nhw'n hybu iechyd plant o'u cenhedlu tan y byddan nhw'n 19 oed.<br><br>Gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a thimau i gynnwys:<br>• gwasanaethau alcohol a chyffuriau<br>• proffesiynau iechyd cysylltiedig<br>• cynghorwyr/cwnselwyr<br>• deintydd<br>• meddyg teulu<br>• ymwelydd iechyd<br>• bydwraig<br>• optegydd<br>• therapydd chwarae<br>• nyrsys cofrestredig<br>• nyrsys ysgol. |

© WJEC CBAC Ltd.

<table>
<tr><td>Testun 4:</td><td>Yr egwyddorion i sicrhau dysgu cynhwysol i bob plentyn 0-19 oed.</td></tr>
<tr><td>Trosolwg o'r testun:</td><td>Bydd y maes testun hwn yn adeiladu ar y wybodaeth a enillir yn y Cymhwyster Lefel 2 Craidd — Uned 001, Lefel 2 GChDDP Ymarfer a Theori Uned 216: DD2/DD4 ac yn Uned orfodol 301 y cymhwyster hwn.<br><br>Mae'r cynnwys hwn yn galluogi dysgwyr i gadarnhau eu gwybodaeth am gynhwysiant, ac ymestyn eu gwybodaeth drwy feithrin dealltwriaeth ddamcaniaethol fanwl ac eang o'r canlynol:<br><br>• arddulliau dysgu gwahanol a sut mae'r rhain yn effeithio ar ddatblygiad<br>• damcaniaethau sy'n ategu dysgu plant mewn perthynas ag arddulliau dysgu<br>• gwerth plant yn manteisio ar gyfleoedd gwahanol (mewn amgylcheddau ffurfiol ac anffurfiol) i ddysgu e.e. cwricwlaidd, allgyrsiol<br>• yr angen am weithgareddau cynllunio sy'n ymgysylltu â'r holl synhwyrau ac yn bodloni anghenion plant (yn estyn o fathau o chwarae)<br>• sut y gall gweithwyr proffesiynol/gweithwyr a theuluoedd/gofalwyr gefnogi plant o bob oedran mewn sefyllfaoedd gwahanol i weithio tuag at gyflawni nodau a thargedau personol e.e. gwasanaethau cyfeirio, cynlluniau unedig<br>• sut y gall ymyrryd yn gynnar hybu iechyd a llesiant e.e. Rhaglen y 1,000 Diwrnod Cyntaf (Iechyd Cyhoeddus Cymru)<br>• Mil o ddiwrnodau cyntaf ar y cyd (Iechyd Cyhoeddus Cymru) a'r gofynion sydd eu hangen er mwyn cyfiawnhau newid ymarfer e.e. adfyfyrio, dadansoddiad risg a budd.</td></tr>
<tr><td>4.1 Hybu dysgu 0-19 oed.</td><td>Dylai dysgwyr wybod a deall y tri phrif arddull dysgu y gallai plant 0-19 oed eu ffafrio a sut mae arddulliau dysgu yn effeithio ar ddysgu a datblygiad.<br><br>Arddulliau dysgu i gynnwys<br>• Clywedol<br>• Cinesthetig<br>• Gweledol.<br><br>Dylai dysgwyr wybod a deall  pwysigrwydd a gwerth sicrhau bod plant yn achub ar gyfleoedd gwahanol (mewn amgylcheddau dysgu ffurfiol ac anffurfiol) er mwyn hybu dysgu a datblygiad.<br><br>Cyfleoedd i gynnwys:<br>• gweithgareddau yn seiliedig ar y cwricwlwm<br>• gweithgareddau allgyrsiol<br>• gweithgareddau llythrennedd digidol/TGCh<br>• archwilio/arbrofi/profiadau ymarferol<br>• gweithgareddau creadigol/artistig/cerddorol<br>• gwaith pâr/gwaith grŵp/addysgu un i un<br>• cymryd rhan mewn trafodaethau/ymholi/cyflwyniadau<br>• chwarae — dan do ac yn yr awyr agored<br>• dwyieithog ac amlieithog (gan gynnwys iaith arwyddion).<br><br>Dylai dysgwyr wybod a deall pwysigrwydd defnyddio'r holl synhwyrau fel rhan o brofiadau dysgu plant.</td></tr>
</table>

© WJEC CBAC Ltd.

**4.2 Cefnogi a herio plant i weithio tuag at nodau a thargedau.**

Dylai dysgwyr wybod a deall sut i gefnogi a herio plant i weithio tuag at eu nodau a'u targedau unigol.

Dylai dysgwyr wybod a deall y dylai gweithgareddau i hybu datblygiad gysylltu ag arddulliau dysgu unigol ac anghenion ychwanegol

Anghenion ychwanegol i gynnwys:
- anghenion a chymorth ymddygiadol
- anghenion penodol, e.e. dyspracsia, dyslecsia, dyscalwlia, nam synhwyrol, syndrom Down, cyflwr clywedol, anhwylder ar y sbectrwm awtistig, anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd (ADHD).
- dysgwyr Mwy Abl a Thalentog (MAT).

Dylai dysgwyr wybod a deall yr egwyddorion sydd ynghlwm fel rhan o'r cylch cynllunio o fewn addysg y blynyddoedd cynnar.

Addysg y blynyddoedd cynnar i gynnwys:
- cwricwlwm y blynyddoedd cynnar
- cwricwlwm cenedlaethol statudol.

Dylai dysgwyr werthfawrogi sut gellir ystyried arddulliau dysgu gwahanol o fewn amgylcheddau gwahanol.

Dylai dysgwyr wybod a deall strategaethau sy'n gallu cael eu defnyddio i sicrhau gwahaniaethu a chynhwysiant mewn amrywiaeth o leoliadau gofal plant.

Strategaethau i gynnwys y canlynol:
- sicrhau bod amrywiaeth o weithgareddau ar gael
- sicrhau bod arddulliau addysgegol amrywiol yn cael eu cynnwys wrth weithio gyda phlant

Dylai dysgwyr wybod a deall sut gall y Cydlynydd Anghenion Ychwanegol gefnogi dysgu a datblygiad cyfannol plant.

Dylai dysgwyr wybod a deall diben a gwerth monitro ac arsylwi plant er mwyn gwneud penderfyniadau gwybodus ynghylch p'un a gaiff anghenion dysgu plant eu diwallu ai peidio.

Dylai dysgwyr wybod a deall y mathau o gynlluniau y mae angen iddyn nhw fod ar waith er mwyn sicrhau dysgu cynhwysol a'u pwrpasau.

Gall y cynlluniau gynnwys:
- cynlluniau chwarae personol
- cynlluniau ymddygiad personol
- cynlluniau unedig e.e. cynllun datblygu unigol

Dylai dysgwyr wybod a deall bod mathau o gynlluniau a dulliau adolygu yn gallu newid yn seiliedig ar newidiadau i ddeddfwriaeth.

© WJEC CBAC Ltd.

<table>
<tr>
<td>4.3 Ymyrryd yn gynnar er mwyn hybu dysgu ac iechyd a llesiant.</td>
<td>
Dylai dysgwyr wybod a deall pwysigrwydd ymyrryd yn gynnar, asesu anghenion yn amserol a chael diagnosis o bryderon meddygol er mwyn hybu dysgu ac iechyd a llesiant.<br><br>
Dylai dysgwyr wybod a deall sut y gall cael diagnosis, ymyrryd ac asesu yn gynnar gefnogi iechyd, llesiant a datblygiad drwy:<br>
• sicrhau bod presenoldeb mewn lleoliadau/ysgolion a cholegau yn cael ei gynnal<br>
• sicrhau y rhoddir triniaeth a fydd naill ai'n atal dirywiad pellach neu'n arafu pa mor gyflym mae'r unigolyn yn dirywio e.e. ffeibrosis cystig<br>
• ymgysylltu'n llawn â'r dysgu/addysg a'r tu allan i'r amgylchedd ffurfiol<br>
• sicrhau y ceir rhyngweithiad mor llawn â phosibl<br>
• sicrhau cynhwysiant mewn amrywiaeth eang o weithgareddau ystyrlon a phriodol.<br><br>
Mae angen i ddysgwyr wybod a deall effaith deddfwriaeth, mentrau, rhaglenni a meddylfryd presennol o ran ymyrraeth gynnar ac asesiadau o anghenion.<br><br>
Gan gynnwys:<br>
• Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018<br>
• mentrau presennol LlC, e.e. polisi Dechrau'n Deg<br>
• Rhaglen y 1,000 Diwrnod Cyntaf (Iechyd Cyhoeddus Cymru)<br>
• Rhaglen Plant Iach Cymru<br>
• Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.<br><br>
Dylai dysgwyr wybod a deall gwerth defnyddio dulliau gweithredu plentyn-ganolog mewn lleoliadau i sicrhau:<br>
• bod her yn amlwg<br>
• y bodlonir anghenion plant (gan gynnwys anghenion ychwanegol)<br>
• bod gwahaniaethu ar waith; gweithgareddau/dysgu yn hygyrch i bawb<br>
• amrywiaeth<br>
• cydraddoldeb<br>
• tegwch<br>
• bod stereoteipiau yn cael eu goresgyn.<br><br>
Dylai dysgwyr wybod a deall gwasanaethau iechyd a gwasanaethau seiliedig ar addysg sy'n cefnogi ymyrryd yn gynnar.<br><br>
Gan gynnwys:<br>
• mynediad at leoliadau Dechrau'n Deg<br>
• mynediad at wasanaethau atgyfeirio lleol a chenedlaethol; yn ymarferol gall hyn fod drwy Gydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol/Cydlynydd Anghenion Ychwanegol<br>
• lleoliadau yn hwyluso cymorth un i un<br>
• gwasanaethau sgrinio iechyd.<br><br>
Dylai dysgwyr wybod a deall gwerth integreiddio, gwaith amlasiantaethol a sut i atgyfeirio at asiantaethau eraill.
</td>
</tr>
</table>

© WJEC CBAC Ltd.

| | |
|---|---|
| **4.4 Sut gellir gwella canlyniadau i blant mewn gwahanol leoliadau gofal plant drwy wahaniaethu ac adfyfyrio.** | Mae angen i ddysgwyr wybod a deall sut y gellir gwella canlyniadau i blant mewn gwahanol leoliadau gofal plant drwy wahaniaethu ac adfyfyrio.<br><br>Mae angen i ddysgwyr wybod a deall sut mae dysgwyr yn penderfynu mewn ffordd wybodus eu bod am addasu ymarfer a sicrhau ar yr un pryd bod unrhyw newid a argymhellir:<br>• o fantais<br>• yn bodloni anghenion plant.<br><br>Mae angen i ddysgwyr wybod a deall y gall penderfyniadau fod yn seiliedig ar:<br>• asesiadau sylfaenol cyfannol<br>• asesiadau fframwaith cwricwlaidd<br>• arsylwadau wedi'u cwblhau<br>• adfyfyrio ar ymarfer personol<br>• dadansoddiad risg a budd.<br><br>Mae angen i ddysgwyr wybod a deall damcaniaethau mewn perthynas ag ymarfer adfyfyriol a dulliau o ddysgu.<br><br>Damcaniaethau i gynnwys:<br>• cylch dysgu KOLB<br>• cylch adfyfyriol Gibbs.<br><br>Mae angen i ddysgwyr wybod a deall pwrpas adfyfyrio er mwyn sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant.<br><br>Mae angen i ddysgwyr wybod a deall sut i gefnogi ac annog newid cadarnhaol mewn gwahanol leoliadau.<br><br>Cefnogi ac annog newid i gynnwys:<br>• ymwybyddiaeth o pryd y gall fod angen newid; heriau a manteision gwneud newid<br>• yr angen i adfyfyrio er mwyn gwneud penderfyniadau gwybodus o ran newid<br>• ystyried y gwahanol ddulliau ar gyfer ysgogi newid. |

© WJEC CBAC Ltd.

| **Testun 5:** | Effaith meddwl traddodiadol a chyfoes ar ddatblygiad cyfannol plant. |
|---|---|
| **Trosolwg o'r testun:** | Bydd y maes testun hwn yn adeiladu ar y wybodaeth a enillir yn y Cymhwyster Lefel 2 Craidd – Uned 001, Lefel 2 GChDDP Ymarfer a Theori Uned 216: DD3, yn uned orfodol 300 a 301 y cymhwyster hwn, ac ym maes testun 4 yr Uned hon.<br><br>Mae'r cynnwys hwn yn galluogi dysgwyr i gadarnhau eu gwybodaeth am fyfyrdod, ac ymestyn eu gwybodaeth drwy feithrin dealltwriaeth ddamcaniaethol fanwl ac eang o'r canlynol:<br>• sut mae ymarfer, deddfwriaeth a damcaniaethau yn seiliedig ar dystiolaeth yn llywio ymarfer<br>• sut mae'r cwricwlwm statudol yn llywio ymarfer<br>• sut mae deddfwriaeth, rheoliadau, polisïau a mentrau gan y llywodraeth yn effeithio ar ymarfer<br>• sut gellir defnyddio ffyrdd o feddwl cyfoes wrth ymarfer i wella canlyniadau i blant 0-19 oed<br>• pan fydd newid yn briodol mewn lleoliadau 0-19 oed a sut y caiff hyn ei roi ar waith a'i gefnogi.<br><br>Bydd y testun hwn hefyd yn galluogi dysgwyr i wneud awgrymiadau damcaniaethol gwybodus ar gyfer newid y gellid ei roi ar waith mewn lleoliadau.<br><br>Er na fydd dysgwyr yn gallu rhoi'r awgrymiadau hyn ar waith yn eu lleoliadau gwaith, bydd eu hawgrymiadau yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth ychwanegol. |
| **5.1 Sut mae safbwyntiau a dulliau damcaniaethol yn llywio ymarfer.** | Mae angen i ddysgwyr wybod a deall sut mae damcaniaethau a dulliau cyfoes a hirsefydledig yn llywio ymarfer a sut gellir eu defnyddio i wneud newid mewn lleoliadau.<br><br>Damcaniaethau cyfoes a hirsefydledig i gynnwys:<br>• Bronfenbrenner: Ecosystemau<br>• Bruner: Dull datblygu<br>• Elinor Goldschmied: Chwarae darganfyddol a basgedi trysor<br>• Helen Bilton: Mathau gwahanol o chwarae/theori dysgu yn yr awyr agored<br>• Janet Moyles: Troell Chwarae<br>• Piaget: Pedwar cyfnod datblygu<br>• Vygotsky: Parth datblygiad procsimol.<br><br>Dulliau yn cynnwys:<br>• Montessori<br>• Steiner<br>• Reggio Emilia.<br><br>Mae angen i ddysgwyr wybod a deall pryd mae newidiadau yn briodol er budd dysgu a datblygu plentyn.<br><br>Gall newidiadau priodol gynnwys:<br>• newid offer ac adnoddau<br>• yr amgylchedd – dan do ac yn yr awyr agored<br>• ymdrin â phryderon a phroblemau ariannol<br>• addasu/newid ymarfer. |

© WJEC CBAC Ltd.

| | |
|---|---|
| **5.2 Sut mae'r fframweithiau cwricwlwm statudol yng Nghymru yn ategu ymarfer.** | Mae'n rhaid i ddysgwyr wybod a deall sut y caiff fframweithiau cwricwlwm statudol eu defnyddio i lywio cynllunio er mwyn sicrhau datblygiad cyfannol plant wrth ymarfer.<br><br>Fframweithiau statudol i gynnwys:<br>• Cwricwlwm y Blynyddoedd Cynnar e.e. dysgu arbrofol, dysgu mewn chwarae<br>• Cwricwlwm Cenedlaethol e.e. gweithgareddau ysgogol, dysgu ymarferol, profiadau, cyfleoedd yn yr ystafell ddosbarth a chyfleoedd allgyrsiol<br><br>Mae'n rhaid i ddysgwyr wybod a deall bod angen i'r holl weithgareddau a ddefnyddir mewn lleoliad fod yn ysgogol a chefnogi datblygiad cyfannol y plant. |
| **5.3 Effaith ymchwil ac ymarfer seiliedig ar dystiolaeth ar ddeddfwriaeth a mentrau cyfredol y llywodraeth.** | Mae angen i ddysgwyr wybod a deall effaith ymchwil ac ymarfer seiliedig ar dystiolaeth ar ddeddfwriaeth a mentrau'r llywodraeth.<br><br>I gynnwys:<br>• sut mae ymchwil yn llywio polisi a deddfwriaeth newydd<br>• sut mae data yn cael eu defnyddio i lywio a diweddaru deddfwriaeth a mentrau Cymru<br>• dylanwadu ar newidiadau i ymarfer proffesiynol.<br><br>Gallai enghreifftiau o ymchwil gynnwys ymchwil Llywodraeth Cymru i addysg y blynyddoedd cynnar ac adolygiad Donaldson. |
| **5.4 Effaith deddfwriaeth, rheoliadau, polisïau, dulliau a mentrau cyfredol y llywodraeth ar ofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant.** | Mae angen i ddysgwyr wybod a deall sut mae deddfwriaeth, rheoliadau, polisïau a mentrau'r llywodraeth yn effeithio ar ofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant.<br><br>Gall deddfwriaeth, rheoliadau, polisïau a mentrau gynnwys:<br>• Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) – Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru)<br>• Cynllun Cyn-ysgol Iach a Chynaliadwy<br>• Safonau Gofal Iechyd ac Arolygiaeth Iechyd Cymru<br>• Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer gofal plant a reoleiddir i blant 0-12 oed<br>• Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014<br>• Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn<br>• Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015<br>• Cymraeg 2050; Miliwn o siaradwyr<br>• Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru).<br><br>Gall mentrau/canllawiau/dulliau dysgu gynnwys:<br>• Dull moesegol, cynaliadwy, ecolegol<br>• Dechrau'n Deg<br>• Cynllun Cyn-ysgol Iach a Chynaliadwy<br>• Ysgolion Iach<br>• Cymru — Gwlad Lle mae Cyfle i Chwarae<br>• Ysgolion Coedwig/Ysgolion Traeth. |

© WJEC CBAC Ltd.

# Uned 331: Ymchwilio i faterion cyfredol ym maes gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant yng Nghymru

| | |
|---|---|
| **Lefel:** | Lefel 3 |
| **Gwerth credyd:** | 6 |
| **ODA:** | 50 |
| **Crynodeb o'r Uned:** | Mae'r uned hon yn ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr ymchwilio i faterion cyfoes o ran gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant drwy gwblhau ymchwiliad estynedig Bydd gofyn i ddysgwyr ymchwilio (gan ddefnyddio ystod o ffynonellau), dangos a defnyddio gwybodaeth, dadansoddi a gwerthuso er mwyn cwblhau'r asesiad.<br><br>Bydd dysgwyr yn dewis maes testun i'w ymchwilio o ddewis o ddau a gaiff eu cyhoeddi'n flynyddol ar:<br>• y dydd Llun cyntaf ym mis Hydref ar gyfer cyfres y Gaeaf<br>• y dydd Llun cyntaf ym mis Mawrth ar gyfer cyfres yr Haf.<br><br>**Nid yw'r uned hon yn cynnwys unrhyw gynnwys pwnc ychwanegol.** Bydd yr ymchwiliad estynedig yn galluogi dysgwyr i estyn a gwella'r ddealltwriaeth sydd ganddyn nhw ar agweddau ar y cynnwys a astudir yn rhan o Uned 330 ac yn ehangach ar draws yr unedau ymarfer.<br><br>Disgwylir y bydd dysgwyr wedi datblygu sgiliau ysgrifennu archwiliadol/estynedig cyn ymgymryd â'r asesiad hwn. |
| **Math o asesiad:** | Ymchwiliad estynedig annibynnol sy'n canolbwyntio ar ddefnyddio'r cynnwys a addysgwyd a gwybodaeth a enillwyd wrth ymarfer.<br>Mae asesiad yr uned hon yn cyfrif am 15% o'r cymhwyster cyfan.<br>**Mae'r uned hon yn asesu pob un o'r tri amcan asesu.** |

© WJEC CBAC Ltd.

# Canllawiau ar gyfer cynnal yr asesiad allanol

Gall athrawon ddarparu cwrs astudio byr yn seiliedig ar sgiliau sy'n cwmpasu'r sgiliau y bydd angen i ddysgwyr eu defnyddio er mwyn cwblhau'r asesiad hwn. Hefyd, dylai'r cwrs hwn helpu myfyrwyr i ddatblygu sgiliau ymholi, er enghraifft, cadw cofnod a chyfeirnodi'n effeithiol, sgiliau cynllunio a gwneud defnydd effeithiol o lyfrgell a'r rhyngrwyd.

Ceir rhagor o wybodaeth am sut i baratoi dysgwyr ar gyfer yr asesiad allanol hwn yn y*Canllawiau Addysgu* sydd ar gael ar y wefan **https://www.dysguiechydagofal.cymru/**

## Amcanion Asesu

Mae'r asesiad yn mynd i'r afael â phob un o'r tri amcan asesu. Asesir y defnydd o wybodaeth a dealltwriaeth, yn ogystal â gwerthuso a dadansoddi ffynonellau er mwyn egluro sut a pham mae'r maes testun yn cefnogi gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant.

| Amcanion Asesu | | Pwysoli |
|---|---|---|
| AA1 | Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o amrywiaeth o gysyniadau, gwerthoedd a materion allweddol sy'n berthnasol i leoliadau a chyd-destunau gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant. | 9% |
| AA2 | Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth er mwyn dadansoddi ymarfer seiliedig ar dystiolaeth (eich ymarfer eich hun ac ymarfer eraill) o fewn gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant | 42% |
| AA3 | Ymchwilio i ddamcaniaethau ac ymarfer sy'n ymwneud â gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant ac adfyfyrio ar y ffordd y gallan nhw ddylanwadu ar ymarfer. | 49% |

## Gosod yr ymchwiliad

Bydd CBAC yn gosod yr ymchwiliad estynedig bob blwyddyn ac yn ei ryddhau i'r canolfannau ar wefan ddiogel CBAC ar:

- y dydd Llun cyntaf ym mis Hydref bob blwyddyn ar gyfer cyfres y Gaeaf
- y dydd Llun cyntaf ym mis Mawrth bob blwyddyn ar gyfer cyfres yr Haf.

Bydd canolfannau yn cael peth hyblygrwydd o ran pryd i drefnu'r asesiad, ond bydd angen iddyn nhw sicrhau eu bod wedi cyflwyno Uned 330 cyn rhoi cynnig ar yr Ymchwiliad Estynedig. Gan y bydd yr ymchwiliad yn defnyddio profiad yr ymgeisydd mewn lleoliad gwaith, argymhellir na ddylid rhoi cynnig ar yr Ymchwiliad Estynedig tan y bydd yr ymgeisydd wedi cwblhau'r 700 awr orfodol yn y lleoliad, neu tuag at ddiwedd y cyfnod hwn. Bydd hyn yn sicrhau bod yr ymgeiswyr yn gallu ennill y marciau sydd ar gael a ddyrennir i bob agwedd ar yr ymchwiliad.

## Cwblhau'r Ymchwiliad

Bydd dysgwyr yn gallu dewis o ddau destun i ymchwilio iddo. Bydd y meysydd testun yn eang a rhaid i ddysgwyr ddewis y meysydd penodol hynny y byddan nhw'n canolbwyntio arnyn nhw yn rhan o'r testun o'u dewis. Gall athrawon gynghori dysgwyr i ystyried p'un a yw'r meysydd ffocws o'u dewis yn eu galluogi i fynd i'r afael â holl ofynion yr asesiad.

© WJEC CBAC Ltd.

Mae'n rhaid i ddysgwyr ymchwilio i'r testun a ddewiswyd a'r meysydd penodol dewisol drwy ddadansoddi a gwerthuso amrywiaeth o ffynonellau a ymchwiliwyd yn unigol. Mae'n rhaid i'r dysgwyr nodi'r rhain yn annibynnol.

Gall yr ymchwil sy'n ymwneud â'r testun a'r meysydd ffocws a ddewiswyd gynnwys:
- disgrifiadau damcaniaethol a dadansoddiadau o'r testun
- disgrifiadau neu adroddiadau uniongyrchol o brofiadau mewn lleoliad gwaith
- dadansoddiad neu farn
- adroddiadau eraill, gan gynnwys mwy nag un safbwynt neu ddehongliad o'r testun a ddewiswyd.

Unwaith y bydd y dysgwyr wedi cwblhau eu hymchwil, rhaid caniatáu 15 awr iddynt gwblhau'r asesiad. Rhaid i'r amser hwn fod o dan amodau arholiad ac o fewn cyfnod o dair wythnos. Mae gan ganolfannau hyblygrwydd i drefnu'r amser o fewn y paramedrau hyn er mwyn bodloni gofynion amserlennu'r ganolfan a diwallu anghenion y dysgwyr.

Disgwylir i bersonél awdurdodedig (yn unol â pholisïau arholi canolfannau) oruchwylio gwaith y dysgwyr er mwyn iddyn nhw allu dilysu'n hyderus mai gwaith yr unigolyn ei hun yw'r dystiolaeth a gyflwynir ar gyfer yr ymchwiliad estynedig.

Ar ôl i'r dasg ddechrau, mae'n rhaid i ganolfannau gadw gwaith parhaus, nodiadau bras a deunyddiau'r dysgwyr yn ddiogel fel tystiolaeth o waith a gwblhawyd yn annibynnol.

Bydd disgwyl i bersonél canolfannau a dysgwyr lofnodi datganiad yn nodi mai gwaith y dysgwr yn unig yw'r gwaith a gynhyrchwyd.

### Gofynion tystiolaeth

Dylai tystiolaeth yr asesiad hwn fod ar ffurf darn estynedig o ysgrifennu, tua 5,000 gair o hyd ac eithrio unrhyw ddarnau o adnoddau a ddefnyddir i enghreifftio unrhyw ddehongliad.

Anogir canolfannau i gynghori dysgwyr i ystyried y canllawiau yn y pecyn asesu ar gyfer pob tasg wrth greu eu tystiolaeth.

Dylai canolfannau sicrhau bod dysgwyr yn:
- rhifo pob tudalen o'u tystiolaeth (e.e. 1 o 20) a bod modd ei hadnabod fel eu gwaith
- darparu ffynonellau lle y bo'n briodol gwneud hynny a chynnwys cyfeirnod priodol ar eu cyfer yng nghorff yr ymateb
- cyfeirnodi tarddiad pob adnodd a dehongliad a ddarparwyd yn glir
- cynnwys llyfryddiaeth
- cynnwys cyfrif geiriau.

Gellir ailddrafftio tystiolaeth o fewn yr oriau penodedig ond ar ôl cwblhau'r oriau a neilltuwyd ni ellir diwygio'r gwaith ymhellach.

### Llên-ladrad

Mae gofyn bod canolfannau'n wyliadwrus a gallent wrthod cyflwyno ar gyfer marcio unrhyw waith nad yw'n waith yr ymgeisydd ei hun yn eu barn nhw.

## Marcio'r ymchwiliad estynedig

Bydd yr ymchwiliad estynedig yn cael ei farcio gan CBAC. Rhaid i ganolfannau sicrhau bod gwaith dysgwyr yn cael ei gyflwyno i'w farcio'n allanol erbyn y terfynau amser a nodir yn y ddogfen *Amserlenni Arholiadau a Therfynau Amser Asesu Mewnol* a gyhoeddir yn flynyddol gan CBAC.

© WJEC CBAC Ltd.

# Uned 331 Ymchwilio i faterion cyfredol yn y maes gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant yng Nghymru

## Ymchwiliad Estynedig

## Tasgau

### Tasg 1

Ysgrifennwch ragarweiniad i'ch ymchwiliad estynedig.

Amlinellwch:
- y prif feysydd ffocws rydych chi wedi dewis ymchwilio iddyn nhw mewn perthynas â'r testun rydych chi wedi'i ddewis
- pam rydych chi wedi dewis y testun a'r meysydd ffocws; efallai yr hoffech gyfeirio at ddiddordeb personol, cynnwys a addysgwyd, ymgysylltiad â'r sector a lleoliad gwaith, y dulliau ymchwil a ddefnyddiwyd gennych
- y ffynonellau rydych chi wedi'u defnyddio wrth ymchwilio i'r testun a'r meysydd ffocws.

**[9 marc]**

Fel canllaw, dylech anelu at ysgrifennu tua 450 gair yn yr adran hon.

### Tasg 2

Trafodwch sut mae'r testun a'r meysydd ffocws rydych chi wedi'u dewis yn cefnogi gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant.

Rhaid i'ch tystiolaeth gynnwys:
- sut mae'r meysydd ffocws yn cefnogi (yn gadarnhaol neu'n negyddol) gofal, dysgu, chwarae a datblygiad plant
- amrywiaeth o safbwyntiau gan gynnwys eich rhai chi a/neu eraill
- enghreifftiau priodol o ddamcaniaeth a/neu ymarfer i gefnogi eich trafodaeth
- sut mae damcaniaeth/deddfwriaeth neu fframweithiau perthnasol (fel bo'n briodol) wedi effeithio ar y testun a'r meysydd ffocws
- cyfeiriadau neu ddyfyniadau olrheiniadwy (*traceable*) i gefnogi tystiolaeth. **[30 marc]**

Fel canllaw, dylech anelu at ysgrifennu tua 1500 gair yn yr adran hon.

### Tasg 3

Gwerthuswch sut mae'r gwerthoedd a'r egwyddorion sy'n ategu'r testun a'r meysydd ffocws rydych chi wedi'u dewis yn cael eu defnyddio mewn ymarfer i gefnogi gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant.

Gallai eich tystiolaeth sôn am y canlynol:
- cyfathrebu effeithiol
- gwaith tîm a gweithio ar y cyd
- cydraddoldeb/cynhwysiant/amrywiaeth
- rhyddid i gymryd rhan
- cynnal hawliau plant
- sgiliau proffesiynol

neu unrhyw sgil arall/sgiliau eraill, fel bo'n briodol. **[15 marc]**

© WJEC CBAC Ltd.

Fel canllaw, dylech anelu at ysgrifennu tua 750 gair yn yr adran hon.

## Tasg 4

Ystyriwch sut mae damcaniaethau, deddfwriaeth neu fframweithiau perthnasol (fel bo'n briodol) wedi dylanwadu ar ymarfer mewn lleoliadau gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant.

**Rhaid** i'ch tystiolaeth gynnwys cysylltiadau clir â sut mae'r damcaniaethau, y ddeddfwriaeth neu'r fframweithiau wedi dylanwadu ar ymarfer yn y lleoliadau rydych chi wedi cael profiad ohonyn nhw. **[14 marc]**

Fel canllaw, dylech anelu at ysgrifennu tua 700 gair yn yr adran hon.

## Tasg 5

Aseswch sut gellir defnyddio gwybodaeth am y testun a'r damcaniaethau a'r ddeddfwriaeth cysylltiedig a ddewiswyd i sicrhau newid yn y ddarpariaeth gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant yn yr 21ain ganrif yng Nghymru.

**Rhaid** i'ch tystiolaeth:
- ddangos ymwybyddiaeth o ddulliau ymarfer newydd a datblygol
- cyfeirio at amrywiaeth o leoliadau yn y sector
- llunio barn sy'n cysylltu ymarfer â theori (ffocws y testun, damcaniaethau a deddfwriaeth cysylltiedig)
- gwneud awgrymiadau ar gyfer newid yn y dyfodol y byddai'n bosibl ei fabwysiadu mewn ymarfer i gefnogi gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant.

**Rhaid** i'r dystiolaeth gyfeirio at ymchwil sydd wedi'i wneud a **rhaid** iddi ymwneud â phrofiadau wrth ymarfer.

**[20 marc]**

Fel canllaw, dylech anelu at ysgrifennu tua 1000 gair yn yr adran hon.

## Tasg 6

Trafodwch sut bydd eich ymchwil a'r hyn rydych chi wedi'i ddysgu yn cefnogi eich ymarfer unigol eich hun yn y dyfodol.

**Rhaid** i'ch tystiolaeth gynnwys:
- adfyfyrio ar werth neu fanteision yr hyn rydych chi wedi'i ddysgu fel rhan o ymchwilio i'r testun hwn a'r meysydd ffocws
- yr hyn yr hoffech ei wneud, yn seiliedig ar ein canfyddiadau, er mwyn gwella eich ymarfer eich hun yn y dyfodol
- cyfeirio at sut byddai newidiadau i'ch ymarfer eich hun yn gallu effeithio ar ymarfer pobl eraill. **[12 marc]**

Fel canllaw, dylech anelu at ysgrifennu tua 600 gair yn yr adran hon.

© WJEC CBAC Ltd.

# Uned 332 Sgiliau Ymarferol ar gyfer Lleoliad Gwaith yn y Blynyddoedd Cynnar (0-7 oed)

| | |
|---|---|
| **Lefel:** | 3 |
| **ODA:** | 150 |
| **Credyd:** | 16 |
| **Crynodeb o'r Uned:** | Mae'r uned hon yn rhoi sgiliau a gwybodaeth i ddysgwyr i gefnogi eu lleoliad gwaith.<br>Mae'r uned hon yn cefnogi dysgwyr i:<br>• ddatblygu sgiliau ymarferol hanfodol ar gyfer gweithio gyda phlant 0-7 oed.<br>• meithrin dealltwriaeth o ddisgwyliadau lleoliad gwaith, a<br>• datblygu'r sgiliau ymarferol craidd sy'n angenrheidiol ar gyfer y gweithle.<br>Mae Uned 332 wedi'i chynllunio i asesu sgiliau ymarferol, nid sail gwybodaeth fanwl. Bydd y dysgwyr yn datblygu dealltwriaeth o sut y gall profiadau gwahanol hybu datblygiad mewn plant 0-7 oed ar lefel sylfaenol. Byddan nhw'n adeiladu ar hyn drwy gwblhau'r unedau ymarfer lle byddan nhw'n datblygu gwybodaeth fanwl a dealltwriaeth a sgiliau. |

## Deilliant dysgu:

1. Rhaglen sefydlu lleoliad gwaith

Rydych yn deall:
1.1 ethos eich lleoliad gwaith
1.2 datganiad cenhadaeth y lleoliad gwaith
1.3 eich cyfrifoldebau a'ch dyletswyddau personol ar leoliad gwaith
1.4 tasgau allweddol rydych yn debygol o'u gwneud yn y lleoliad gwaith a pham maen nhw'n bwysig
1.5 cod gwisg a chod ymddygiad proffesiynol ar leoliad gwaith
1.6 ymddygiad ac agweddau priodol ar leoliad gwaith
1.7 sut i ddelio â sefyllfaoedd heriol y gallech ddod ar eu traws yn y lleoliad gwaith
1.8 pwy yw eich mentor yn y gweithle a sut i ofyn am gymorth a chefnogaeth os oes angen

Rydych yn gallu:
1.9 deall eich rôl o fewn y polisi Diogelu, y polisi Iechyd a Diogelwch a'r polisi Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant
1.10 gosod nodau cyraeddadwy i gyflawni eich cymhwyster
1.11 adfyfyrio'n rheolaidd ar eich lleoliad gwaith
1.12 cynllunio llwybr dilyniant ar ôl cwblhau eich cymhwyster

© WJEC CBAC Ltd.

---

## Deilliant dysgu:

2. Defnyddio profiad cerddorol i hybu datblygiad plant mewn lleoliad blynyddoedd cynnar

Rydych yn deall:
2.1 sut mae profiadau cerddorol yn gallu hybu **datblygiad** plant 0-7 oed

Rydych yn gallu:
2.2 cynllunio, dylunio a chynhyrchu adnodd cerddorol **cynhwysol** ar gyfer plant 0-7 oed
2.3 esbonio sut y byddech chi'n cefnogi plant i ymgysylltu â phrofiadau cerddorol
2.4 defnyddio adborth gan eraill i werthuso sut y gall eich adnodd cerddorol gefnogi datblygiad cyfannol plant

---

## Deilliant dysgu:

3. Defnyddio stori a/neu rigwm i hybu datblygiad plant mewn lleoliad blynyddoedd cynnar

Rydych yn deall:
3.1 sut mae stori a/neu rigwm yn gallu hybu **datblygiad** plant 0-7 oed

Rydych yn gallu:
3.2 cynllunio a chreu gweithgaredd stori a/neu rigwm **cynhwysol** i blant 0-7 oed
3.3 esbonio sut y byddech yn cefnogi plant i ymgysylltu â straeon a/neu rigymau
3.4 defnyddio adborth gan eraill i werthuso sut y gall eich gweithgaredd stori a/neu rigwm gefnogi datblygiad cyfannol plant.

---

## Deilliant dysgu:

4. Defnyddio arddangosfa/bwrdd testun wedi'i arwain gan blant i hybu datblygiad plant mewn lleoliad blynyddoedd cynnar

Rydych yn deall:
4.1 sut mae arddangosfa/bwrdd testun wedi'i arwain gan blant yn gallu hybu **datblygiad** plant 0-7 oed

Rydych yn gallu:
4.2 cynllunio, dylunio a chynhyrchu arddangosfa/bwrdd testun **cynhwysol** wedi'i arwain gan blant i blant 0-7 oed sy'n gallu cael ei (h)arwain gan blant
4.3 esbonio sut y byddech yn cefnogi plant i ddatblygu arddangosfa/bwrdd testun **wedi'i (h)arwain gan blant**
4.4 defnyddio adborth gan eraill i werthuso sut y gall eich arddangosfa/bwrdd testun sydd wedi'i arwain gan blant gefnogi datblygiad cyfannol plant

© WJEC CBAC Ltd.

## Deilliant dysgu:

5. Defnyddio gweithgaredd awyr agored i hybu datblygiad plant mewn lleoliad blynyddoedd cynnar

Rydych yn deall:

5.1 sut mae gweithgaredd awyr agored yn gallu hybu **datblygiad** plant 0-7 oed

Rydych yn gallu:

5.2 cynllunio a dylunio gweithgaredd awyr agored **cynhwysol** i blant 0-7 oed

5.3 esbonio sut y byddech chi'n cefnogi plant i ymgysylltu â gweithgareddau awyr agored

5.4 defnyddio adborth gan eraill i werthuso sut y gall eich gweithgaredd awyr agored gefnogi datblygiad cyfannol plant.

## Deilliant dysgu:

6. Defnyddio gweithgaredd llesiant i hybu datblygiad plant mewn lleoliad blynyddoedd cynnar

Rydych chi'n deall:

6.1 sut mae gweithgareddau llesiant yn gallu hybu **datblygiad** plant 0-7 oed

Rydych yn gallu:

6.2 cynllunio a dylunio gweithgaredd llesiant **cynhwysol** i blant 0-7 oed

6.3 esbonio sut byddech chi'n cefnogi plant i ymgysylltu â gweithgareddau llesiant

6.4 defnyddio adborth gan eraill i werthuso'r ffordd mae eich gweithgaredd llesiant wedi cefnogi datblygiad cyfannol plant

© WJEC CBAC Ltd.

## Deilliant dysgu:

7. Defnyddio gweithgaredd cynaliadwyedd i hybu datblygiad plant mewn lleoliad blynyddoedd cynnar

Rydych chi'n deall:

7.1 sut mae gweithgareddau cynaliadwyedd yn gallu hybu **datblygiad** plant 0-7 oed

Rydych yn gallu:

7.2 cynllunio a dylunio gweithgaredd cynaliadwyedd **cynhwysol** i blant 0-7 oed

7.3 esbonio sut y byddech chi'n cefnogiplant i ymgysylltu â phrofiadau cynaliadwyedd

7.4 defnyddio adborth gan eraill i werthuso'r ffordd mae eich gweithgaredd cynaliadwyedd yn gallu cefnogi datblygiad plant yn y meysydd datblygiad

## Deilliant dysgu:

8. Archwilio sgiliau iaith Gymraeg a/neu ddiwylliant Cymru mewn lleoliad blynyddoedd cynnar

Rydych chi'n deall:

8.1 sut y gellir defnyddio sgiliau iaith Gymraeg a/neu ddiwylliant Cymru mewn lleoliad blynyddoedd cynnar gyda phlant 0-7 oed.

Rydych yn gallu:

8.2 cynllunio a dylunio gweithgaredd **cynhwysol** sy'n archwilio sgiliau iaith Gymraeg a/neu ddiwylliant Cymru i blant 0-7 oed

8.3 esbonio sut byddech chi'n cefnogi plant i archwilio'r iaith Gymraeg a/neu ddiwylliant Cymru

8.4 defnyddio adborth gan eraill i werthuso sut mae eich gweithgaredd wedi cefnogi plant i archwilio sgiliau iaith Gymraeg a/neu ddiwylliant Cymru

© WJEC CBAC Ltd.

# Uned 332 Lefel 3 Sgiliau Ymarferol ar gyfer Lleoliad Gwaith

***Dull asesu***

Asesir yr uned hon drwy bortffolio annibynnol o dystiolaeth a gynhyrchwyd gan y dysgwr. Asesir yr uned hon yn fewnol a bydd angen dilyn proses Sicrhau Ansawdd Mewnol a Sicrhau Ansawdd Allanol.

Gellir cyflwyno'r uned hon mewn nifer o ffyrdd gwahanol, a gellir defnyddio gwahanol fathau o dystiolaeth i ddangos cymhwysedd ymgeisydd.

Wrth asesu, gellir defnyddio'r mathau hyn o dystiolaeth i gyd neu rai ohonynt yn unig a'r aseswr fydd yn gyfrifol am sicrhau bod amrywiaeth mor eang â phosibl o fathau dilys yn cael ei defnyddio a'u bod ar gael i'r dysgwr

- Tystiolaeth o gynnyrch
- Datganiad y Dysgwr
- Trafodaeth
- Holi
- Gwaith ysgrifenedig
- Arsylwadau efelychiadol (*simulated observations*)
- Gwaith project ac aseiniadau
- Arsylwi uniongyrchol
- Tystiolaeth tystion
- Llyfrau log

Gall dysgwyr ddewis gweithgaredd/adnodd ar gyfer unrhyw blentyn 0-7 oed. Gall tystiolaeth o fodloni'r meini prawf asesu gwmpasu'r meini prawf ar gyfer mwy nag un deilliant dysgu, ond rhaid asesu pob deilliant dysgu yn annibynnol yn erbyn ei feini prawf asesu.

Caniateir tystiolaeth a gynhyrchir yn y lleoliad gwaith ond nid yw'n ofynnol. Caniateir arsylwadau efelychiadol o fewn amgylchedd ystafell ddosbarth. Caniateir i diwtoriaid ac aseswyr wneud penderfyniadau asesu ar yr uned hon.

Rhaid i ddysgwyr gynhyrchu portffolio o dystiolaeth ar draws pob deilliant dysgu a meini prawf asesu i ddangos eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u sgiliau ym mhob maes. Rhaid i'r ganolfan sicrhau bod penderfyniadau asesu wedi'u cofnodi'n glir yn y portffolio i ddangos lle mae honiadau o gymhwysedd wedi'u gwneud. Mae'n hollbwysig bod yr aseswr yn olrhain y meini prawf asesu yn fanwl gywir er mwyn caniatáu ar gyfer proses Sicrhau Ansawdd Mewnol a Sicrhau Ansawdd Allanol effeithiol. Mae angen i'r ganolfan sicrhau bod taflen ddilysu'r ymgeisydd wedi'i chwblhau cyn cael ei llofnodi'n derfynol.

Rhaid coladu'r dystiolaeth ar gyfer yr uned hon yn annibynnol ac **ni ddylid** ei throsglwyddo na'i chyfeirnodi yn erbyn tasgau strwythuredig yr unedau ymarfer. Mae'r uned hon wedi'i chynllunio i gael ei chwblhau cyn penderfynu a yw'r dysgwr yn barod i gael ei asesu a chyn rhoi'r pecyn asesu i'r dysgwr.

© WJEC CBAC Ltd.

Mae pedwar cyfle i ganolfannau ofyn am weithgarwch sicrhau ansawdd allanol bob blwyddyn academaidd (Gaeaf, Gwanwyn, Haf a Diwedd yr Haf). Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan Dysgu Iechyd a Gofal Cymru) **Canolfannau / Darparwyr hyfforddiant (https://www.dysguiechydagofal.cymru/canolfannau-darparwyr-hyfforddiant/)**.

Canlyniad y gwirio allanol fydd naill ai derbyn asesiadau'r ganolfan neu ddarparu arweiniad ar yr hyn sydd angen ei wneud cyn ailgyflwyno unedau penodol yn ystod cyfle sicrhau ansawdd asesiadau allanol dilynol. Gall dysgwyr barhau i gynhyrchu tystiolaeth nes bod yr holl feini prawf asesu wedi'u bodloni a'u cymeradwyo.

Anogir dysgwyr i ddefnyddio'r portffolio hwn ar gyfer cyfweliad cyflogaeth posibl i ddangos eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u sgiliau.

© WJEC CBAC Ltd.

# Atodiad 1 Arweiniad o ran yr Unedau a Argymhellir

Ar gyfer y rolau canlynol, gallai fod disgwyl astudio'r unedau dewisol isod, yn ogystal â'r Unedau Gorfodol. Nid yw'r rhestr o swyddi yn gynhwysfawr a gall ymestyn dros amser.

Bydd angen i'r unedau sy'n cael eu hastudio yn ymarferol adlewyrchu rôl swydd yr unigolyn, ac osgoi ailadrodd dysgu achrededig blaenorol. Bydd yr unedau a ddewisir yn werth cyfanswm o 16 credyd o leiaf, er mwyn cwblhau cymhwyster Lefel 3. Mae'n bosibl mynd dros yr isafswm credydau drwy drafod â'r darparwr hyfforddiant yn ystod y cymhwyster, ac ymgymryd â rhagor o unedau achrededig fel rhan o ddatblygiad proffesiynol parhaus fel y bo'n gysylltiedig â'r rôl swydd.

| Rôl Swydd | Unedau Dewisol Grŵp A<br>*Yn dibynnu ar y grŵp oedran y gofalir amdano, gall fod angen un neu fwy o'r unedau isod* | Gwerthoedd Credyd | Unedau Dewisol Grwpiau B ac C<br>Bydd yr unedau a ddewisir o'r rhestr isod yn dibynnu ar arbenigedd y lleoliad clinigol. | Gwerthoedd Credyd |
|---|---|---|---|---|
| **Rôl Iechyd** | | | | |
| Ymwelwyr Iechyd / Dechrau'n Deg | Hybu gofal plant 0-2 oed<br>Hybu gofal plant 2-3 oed<br>Hybu gweithio gyda phlant 3-7 oed | 4<br>4<br>6 | Cefnogi teuluoedd i feithrin sgiliau rhianta<br>Hybu a chefnogi lleferydd, iaith a sgiliau cyfathrebu yn y blynyddoedd cynnar<br>Dulliau cadarnhaol o gefnogi ymddygiad yn y blynyddoedd cynnar<br>Cefnogi plant ag anghenion ychwanegol<br>Cefnogi hybu iechyd plant<br>Hwyluso dysgu mewn grŵp<br>Profi pwynt gofal<br>Casglu sbesimenau | 13<br>4<br>4<br>8<br>3<br>4<br>3<br>3 |
| Mamolaeth Dechrau'n Deg | Hybu gofal plant 0-2 oed | 4 | Cefnogi teuluoedd i feithrin sgiliau rhianta<br>Cefnogi rhieni newydd a mamau beichiog<br>Hwyluso dysgu mewn grŵp<br>Cynnal profion pwynt gofal<br>Casglu sbesimenau | 13<br>4<br>4<br>3<br>3 |

© WJEC CBAC Ltd.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Nyrsys Ysgol | Hybu gweithio gyda phlant 3-7 oed | 6 | Hybu a chefnogi lleferydd, iaith a sgiliau cyfathrebu<br>Cefnogi plant ag anghenion ychwanegol<br>Cefnogi plant sy'n byw gydag epilepsi<br>Cefnogi hybu iechyd plant<br>Cefnogi plant i fonitro glwcos<br>Rhoi brechiadau trwynol rhag y ffliw<br>Awtochwistrellu adrenalin<br>Ymateb i adweithiau anaffylactig<br>Cynnal profion sgrinio golwg<br>Cynnal profion sgrinio clyw ar gyfer plant oed ysgol<br>Hwyluso dysgu mewn grŵp | 4<br>8<br>3<br>3<br>3<br>3<br>3<br>2<br>4<br>3<br>4 |
| Gofal Lliniarol (Lefel 3) | Hybu gofal plant 0-2 oed<br>Hybu gofal plant 2-3 oed<br>Hybu gweithio gyda phlant 3-7 oed | 4<br>4<br>6 | Cefnogi plant ag anghenion ychwanegol<br>Cefnogi plant sy'n byw gydag epilepsi<br>Rhoi gofal i blant sy'n byw gyda chanser<br>Gofal lliniarol a gofal diwedd oes i blant a phobl ifanc<br>Rhoi gofal stoma<br>Gofalu am glwyfau nad ydynt yn rhai cymhleth<br>Cefnogi gofal ymataliaeth mewn plant<br>Cefnogi unigolion o ran symud a lleoli | 8<br>3<br>8<br>9<br>4<br>4<br>4<br>3 |
| **Rôl Gofal Plant** | | | | |
| Ymarferydd meithrinfa | Hybu gofal plant 0-2 oed<br>Hybu gofal plant 2-3 oed<br>Hybu gweithio gyda phlant 3-7 oed | 4<br>4<br>6 | Dulliau cadarnhaol o gefnogi ymddygiad yn y blynyddoedd cynnar<br>Hybu a chefnogi lleferydd, iaith a sgiliau cyfathrebu<br>Cefnogi plant ag anghenion ychwanegol<br>Hybu'r broses o gaffael iaith newydd drwy drochi<br>Cefnogi hybu iechyd plant<br>Ymateb i adwaith anaffylactig<br>Cyflwyniad i ddiffyg anadl ac asthma mewn plant<br>Awtochwistrellu adrenalin | 4<br>4<br>8<br>4<br>3<br>2<br>2<br>3 |

© WJEC CBAC Ltd.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Ymarferydd sesiynol<br>Cylch<br>Cylch chwarae | Hybu gofal plant 2-3 oed<br>Hybu gweithio gyda phlant 3-7 oed | 4<br>6 | Dulliau cadarnhaol o gefnogi ymddygiad yn y blynyddoedd cynnar<br>Hybu a chefnogi lleferydd, iaith a sgiliau cyfathrebu<br>Cefnogi plant ag anghenion ychwanegol<br>Hybu'r broses o gaffael iaith newydd drwy drochi<br>Cefnogi hybu iechyd plant<br>Ymateb i adwaith anaffylactig<br>Cyflwyniad i ddiffyg anadl ac asthma mewn plant<br>Awtochwistrellu adrenalin | 4<br>4<br>8<br>4<br>3<br>2<br>2<br>3 |
| Ymarferydd cynorthwyol yn y Cyfnod Sylfaen | Hybu gweithio gyda phlant 3-7 oed | 6 | Dulliau cadarnhaol o gefnogi ymddygiad yn y blynyddoedd cynnar<br>Hybu a chefnogi lleferydd, iaith a sgiliau cyfathrebu<br>Cefnogi plant ag anghenion ychwanegol<br>Hybu'r broses o gaffael iaith newydd drwy drochi<br>Cefnogi hybu iechyd plant<br>Ymateb i adwaith anaffylactig<br>Cyflwyniad i ddiffyg anadl ac asthma mewn plant<br>Awtochwistrellu adrenalin | 4<br>4<br>8<br>4<br>3<br>2<br>2<br>3 |
| Ymarferydd Dechrau'n Deg | Hybu gofal plant 0-2 oed<br>Hybu gofal plant 2-3 oed<br>Hybu gweithio gyda phlant 3-7 oed | 4<br>4<br>6 | Dulliau cadarnhaol o gefnogi ymddygiad yn y blynyddoedd cynnar<br>Hybu a chefnogi lleferydd, iaith a sgiliau cyfathrebu<br>Hybu'r broses o gaffael iaith newydd drwy drochi<br>Cefnogi hybu iechyd plant<br>Ymateb i adwaith anaffylactig<br>Cyflwyniad i ddiffyg anadl ac asthma mewn plant<br>Awtochwistrellu adrenalin | 4<br>4<br>4<br>3<br>2<br>2<br>3 |
| Gweithiwr Cymorth/Teulu Dechrau'n Deg | Hybu gofal plant 0-2 oed<br>Hybu gofal plant 2-3 oed<br>Hybu gweithio gyda phlant 3-7 oed | 4<br>4<br>6 | Dulliau cadarnhaol o gefnogi ymddygiad yn y blynyddoedd cynnar<br>Hybu a chefnogi lleferydd, iaith a sgiliau cyfathrebu<br>Cefnogi plant ag anghenion ychwanegol<br>Hybu'r broses o gaffael iaith newydd drwy drochi<br>Hwyluso dysgu mewn grŵp<br>Cefnogi teuluoedd i feithrin sgiliau rhianta<br>Cefnogi hybu iechyd plant<br>Ymateb i adwaith anaffylactig<br>Cyflwyniad i ddiffyg anadl ac asthma mewn plant<br>Awtochwistrellu adrenalin | 4<br>4<br>8<br>4<br>4<br>5<br>3<br>2<br>2<br>3 |

© WJEC CBAC Ltd.

# Atodiad 2 Geiriau Gorchymyn

| Lefel 3 GChDDP Ymarfer a Theori: Asesiadau Allanol<br>Defnyddir y gorchmynion canlynol yn yr asesiadau allanol | | |
|---|---|---|
| AA | Gorchymyn | Gofynion yr ymateb |
| **AA1** | Diffiniwch | Rhoi union ystyr |
| | Disgrifiwch | Rhoi nodweddion/prif nodweddion neu ddisgrifiad cryno |
| | Rhowch | Darparu/enwi/dethol/adnabod ffeithiau cryno neu enghreifftiau (o ffynhonnell sydd wedi'i rhoi neu o'r cof) |
| | Nodwch | Fel yn achos 'Rhowch' |
| | Rhestrwch | Fel yn achos 'Rhowch' |
| | Enwch | Fel yn achos 'Rhowch' |
| | Amlinelliad | Amlinellu'r prif bwyntiau/rhoi disgrifiad cryno neu brif nodweddion |
| | Nodwch (State) | Fel yn achos 'Rhowch' |
| | Awgrymwch | Cyflwyno syniad, rheswm neu gam gweithredu posibl |
| | Crynhowch | Dewis a chyflwyno'r prif bwyntiau (heb fanylion) |
| **AA2** | Dadansoddwch | Archwilio mater yn drylwyr; sut mae'r rhannau'n berthnasol i'r cyfan, esbonio a dehongli |
| | Cymhwyswch | Defnyddio eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth o ddamcaniaeth neu gysyniad a chysylltu hynny â chyd-destun penodol |
| | Disgrifiwch<br>Trafodwch | Rhowch fanylion effaith, h.y. yr hyn sydd wedi newid/digwydd<br>Archwiliwch fater yn fanwl/mewn ffordd strwythuredig, gan ystyried syniadau gwahanol |
| | Esboniwch | Rhoi manylion a rhesymau dros sut a pham mae rhywbeth fel y mae |
| | Dangoswch | Dangos yn glir sut mae cysyniad neu ddamcaniaeth yn gweithio mewn cyd-destun penodol |
| | Defnyddiwch | Cymhwyso'r wybodaeth a ddarparwyd at ddamcaniaeth neu gysyniad penodol |
| **AA3** | Cynghorwch | Awgrymu cynnig neu ffordd o weithredu yn seiliedig ar resymau wedi'u cefnogi |
| | Aseswch | Llunio barn ar sail gwybodaeth |
| | Cymharwch | Nodi tebygrwydd a rhoi sylwadau/esbonio |
| | Ystyriwch | Darllen y wybodaeth a roddwyd ac ymateb iddi |
| | Cyferbynnwch | Nodi gwahaniaethau a rhoi sylwadau/esbonio |
| | Gwahaniaethwch rhwng | Nodi ac esbonio'r gwahaniaethau rhwng syniadau neu bynciau |
| | Gwerthuswch | Llunio barn drwy bwyso a mesur tystiolaeth er mwyn dod i gasgliad |
| | Archwiliwch | Archwilio yn drylwyr, yn fanwl a dod i gasgliad |
| | Ymchwiliwch | Astudio yn fanwl a dod i gasgliad |
| | Cyfiawnhewch | Defnyddio tystiolaeth/dadl i ategu achos |
| | Argymhellwch | Cyflwyno cynnig yn seiliedig ar resymau/tystiolaeth |
| | Adlewyrchwch | Gwerthuso a/neu ystyried |

© WJEC CBAC Ltd.

# Atodiad 3 Cysylltiadau â chymwysterau eraill

## Cysylltau â chymwysterau eraill

Mae cysylltiadau rhwng y cymhwyster hwn a'r cymwysterau canlynol:

- Lefel 1/2 TGAU mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant
- Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Craidd
- Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori

© WJEC CBAC Ltd.

# Lefel 3 GChDDP Uned 332
# TAFLEN DDILYSU YMGEISYDD

**Rhaid cynnwys y daflen hon â phortffolio pob ymgeisydd a gyflwynir i'w gymedroli**

**Uned 332 Sgiliau Ymarferol Blynyddoedd Cynnar ar gyfer Lleoliad Gwaith (0-7 oed)**

**Enw'r Ganolfan:**

**Rhif y Ganolfan:**

**Enw'r Ymgeisydd:**

**Rhif yr Ymgeisydd:**

**HYSBYSIAD I'R YMGEISYDD**

Rhaid i'r gwaith rydych chi'n ei gyflwyno i'w asesu fod wedi ei wneud gennych chi.

**Os byddwch chi wedi copïo gwaith rhywun arall, wedi caniatáu i ymgeisydd arall gopïo eich gwaith chi, neu wedi twyllo mewn unrhyw ffordd arall, mae'n bosibl y cewch eich diarddel o'r cymhwyster dan sylw o leiaf.**

| | |
|---|---|
| **Datganiad gan yr ymgeisydd**<br>Rwyf wedi darllen ac yn deall yr **Hysbysiad i'r Ymgeisydd** (uchod). Rwyf wedi cynhyrchu'r gwaith a atodir heb unrhyw gymorth ac eithrio'r hyn mae fy athro/athrawes wedi esbonio sy'n dderbyniol yn y fanyleb. Rwyf wedi cyfeirio'n glir at unrhyw ffynonellau ac unrhyw offer Deallusrwydd Artiffisial (AI) a ddefnyddiwyd yn y gwaith. Rwy'n deall bod gwneud datganiad ffug yn fath o gamymddwyn. | |
| **Llofnod yr ymgeisydd:** | **Dyddiad:** |
| **Datganiad gan aseswr/tiwtor**<br>Rwy'n cadarnhau bod gwaith yr ymgeisydd wedi ei gyflawni o dan yr amodau a nodwyd yn y fanyleb.<br>Rwyf wedi dilysu gwaith yr ymgeisydd ac rwyf yn fodlon, hyd eithaf fy ngwybodaeth, bod y gwaith wedi ei gyflawni gan yr ymgeisydd yn unig. Mae'r ymgeisydd wedi cyfeirio'n glir at unrhyw ffynonellau ac unrhyw offer Deallusrwydd Artiffisial (AI) a ddefnyddiwyd yn y gwaith. Rwy'n deall bod gwneud datganiad ffug yn fath o gamymddwyn. | |
| **Llofnod y Tiwtor/Aseswr:** | **Dyddiad:** |

© WJEC CBAC Ltd.

# COFNOD ASESU

## TEITL A LEFEL YR UNED: Lefel 3 Sgiliau Ymarferol Blynyddoedd Cynnar ar gyfer Lleoliad Gwaith (0-7 oed)

**Enw'r Ymgeisydd:**

**Rhif yr Ymgeisydd:**

**Enw'r Ganolfan:**

**Rhif y Ganolfan:**

| Deilliant dysgu: Rhaglen sefydlu lleoliad gwaith | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| MPA | 1.1 | 1.2 | 1.3 | 1.4 | 1.5 | 1.6 |
| Dyddiad Cwrdd | | | | | | |
| Defnydd Swyddfa CBAC yn unig | | | | | | |
| MPA | 1.7 | 1.8 | 1.9 | 1.10 | 1.11 | 1.12 |
| Dyddiad Cwrdd | | | | | | |
| Defnydd Swyddfa CBAC yn unig | | | | | | |

| Deilliant dysgu 2: Defnyddio profiad cerddorol i hybu datblygiad plant mewn lleoliad blynyddoedd cynnar | | | | |
|---|---|---|---|---|
| MPA | 2.1 | 2.2 | 2.3 | 2.4 |
| Dyddiad Cwrdd | | | | |
| Defnydd Swyddfa CBAC yn unig | | | | |

© WJEC CBAC Ltd.

| **Deilliant dysgu 3: Defnyddio stori a/neu rigwm i hybu datblygiad plant mewn lleoliad blynyddoedd cynnar** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| MPA | 3.1 | 3.2 | 3.3 | 3.4 |
| Dyddiad Cwrdd | | | | |
| Defnydd Swyddfa CBAC yn unig | | | | |

| **Deilliant dysgu 4: Defnyddio arddangosfa/bwrdd testun wedi'i arwain gan blant i hybu datblygiad plant mewn lleoliad blynyddoedd cynnar** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| MPA | 4.1 | 4.2 | 4.3 | 4.4 |
| Dyddiad Cwrdd | | | | |
| Defnydd Swyddfa CBAC yn unig | | | | |

| **Deilliant dysgu 5: Defnyddio gweithgaredd awyr agored i hybu datblygiad plant mewn lleoliad blynyddoedd cynnar** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| MPA | 5.1 | 5.2 | 5.3 | 5.4 |
| Dyddiad Cwrdd | | | | |
| Defnydd Swyddfa CBAC yn unig | | | | |

| **Deilliant dysgu 6: Defnyddio gweithgaredd llesiant i hybu datblygiad plant mewn lleoliad blynyddoedd cynnar** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| MPA | 6.1 | 6.2 | 6.3 | 6.4 |
| Dyddiad Cwrdd | | | | |
| Defnydd Swyddfa CBAC yn unig | | | | |

© WJEC CBAC Ltd.

| Deilliant dysgu 7: Defnyddio gweithgaredd cynaliadwyedd i hybu datblygiad plant mewn lleoliad blynyddoedd cynnar | | | | |
|---|---|---|---|---|
| MPA | 7.1 | 7.2 | 7.3 | 7.4 |
| Dyddiad Cwrdd | | | | |
| Defnydd Swyddfa CBAC yn unig | | | | |

| Deilliant dysgu 8: Defnyddio sgiliau iaith Gymraeg a/neu weithgareddau diwylliannol mewn lleoliad blynyddoedd cynnar | | | | |
|---|---|---|---|---|
| MPA | 8.1 | 8.2 | 8.3 | 8.4 |
| Dyddiad Cwrdd | | | | |
| Defnydd Swyddfa CBAC yn unig | | | | |

© WJEC CBAC Ltd.

## Sylwadau Cyffredinol

**Llofnod y Tiwtor/Aseswr:**

**Dyddiad:**

**Llofnod y swyddog sicrhau ansawdd Allanol:**

**Dyddiad:**

© WJEC CBAC Ltd.